



GLAS CYMRU

ADRODDIAD A CHYFRIFON 2018-2019

BYDDWN YN ENNYN YMDDIRIEDAETH EIN CWSMERIAID BOB DYDD

LLYWIO EIN HADRODDIAD

> DARLLENWCH FWY O GYNNWYS YN YR ADRODDIAD HWN

DARLLENWCH FWY O GYNNWYS AR-LEIN YN:
www.dwrcymru.com/cy-GB/Investors

CAIFF Y TERMAU A DDEFNYDDIR YN YR ADRODDIAD
EU DIFFINIO YN Y RHESTR TERMAU AR DUDALEN 168.

CYNNWYS

NEGES CADEIRYDD Y BWRDD	03
-------------------------	----

ADRODDIAD STRATEGOL

NEGES Y PRIF WEITHREDWR	09
MODEL BUSNES	14
EIN CYNLLUN: EDRYCH YMLAEN I 2025	18
EIN DYFODOL: DŴR CYMRU 2050	20
EIN BLWYDDYN: Y GWIRIONEDD AM NEWID HINSAWDD	22
EIN CYMUNED: SUT RYDYM YN GWEITHIO GYDA CHI	24
EIN PERFFORMIAD	26
EIN RHEOLEIDDWYR	44
EIN RISGIAU	48
DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR	52
DATGANIAD AM GYFEIRIAD A PHERFFORMIAD Y CWMNI	54

DATGANIAD LLYWODRAETHU

CYFLWYNIAD CADEIRYDD Y BWRDD	58
EIN STRWYTHUR CORFFORAETHOL	59
BWRDD Y CYFARWYDDWYR	60
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU	62
EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU	64
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBU	70
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO	74
ADRODDIAD PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD AC ANSAWDD	76
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID	78
ADRODDIAD Y PWYLLGOR TECHNOLEG	79
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH	80
ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR	104
DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR ARCHWILWYR	118

EITEMAU ARIANNOL

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL	122
DATGANIADAU ARIANNOL	130
NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL	135

ATODIADAU

RHESTR TERMAU	170
MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU	172



"ER GWAETHAF
NATUR DDIFRIFOL
SYCHDER YR HAF,
GWNAETHOM
LWYDDO I GYNNAL
EIN CYFLENWAD
HEB GYFYNGU
ARNO O GWBL"

ALASTAIR LYONS
CADEIRYDD Y BWRDD

NEGES CADEIRYDD Y BWRDD

GWASANAETHU EIN CWSMERIAID A'U CYMUNEDAU

Mae dau beth wedi dwyn y rhan fwyaf o sylw Dŵr Cymru yn ystod y flwyddyn a aeth heibio: y tywydd a pharatoi ar gyfer y broses rheoli prisiau reoleiddiol nesaf – PR19. Mae'r rhain wedi rhoi llawer iawn o bwysou ar y busnes ond mae pawb wedi ymateb i'r sefyllfa'n wych a hoffwn ddiolch o waelod calon iddynt ar ran y Bwrdd.

Y TYWYDD

Yn dynn ar sodlau Storm Emma, a gafodd sylw yn fy natganiad diwethaf fel Cadeirydd, cafwyd y cyfnod o sychder dros yr haf, a ddilynwyd yn gymharol gyflym wedyn gan Storm Callum ym mis Hydref. Bu'r sychder yn fwy difrifol o ran ei effaith ar lefelau afonydd na'r hyn a welwyd yn 1976 pan gafwyd safbibellau ar strydoedd Caerdydd, a dyma oedd y cyfnod hiraf ers 1910. Yn ystod Storm Callum, gwelwyd mwy o law yng Nghymru mewn un penwythnos na'r hyn a gafwyd yn y pedwar mis blaenorol – gwnaeth rhai mannau gofnodi hyn yn storm nas gwelwyd mewn 250 mlynedd.

Er gwaethaf natur ddifrifol sychder yr haf, gwnaethom lwyddo i gynnal ein cyflenwad arferol heb gyfyngu arno o gwbl ar draws ein hardal gyflenwi, ond bu'n rhaid mynd i gryn gostau ariannol a galw ar lawer o bobl er mwyn cyflawni hynny. Mae dŵr yn werthfawr tu hwnt adeg sychder a gwnaethom ganolbwyntio'n fwy o lawer ar ddod o hyd i olyngiadau a'u trwsio. Dros yr haf, cyflawnwyd 103 o brosiectau buddsoddi ychwanegol er mwyn lleddfu'r

sychder, fel creu cysylltiadau rhwng ardaloedd cyflenwi nodedig.

Hefyd, cafodd y sychder effaith sylweddol ar ochr wastraff y busnes, wrth i flociadau gynyddu gyda llifoedd carthffos isel, tra bod carthffrwd yn fwy cywasgedig o lawer. Wynebwyd bygythiad uwch o lygredd hefyd am fod llifoedd afonydd yn llawer is ac, yn achos rhai o'r nentydd y gollyngwn iddynt o waith trin gwledig bach, nid oedd y llifoedd afonydd hyn yn bodoli bron o gwbl.

Yn sgil Storm Callum a wnaeth ddilyn y sychder, cynyddodd lefel Afon Tywi yng Nghaerfyrddin bron metr uwchlaw ei lefel uchaf erioed a gofnodwyd yn flaenorol, ac ychwanegodd ein cronfa ddŵr yn Nhal-y-bont ym Mannau Brycheiniog 30% at yr hyn a storiwyd ganddo mewn 48 awr.

Aed i gostau ychwanegol yn ymwneud â'r tywydd o £21m dros y flwyddyn.

PR19

Treuliodd timau o bob rhan o'r busnes rannau mawr o'r flwyddyn ddiwethaf yn llunio'r 2,000 o dudalennau o gynlluniau a thros 100 o dablau data gyda thua 100,000 o gelloedd o ddata a wnaeth ffurfio ein cynigion i Ofwat ar gyfer cyfnod rheoli prisiau 2020-25, ac ar ffurf amlinellol am y 10 mlynedd wedyn. Cafodd y cynlluniau hyn eu datblygu yng nghyd-destun strategaeth Dŵr Cymru 2050. Nodwyd 18 o ymatebion strategol i'r heriau allweddol sy'n deillio

o'r tueddiadau yn y dyfodol sy'n wynebu'r diwydiant dros y 30 mlynedd nesaf a all effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn ein chwe addewid sylfaenol i gwsmeriaid:

- Dŵr yfed glân a diogel i bawb
- Diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Unioni pethau pan fyddant yn mynd o chwith
- Gwasanaeth personol sy'n iawn i chi
- Dyfodol gwell i'n holl gymunedau
- Biliau teg i bawb.

Yn Dŵr Cymru 2050 amlinellwn y canlyniadau mae angen i ni eu cyflawni, y camau mae angen i ni eu cymryd a'r buddsoddiadau mae angen i ni eu gwneud er mwyn lliniaru pob un o'r heriau strategol i'n busnes, cyflawni ein haddewidion i'n cwsmeriaid a chyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yna, darparodd hyn fframwaith ar gyfer ein cynllun busnes manwl sydd

CYFANSWM Y COSTAU YN YMWNEUD
Â'R TYWYDD

£21m

BODDHAD CWSMERIAID

96% (sgôr y Cyngor
Defnyddwyr Dŵr)

> EIN GWERTHOEDD

Pwy ydym ni	14
Sut rydym yn ei wneud	14
Dweud eich dweud	12

> ADRODDIAD LLYWODRAETHU

Bwrdd y Cyfarwyddwyr 60

NEGES CADEIRYDD Y BWRDD PARHAD

wedi ceisio cyflawni cydbwysedd o ran sicrhau fforddiadwyedd cyfleustod hanfodol gyda'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynnal seilwaith cadarn yn wyneb amodau hinsoddol fwyfwy heriol, disgwyliadau uwch cwsmeriaid, ac asedau sy'n heneiddio.

Felly, bwriadwn sicrhau bod ein cwsmeriaid, ar ffurf biliau sydd 5% yn is, yn cael budd cost cyfalaf is sy'n deillio o'r cyfraddau llog is sydd ar gael na'r hyn a fodolai ar gyfer PR14. Ar yr un pryd, bwriadwn gynyddu orbedion effeithlonrwydd ar draws y busnes er mwyn talu am y buddsoddiad uwch sydd ei angen er mwyn cyflawni ein cynlluniau busnes hirdymor. Rydym wedi nodi'n fanwl sut y byddwn yn arbed cyfanswm o £250m mewn gwariant yn ystod pum mlynedd y cyfnod rheoli prisiau.

O ganlyniad i hyn, gallwn gyflwyno cynllun i fuddsoddi £2.3 biliwn dros yr AMP nesaf, i fyny o'r cyfanswm o £2 biliwn a fuddsoddwyd yn y cyfnod rheoli prisiau presennol, gan ein galluogi'n arbennig i wneud y Cwmni'n fwy gwydn i ddigwyddiadau eithafol yn y dyfodol sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd fel yr hyn a brofwyd dros

y flwyddyn ddiwethaf. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae galluogi ein hargaeau a'n cronfeydd dŵr i ymdopi â stormydd mwy dwys, gwneud rhywfaint o'r cysylltedd dros dro rhwng parthau cyflenwi a sefydlwyd yn ystod y sychder yn barhaol, a chreu cynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy GlawLif mewn deg dalgylch.

Er i ni gael ein siomi o glywed bod Ofwat wedi ein categoreiddio'n 'gynnydd araf' yn ei asesiad cychwynnol o'n cynlluniau ar gyfer PR19, roeddem yn falch o weld bod ein cynlluniau wedi'u sgorio'n rhai ansawdd uchel am y ffordd y gwnaethom ymgysylltu â'n cwsmeriaid a sut mae'r cynlluniau'n mynd i'r afael â bod yn agored i niwed a fforddiadwyedd. Ers yr asesiad cychwynnol ddiwedd mis Ionawr, rydym wedi gweithio'n galed iawn i ddarparu cymorth a chyfiawnhad priodol pellach yn y meysydd lle cododd Ofwat faterion. Roedd y materion yn ymwneud yn bennaf ag agweddau ar gwmpas ein cynlluniau fel y nodir uchod i fuddsoddi'n sylweddol dros yr AMP er mwyn gwella ansawdd a chadernid ein gwasanaeth i gwsmeriaid. Dangosodd ein hymgyssylltiad â chwsmeriaid fod cefnogaeth gref iawn i'n

cynllun busnes, gyda 92% o gwsmeriaid yn nodi ei fod yn dderbyniol a 95% yn dweud ei fod yn fforddiadwy. Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym yn dal i drafod y cynigion a wnaed gennym gydag Ofwat, ac rydym yn dal i geisio cymeradwyaeth Ofwat ar gyfer ein cynllun fel un sydd er budd pennaf hirdymor ein cwsmeriaid.

O ran digonolrwydd ac ansawdd dŵr, credwn yn gryf ym mhriodoldeb strategaeth integredig O'r Tarddiad i'r Tap a bod hyn yn dechrau gyda rheoli dalgylchoedd, gan wella, mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill, ansawdd y dalgylchoedd y daw'r dŵr ohonynt – bwriadwn weithredu cynlluniau rheoli dalgylchoedd o'r fath ym mhob dalgylch yn yr AMP nesaf. Felly, croesawn y cynigion a wnaed gan Lywodraeth Cymru'r llynedd yn ei hymgyngghoriad "Brexit a'n Tir: Diogelu Dyfodol Ffermio yng Nghymru" i ddarparu ffrwd incwm newydd i reolwyr tir yn gyfnewid am wneud cyfraniad sylweddol at fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd ac ansawdd dŵr gwael, ymhlith eraill.

BREXIT

Mae'r flwyddyn a aeth heibio wedi'i dominyddu gan Brexit wrth gwrs, ledled y DU, a gwnaeth y Cwmni dreulio cryn dipyn o amser yn asesu ei effaith bosibl, yn enwedig os na chafwyd cytundeb, ar gyflenwad anghyfyngedig cemegau a ddefnyddir mewn prosesau trin. Roeddem yn falch iawn o allu gwneud cyfraniad sylweddol at waith cynllunio Peter Perry, ein Rheolwr-gyfarwyddwr, ledled y DU, gan chwarae rhan arweiniol yn nhasglu'r diwydiant Water UK, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a'r rheoleiddwyr.



Y Cadeirydd Alastair Lyons (ar y dde)
yn argae Castell Nos

PERFFORMIAD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Er gwaethaf ymdrechion gorau ein timau cafodd yr amharu a achoswyd gan y tywydd effaith ar fusnes fel arfer. Yn sgil y ffaith bod y sychder wedi gwneud i'r ddaear symud mewn mannau, cafwyd mwy o achosion na'r disgwyl o brif bibellau cyflenwi yn byrstio, ac effeithiodd y cyfuniad o fwy o alw ar y system a dargyfeirio adnoddau o'n rhaglen adsefydlu prif bibellau i gefnogi'r gwaith o drwsio gollyngiadau effaith ar gyflawni ein targed o sicrhau bod ein cyflenwad dŵr yn dderbyniol i gwsmeriaid. O ystyried hyn, roedd yn wych cyflawni ein targed ar gyfer gollyngiadau o hyd, er gwaethaf yr holl amharu. Yn gyffredinol, Dŵr Cymru oedd y cwmni dŵr mwyaf dibynadwy o hyd yn arolwg mis Gorffennaf 2018 y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, gyda boddhad cwsmeriaid o 96% ar gyfer y dŵr a gyflenwn. Fodd bynnag, bu'n siomedig profi nifer o achosion difrifol o lygredd am resymau gwahanol, rhai ohonynt o ganlyniad i wallau gan bobl ac, felly, yn rhai y gellid bod wedi eu hosgoi. Rydym wedi dysgu gwersi o'r rhain ac wedi gwneud y newidiadau priodol i'n prosesau a'n mesurau diogelu.

Rydym eisoes yn gweithredu ar y lefel o wariant rhaglen gyfalaf a gynllunnir gennym ar gyfer AMP7, gydag alldro'r flwyddyn ddiwethaf yn cyfateb i fuddsoddiad o £452m. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau arloesol fel ein datrysiad GlawLif yn Llanelli a datrysiadau peirianyddol i broblemau cymhleth, y cyntaf o'u math yn y diwydiant, fel newid falfiau wrth waelod argaeau.

Gan ddangos ein defnydd o ddulliau arloesol, bu gofyn dylunio robot tanddwr i selio ochr wlyb y pibellau sgwrio fel bod y gwaith disodli ar yr ochr sych yn gallu mynd rhagddo. Mae llwyddiant ysgubol y rhaglen waith sylweddol hon diolch i waith caled,

ymroddiad, a dyfeisgarwch ein tîm cyfalaf mewnol a'n partneriaid Cynghrair Gyfalaf.

BOD YN AGORED I NIWED A FFORDDIADWYEDD

Ym mis Tachwedd, gwnaethom lansio ein Strategaeth Cwsmeriaid Agored i Niwed lle eglurwyd sut rydym yn bwriadu nodi mwy o gwsmeriaid sy'n agored i niwed a'r hyn y bwriadwn ei wneud i'w helpu yn ystod cyfnodau o'r fath, ni waeth pa amgylchiadau sy'n achosi'r problemau hyn yn y lle cyntaf. Ar hyn o bryd rydym yn darparu cymorth ariannol i fwy na 125,000 o gwsmeriaid, y mae 78,000 ohonynt ar ein tariff HelpU. Gan ystyried maint cymharol ein sail cwsmeriaid, rydym yn helpu llawer mwy o'n cwsmeriaid na chwmnïau dŵr eraill.

Erbyn 2025 disgwylwn fod yn darparu cymorth ariannol i hyd at 150,000 o gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu adborth gan gwsmeriaid ynghylch faint o gymorth maent yn barod i'w warantu, a'r hyn sydd yn anochel yn adnoddau cyfyngedig i'r Cwmni ei hun eu cyfrannu o Ddychwelyd Gwerth (yr hyn sy'n cyfateb i ddifidendau i Gyfranddalwyr gennym).

POLISI CYDNABYDDIAETH

Fel mae Anna Walker, Cadeirydd ein Pwyllgor Cydnabyddiaeth, yn ei nodi yn ei hadroddiad, bu hefyd yn flwyddyn brysur i'r Pwyllgor hwn wrth iddo geisio llunio'r polisi cydnabyddiaeth priodol i'w gyflwyno i'r AGM nesaf er mwyn recriwtio a chadw'r dalent weithredol sydd ei hangen arnom a chymell cyflawni ein hamcanion ar gyfer yr AMP nesaf.

Rydym yn ymwybodol iawn bod Dŵr Cymru yn wahanol i gwmnïau sydd ym mherchenogaeth cyfranddalwyr a bod swyddogion gweithredol busnesau nid er elw eraill yn cael llai o gydnabyddiaeth nag mewn busnesau cyfatebol sydd ym mherchenogaeth cyfranddalwyr. Rydym yn llwyr ymwybodol bod yn rhaid i ni reoli ein holl gostau mor ofalus â phosibl er mwyn sicrhau bod biliau mor fforddiadwy â phosibl ar adeg pan fo problemau ariannol yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r farchnad ar gyfer uwch-dalent weithredol yn niwydiant dŵr y DU yn gul, mae galw mawr amdani, ac mae ledled y DU yn hytrach na bod yn genedlaethol.

Felly, rhaid i'r gydnabyddiaeth a gaiff ein Swyddogion Gweithredol barhau i fod yn deg ac yn gystadleuol ac mae adroddiad Anna Walker, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, yn amlinellu natur y cynigion y byddwn yn eu cyflwyno i'n Haelodau i'w cymeradwyo yn AGM 2020.

DIOLCH

I gloi, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cydweithwyr ar y Bwrdd am eu cefnogaeth a'u harweiniad yn ystod blwyddyn heriol, i'n tîm gweithredol am bopeth mae wedi'i gyflawni wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd ganddo, i'n holl bartneriaid na fyddai'n bosibl cyflawni ein holl amcanion hebddynt, ond yn anad dim ein pobl am eu hymroddiad a'u parodrwydd diflino i fynd gam ymhellach i'n cwsmeriaid.

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd
6 Mehefin 2019



ADRODDIAD STRATEGOL

MAE'R ADRODDIAD STRATEGOL HWN
YN AMLINELLU EIN PERFFORMIAD
DROS Y FLWYDDYN, Y RISGIAU A
WYNEBWN A SUT RYDYM YN EU
LLINIARU, A'N GWELEDIGAETH A'N
STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL.

NEGES Y PRIF WEITHREDWR	09
MODEL BUSNES	14
EIN CYNLLUN: EDRYCH YMLAEN I 2025	18
EIN DYFODOL: DŴR CYMRU 2050	20
EIN BLWYDDYN: Y GWIRIONEDD AM NEWID HINSAWDD	22
EIN CYMUNED: SUT RYDYM YN GWEITHIO GYDA CHI	24
EIN PERFFORMIAD	26
EIN RHEOLEIDDWYR	44
EIN RISGIAU	48
DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR	52
DATGANIAD AM GYFEIRIAD A PHERFFORMIAD Y CWMNI	54



"CWMNI AG UN
DIBEN CLIR ...
FFORDD WELL
O DDARPARU
GWASANAETHAU
DŴR HANFODOL"

CHRIS JONES
PRIF WEITHREDWR

NEGES Y PRIF WEITHREDWR

DIBEN DŴR CYMRU YW DARPARU DŴR YFED A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL O ANSAWDD UCHEL, SY'N DARPARU GWELL GWERTH AM ARIAN, ER MWYN GWELLA LLESIANT EIN CWSMERIAID A'R CYMUNEDAU A WASANAETHWN, NAWR AC AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae bron 20 mlynedd wedi mynd heibio ers i Glas Cymru Cyf. gael ei ffurfio gyntaf (mis Ebrill 2000). Mae Grŵp Glas' yn anarferol iawn am i'w ddiben (y "pam") ddod cyn y "sut". Fel Cyfarwyddwr sefydlu, cawsom gyfle unigryw i ddylunio strwythur perchenogaeth a llywodraethu'r Cwmni er mwyn cyflawni'r diben hwnnw yn y ffordd orau bosibl. Cafodd y Cwmni ei greu am un rheswm yn unig: coffael Dŵr Cymru Welsh Water, a gyflawnwyd ym mis Mai 2011, ac yna ei redeg yn "well" er budd ei gwsmeriaid.

Cafodd Glas Cymru ei greu gan gredu'n gryf y byddai cwmni ag un diben clir, a ffurf gorfforaethol gyfatebol, yn ffordd well o ddarparu gwasanaethau dŵr hanfodol i'r bobl a'r cymunedau a wasanaethwn - yn well na'r hyn a fu o'r blaen ac yn well nag o dan fodelau perchenogaeth eraill, mwy cyffredin.

Mae'r model perchenogaeth benodol lle nad oes unrhyw gyfranddalwyr a ddewiswyd (cwmni Cyfyngedig drwy Warrant) yn anelu at gael y gorau o'r ddau fyd - mae'n cyfuno disgyblaeth a chadernid masnachol bod yn endid corfforaethol, a all gael gafael ar gyllid sydd wedi'i brisio'n gystadleuol drwy'r farchnad bondiau rhestredig, wrth ganolbwyntio'n benodol ar weithredu er budd pennaf ei gwsmeriaid ar yr un pryd.

Heb y risg o unrhyw bwysou byrdymor gan gyfranddalwyr i sicrhau'r lefel uchaf o ddifidendau, arallgyfeirio ei weithgareddau neu waredu asedau, gall y Cwmni gymryd safbwynt tymor hwy. O'r cychwyn, cynlluniwyd y busnes i fod yr un mor uchelgeisiol â chwmni sydd ym mherchenogaeth cyfranddalwyr er mwyn gwella effeithlonrwydd a gweithredu mewn ffordd fasnachol bob amser. Fodd bynnag, yn ein hachos ni, mae'r "fantais" o wneud hyn yn cael ei phrofi gan ein cwsmeriaid ac fe'i defnyddir er eu budd drwy "Ddychwelyd Gwerth", fel biliau cwsmeriaid is neu fuddsoddiad ychwanegol yng nghadernid gwasanaethau.

Mae rôl Aelodaeth y Cwmni a ddewisir yn annibynnol hefyd yn adlewyrchu ei ddiben. Mae'r aelodau yn cyflawni rolau llywodraethu corfforaethol pwysig, gan helpu i sicrhau bod y Cwmni yn cyflawni ei ddiben ac yn perfformio'n dda i'w gwsmeriaid. Fodd bynnag, nid oes gan yr Aelodau unrhyw fudd ariannol yn y busnes ac, er eu bod yn cynrychioli'r bobl a wasanaethwn, nid ydynt yn cynrychioli buddiannau allanol - mae eu hunig ddyletswydd i'r Cwmni ei hun. Mae hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu rôl lywodraethu yn y ffordd orau bosibl, ynghyd â buddionnau'r busnes cyfan. Rwy'n hynod ddolchgar i'r Aelodau am eu hymdrechion dros y blynyddoedd sydd wedi bod yn rhan annatod o lwyddiant y Cwmni.

EIN GWELEDIGAETH A'N DIWYLLIANT

Ein gweledigaeth syml, sy'n gymwys i bob cydweithiwr, ar draws y busnes, yw "ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd"

Atgyfnerthir y weledigaeth hon gan ein diwylliant cryf o "ymddiried yn ym i wneud y peth iawn" a'n gwerthoedd eraill sef:

- Rydym yn FALCH o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf
- Yn DDIOGEL bob amser
- RHAGORI ym mhopeth a wnawn
- Yn ONEST â phawb
- Yn AGORED i syniadau newydd

Mae ein strwythur corfforaethol nid er cyfranddalwyr hefyd o fudd mawr i'r ffordd rydym yn rhedeg y busnes a sut rydym yn cynllunio at y dyfodol. Mae'n ein galluogi i ganolbwyntio ar ein cenhadaeth hirdymor i ennyn ymddiriedaeth a sicrhau cefnogaeth cwsmeriaid, a chymhell ein pobl i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf a diogelu'r amgylchedd.

Mae ein safbwynt hirdymor yn hynod bwysig am ein bod yn gwarchod asedau'r busnes i gwsmeriaid y dyfodol. Y llynedd, gwnaethom lansio Strategaeth Dŵr Cymru 2050. Mae dotblygu hon wedi ein galluogi i archwilio'r rôl rydym yn ei chwarae yn y cymunedau a wasanaethwn a chael deialog ystyrlon â'n cwsmeriaid am y ffordd y byddwn yn ateb yr heriau hirdymor.

1. Defnyddir "Glas" neu "Grŵp Glas" drwy gydol yr adroddiad hwn er mwyn cyfeirio at y grŵp o is-gwmnïau sydd gan Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, ac un ohonynt yw cwmni rheoleiddiedig Dŵr Cymru Cyfyngedig, y cyfeirir ato fel "Dŵr Cymru" drwyddi draw.

NEGES Y PRIF WEITHREDWR PARHAD


Y SAITH NOD LLESIANT

Rydym yn ymwybodol iawn o'n heffaith ehangach ar y cymunedau a wasanaethwn. Er nad yw Dŵr Cymru yn gorff sector cyhoeddus ac nad yw'n dod o fewn cwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r dull gweithredu a ddatblygwyd yn Dŵr Cymru 2050 yn gyson â'r saith nod llesiant sydd wrth wraidd y Ddeddf, a chredwn eu bod yr un mor ddymunol i'n cwsmeriaid yn Lloegr ag ydynt i'n cwsmeriaid yng Nghymru. Mae Dŵr Cymru yn anelu at chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o gyflawni'r nodau hyn yn ogystal â chyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â'r risgiau o'r cyfleoedd a omlinellir yn adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Rydym wedi cysoni gwaith cynllunio 2050 â'r saith nod llesiant sydd wrth wraidd y Ddeddf:

- Cymru lewyrchus – cefnogwn ddatblygu economaidd yn ein gwaith gyda chwsmeriaid sy'n ddatblygwyr. Rydym wedi gwrandao ar adborth datblygwyr ac wedi creu cynllun safonau gwasanaeth gwarantedig, sef y cyntaf o'i fath yn y diwydiant. (gweler tudalen 17)
- Cymru gydnerth – rydym yn cynllunio ar gyfer y tymor hwy ac wedi ystyried yn benodol effaith y newid yn yr hinsawdd wrth lunio ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2020-25. (gweler tudalen 32)

- Cymru sy'n fwy cyfartal – yn ddiweddar rydym wedi lansio ein strategaeth i wella gwasanaethau i gwsmeriaid sy'n agored i niwed, gan weithio gyda thrydydd partion i rannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu cymorth ychwanegol. (gweler tudalen 35)
- Cymru iachach – rydym yn annog mwy o ymwelwyr i ymweld â'n Canolfannau Ymwelwyr a Hamddena a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar ein hystadau. (gweler tudalennau 25 a 112)
- Cymru o gymunedau cydlynus – mae prosiect Rhondda Fach wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod ein cynllun mawr i newid prif bibellau yn yr ardal yn cael effaith gymdeithasol gadarnhaol barhaol. (gweler tudalen 37)
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – rydym yn helpu ein cyflogeion i ddysgu Cymraeg ac yn gosod targedau i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid. (gweler tudalen 117)
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – rydym yn cymryd camau arloesol er mwyn nodi ffyrdd o leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, yn benodol drwy ein buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. (gweler tudalen 114)



2018-19: BLWYDDYN EITHAFOL

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith cynllunio hirdymor wedi dod o dan y chwyddwydr wrth i gyfres o ddigwyddiadau tywydd difrifol roi cryn dipyn o bwysau ar ein timau gweithredol i gynnal cyflenwadau i gwsmeriaid. Yn fuan ar ôl i'r "Dihiryn o'r Dwyrain" a Storm Emma amharu'n ddifrifol ar rai o'r cymunedau gwledig a wasanaethwn, gwnaethom wedyn brofi'r cyfnod sych hiraf yng Nghymru ers degawdau – gyda mis Mehefin yn cael ei gofnodi fel y mis Mehefin poethaf ers dechrau cadw cofnodon yn 1910, a chafwyd y trydydd mis Gorffennaf poethaf erioed.

Rhoddodd hyn bwysau aruthrol ar ein hadnoddau dŵr – gan olygu bod yn rhaid i'n timau gweithredol ailddyblu eu hymdrechion i symud dŵr o amgylch ein rhwydwaith er mwyn cynnal cyflenwadau i'n holl gwsmeriaid. Golygodd hyn roi 1 biliwn litr o ddŵr (cynnydd o 20%) i mewn i'r rhwydwaith bob dydd er mwyn sicrhau bod cyflenwadau cwsmeriaid mor normal â phosibl yn ystod y tywydd poethaf. Gweithiodd ein cyflogaion bob awr o'r dydd yn ein 63 gwaith trin dŵr er mwyn monitro'r rhwydwaith, a gwnaethom hefyd adeiladu gorsafoedd pwmpio dros dro er mwyn helpu i drosglwyddo dŵr a defnyddiwyd 40 o danceri i roi dŵr ychwanegol yn uniongyrchol i mewn i'r rhwydwaith. Aed i gostau ychwanegol o £21m yn ystod y cyfnod hwn o lawiad isel.

Ni welwyd y fath amgylchiadau erioed o'r blaen a arweiniodd at gymryd y mesurau hyn, a dangosodd natur ddifrifol yr her sy'n ein hwynebu yn y dyfodol, gan danlinellu pwysigrwydd ein buddsoddiad yn y gwaith o feithrin cadernid ein hasedau. Bydd ein buddsoddiad yn creu cyfanswm o bron £2bn dros y cyfnod buddsoddi pum mlynedd presennol.



Gwnaeth y cyfnod hir o lawiad isel hefyd greu heriau ychwanegol i'r busnes dŵr gwastraff, gyda gollyngiadau o orlifiannau carthffosydd cyfun yn cael mwy o effaith amgylcheddol o bosibl lle mae cyrsiau dŵr ar lefelau is na'r arfer. Yn ystod misoedd yr haf, wrth wneud gwaith brys a gynlluniwyd i ddiogelu'r gwasanaeth i gwsmeriaid ac ansawdd ecolegol afonydd, profwyd dau ddigwyddiad difrifol o ran llygredd – un ym Mharc Ynni Pum Rhyd yn Wrecsam a'r llall yng Ngwaith Trin Dŵr Felindre yn Abertawe. Yn y ddau achos effeithiwyd ar y cwrs dŵr lle cofwyd y gollyngiad, gan gynnwys lladd rhai pysgod. Gwnaethom ymddiheuro am hyn yn gyflym – gwall dynol oedd yn gyfrifol am y ddau ddigwyddiad ac felly gellid bod wedi eu hosgoi. Rydym wedi mynd ati i lanhau'r ddwy ardal yn helaeth, cyfrannu at ailgyflenwi pysgod yn yr afonydd dan sylw, a chynnal adolygiadau mewnol trwyadl er mwyn dysgu gwersi ac atal hyn rhag digwydd eto.

Parhodd yr heriau hinsoddol hyn i'r hydref. Achosodd Storm Callum rai o'r llifogydd gwaethaf mewn degawdau yng Nghymru, gyda glaw trwm yn disgyn yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a rhannau o'r canolbarth. Er enghraifft, gwelsom fwy na 18cm o law mewn 48 awr mewn rhannau o Fannau Brycheiniog. Nododd y sylw a gafodd y storm yn y wasg leol a chenedlaethol lwyddiant ein cynlluniau Draenio Cynaliadwy GlawLif clodwiw RainScape wrth atal llifogydd yn nhref Llanelli, lle bu modd osgoi llifogydd am fod y cynlluniau draenio hyn wedi dargyfeirio dŵr o'r system garthffos a diogelu cartrefi cwsmeriaid a'r amgylchedd (gweler tudalen 33 am ragor o fanylion). Dyma'r math o ateb arloesol y bydd ei angen arnom er mwyn ateb her newid hinsawdd.

NEGES Y PRIF WEITHREDWR

PARHAD

DYCHWELYD GWERTH I GWSMERIAID

Mae ein strwythur perchenogaeth yn ein galluogi i ddefnyddio'r gwargedau a goiff eu creu gennym er budd ein cwsmeriaid, yn hytrach na'u talu allan fel difidendau i gyfranddalwyr. Yn 2018-19 gwnaethom gyhoeddi ein bod wedi "Dychwelyd Gwerth" o £40m i gwsmeriaid. Rhoddir manylion hynny ar dudalen 16. Ers i Glas Cymru gaffael Dŵr Cymru ym mis Mai 2001 rydym wedi defnyddio tua £400m er budd cwsmeriaid yn y ffordd hon, drwy filiau is, buddsoddiad cyflymach neu ychwanegol er mwyn gwella gwasanaethau, neu gymorth ariannol wedi'i dargedu i'r rhai sydd mewn angen ariannol.

EIN CYNLLUNIAU AR GYFER 2020-25

Yn dilyn dwy flynedd o ymgynghori helaeth â chwsmeriaid a grwpiau cyfranddalwyr eraill, gwnaethom gyflwyno cynllun busnes ym mis Medi 2018 i Ofwat a oedd yn adlewyrchu ein huchelgeisiau ar gyfer ein cwsmeriaid yn y pum mlynedd o 2020. Gwnaeth ein hymgyngghoriad a'n proses gynllunio esgor ar y canlynol: cynnig i ostwng bil cyfartalog cartrefi 5%, cyfres o fesurau i wella'r gwasanaethau a gaiff cwsmeriaid, mwy o gymorth ar gyfer y cwsmeriaid mwyaf agored i niwed, a buddsoddiad cyfalaf o £2.3 biliwn, yr uchaf erioed.

Deilliodd y broses o'r ymgynghoriad mwyaf erioed gyda'n cwsmeriaid. Drwy gydol y broses o ddrafftio ein cynlluniau ar gyfer PR19, gwnaethom ymgynghori'n uniongyrchol â thua 40,000 o gwsmeriaid dros ddwy flynedd, drwy amrywiaeth o ffyrdd fel grwpiau ffocws, gweithdai cymunedol, digwyddiadau i gyfranddalwyr, ein "cymuned ar-lein" gyntaf, ein "Bwrdd Ieuencid" cyntaf, a'r ymgynghoriadau Dweud eich Dweud mawr. Dangosodd ymchwil annibynnol i ba mor dderbyniol oedd y cynllun i gwsmeriaid yn gyffredinol fod 92% o'n cwsmeriaid o'r farn ei fod yn dderbyniol a nododd 95% ei fod yn fforddiadwy. Gwnaeth ein Grŵp Her Cwsmeriaid, a gadeiriwyd gan Peter Davies CBE,



Hyfforddeion yng Ngwaith Trin Dŵr
Gwastraff Caerdydd

hefyd chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio cynnwys ein cynllun.

Ddiwedd mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Ofwat ei Asesiad Cychwynnol o holl gynlluniau'r Cwmni. Nodwyd yn arbennig y graddau roedd cwsmeriaid yn helpu i lunio ein cynllun busnes a'r syniadau uchelgeisiol i gefnogi ein cwsmeriaid mwyaf agored i niwed, gyda chymorth ariannol i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr a thrwy ehangu'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth sy'n sicrhau ein bod yn gallu diwallu anghenion penodol cwsmeriaid sy'n agored i niwed.

Rydym wedi ymateb gyda rhagor o wybodaeth i gefnogi'r angen am agweddau penodol ar ein rhaglen fuddsoddi arfaethedig a gwestiynwyd gan Ofwat yn ei Asesiad Cychwynnol. Bydd Ofwat yn cyhoeddi Penderfyniad Drafft ym mis Gorffennaf 2019.

CEFNDIR GWLEIDYDDOL

Ar adeg llunio'r adroddiad, mae perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn aneglur ac mae cryn dipyn o bryder yn y gymuned fusnes ynghylch effaith Brexit "heb gytundeb". Rydym wedi chwarae rôl arweiniol yn y gwaith cynllunio helaeth sydd wedi'i wneud gan y sector dŵr ar gyfer amrywiaeth o senarios Brexit, yn enwedig o ran parhad cyflenwadau hanfodol fel cemegau a ddefnyddir i drin dŵr.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod cryn ddadlau gwleidyddol ynghylch perchenogaeth y diwydiant dŵr yn Lloegr yn y dyfodol. Er mai penderfyniad y llywodraeth yw hyn, credwn yn gryf o hyd fod gan ein model perchenogaeth presennol

fanteision sylweddol o ran ein gallu i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cwsmeriaid a'u cymunedau.

ARLOESED

Mae rhan fawr o'n cynlluniau ar gyfer PR19 wedi cynnwys sicrhau arloesedd ym mhopeth a wnawn, a sicrhau bod arloesedd i'w weld ym mhob rhan o'r Cwmni. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael budd o gynifer o syniadau â phosibl, a'n bod yn dod o hyd i ffyrdd mwy newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau sy'n gwella profiad ein cwsmeriaid ac yn ein helpu i leihau costau.

Roedd yn galonogol iawn gweld yr holl arloesi yn ein Cynhadledd Arloesedd flynyddol ym mis Ebrill 2018, lle rhoddwyd sylw i feysydd fel Realiti Estynedig, ein sgwrsbot dwyieithog cyntaf erioed, a'n defnydd o dechnoleg drôn er mwyn helpu i gynnal cadernid a diogelwch ein hasedau. Mae angen i'r defnydd o atebion technolegol arloesol o'r fath ddod yn rhan o'n ffordd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r targedau uchelgeisiol ar gyfer y cyfnod rheoleiddiol nesaf.

Un enghraifft o'n defnydd o arloesedd i wella ein prosesau yw'r driniaeth Briglif rydym wedi ei chyflwyno yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Tre-gŵyr. Yma, defnyddir technoleg arloesol o'r UD i drin dŵr storm. Fel rhan o'n hagenda arloesedd, rydym hefyd wedi gweithio gyda nifer o gwmnïau o dramor gan gynnwys Cyfleustod Copenhagen Fwyaf (HORFOR), Adran Diogelu'r Amgylchedd Dinas Efrog Newydd, Bwrdd Dŵr Dinas Efrog Newydd a Chyfleustodau Trefol Queensland.

CASGLIAD

Yn ystod y flwyddyn heriol sydd newydd fynd heibio, mae ymroddiad ein cydweithwyr a'n partneriaid sy'n gontactwyr yn fwy amlwg nag erioed – gyda phobl o bob rhan o'r busnes yn gweithio bob awr o'r dydd i sicrhau nad amherir ar wasanaethau ein cwsmeriaid, er gwaethaf y cyfnod hir o dywydd sych yn yr haf, achosion sylweddol o brif bibellau cyflenwi yn byrstio ar ein rhwydwaith, a thywydd anwadal fel Storm Callum. Mae eu hymroddiad wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y lefel uchel o ymddiriedaeth mae ein cwsmeriaid yn ei ddangos ynom fel eu cwmni dŵr. Rwy'n falch o ddweud bod ein cwsmeriaid yn ymddiried ynom yn fwy nag erioed – ac yn fwy nag unrhyw gwmni dŵr arall yng Nghymru a Lloegr. Dengys ymchwil annibynnol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr mai ynom ni yr ymddiriedir fwyaf yn y diwydiant.

Bydd bodloni disgwyliadau uchel ein cwsmeriaid o ran ni'n hunain a'r gwasanaethau a ddarparwn yn parhau i gyflwyno problemau a heriau newydd i ni fynd i'r afael â nhw. Bydd ein hymdeimlad clir o ddiben, ein diwylliant cryf a'n paratodau trylwyr drwy Dŵr Cymru 2050 yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hynny.



Chris Jones
Prif Weithredwr
6 Mehefin 2019

MODEL BUSNES

SEFYDLWYD GLAS CYMRU YN 2000 FEL
CWMNI "CYFYNGEDIG DRWY WARANT".



PWY YDYM NI

Mae bod 'nid er cyfranddalwyr' yn golygu bod ein holl enillion yn mynd i gwsmeriaid. Mae hyn bob amser wedi bod wrth wraidd yr hyn a wnawn ers i Glas Cymru gael ei sefydlu yn 2000. Fel cwmni "cyfyngedig drwy warant", cafodd Glas Cymru ei ffurfio i gaffael a rhedeg Dŵr Cymru Welsh Water ar soil nid er cyfranddalwyr.

Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio'n wahanol i gwmnïau dŵr a dŵr gwastraff eraill. Nid ydym yn talu difidendau, am nad oes gennym gyfranddalwyr. Felly, mae unrhyw arian a wnawn yn mynd yn ôl i mewn i'r busnes er budd cwsmeriaid. Mae hefyd yn golygu y gallwn weithio er budd ein cwsmeriaid yn yr hirdymor – gallwn gynllunio ein buddsoddiadau er mwyn sicrhau ein bod yn anelu at ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol rhag heriau posibl fel newid hinsawdd, a manteisio'n llawn ar gyfleoedd posibl – fel defnyddio technoleg newydd sy'n dod i'r amlwg a dadansoddi data.

Dyma beth mae bod yn gwmni nid er cyfranddalwyr yn ei olygu – mae ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn, ac mae meithrin a chynnal eu hymddiriedaeth ynom i wneud hynny yn hanfodol er mwyn darparu'r gwasanaethau sy'n bwysig.

SUT RYDYM YN EI WNEUD

EIN DIBEN:

Diben Dŵr Cymru yw darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n darparu gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Grŵp Glas yn canolbwyntio ar gefnogi'r cwmni gweithredu rheoleiddiedig, Dŵr Cymru Cyfyngedig (y cyfeirir ato fel "Dŵr Cymru" drwy gydol yr adroddiad hwn). Er mwyn cyflawni ein diben, rydym yn gwneud y canlynol:

- cymryd dŵr, ei drin a dosbarthu dŵr yfed o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid ledled y rhan fwyaf o Gymru a Swydd Henffordd
- casglu, trin, a dychwelyd yn ddiogel ddŵr gwastraff i'n hafonydd a'n moroedd – gan ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd ledled ein hardal gyflenwi
- aildddefnyddio ein gwastraff a'i droi'n ynni ar gyfer rhai o'n safleoedd
- cynorthwyo aelodau o'r cyhoedd, adeiladwyr, awdurdodau lleol a datblygwyr tai a bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor cyn cynllunio ar gysylltiadau newydd.

Wrth wneud hyn oll, ein nod parhaus yw gwella ein prosesau a defnyddio arloesedd ar draws ein busnes er mwyn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd i'n cwsmeriaid.

Rydym yn warcheidwaid yr asedau ffisegol sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau a'r ymddiriedaeth sydd wedi'i meithrin gyda'n cwsmeriaid ers i Dŵr Cymru gael ei gaffael gan Grŵp Glas yn 2001. Mae hyn yn golygu bod ein model busnes yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd hirdymor. Drwy sicrhau ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a chanolbwyntio ar berfformiad gweithredol a gwasanaeth cwsmeriaid da, gallwn gael gafael ar gyllid cyfalaf am lai o gost na chyfleustodau eraill ac, wedyn, sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn biliau.

Mae'r cylch rhinweddol isod yn dangos, wrth i ni barhau i wella ein gwasanaethau a lleihau biliau i gwsmeriaid, fod ein henw da a'n sgoriau ariannol yn parhau'n gryf. Mae hyn yn lleihau'r gost lle gallwn fenthycu arian i'w fuddsoddi ymhellach yn y gwaith o wella ein gwasanaethau a lleihau biliau. Ac felly mae'r cylch rhinweddol yn parhau.


Dangosir ein cynlluniau hirdymor ar gyfer y busnes gan Dŵr Cymru 2050, ein hymateb i'r heriau tymor hwy a nodwyd sy'n wynebu'r busnes. Mae Dŵr Cymru 2050 yn nodi ein gweledigaeth hirdymor a fydd yn ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau niferus sydd o'n blaenau — o newid hinsawdd a newid demograffig i newid defnydd tir, cyflymder newid technolegol a hefyd ddisgwyliadau cynyddol cwsmeriaid.

> [DARLLENWCH FERSIYNAU LLAWN A CHRYNO DŴR CYMRU 2050 AR-LEIN YN: DWRCYMRU.COM/WW2050](https://www.dwr.gov.uk/2050)

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar feithrin gwydnwch a sgiliau ein pobl er mwyn ateb heriau'r dyfodol a nodwyd gennym yn Dŵr Cymru 2050. Canolbwyntiwn ar ddatblygiad personol unigolion ar draws y busnes er mwyn galluogi pob cydweithiwr i gyflawni ei botensial llawn. Mae ein hymatebion cryf i'n Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion (gweler tudalen 41) yn dangos faint mae cydweithwyr yn gwerthfawrogi hyn, gyda 90% o'r rhai a ymatebodd yn cadarnhau eu bod yn credu yn Dŵr Cymru a'r hyn mae'n sefyll drosto.

Mae ein model busnes yn unigryw yn y sector cyfleustodau. Mae ein ffocws ar fuddiannau cwsmeriaid wedi ein galluogi i:

- gadw cynnydd mewn prisiau biliau cartrefi ar gyfartaledd o dan gyfradd chwyddiant am ddeg mlynedd yn olynol
- cael y statws credyd gorau o blith unrhyw gwmni cyfleustod yn y DU, sy'n golygu y gallwn fenthycu arian i fuddsoddi yn ein gwasanaethau am y pris isaf i'n cwsmeriaid
- helpu mwy na 125,000 o gwsmeriaid incwm isel i dalu eu biliau dŵr
- cynhyrchu gwerth ychwanegol i'n cwsmeriaid cartrefi a busnes
- buddsoddi yn ein hasedau dŵr glân a dŵr gwastraff er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.



MODEL BUSNES PARHAD

CYHOEDDIAD AR DDYCHWELYD GWERTH – 2018

Ym mis Mehefin 2018 gwnaethom gyhoeddi £40m o fuddsoddiad ychwanegol dros y flwyddyn nesaf. Cadarnhawyd y buddsoddiad fel rhan o "Ddychwelyd Gwerth", lle mae buddsoddiad yn mynd yn ôl i mewn i wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn uniongyrchol er budd ein cwsmeriaid.


Caiiff y £40m ei ddefnyddio i orionnu buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau er budd cwsmeriaid ar draws ein hardal gyflenwi, gan gynnwys:

- £6m i leihau'r risg o golli'r cyflenwad dŵr yn Henffordd i raddau mawr
- £7m i helpu i leihau'r risg o lifogydd yng ngorllewin Caerdydd a Bae Caerdydd
- £5m tuag at wella dibynadwyedd ein rhwydwaith dŵr mewn ardaloedd sy'n wynebu problemau mynych, gan gynnwys Rhondda Fach* ac Ynys Môn
- £9m o fuddsoddiad i addasu ein hargaeau er mwyn ateb heriau newid hinsawdd
- £6m i wella ein systemau busnes – yn enwedig gwella gwasanaeth cwsmeriaid a gwneud ein gweithrediadau'n fwy effeithlon
- £7m i helpu i ariannu cymorth ar gyfer ein cwsmeriaid ar yr incwm isaf er mwyn eu helpu i dalu eu biliau dŵr.

Mae Dŵr Cymru wedi ailfuddsoddi tua £400m mewn prosiectau cwsmeriaid o'r fath ers 2001.

BUDDSODDIADAU AR DRAWS EIN HARDAL GYFLENWI

- £5m tuag at wella dibynadwyedd ein rhwydwaith dŵr mewn ardaloedd sy'n wynebu problemau mynych, gan gynnwys **Rhondda Fach*** ac **Ynys Môn**



- £9m o fuddsoddiad i addasu ein hargaeau er mwyn ateb heriau newid hinsawdd

- £6m i wella ein systemau busnes – yn enwedig gwella gwasanaeth cwsmeriaid a gwneud ein gweithrediadau'n fwy effeithlon

- £7m i helpu i ariannu cymorth ar gyfer ein cwsmeriaid ar yr incwm isaf er mwyn eu helpu i dalu eu biliau dŵr

PWY RYDYM YN EU GWASANAETHU?

CWSMERIAID PRESWYL

Ni yw'r chweched cwmni mwyaf o'r 11 o gwmnïau dŵr a dŵr gwastraff a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr, o ran y boblogaeth a wasanaethwn. Darparwn wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i fwy na 3 miliwn o bobl ledled y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd, a rhannau o Lannau Dyfrdwy a Swydd Gaer.

CWSMERIAID BUSNES MASNACHOL

Mae gennym dîm cwsmeriaid buses dynodedig, ar gyfer cwsmeriaid busnes sy'n "chwilio" am wasanaethau manwerthu dŵr (yng Nghymru, dim ond cwsmeriaid sy'n defnyddio mwy na 50 megalitr y flwyddyn ar un safle a all ddewis eu manwerthwr dŵr), ac ar gyfer cwsmeriaid busnes eraill lle mai ni yw'r unig ddarparwr o hyd. Canolbwyntiwn ar ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwro ar gyfer ein cwsmeriaid busnes sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i reoli'r galw sydd ganddynt ac yn darparu gwasanaethau ychwanegol fel canfod gollyngiadau a gwneud y mwyaf o'r rhwydwaith lle mae angen hynny ar y cwsmer. Ar gyfer 2018-19, cawsom ein gosod yn y safle cyntaf o blith holl ddarparwyr gwasanaethau cwsmeriaid yn Safonau Perfformiad y Farchnad MOSL, ar gyfer cwsmeriaid busnes yn y farchnad fanwerthu gystadleuol, gyda sgôr o 97.8%.

GWASANAETHAU I DDATBLYGWYR

Mae ymchwil wedi dangos bod Dŵr Cymru – a'n gwaith gyda'n cadwyn gyflenwi – yn werth tua £1 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru.

Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi datblygu economaidd ar draws ein hardal gyflenwi drwy ddarparu seilwaith



a chyngor dŵr a charthffosiaeth newydd. Mae gennym dîm dynodedig ar gyfer ein cwsmeriaid datblygu tai ac eiddo, boed hynny'n delio ag unigolion sy'n adeiladu eu cartrefi eu hunain neu'n eu gwella, fel codi estyniad neu heuldy, neu ddatblygiadau tai a datblygiadau masnachol newydd mawr. Mae ein tîm yn parhau i fod ymhlith y gorau yn y diwydiant ers i Lefelau Gwasanaeth Gwasanaethau Datblygwyr WaterUK gael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2015, ac mae'n gweithio'n arbennig o galed i gyrraedd y lefelau gwasanaeth ar gyfer ymateb i ymholiadau a phrosesu ceisiadau gan bob cwsmer sy'n ddatblygwyr o fewn terfynau amser penodol. Nododd ein harolwg diweddaraf o gwsmeriaid sy'n ddatblygwyr,

a gynhaliwyd yn annibynnol, lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid ar 86% a hefyd lefelau ymddiriedaeth ar 87%. Ni hefyd oedd y cwmni cyntaf i gyflwyno o'i wirfodd "Ymrwymiad Gwasanaethau i Gwsmeriaid sy'n Ddatblygwyr" a hefyd "Gynllun Cymhelliant Dŵr Wyneb" yn benodol i gwsmeriaid sy'n ddatblygwyr.

Ers mis Ionawr 2019, mae newid mewn deddfwriaeth yng Nghymru wedi ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gynnwys systemau draenio cynaliadwy mewn unrhyw ddatblygiad newydd, er mwyn gwahanu dŵr glaw o ddŵr gwastraff. Rydym yn gweithio gyda datblygwyr fel bod y broses o newid i'r trefniadau newydd hyn mor esmwyth â phosibl.

EDRYCH YMLAEN I 2025

Fel cwmni o arweinir gan gwsmeriaid, canolbwyntiwn ar ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl, am y pris isaf posibl.

Pan gynlluniwn at y dyfodol – boed hynny dros ddegawdau neu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf – mae ystyried barn ein cwsmeriaid yn rhan ganolog o'n ffordd o weithio.

Cynlluniwn ein buddsoddiadau dros gyfnodau o bum mlynedd. Mae ein cynllun busnes diweddaraf ar gyfer 2020-2025 yn nodi ein gweledigaeth i wella gwasanaethau er budd cwsmeriaid, a sut rydym yn bwriadu talu am hynny drwy gynyddu effeithlonrwydd a lleihau biliau cwsmeriaid ar yr un pryd. Er mwyn dysgu sut mae ein cwsmeriaid yn teimlo am y cynlluniau hyn, dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda nhw, ac yn gwrandao arnynt, mewn perthynas â'n cynlluniau at y dyfodol – ac mae 40,000 o gwsmeriaid wedi cael dweud eu dweud yn uniongyrchol ar y ffordd rydym yn rhedeg ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.

BETH A WNAETHOM?

Gwnaethom geisio adborth gan ein cwsmeriaid o'r holl ardaloedd a wasanaethwn er mwyn clywed eu barn am yr hyn y dylem ei gynllunio at y dyfodol – oherwydd, fel cwmni nid er cyfranddalwyr, mae barn ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Felly, er mwyn deall gorau y gallem yr hyn mae cwsmeriaid am ei weld yn ein cynllun busnes, gwnaethom:

- Fynd i brif ddigwyddiadau ledled Cymru a Swydd Henffordd (fel yr Eisteddfod a'r Sioe Frenhinol) er mwyn helpu cwsmeriaid i "ddweud eu dweud" ar ein blaenoriaethau at y dyfodol
- Datblygu atebion technolegol arloesol er mwyn cynnig ystod eang o ffyrdd i gwsmeriaid rannu eu barn – gan gynnwys sgwrsbot Facebook Cymraeg-Saesneg dwyieithog, y cyntaf o'i fath yn y byd, a grŵp ffocws cwsmeriaid "cymuned ar-lein" parhaol
- Cynnal grwpiau ffocws dwys a chyfweliadau â chwsmeriaid er mwyn meithrin dealltwriaeth fanwl o'r hyn mae cwsmeriaid yn ei werthfawrogi fwyaf



BETH YW EIN CYNLLUNIAU?

Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2020-2025 yn mapio ein cynigion i gyflawni blaenoriaethau cwsmeriaid, gan gynnwys buddsoddi £2.3 biliwn dros y pum mlynedd hyd at 2025, y swm mwyaf erioed, er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael cyflenwad dŵr o'r radd flaenaf, darparu gwasanaeth dŵr gwastraff diogel a dibynadwy, a diogelu'r amgylchedd prydferth o'n hamgylch.

Bydd hyn yn mynd law yn llaw â sicrhau bod biliau'n deg ac yn fforddiadwy.

EIN CHWE ADDEWID I GWSMERIAID AR GYFER 2025

1 DŴR GLÂN A DIOGEL I BAWB

- ✓ Parhau i fuddsoddi yn ein rhwydwaith
- ✓ Newid hen bibellau mewn ardaloedd sy'n dueddol o fyrstio'n rheolaidd
- ✓ Newid hen bibellau dŵr plwm mewn tua 7,000 o gartrefi
- ✓ Uwchraddio ein hargaeau fel eu bod yn gallu gwrthsefyll unrhyw storm yn y dyfodol

2 DIOGELU'R AMGYLCHEDD AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- ✓ Parhau i fuddsoddi yn ein rhwydwaith o garthffosydd
- ✓ Newid hen bibellau mewn ardaloedd sy'n dueddol o fyrstio'n rheolaidd
- ✓ Gweithio gydag eraill i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a gwella ansawdd dŵr
- ✓ Buddsoddi mwy mewn gwaith cynnal a chadw a thechnoleg er mwyn helpu i leihau achosion o lygredd
- ✓ Cynhyrchu traean o'r ynni a ddefnyddiwn o'r carthion a gaiff eu trin gennym, ynni'r haul, dŵr a gwynt

3 BYDDWN YN UNIONI PETHAU PAN FYDDANT YN MYND O CHWITH

- ✓ Darparu gwasanaeth am ddim i gwsmeriaid er mwyn trwsio toiledau a thapiau sy'n gollwng yn eu cartrefi
- ✓ Parhau i ostwng gollyngiadau 15% arall
- ✓ Buddsoddi mwy yn ein pibellau a gwaith trin er mwyn gwrthsefyll tywydd garw
- ✓ Lleihau nifer y cwsmeriaid sy'n wynebu problemau "anodd eu datrys" mynych

4 DULL PERSONOL SY'N IAWN I CHI

- ✓ Ehangu ein gwasanaethau digidol fel y gallwch gysylltu â ni sut bynnag y mynnoch
- ✓ Cynyddu nifer y cwsmeriaid sydd wedi'u cofrestru i dderbyn gwasanaethau Cymraeg
- ✓ Cynyddu nifer y bobl ar ein cofrestr gwasanaethau â blaenoriaeth o 26,000 i fwy na 100,000

5 DYFODOL MWY CYNALIADWY A LLEWYRCHUS I GYMUNEDAU

- ✓ Ehangu ein rhaglen i addysgu mwy o blant am eu dŵr a'u hamgylchedd
- ✓ Buddsoddi mwy mewn canolfannau ymwelwyr newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ledled ein hardal
- ✓ Lleihau llifogydd mewn ardaloedd adeiledig drwy ddatrysiaidau GlawLif gwyrdd a glân

6 BILIAU TEG I BAWB

- ✓ Buddsoddi mwy mewn dŵr a'r amgylchedd
- ✓ Sicrhau y bydd bil cyfartalog cartrefi 5% yn is nag heddiw (cyn chwyddiant)
- ✓ Cynnig ein tariff is i fwy o'r cwsmeriaid hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau
- ✓ Lleihau ein costau 10% drwy ddefnyddio arloesedd a thechnoleg i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau

DŴR CYMRU 2050



Fel cwmni dŵr cyfrifol, gwyddom fod y penderfyniadau a wnawn heddiw yn cael effaith ar ein cwsmeriaid nawr – a hefyd am genedlaethau i ddod.

Mae'r diwydiant dŵr yn wynebu nifer o heriau mawr. Mae'r rhain yn amrywio o newid hinsawdd a newid demograffig i gyflymder newid technolegol a disgwyliadau cwsmeriaid cynyddol. Gwyddom fod ein cwsmeriaid yn disgwyl i ni ragweld yr heriau hyn sydd i ddod er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth y gallant ymddiried ynddo.

Felly mae angen i ni gynllunio at yr hirdymor – a dyna lle mae Dŵr Cymru 2050 yn chwarae rhan. Rydym wedi nodi 18 o ymatebion cynhwysfawr i'r ffordd y gwnawn fynd i'r afael â phob un o'r heriau a wynebwn dros y 30 mlynedd nesaf, a sut y gwnawn eu blaenoriaethu. Mae Dŵr Cymru 2050 yn cyflwyno ein ffordd o feddwl bresennol ynghylch sut y dylem ymateb i'r heriau hyn gan ein galluogi i ddod yn wasanaeth dŵr cynaliadwy a chadarn o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cynllun hirdymor hwn yn eistedd ochr yn ochr â'n cynllun buddsoddi pum mlynedd ar gyfer 2020-2025, sy'n nodi pa gamau cyntaf rydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon.

Y CAMAU CYNTAF TUAG AT 2050

- **Adnewyddu ein rhwydwaith dŵr:**
Buddsoddi yn y gwaith o lanhau a newid pibellau mewn ardaloedd sy'n profi mwy o broblemau gyda'u gwasanaeth dŵr na'r arfer
- **Yr amgylchedd:**
Dŵr Cymru oedd y cwmni preifat cyntaf i lunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn unol â gofynion cyfreithiol newydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – gan olygu bod polisi ar ddiogelu'r byd ar sail ein hasedau eisoes yn cael ei roi ar waith o fewn y Cwmni cyfan
- **Data Mawr:**
Rydym yn gweithio ym meysydd gwyddor data, dadansoddi busnes, peiranneg data ac ystadegau er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnal i gwsmeriaid a datblygu ein ffyrdd o gyfathrebu â'r rhai sydd angen cymorth fwyaf
- **Gwasanaeth cwsmeriaid:**
Rydym eisoes yn cefnogi mwy o gwsmeriaid nag unrhyw gwmni dŵr arall gyda'n holl dariffau fforddiadwyedd a mathau eraill o gymorth ariannol i'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr.

Ein nod yw cynyddu nifer y cwsmeriaid ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth bedair gwaith. Mae hyn yn rhan o'n strategaeth newydd i gwsmeriaid agored i niwed, a gafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Tachwedd mewn digwyddiad yn stadiwm Swalec yng Nghaerdydd. Rydym hefyd yn anelu at gynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n dewis cysylltu â ni'n Gymraeg bedair gwaith

- **Diogelu'r dyfodol:**
Gyda gweithlu sy'n heneiddio, rydym yn ceisio mentora cenhedlaeth iau o dalent er mwyn sicrhau bod gennym yr arbenigedd i fodloni disgwyliadau uchel ein cwsmeriaid yn y dyfodol. Rhan annatod o hyn yw ein hymdrechion i greu gweithlu amrywiol – yn arbennig cynyddu cyfran y merched sy'n gweithio yn y busnes, sydd wedi cynyddu o 17% i 30% dros y 10 mlynedd diwethaf.

ASTUDIAETH ACHOS



RHONDDA FACH

Rydym wedi treulio 18 mis a £23m yn glanhau ac yn adnewyddu pibellau dŵr yn ardal Rhondda Fach. Cafodd rhaglen beilot Cydnerth o ran Dŵr Rhondda Fach ei chynllunio i sicrhau ei bod yn cael y budd mwyaf o'r ffaith ein bod yno – gan ganolbwyntio rhannau allweddol o'n gwaith ar ardal ddaearyddol gymharol fach, gyda'r nod o adael gwaddol "cymuned gydnerth o ran dŵr".

Mae ein gwaith ym mharth Maerdy-Porth yn cynnwys gosod 54km o bibellau dŵr newydd yn yr ardal hon. Bydd y buddsoddiad hwn yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag ymddangosiad, blas ac arogl cyflenwadau dŵr yfed lleol, yn ogystal â gwella dibynadwyedd y cyflenwad.

Bu'n hanfodol ymgysylltu â'r gymuned leol er mwyn egluro beth rydym yn ei wneud a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'r prosiect hwn wedi ein gwrthio ymhellach drwy nodi meysydd lle gallwn sicrhau'r budd mwyaf i gymuned wrth fuddsoddi yn ein hasedau ein hunain ar yr un pryd.

Ymhlith y buddiannau a geisiwyd gennym roedd dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid drwy ein hymgyrchoedd "Stop Cyn Creu Bloc" ac effeithlonrwydd dŵr; a gweithio gyda chwsmeriaid er mwyn deall y rhwystrau y gallant eu hwynebu sy'n eu hatal rhag defnyddio un o'n tariffau fforddiadwyedd, neu gofrestru ar gyfer Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth cwsmeriaid agored i niwed. Rydym hefyd wedi ymuno â'r Prince's Trust i gynniig cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc o'r ardal ac rydym wedi cefnogi'r gwaith o hyrwyddo prentisiaethau adeiladu.

Bwriadwn barhau i feithrin ein cysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol yn yr ardal er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal gwaddol o gymorth. Mae Peter Bridgewater, ein Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol, wedi'i benodi'n ymddiriedolwr Neuadd Les Pendyrus. Mae'r elusen hon yn hyrwyddo ac yn adnewyddu'r theatr glowyr a neuadd les olaf yn Rhondda Fach. Rydym hefyd wedi lansio prosiectau tebyg eraill ochr yn ochr â'n rhaglenni buddsoddi yn ardaloedd y Rhyl a Rhymni, a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn.




RYDYM WEDI HELP
CWSMERIAID I ARBED
DROS **£67,000** DRWY
FILIAU IS



MAE **2,000 O BLANT**
WEDI DERBYN UN O'N
GWERSI



MAE GRWPIAU
CYMUNEDOL WEDI CAEL
£10,000 DRWY EIN
CRONFA GYMUNEDOL



Y GWIRIONEDD AM NEWID HINSAWDD



Llifogydd Storm Callum
yn Llandysul

Un o’n prif heriau yw ymdrin ag effaith newid hinsawdd hirdymor ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd cyson uchel. Mae effeithiau newid hinsawdd yn cynnwys:

- cyfnodau mwy rheolaidd a difrifol o oerfel yn y gaeaf a all roi pwysau ar ein rhwydwaith prif bibellau dŵr
- hafau sychach a phoethach sy’n golygu bod angen i ni wneud gwell defnydd o’n hadnoddau dŵr
- tywydd mwy anwadal fel glaw eithafol a all arwain at y risg o lifogydd sy’n effeithio ar gartrefi cwsmeriaid.

Mae’r flwyddyn sydd wedi mynd heibio wedi dangos maint yr her rydym ninnau a chwmnïau cyfleustodau eraill yn debygol o’u hwynebu, gyda’r tywydd eithafol yn rhoi pwysau ar ein gwasanaethau i lefel nas gwelwyd o’r blaen.

AR ÔL STORM EMMA

Yn mis Mawrth 2018, gwelodd rhannau mawr o’r ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu eira mawr, tymheredd yn cyrraedd y rhewbwynt ac yna ddadlaith cyflym gan amharu ar wasanaethau am gyfnod hir i rai cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig, mwy anghysbell. Er i’r rhan helaeth (97%) o’n cwsmeriaid barhau i gael eu cyflenwad drwy gydol y cyfnod hwn, gwnaethom wynebu her yn cynnal ac yn adfer cyflenwadau i leiafrif mewn ardaloedd a brofodd y gwaethaf o’r tywydd garw.

Yn sgil adroddiadau gan Ofwat, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, a’r eiriolwr defnyddwyr, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, ar gyfer y diwydiant cyfan, rydym yn buddsoddi mewn systemau dadansoddi data a monitro mwy anghysbell er mwyn helpu ein rhwydwaith i wrthsefyll y mathau hyn o ddigwyddiadau yn well, gan hefyd wella ymhellach ein gallu i ymateb i achosion o amharu ar gyflenwadau mewn ardaloedd mwy anghysbell.

TYWYDD SYCH

Yn ystod haf 2018, profodd ein rhwydwaith gyfnod sych nas gwelwyd o’r blaen a roddodd bwysau ar ein hadnoddau dŵr, ac a ofynnodd i’n cydweithwyr “fynd gam ymhellach” am gyfnod hir er mwyn sicrhau bod cyflenwadau yn cael eu cynnal ledled yr ardaloedd a wasanaethwn.

Hwn oedd y mis Mehefin poethaf ers dechrau cadw cofnodon yng Nghymru – dim ond 24% o lawiad cyfartalog hirdymor a gafwyd yn ystod y mis. Bu prinder glaw am ddeufis wedyn – gan olygu y bu’n rhaid i ni wario £1.5m ychwanegol yr wythnos i ddiogelu cyflenwadau dŵr i’n cwsmeriaid. Er mwyn helpu i ateb yr her hon, cafodd cwsmeriaid eu hannog i ddefnyddio dŵr yn gynnil ac yn ddoeth.

Pan oedd y cyfnod sych ar ei anterth, cafwyd llifau isel iawn yn ein hafonydd a gododd bryderon y byddai ansawdd dŵr a’r amgylchedd yn dioddef petai’r tywydd sych yn parhau drwy gydol yr haf.

MEWN NIFEROEDD

- Gweithiodd **450 o bobl saith diwrnod yr wythnos** yn ystod y cyfnod o lawiad isel er mwyn canfod a **thrwio 140 o ollyngiadau'r dydd** (byddai oddeutu 80 o ollyngiadau'r dydd fel rheol).
- Mae nifer y **gollyngiadau** i lawr 50% **dros y ddau ddegawd diwethaf**.

- Gwnaethom ddefnyddio **40 o danceri i symud dŵr o amgylch y rhwydwaith** a **gosodwyd gorsafoedd pwmpio** a **phiblinellau dros dro** er mwyn helpu i **gynnal cyflenwadau cwsmeriaid** er gwaethaf y cynnydd mawr mewn galw mewn rhai ardaloedd

- Gwnaethom bwmpio **dros 1 biliwn o litrau'r dydd** i mewn i'r rhwydwaith dros **gyfnod y tywydd sych** – **20% yn fwy na'r** swm arferol o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r rhwydwaith bob dydd



**Plymwyr yng Nghwm Dulyn
yng Ngwynedd**

STORM CALLUM

Fis Hydref, profodd rhannau o Gymru y llifogydd gwaethaf mewn 30 mlynedd, gyda'r glaw trwm yn arwain at lifogydd a effeithiodd ar lawer o gartrefi a busnesau mewn rhai ardaloedd. Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a de Powys a brofodd y gwaethaf o Storm Callum.

Ni welwyd y fath ddigwyddiad difrifol o'r blaen – gyda mis o law mewn 48 awr, cofodd y storm ei ddosbarthu'n llai tebygol na digwyddiad 1 mewn 250 mlynedd mewn rhai rhannau o'r de. Gorlifodd Afon Tywi gan dorri drwy amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerfyrddin, a pharhaodd rhybuddion llifogydd y Swyddfa Dywydd yn eu lle ledled Cymru am sawl diwrnod.

Er i'r amodau hyn beri heriau i'n rhwydwaith dŵr gwastraff mewn ardaloedd a brofodd law mawr, nodwyd i'n buddsoddiad yn GlawLif, sef cynllun draenio cynaliadwy £114m yn Llanelli, tref a oedd wedi profi problemau gyda'i rhwydwaith carthffos Fictorianaid a charthffosydd yn gorlifo, helpu'r dref i osgoi llifogydd sylweddol. Mae'r buddsoddiad yn defnyddio dulliau naturiol i ddargyfeirio dŵr glaw o'r system garthffos, gan ei arafu a'i ddargyfeirio i afonydd a chysiau dŵr, neu i'r pridd ei hun yn lle hynny.

Yn wahanol i stormydd blaenorol, ni phrofodd unrhyw eiddo lifogydd yn Llanelli, diolch i effeithiolrwydd ein buddsoddiad yno. Mae ein system fodelu gyfrifiadurol ni'n hunain hefyd yn dangos, heb GlawLif, y byddai mwy na 100 eiddo wedi profi llifogydd fwy na thebyg.

SUT RYDYM YN GWEITHIO GYDA CHI

Yn ogystal â darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff – rydym yn rhan o'r cymunedau a wasanaethwn.

Fel un o'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb i geisio gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell na'r hyn oedd.

Dyna pam mae gennym nifer o brosiectau i gefnogi a hysbysu ein cwsmeriaid a diogelu a gwella'r byd o'n cwmpas.

ADDYSG

Rydym yn ymrwymedig i barhau i wella pibellau, diogelu'r amgylchedd ac edrych am ffyrdd newydd o wneud pethau. Rydym hefyd am ysbrydoli cenedlaethau iau drwy weithio gydag ysgolion ac addysgu am werth dŵr. Eleni, mae mwy na 68,000 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn ein rhaglen addysg.

Mae ein tîm addysg, a leolir yn ein pedair Canolfan Addysg (yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Cilfynydd, Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog, Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig a Chanolfan Ymwelwyr Cwm Elan), yn cwmpasu pynciau fel:

- Ymwybyddiaeth o werth dŵr a'r rôl rydym yn ei chwarae yn y cymunedau a wasanaethwn
- Annog newid ymddygiad o ran effeithlonrwydd dŵr a chamdddefnyddio carthffosydd
- Gweithio gyda sefydliadau fel STEM Cymru a Chynllun Addysg Peirianeg Cymru er mwyn annog pobl ifanc i ddilyn gyrfa yn y diwydiant dŵr, yn enwedig merched ifanc.

Eleni, cyrhaeddodd y tîm garreg filltir anhygoel – cyrraedd hanner miliwn o blant drwy ymweld ag ysgolion a diwrnodau yn ein Canolfannau Addysg ers i ni ddod yn gwmni nid er elw yn

2001. Bwriadwn ddatlu hyn gyda digwyddiad arbennig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn mis Gorffennaf 2019.

Y GRONFA GYMUNEDOL

Ym mis Medi 2017, gwnaethom lansio prosiect cyffrous newydd – Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru. Bwriadwyd i'r Gronfa roi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau rydym yn buddsoddi ynddynt a chefnogi prosiectau sy'n elwa'r ardaloedd hynny – gan eu gwneud yn iachach, gwella llesiant, neu helpu'r amgylchedd.

Yn y flwyddyn wedyn, rydym yn falch o ddweud i ni ddyfarnu bron £60,000 i gymunedau ledled Cymru, Swydd Henffordd a Glannau Dyfrdwy, gan gefnogi 157 o wahanol brosiectau gyda hyd at £1,000 yr un. Rydym hefyd wedi rhoi mwy na 3,200 o'n poteli Dŵr y gellir eu haildefnyddio i ddigwyddiadau a grwpiau.

- *Cyllid yn helpu i greu cae rygbi newydd â llifoleuadau yng Nghlwb Rygbi Nant Conwy*

Gwnaethom gyfrannu at brosiect ar gyfer Clwb Rygbi Nant Conwy yn y gogledd i dalu am gae rygbi newydd â llifoleuadau ym Mhant Carw, Trefriw, gan gynnwys cyfraniad o'r Gronfa Gymunedol. Mae'r prosiect cyffrous hwn yn rhoi cyfleuster newydd sbon i'r gymuned leol yng nghanol Dyffryn Conwy.

- *Disgyblion Trelech y diweddaraaf i ymuno â menter Milltir Ddyddiol*

Yn dilyn blwyddyn o godi arian, mae cymuned Ysgol Gynradd Trelech yn y gorllewin wedi lansio'r Filltir Ddyddiol, sef menter sy'n annog disgyblion i adael yr ystafell ddosbarth am 15 munud y dydd er mwyn rhedeg neu loncian, ar eu cyflymder eu hunain, gyda'u cyd-ddisgyblion. Cafodd yr ysgol

gyllid gan y Gronfa Gymunedol er mwyn ei helpu i gwblhau llwybr drwy dir yr ysgol. Mae'r llwybr yn golygu y gall y plant gwblhau'r Filltir Ddyddiol – ni waeth beth fo'r tywydd.

- *Plant dan 7 oed yn cael cyllid i brynu cit newydd gan Gronfa Gymunedol Dŵr Cymru*

Ar ôl gwneud cais i Gronfa Gymunedol Dŵr Cymru, derbyniodd chwaraewyr pêl-droed ifanc Siarcod Dan 7 Cyffordd Llandudno gyllid i brynu cotiau hyfforddi newydd ar gyfer y tîm cyfan. Mae'r Siarcod yn dîm o blant chwech a saith oed, gyda'r tîm cyfan yn newydd i bêl-droed.



WATERAID A'R PRINCE'S TRUST

Mae ein hymrwymiad i wella'r byd o'n cwmplas yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r ardaloedd a wasanaethwn – cefnogwn gymunedau yn Wganda er mwyn creu systemau dŵr a dŵr gwastraff cynaliadwy a diogel a darparu addysg hylendid.

Mae hyn yn cysylltu â nod WaterAid i helpu pawb ymhob man erbyn 2030. Dyna pam mae Dŵr Cymru wedi bod yn cefnogi WaterAid ers 1981 – pan wnaethom ei gydsefydlu â gweddill y diwydiant. Erbyn hyn mae ein cyflogeion a'n cwsmeriaid wedi rhoi mwy na £1m i gefnogi gwaith WaterAid a darparu gweithgareddau allgymorth ysgol rheolaidd gyda gwersi ysgol yn seiliedig ar ein Pentref Wgandaidd sydd wedi'i ail-greu yng Nghilfynydd, sy'n dangos pa mor bell mae'n rhai i bobl Wganda gario dŵr i'w cartrefi. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae cydweithwyr wedi codi mwy na £77,000 ar gyfer WaterAid drwy nifer o weithgareddau codi arian, gan gynnwys ein trydedd noson rasio ar gae rasio Cas-gwent, ein hail Ddawns WaterAid a lluo o weithgareddau chwaraeon a chodi arian unigol.

Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi'r Prince's Trust, sef elusen sy'n helpu pobl ifanc agored i niwed i ailafael yn eu bywydau. Mae'n cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 11 a 30 oed sy'n ei chael hi'n anodd yn yr ysgol ac mewn perygl o gael eu gwahardd, neu sy'n ddi-waith. Mae'r bartneriaeth hon wedi cynnwys cydweithwyr yn codi arian drwy "Million Makers" – ac mae ein tîm o raddedigion wedi codi mwy na £26,000 drwy nifer o weithgareddau codi arian, gan gynnwys ras 10km, cinio gala ac ocsiwn, a Diwrnod Golff.

Mae ein Cronfa Gymunedol hefyd yn addo cyfateb unrhyw arian a godir gan ein cydweithwyr ar gyfer WaterAid a'r Prince's Trust hyd at swm o £15,000 yr un y flwyddyn, tra bod cyflogeion unigol yn gallu hawlio hyd at £200 o arian cyfatebol am eu hymdrechion elusennol eu hunain.

BUDDSODDI MEWN CANOLFANNAU YMWELWYR

Cafodd Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien yng ngogledd Caerdydd eu caffael gan Dŵr Cymru ddechrau 2016, gyda'r nod

o'u hadfer a'u hogor i'r cyhoedd. Ynghyd â gwaith cynnal a chadw a diogelwch helaeth ar y safle, rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r gymuned leol ar y safle dros nifer o flynyddoedd – gan arwain at gais cynllunio i'w gyflwyno yn ystod haf 2019. Mae'r cois hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu agor y safleoedd i'r gymuned leol ac ymwelwyr, gan gynnwys amrywiaeth o gyfleusterau hamdden. Mae hyn wedi dilyn gwaith adfer helaeth ar y ddwy gronfa ddŵr.

Mae Cronfa Ddŵr Llys y Frân yn Sir Benfro hefyd wedi cael sêl bendith i wneud gwaith ailddatblygu mawr ar y safle, a gefnogir gan gyllid o Gronfa Datblygu Ewrop drwy Croeso Cymru. Mae'r cynlluniau – sy'n anelu at wireddu ein huchelgais o greu cychfan twristiaeth o'r radd flaenaf ar fewndir Sir Benfro – yn cynnwys creu parc hamdden a chanolfan weithgareddau a fydd yn denu rhyw 40,000 o breswylwyr lleol, pobl sy'n dwli ar yr awyr agored a thwristiaid ychwanegol bob blwyddyn. Mae'r cynlluniau yn cynnwys gwaith i adnewyddu ac ehangu'r ganolfan ymwelwyr ac adnewyddu'r caffi yn llwyr gydag ardal chwarae dŵr newydd. Bydd Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored a Chaban Glan y Dŵr newydd hefyd yn cael eu hadeiladu ar gyfer cerddwyr, beicwyr a'r rhai sy'n dwli ar chwaraeon dŵr.

Mae ein safleoedd ym Mrenig, Llandegfedd a Chwm Elan yn parhau i fod yn boblogaidd gyda chwsmeriaid, ac yn chwarae rhan bwysig yn ein gweithgareddau addysgol i blant ac oedolion, yn ogystal â darparu ased hamdden amhrisiadwy. Yn 2018-19 ymwelodd cyfanswm o 557,000 (2017-18: 485,000) o ymwelwyr â'n canolfannau. Rydym yn targedu cynnydd mewn ymwelwyr i 830,000 erbyn 2024-25.



SUT RYDYM YN GWNEUD

Er mwyn ein helpu i fesur ein perfformiad, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015-2020 yn cynnwys wyth “canlyniad” allweddol rydym am eu cyflawni erbyn 2015 i’n cwsmeriaid, cymunedau a’r amgylchedd ehangach. Seilir y canlyniadau hyn ar flaenoriaethau ein cwsmeriaid o’n hymgyngoriad yn 2013.

MESUR LLWYDDIANT ‡		TARGED OFWAT 2018-19	2018-19 ALLDRO VS TARGED OFWAT	2017-18	ALLDRO 2018-19	2018-19 VS BLWYDDYN FLAENOROL	TARGED CYNLLUN BUSNES 2019-20	AR Y TRYWYDD IAWN I GYFLAWNI TARGED 2020?
1	DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL							
A1A*	Diogelwch Dŵr Yfed (% Cydymffurfiaeth)	-	-	99.98%	99.98%	✓	99.99%	✓
A1B*	Diogelwch Dŵr Yfed (Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig)	100%	✗	99.96%	99.97%	✓	99.98%	✓
A2*	Derbynioldeb i gwsmeriaid (cysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth)	-	-	2.79	2.98	✗	2.40	✗
A3	Dibynadwyedd y Cyflenwad (Munudau Cwsmeriaid a Gollir)	12	✗	43.3	16.04	✓	12	✓
2	DIOGELU'R AMGYLCHEDD							
B1	Tynnu Dŵr i'w ddefnyddio	100%	✓	100%	100%	✓	100%	✓
B2*	Trin dŵr gwastraff	100%	✗	98.21%	99.64%	✓	99%	✓
B3A*	B3a Atal llygredd (nifer y digwyddiadau yn ymwneud â llygredd)	-	-	115	123	✗	112	✓
B3b*	B3b Atal llygredd (digwyddiadau llygredd categori 3 yn unig)	131	✓	112	118	✗	112	✓
3	YMATEB I NEWID HINSAWDD							
C1	Ymateb i newid hinsawdd	20,000	✗	15,097	15,967	✓	25,000	✓
C2	Ôl troed carbon (Gwh o ynni glân)	85	✓	97.89	85.02	✗	125	✓

* Wedi ei fesur yn ôl y flwyddyn galendr (mis Ionawr 2018 i fis Rhagfyr 2018). Mesurir canlyniadau eraill yn ôl y flwyddyn ariannol (mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019).

‡ Ceir diffiniad o bob Mesur Llwyddiant yn Atodiad 1 ar dudalennau 172 a 173.

† Nid yw'r alldro terfynol ar gael tan fis Gorffennaf 2019.

Gellir gweld cymhariaeth fanwl o'n perfformiad cyffredinol ar rai mesurau allweddol yn erbyn perfformiad cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill yn discoverwater.org

MESUR LLWYDDIANT ‡		TARGED OFWAT 2018-19	ALLDRO 2018-19 VS TARGED OFWAT	2017-18	ALLDRO 2018-19	2018-19 VS BLWYDDYN FLAENOROL	TARGED CYNLLUN BUSNES 2019-20	ARY TRYWYDD IAWN I GYFLAWNI TARGED 2020?
4 GWASANAETH CWSMERIAID								
D1	Dull Cymell Gwasanaeth (SIM)	Chwarter uchaf	†	85	87	✓	Chwarter uchaf	✓
D2	Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd mewn Perygl	550	✗	613	641	✗	425	✓
D3	Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	282	✓	221	221	✓	222	✓
D4a	Bodddhad Cwsmeriaid Busnes (%)	-	-	88	89	✓	88	✓
D4b	Bodddhad Cwsmeriaid Annomestig (%)	90	✗	87	88	✓	88	✓
D5	Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid (%)	71	✓	84	85	✓	85	✓
5 BILIAU FFORDDIADWY								
E1	Biliau Fforddiadwy (% islaw chwyddiant)	-1	✓	-2	-2	✓	-1	✓
E2	Cymorth i Gwsmeriaid dan Anfontais*	-	-	105,864	125,152	✓	100,000	✓
6 GOFALU AM EIN HASEDAU								
F1	Defnyddioldeb Asedau	Sefydlog (x4)	✓	Sefydlog (x4)	Sefydlog (x4)	✓	Sefydlog	✓
F2	Gollyngiadau Dŵr (MI y dydd)	171	✓	172.9	169.5	✓	169	✓
F3	Cydnherthedd Asedau (Dŵr)*	85	✓	90.4	90.2	✗	89	✓
F3	Cydnherthedd Asedau (Dŵr Gwastraff)	76	✓	77.5	79	✓	78	✓
7 DATBLYGU AC AMDDIFFYN EIN POBL								
G1	Digwyddiadau RIDDOR	-	-	14	8	✓	10	✓
G2	Cymhwysedd yn y Rôl (%)	-	-	82	85	✓	95	✓
8 BUSNES EFFEITHLON								
H2	Effeithlonrwydd Cyllid (statws credyd)*	-	-	A/A2/A	A/ A2Neg/ ANeg	✗	A/A3/A	✓

* Ar 5 Mehefin 2019 ailgodarnhaodd Fitch ei radd A (â rhagolwg negyddol).

CANLYNIAD



DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL

“CYFLENWI DŴR YFED DIOGEL, O ANSAWDD UCHEL BOB AMSER YW EIN CYFRIFOLDEB PWYSICAF”

PIBELLAU DŴR AR DRAWS EIN HARDAL

27,500km

GWAITH TRIN DŴR

63

BUDDSODDIAD MEWN DŴR 2018-19

£180m

DIOGELWCH DŴR YFED

Mae ein perfformiad o ran cynnal a gwella ansawdd cyffredinol dŵr yfed wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ein rhoi mewn sefyllfa gyffredinol gwell na'r cyfartaledd ar gyfer y diwydiant yng Nghymru a Lloegr, sef 99.97% o gydymffurfiaeth gyfartalog â phroffion dŵr yfed (2017:99.96%). Mae ein perfformiad wrth gydymffurfio â'r safonau yn ein gwaith trin dŵr wedi parhau'n sefydlog ar y cyfan, gyda thri methiant o ran ansawdd dŵr yn ystod y flwyddyn – ond mae hyn yn cynrychioli dirywiad o gymharu â'n canlyniad gorau erioed yn 2017 (dim methiant).

DERBYNIOLDEB I GWSMERIAID

Mae blwyddyn o dywydd eithafol wedi effeithio ar ein hymdrechion i wella perfformiad mewn perthynas â rhai mesurau gwasanaeth cwsmeriaid. Er enghraifft, yn sgil y cyfnod hir o sychder dros yr haf – gan gynnwys y mis Mehefin poethaf o gofnodwyd yng Nghymru erioed – a'r ymdrechion i ganfod ac atgyweirio gollyngiadau, cynyddodd nifer yr achosion o gysylltu â ni gan gwsmeriaid ynghylch golwg, blas

ac arogl eu dŵr (Derbynioldeb i Gwsmeriaid), gan fod amharu ar bibellau yn gallu troi lliw dŵr. Yn ystod y cyfnod sych, roeddem hefyd yn ychwanegu biliwn litr o ddŵr at y system bob dydd – i fyny 20% o gymharu â'r swm arferol. Cynyddodd nifer y cwynion i 2.98 fesul 1,000 o gwsmeriaid, o gymharu â'n perfformiad gwell o 2.79 yn 2017.

Rydym yn ailddyblu ein hymdrechion i sicrhau bod ansawdd dŵr yfed yn gallu gwrthsefyll heriau'r tywydd a methiannau asedau yn well, ond gall digwyddiadau fel prif bibellau dŵr yn byrstio effeithio ar olwg a blas dŵr. Rydym wedi parhau i ymdrin â'r mater hwn drwy ein rhaglen "Astudiaethau Parthol", sy'n glanhau ac yn newid pibellau dŵr mewn ardaloedd sy'n profi'r nifer fwyaf o achosion o amharu ar y gwasanaeth neu droi lliw dŵr, gan gynnwys Ynys Môn, Swydd Henffordd, a rhannau sylweddol o ardal Maerdy-Pontypridd. Mae'r prosiectau hyn yn gwella dibynadwyedd y cyflenwad dŵr yn ddramatig, ond maent hefyd yn diogelu ansawdd dŵr yfed, ac felly'n helpu i leihau nifer y cysylltiadau gan gwsmeriaid a gawn ynghylch golwg, blas neu

1	DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
A1A*	Diogelwch Dŵr Yfed (% Cydymffurfiaeth)	99.98%	99.98%	✓
A1B*	Diogelwch Dŵr Yfed (Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig)	99.96%	99.97%	✓
A2*	Derbynioldeb i gwsmeriaid (cysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth)	2.79	2.98	✗
A3	Dibynadwyedd y Cyflenwad (Munudau Cwsmeriaid a Gollir)	43.3	16	✓

arogl y dŵr, a gyrhaeddodd 10,172 y llynedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi £180m, sef y swm uchaf erioed, er mwyn helpu i wella dibynadwyedd ein cyflenwadau.

Rydym wedi buddsoddi symiau sylweddol – £20.5m dros y flwyddyn ddiwethaf – i leihau nifer y gollyngiadau ar draws ein rhwydwaith, er mwyn gwella ein heffeithlonrwydd a lleihau costau i'n cwsmeriaid. Er gwaethaf tywydd heriol 2018, rydym wedi lleihau nifer y gollyngiadau o flwyddyn i flwyddyn – gan adeiladu ar ein hanes cryf o leihau gollyngiadau ar draws ein rhwydwaith.

DIBYNADWYEDD Y CYFLENWAD

Mae dibynadwyedd y cyflenwad yn bwysig i'n cwsmeriaid – a rheolwn ein rhwydwaith bob dydd er mwyn ceisio sicrhau nad yw unrhyw heriau gweithredol rydym yn dod ar eu traws yn effeithio ar gyflenwad cwsmeriaid. Fodd bynnag, weithiau bydd amgylchiadau sydd y tu allan i'n rheolaeth yn effeithio ar gyflenwad cwsmeriaid – yn enwedig o dan amodau tywydd anodd. Rydym wedi profi nifer o ddigwyddiadau gweithredol yn 2018-19 sydd wedi effeithio ar wasanaeth cwsmeriaid. Ymhlith y rhain roedd byrstiad mawr wrth

ffordd yr A4077 yng Nghrucywel ym mis Awst, a effeithiodd ar Wyl Green Man gerllaw, byrstiad ym Mharc Cinnel ym mis Tachwedd ac atgyweiriad heriol wrth Waith Trin Dŵr Cwrmtyleri ym mis Chwefror. Wynebwyd her sylweddol hefyd wrth atgyweirio prif bibell a wnaeth fyrstio yn ardal Radyr, Caerdydd ym mis Ionawr, a achoswyd gan ddifrod gan gcontractiwr cyfleustodau trydydd parti. Rydym wedi cyflwyno cynllun "Cynllunio a Diogelu" newydd, a fydd yn anelu at leihau'r difrod i'n hasedau gan drydydd partion drwy greu tîm dynodedig o gydweithwyr i ddelio ag ymholiadau gan gwsmeriaid a chontractwyr sydd am weithio'n agos at ein rhwydwaith neu sydd angen help i nodi ble mae'r asedau hyn.

Gall yr amodau tywydd yn ystod y cyfnod o lawiad isel iawn yn yr haf a Stormydd Bronagh a Callum yn yr hydref hefyd effeithio ar amodau tir gan arwain at fwy o brif bibellau yn byrstio. Cafodd yr amodau tywydd hyn hefyd effaith ar ein hymdrechion i barhau â'n cynnydd wrth leihau "munudau cwsmeriaid a gollir" i gyflenwad dros y flwyddyn. O ganlyniad, ni wnaethom gyflawni ein targed o 12 munud a gollir fesul cwsmer yn ystod 2018/19 – y perfformiad gwirioneddol oedd 16 munud a gollir fesul cwsmer, a oedd yn welliant sylweddol o hyd ar y 43 munud a gollir fesul cwsmer

y flwyddyn flaenorol lle cafodd 'Storm Emma' effaith fawr. Mae'r mesur hwn yn dibynnu ar y tywydd yn sylweddol, ond wrth i ni barhau i fuddsoddi yn y gwaith o adsefydlu a newid prif bibellau dylem fod yn gallu rheoli effaith y tywydd ar yr asedau hyn yn well.

PIBELLAU MEWN ARGAEU

Mae ein rhaglen "Pibellau mewn Argaeau" arloesol wedi parhau yn 2018-19. Mae hyn wedi sicrhau bod ein hargaeau – y cafodd rhai ohonynt eu hadeiladu yn y cyfnod Fictoriaidd a'r cyfnod Edwardaidd – yn barod i ateb heriau newid hinsawdd am genedlaethau i ddod. Nod y prosiect, lle buddsoddir £350m dros 3 chyfnod AMP, yw uwchraddio pibellau lle bo angen yn y cronfeydd dŵr a'r argaeau ledled yr ardaloedd a wasanaethwn, fel eu bod yn gallu gwrthsefyll yr heriau a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd. Mae'r dull o adeiladu argaeau, fel Caban Coch yng Nghwm Elan a Thal-y-bont ar Wysg ym Mannau Brycheiniog, yn golygu ei fod yn fater cymhleth rydym yn debygol o'i wynebu'n amlach yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn bwriadu gwneud gwaith yn argaeau Coed Gwent (Casnewydd), Castell Nos (Cwm Rhondda) a Brenig (Sir Ddinbych) dros y flwyddyn i ddod.

ASTUDIAETH ACHOS



Plymwyr yn gweithio yng nghronfa ddŵr Tal-y-bont ar Wysg

ARGAE TAL-Y-BONT

Ym mis Hydref, gwnaethom gwblhau gwaith ar foderneiddio argae Tal-y-bont ar Wysg ym Mannau Brycheiniog, gwerth £10 miliwn, gan ddefnyddio plymwyr a cherbydau ymsuddol a weithredir o bell dros sawl mis er mwyn uwchraddio'r pibellau y tu mewn i'r argae, wrth hefyd gynnal cyflenwadau dŵr yfed i fwy na 44,000 o gartrefi. Defnyddiwyd tîm plymio arbenigol er mwyn cyflawni gwaith cymhleth a heriol – gwaredu rhannau o'r bibell a oedd yn pwyso sawl tunnell, a hynny heb allu gweld braidd dim. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys grwpiau o'n timau Diogelwch Argaeau a Chyflawni Cyfalaf, gyda chymorth Lewis Civil Engineering, a Gwasanaethau Plymio Edwards a leolir yng Nghaerffili, yn ogystal â Gwasanaeth Achub Pyllau Glo.

CANLYNIAD

2

DIOGELU'R
AMGYLCHEDD

“YN OGYSTAL Â DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD
NATURIOL PRYDFERTH, RHAID I NI HEFYD WELLA'R
ARDALOEDD RYDYM YN GWEITHIO YNDDYNT”

GWAITH TRIN DŴR GWASTRAFF

835

PIBELLAU CARTHFFOS AR DRAWS
EIN HARDAL

36,000km

GWARIANT BLYNYDDOL AR
DDADFLOCIO CARTHFFOSYDD

£7m

TRIN DŴR GWASTRAFF

Er gwaethaf amodau tywydd hynod heriol dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth ein perfformiad amgylcheddol yn trin dŵr gwastraff i'r safonau gofynnol wella yn ystod y flwyddyn, ac rydym wedi cyflawni ein canlyniad cydymffurfio â phrawf dŵr gwastraff gorau erioed am ddychwelyd dŵr gwastraff yn ddiogel i'r amgylchedd ar 99.64% (2017:98.21%), gan ragori ar ein perfformiad gorau blynyddol o 99.47% yn 2016. Gwnaethom hefyd gyflawni ein perfformiad cydymffurfio gorau erioed ym maes gwaith trin dŵr gwastraff, gyda dim ond dau fethiant dros y flwyddyn (2017-18: 10). O'r holl achosion o lygredd y cawsom wybod amdanynt, neu o gofnodwyd gennym, daeth mwyafrif sylweddol o'n system garthffosiaeth (73) yn hytrach na'n gwaith trin dŵr gwastraff, gan ddangos effaith gwell cydymffurfiaeth yn y gwaith.

Mae'r gwelliant hwn mewn perfformiad yn dilyn buddsoddiad o £217m yn ein rhwydwaith dŵr gwastraff – gan helpu i sicrhau'r gwelliant er gwaethaf heriau sylweddol y cyfnod hir o dywydd sych a glaw mawr yn 2018.

ATAL LLYGREDD

Mae achosion o lygredd ymhlith y digwyddiadau mwyaf difrifol rydym yn delio â nhw – boed hynny ar eiddo cwsmer, neu o'n rhwydwaith ein hunain. Felly, rydym yn buddsoddi er mwyn lleihau'r rhain cymaint â phosibl – gan gyfuno gwella perfformiad ein rhwydwaith carthffos â mentrau i helpu cwsmeriaid i ddeall effaith eu hymddygiad eu hunain ar iechyd ein carthffosydd a'r amgylchedd.

Mae ein hymgyrch Stop Cyn Creu Bloc yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o effaith blociadau ar ein rhwydwaith, ein gallu i fuddsoddi er mwyn ein cwsmeriaid, ac ar yr eiddo y mae'r blociadau yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at y ffordd rydym yn delio â thua 2,000 o flociadau'r mis ar draws ein rhwydwaith, gan gostio bron £7m y flwyddyn i fynd i'r afael â nhw. Mae ymchwil gan Water UK wedi dangos bod y mwyafrif helaeth (93%) o flociadau ledled Cymru a Lloegr yn cael eu hachosi gan weips gwlyb y labelir yn anghywir y gellir eu fflysio. Parhawn i ledaenu'r negeseuon allweddol

2	DIOGELU'R AMGYLCHEDD	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
B1	Tynnu Dŵr i'w ddefnyddio	100%	100%	✓
B2*	Trin dŵr gwastraff	98.21%	99.64%	✓
B3A*	B3a Atal llygredd (nifer y digwyddiadau yn ymwneud â llygredd)	115	123	✗
B3b*	B3b Atal llygredd (digwyddiadau llygredd categori 3 yn unig)	112	118	✗

ynghylch atal blociadau ar draws ein rhwydwaith o Ganolfannau Addysg ac yn uniongyrchol i gwsmeriaid drwy hysbysebion ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn rhannol oherwydd y gwaith hwn, rydym wedi gweld llai o flociadau mewn carthffosydd o 22,612 yn 2017-18 i 21,979 yn 2018-19, sef gostyngiad o 3%, tra bod ein perfformiad ers 2015 hyd heddiw wedi gweld gostyngiad o 19%.

Mewn blwyddyn heriol o dywydd eithafol, yn enwedig y sychder dros sawl mis yn yr haf, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o lygredd i 123 yn y flwyddyn (2017: 115). Gwnaeth nifer y digwyddiadau Categori 1 a 2 mwyaf difrifol hefyd gynyddu gyda 5 yn ystod y flwyddyn (2017: 3).

Gwnawn bopeth y gallwn i ddiogelu'r amgylchedd – ac rydym wedi buddsoddi swm enfawr yn ein rhwydwaith dŵr gwastraff ers 2001 er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar y byd o'n cwrmpas. Ond weithiau bydd pethau yn mynd o chwith. Ym mis Medi gwelsom ddigwyddiad llygredd Categori 1 (y mwyaf difrifol) yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Pum Rhyd ger Wrecsam, ar ôl i garthffrwd a oedd wedi'i drin yn rhannol gael ei ryddhau'n ddamweiniol o danc storm yn ystod gwaith i geisio diogelu'r amgylchedd yn well ar y safle, a arweiniodd at ladd nifer fawr o bysgod ar hyd rhan o Afon Clywedog. Digwyddodd hyn ar ôl digwyddiad difrifol blaenorol ym mis Gorffennaf yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Felindre, ger Abertawe, lle gwnaeth achos

damweiniol o ollwng cemegau (calch) ladd tua 400 o bysgod i lawr yr afon ar y safle. Yn y ddau achos, gwnaed gwaith adferol brys ar y safle, ac rydym wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ein bod yn cymryd camau i atal damweiniau o'r fath yn y dyfodol. Ymddiheurwn am fethu ag atal y ddau ddigwyddiad hyn.

DŴR YMDROCHI: Mae Cymru yn parhau i arwain gweddill y DU o ran ansawdd dŵr ymdrochi, gan dderbyn 44 o Faneri Glas ar gyfer traethau ac 86 o Wobrau Glan Môr y llynedd (2017: 47 o Faneri Glas ar gyfer traethau). Caiff y dyfarniadau hyn eu rhoi i draethau sy'n cyflawni nifer o feini prawf, gan gynnwys mesurau ar ansawdd dŵr, rheoli'r amgylchedd, diogelwch a gwasanaethau.

ASTUDIAETH ACHOS



Gweithwyr yng Ngheir Fôr-forwyn, Bae Caerdydd

CEI'R FÔR-FORWYN

Mae ardal fasnachol Cei'r Fôr-forwyn ym Mae Caerdydd yn dangos yr her a wynebwn pan gaiff deunyddiau amhriodol eu golchi i ffwrdd neu eu fflysio i mewn i'r system garthffosiaeth. Rydym yn buddsoddi £2 filiwn i uwchraddio'r system garthffos yn yr ardal, ar ôl cael gwybod am achosion mewnol lleol o orlifo lle mae pobl wedi arllwys braster, oled a saim i lawr y sinc sydd wedi creu "mynyddoedd o fraster" yn y garthffos. Gall glanhau mwy rheolaidd i glirio'r deunyddiau hyn dreulio hen garthffosydd yn

gyflym – a dyna o ddigwyddodd yng Ngheir Fôr-forwyn.

Ar y cam cychwynnol, rydym wedi cael gwared ar symiau enfawr o fraster, oled a saim o'r carthffosydd sydd wedi dymchwel. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud mewn ardal fasnachol brysus sydd â nifer o fwytai a bariau, felly rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda pherchenogion er mwyn lleihau'r amharu a achosir gan ein gwaith cymaint â phosibl.

Dyweddodd Karen Jones o Fabulous Welsh Cakes ym Mae Caerdydd: "Ers i Dŵr Cymru gysylltu â mi am y gwaith, mae fy mhrofiad wedi bod yn un cadarnhaol ar y cyfan. Mae wedi bod yn wych cael rhywun ar y safle sy'n taro draw bob dydd er mwyn sicrhau nad effeithir arnom ormod. Rwy'n deall mai braster a saim, a phethau na ddylid eu fflysio i lawr y toiled, sydd wedi achosi hyn, felly mae'n hollbwysig bod y gwaith yn cael ei wneud nawr fel nad ydym yn wynebu rhagor o broblemau."

CANLYNIAD



YMATEB I NEWID HINSAWDD

“RYDYM YN BLAENGYNLLUNIO FEL BOD EIN GWASANAETHAU YN GALLU GWRTHSEFYLL HERIAU MWYAF NEWID HINSAWDD YN Y DEGAWDAU I DDOD”

PANELI SOLAR AR EIN SAFLEOEDD

24,000

YR YNNI A GYNHYRCHIR O’N CYFLEUSTERAU PROSESU LLAID

39GwH

YR YNNI A GYNHYRCHIR O’N FFYNONELLAU ADNEWYDDADWY EIN HUNAIN

17%

Elfen allweddol o strategaeth Dŵr Cymru 2050 yw ymateb i dywydd fwyfwy anwadal a thueddiadau amgylcheddol sy’n rhoi llawer o straen ar ein gwasanaethau dŵr o dŵr gwastraff. Mae gan yr ardal a wasanaethwn arfordir mawr, a nifer o ardaloedd a ystyrir yn rhai o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn y DU. Bydd yr ardaloedd hyn yn ogored iawn i effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd yn y degawdau i ddod.

Roedd y cyfnod hir o dywydd sych a brofwyd yng Nghymru’r llynedd yn enghraifft dda o’r math o her mae’r Cwmni yn ei hwynebu dros y degawdau nesaf - y cyfnod sych hir yn rhoi pwysau ar adnoddau dŵr ledled yr ardaloedd a wasanaethwn. Mewn ymateb bu’n rhaid i ni ddefnyddio adnoddau ychwanegol er mwyn mynd i’r afael â gollyngiadau a symud symiau mawr o ddŵr o amgylch ein rhwydwaith naill ai mewn tanceri neu drwy ailbennu parth y rhwydwaith fel nod amharwyd ar gyflenwad ein cwsmeriaid. Yn dilyn y digwyddiad heriol hwn, rydym wedi diweddaru a diwygio ein cynllun sychder – sy’n amlinellu ein strategaeth i reoli gweithrediadau dros gyfnod sych hir.

CREU BUSNES CYDNERTH

Rydym yn ymrwymedig i greu busnes a all ateb heriau newid hinsawdd – o sychder i lifogydd – sy’n debygol o ddod yn llawer mwy cyffredin dros y degawdau nesaf. Bydd glaw mawr yn arwain at fwy o berygl o lifogydd a llygredd, a rhagwelir hafau mwy sych a phoeth, a allai arwain at fwy o alw am ddŵr a chyflenwadau dŵr diffygiol.

Mesur allweddol o’n perfformiad rhwymedigaethol i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd yw faint o ddŵr wyneb sy’n mynd i mewn i’n carthffosydd ac, yn benodol, faint o ddŵr rydym yn ei ddargyfeirio o’r rhwydweithiau carthffos. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ein systemau Draenio Trefol Cynaliadwy GlawLif, a osodwyd gennym yn Llanelli ac ardal Grangetown, Caerdydd, sy’n cadw neu’n dargyfeirio dŵr wyneb yn y dirwedd a fyddai fel arall yn mynd i mewn i’r rhwydwaith carthffos.

Yn 2018-19, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn yr ardaloedd hyn, gan gael gwared ar ddŵr ffô yn dilyn glaw o ardal sy’n cyfateb i 15,967 o doeon cartrefi o’r system garthffos, i fyny o’r

3	YMATEB I NEWID HINSAWDD	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
C1	Ymateb i newid hinsawdd	15,097	15,967	✓
C2	Öl troed carbon (GWh o ynni glân a gynhyrchir)	97.89	85.02	✗

15,097 a gafwyd yn 2017-18. Gyda GlawLif bellach yn dod yn rhan annatod o'n cynlluniau datblygu ar draws y busnes, bwriadwn gynnal a chyflymu'r gwelliant hwn yn y blynyddoedd i ddod er mwyn diogelu mwy o gwsmeriaid rhag effeithiau llifogydd dŵr wyneb.

Gyda mwy na 36,000km o garthffosydd ar draws ein hardal weithredu — a adeiladwyd yn aml yn ystod oes Fictoria — bydd lleddfu'r pwysau ar ein rhwydwaith yn bwysicach nag erioed wrth i ni deimlo effeithiau newid hinsawdd.

ÔL TROED CARBON

Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi dod yn rhan fwyfwy pwysig o'n strategaeth ynni — gan adlewyrchu'r pwyslais mae Dŵr Cymru yn ei roi ar sicrhau bod ei asedau mor garbon-niwtral â phosibl. Er enghraifft, gwnaethom

gaffael y sofle Gwastraff Bwyd i Ynni yn Nhremorfa, Caerdydd ym mis Rhagfyr 2017, sy'n cynhyrchu ynni ar gyfer Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dwyrain Caerdydd, sydd drws nesaf, gan ddiwallu tua 53% o anghenion ynni'r gwaith yn uniongyrchol o ynni gwyrdd. Caiff yr ynni ei gynhyrchu drwy dreulio anerobig y gwastraff bwyd a gesglir gan gwsmeriaid yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, o dan gytundeb â'r cynghorau lleol.

Mae'r ymrwymiad hwn i ffyrdd glanach a gwyrddach o weithio wedi arwain at gyflawni cyfanswm o 85GWh o ynni adnewyddadwy (sy'n cyfateb i 98GWh o ynni adnewyddadwy yn 2017-18). Er y cynnydd hwn mewn ynni adnewyddadwy, gostyngodd ein lefel o hunangynhaliad eleni i 18% (2017-18: 20%) gan fod y defnydd o drydan gros gan ein hasedau ar ei uchaf ers 2010,

yn bennaf oherwydd y tywydd eithafol (Storm Emma, sychder yr haf a Storm Callum). Cynyddodd ein defnydd gros i 480GWh (defnydd arferol: 460GWh y flwyddyn). Gweler ein hadroddiad ar Ynni ar dudalen 114 am ragor o wybodaeth.

BIOAMRYWIAETH

Hefyd, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo bioamrywiaeth ar draws ein safleoedd. Eleni, ni oedd y corff cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi ein cynllun gweithredu bioamrywiaeth yn unol â rhwymedigaethau Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

ASTUDIAETH ACHOS



Draenio cynaliadwy
yn Llanelli

STORM CALLUM A GLAWLIF

Un o'n prif ymdrechion i drechu effeithiau newid hinsawdd fu buddsoddi mewn atebion naturiol i leihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd i mewn i'n system garthffos yn Llanelli — ardal sy'n gweld bron cymaint o ddŵr storm yn ei rhwydwaith ag Abertawe, er bod rhwydwaith Abertawe yn

gwasanaethu deirgwaith nifer yr eiddo, ac yn cwmpasu deirgwaith yr ardal ddaearyddol.

Mae cynllun GlawLif sy'n werth £114 miliwn wedi bod ar waith ers 2013 er mwyn cyflwyno atebion naturiol i stopio, ailgyfeirio ac arafu dŵr storm rhag mynd i mewn i rannau amrywiol o'r system garthffos, gan gynnwys pantiau adeiladu, planwyr a phalmentydd athraidd. Talodd yr

ymdrechion hyn ar eu canfed yn yr hydref, pan arweiniodd Storm Callum at law mawr iawn mewn ychydig ddiwrnodau, o'r llifogydd gwaethaf yng Nghymru mewn 30 mlynedd ledled Sir Gaerfyrddin.

Fodd bynnag, ni phrofodd unrhyw eiddo yn Llanelli lifogydd mewnol yn ystod y digwyddiad hwn, a dangosodd ein gwaith modelu y gallai 100 fod wedi dioddef llifogydd oni bai am GlawLif.

CANLYNIAD



GWASANAETH CWSMERIAID RHAGOROL

“DRWY GAEL EIN HARWAIN GAN EIN CWSMERIAID GALLWN GANOLBWYNTIO’N GYFAN GWBL AR DDARPARU’R GWASANAETHAU GORAU POSIBL, A CHEFNOGI’R RHAI SYDD ANGEN CYMORTH FWYAF”

GWASANAETH CWSMERIAID I GWSMERIAID BUSNES MAWR

1af yn
y categori manwerthwyr bach

SGÔR AM FODDHAD CWSMERIAID BUSNES

89%

SGÔR AM YMDDIRIEDAETH CWSMERIAID

85%

Ein gweledigaeth fel Cwmni yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Mae gweithredu mewn ffordd a arweinir gan ein cwsmeriaid wrth wraidd ein ffordd o weithio – gweithiwn er budd y cwsmeriaid y sefydlwyd ein Cwmni nid er cyfranddalwyr i’w gwasanaethu.

BODDHAD CWSMERIAID

Ar hyn o bryd, prif ddangosydd boddhad cwsmeriaid yw’r Dull Cymell Gwasanaeth (SIM), sef arolwg chwarterol gan Ofwat i fesur barn cwsmeriaid am ein gwasanaeth pan fu’n rhaid iddynt gysylltu â ni. Fel rhan o hyn, cyfwelir â chwsmeriaid sydd wedi cysylltu â ni pan aeth rhywbeth o chwith â’u gwasanaeth, a chwsmeriaid sydd wedi cysylltu â ni am resymau eraill.

Yn sgil perfformiad SIM eleni, daeth y Cwmni yn drydydd o blith yr 11 o gwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2018-19 (2017-18: 5ed) gyda sgôr o 4.47 (o gymharu â chyfartaledd o 4.55 ar gyfer pob cwmni dŵr a dŵr gwastraff). Mae hyn yn ganlyniad da, ond newidir y mesur yn AMP7.

Ym mis Ionawr, gwnaethom lansio strategaeth Manwerthu 2025 – sy’n dangos sut y byddwn yn gwella profiad ein cwsmeriaid o’n swyddogaethau bilio, casglu dyledion a gwasanaeth cwsmeriaid. Bwriadwn drawsnewid ein “profiad digidol” i gwsmeriaid, yn seiliedig ar swyddogaeth ar-lein “Fy Nghyfrif”, a fydd yn ein galluogi i gynnig gwasanaeth sydd wedi’i deilwra’n fwy. Byddwn hefyd yn gwneud pethau’n haws ac yn fwy effeithlon i’n darllenwyr mesurwyr drwy ddefnyddio technoleg newydd.

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd da wrth leihau nifer y cwynion sy’n dod i law. Yn 2018-19, cawsom 3,491 o gwynion ysgrifenedig – i lawr o 3,862 yn 2017-18.

O 2019 ymlaen, caiff SIM ei ddisodli gan fesurau profiadau cwsmeriaid: C-MeX - i gwsmeriaid preswyl, D-MeX i gwsmeriaid sy’n ddatblygwyr, a B-MeX i gwsmeriaid busnes. Bydd y mesurau newydd hyn yn cyfuno ymchwil i brofiad cwsmeriaid sydd wedi cael cyswllt uniongyrchol â ni, a’r rhai nad ydynt wedi gorfod cysylltu â ni ond sydd â barn am y Cwmni serch hynny.

4	GWASANAETH CWSMERIAID	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
D1	Dull Cymell Gwasanaeth (SIM)†	85	87	✓
D2	Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd mewn Perygl‡	613	641	✗
D3	Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	221	221	✓
D4a	Boddhad Cwsmeriaid Busnes (%)	88	89	✓
D4b	Boddhad Cwsmeriaid Annomestig (%)	87	88	✓
D5	Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid (%)	84	85	✓

GWASANAETHAU I GWSMERIAID SYDD MEWN PERYGL

Rhown bwyslais mawr ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl bob amser. Ond gwyddom nad ydym yn llwyddo i wneud hyn bob amser, a bod rhai cwsmeriaid wedi profi achosion o amharu ar eu gwasanaethau neu fethiannau annerbyniol ein gwasanaeth. Mae mynd i'r afael â'r mathau hyn o fethiannau ymhlith ein cyfrifoldebau pwysicaf – a buddsoddw'n gryn dipyn yn ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Mae'n siomedig ein bod wedi gweld cynnydd eleni yn nifer y cwsmeriaid sydd "mewn perygl" o ddioddef problemau mynych fel amharu ar y cyflenwad dŵr, troi lliw dŵr, arogl dŵr yfed, neu garthffos yn gorlifo – i 641 (2017-18: 613 mewn perygl). Mae hyn yn adlewyrchu canolfannau poblogaeth newidiol ac effaith y tywydd garw yn ystod y flwyddyn.

LLIFOGYDD

Carthion yn gorlifo i mewn i eiddo cwsmeriaid yw'r math gwaethaf o fethiant gwasanaeth a all ddigwydd – ac rydym yn ymrwymedig i wneud popeth y gallwn er mwyn atal hyn. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn atebion GlawLif mewn ardaloedd fel Llanelli yn Sir Gaerfyrddin a Grangetown yng Nghaerdydd, lle mae lefelau uchel o ddŵr wyneb yn mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffos, gan beri'r risg o orlwytho carthffosydd sy'n gorlifo i mewn i eiddo cwsmeriaid.

Fodd bynnag, oherwydd sawl achos o dywydd gwael yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y glaw mawr a gafwyd odeg Storm Callum a Storm Bronagh yn ystod hydref 2018, ni wnaethom lwyddo i leihau nifer y llifogydd a ddisgwyliwyd gennym, felly dros y flwyddyn cafwyd 221 o ddigwyddiadau, yr un nifer â 2017-18.

BODDHAD CWSMERIAID BUSNES AC ANNOMESTIG

Mae Dŵr Cymru yn darparu gwasanaethau i fwy na 100,000 o gwsmeriaid busnes yng Nghymru a rhannau cyfagos o Loegr. Ein blaenoriaeth fu gwella ein perfformiad a lleihau costau i'n cwsmeriaid busnes. Mae'r lefel o foddhad â'n gwasanaeth ymhlith busnesau ac yn gyffredinol wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, ar 88%, gan wella o'n perfformiad o 87% yn 2017-18. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ei adroddiad "Testing the Waters", a nododd foddhad o 90% am wasanaeth cwsmeriaid ar gyfer cwsmeriaid busnes yng Nghymru, o gymharu â 69% yn Lloegr.

Yn dilyn cyflwyno'r farchnad gystadleuol ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid busnes ym mis Ebrill 2017, mae tua 100 o'r defnyddwyr mwyaf o ddŵr yng Nghymru wedi gallu dewis eu manwerthwr dŵr. Mae'r mwyafrif helaeth (93) wedi dewis aros gyda ni fel eu manwerthwr hyd yn hyn. Gwnaeth Gweithredwr y Farchnad (MOSL) ein rhoi yn y safle cyntaf am wasanaeth cwsmeriaid gan fanwerthwyr bach ar gyfer cwsmeriaid busnes mawr yn ei adroddiad blynyddol ar berfformiad y farchnad yn 2018-19.

ENNYN YMDDIRIEDAETH CWSMERIAID

Mae ymddiriedaeth yn hollbwysig i lwyddiant ein model gweithredu. Awgryma tystiolaeth o bob rhan o'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr fod ein ffordd o weithio yn ennyn mwy o ymddiriedaeth ymhlith ein cwsmeriaid nag ar gyfer unrhyw gwmni dŵr arall. Cadarnhawyd hyn ym mis Awst 2018, pan wnaeth ymchwil annibynnol gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr nodi mai ni oedd y gorau am lefelau o ymddiriedaeth cwsmeriaid. Hefyd, datgelodd yr astudiaeth mai ni, unwaith eto, oedd y cwmni gorau yng Nghymru a Lloegr o ran gwerth am arian a boddhad cwsmeriaid.

Rydym hefyd yn cynnal ein harolwg ein hunain bob blwyddyn er mwyn olrhain lefelau o ymddiriedaeth dros amser, a all ein helpu i olrhain p'un a ydym yn bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid. Eleni, cynyddodd y lefel ychydig i 85% (2017-18: 84%) – sy'n galonogol o ystyried y ffaith ein bod wedi delio â nifer o sefyllfaoedd gweithredol heriol, yn enwedig y cyfnod sych hir yn yr haf a Stormydd Bronagh a Callum yn yr hydref, a roddodd bwysau sylweddol ar ein timau gweithredol ac a arweiniodd at fwy o achosion o gwsmeriaid yn cysylltu â ni. Gallwch ddarllen mwy am faint o bwysau fu ar ein timau ar dudalennau 22 a 23, ynghyd ag effeithiau prosiect GlawLif ar atal llifogydd yn ystod Storm Callum ar dudalen 33.

ASTUDIAETH ACHOS



Cymradleddwyr yn ein digwyddiad Cwsmeriaid Agored i Niwed yng Nghaerdydd

CWSMERIAID AGORED I NIWED

Ym mis Tachwedd 2018, gwnaethom lansio ein strategaeth ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed – gan nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud i helpu cwsmeriaid sydd angen cymorth fwyaf. Fel rhan o'r strategaeth, rydym yn

bwriadu cynyddu nifer y cwsmeriaid ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth dros 100,000, sef bedair gwaith, erbyn 2025 a gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn helpu i nodi'r cwsmeriaid hynny y gall fod angen cymorth ymarferol ychwanegol arnynt. Rydym hefyd yn targedu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n cael cymorth

ariannol, drwy ein hamrywiaeth o dariffau cymdeithasol a mesurau eraill, i dalu eu biliau dŵr – i 150,000 o 125,000 ar hyn o bryd.

Mae'r ddogfen strategaeth yn nodi ein hymrwymiadau i weithio gyda chwmnïau cyfleustodau eraill a sefydliadau cymunedol er mwyn adnabod y cwsmeriaid hynny sydd angen cymorth ychwanegol a nodi arwyddion eu bod yn agored i niwed. Rydym wedi addo sefydlu tîm cymorth arbenigol a gaiff ei hyfforddi i adnabod arwyddion bod yn agored i niwed, er mwyn i'r ffordd hon o weithio ddod yn rhan o'n cysylltiadau beunyddiol â chwsmeriaid.

CANLYNIAD



BILIAU FFORDDIADWY

“EIN CYFRIFOLDEB YW SICRHAU BOD EIN GWASANAETHAU
YN Fforddiadwy I’N HOLL GWSMERIAID – A BOD Y RHAI
SYDD WIR ANGEN CYMORTH YN EI GAEL”

CARTREFI INCWM ISEL SY’N
CAEL CYMORTH ARIANNOL

dros 120,000

CAP AR FILIAU BLYNYDDOL
I GWSMERIAID HELPU

£200

ADENILLWYD MEWN CAMAU
YN ERBYN CWSMERIAID SY’N
GWRTHOD TALU

£9.1m

Mae gennym gyfrifoldeb i’n holl gwsmeriaid i daro’r cydbwysedd cywir rhwng buddsoddi yn ein gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod o’r ansawdd gorau, a sicrhau bod y pris a godwn yn deg ac yn fforddiadwy i bob un o’n 13 miliwn o gwsmeriaid.

Ystyriwn ein bod yn fwy na chwmni dŵr yn unig – rydym am fod wrth wraidd ein cymunedau a sicrhau buddiannau hirdymor i’r ardaloedd a wasanaethwn. Ond gwyddom fod rhai o’r ardaloedd a wasanaethwn ymhlith y mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn y DU a bod llawer o gartrefi wir yn ei chael hi’n anodd talu eu biliau – ac rydym yn ymrwymedig i’w helpu cymaint â phosibl.

**CYMORTH I
GWSMERIAID DAN
ANFANTAIS**

Nid oes neb arall yn y sector yn helpu cwsmeriaid sydd wir angen help i dalu eu biliau cymaint â ni – darparwn gymorth ariannol i fwy o bobl nag unrhyw gwmni dŵr arall. Ni hefyd yw un o’r cwmnïau prin hynny sy’n defnyddio ein helw i ariannu tariffau cymdeithasol – ac rydym wedi hen ragori ar ein targed ar gyfer 2020 o helpu 100,000 o gwsmeriaid gyda thariffau o’r fath. Rydym bellach yn helpu 25% yn fwy na’r targed hwnnw, gyda 125,000 o gartrefi incwm isel ar dariffau cymdeithasol neu’n cael mathau eraill o gymorth ariannol fel

5	BILIAU Fforddiadwy	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
E1	Biliau Fforddiadwy (Cartrefi) % islaw chwyddiant)	-2	-2	✓
E2	Cymorth i Gwsmeriaid Dan Anfantaish	105,864	125,152	✓

HelpU i gyfyngu ar eu biliau. Eleni, gwnaethom ddefnyddio £7m o elw'r Cwmni i helpu cwsmeriaid agored i niwed yn y ffordd hon – dywedodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fod hyn yn rhywbeth y dylai cwmnïau eraill ei wneud hefyd, ac ychwanegodd fod buddsoddi elw yn cyflawni "fairer balance in terms of funding assistance for those struggling to pay".

BILIAU FFORDDIADWY I BAWB

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gynnydd mewn prisiau yn deg ac yn fforddiadwy. Yn 2010, gwnaethom sicrhau ein cwsmeriaid ein bod yn bwriadu cyflwyno degawd o gynnydd mewn prisiau ym mil cyfartalog cartrefi a fyddai islaw cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu. Ym mis Chwefror 2019, gwnaethom gadarnhau ein bod wedi cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, gyda gostyngiad o 2%

yn y bil cyfartalog mewn termau real ar gyfer 2019-20. Mae hyn yn golygu, yn 2019-20, y disgwylir i'r bil fod £88 yn is nag y byddai wedi bod petai biliau cyfartalog wedi codi yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu. Ein huchelgais yw adeiladu ar hyn dros y pum mlynedd nesaf, gyda'n cynlluniau ar gyfer PR19 yn nodi cynnig i gyflwyno gostyngiad pellach o 5%, mewn termau real, yn y bil cyfartalog rhwng 2020 a 2025 – gostyngiad o ryw £22 (cyn chwyddiant).

ASTUDIAETH ACHOS



Anelwn at greu pum Cymuned Cydnorth o ran Dŵr erbyn 2025

PROSIECTAU PEILOT CYMUNEDAU CYDNERTH O RAN DŴR

Mewn ardaloedd lle mae ein buddsoddiad mewn asedau yn cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol, rydym yn herio ein hunain i gynnwys cwsmeriaid mewn ffordd nad ydym wedi'i wneud o'r blaen, sy'n atgyfnerthu pŵer ein presenoldeb yn y gymuned, yn cysoni ein gweithgareddau er mwyn diwallu anghenion lleol ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn

greu gwaddol o effaith fuddiol lle mae ein gwaith yn cael effaith sylweddol ar gymuned. Dangosir hyn gan y gwaith rydym wedi'i gynnal yn ardal Rhondda Fach dros y flwyddyn ddiwethaf (gweler tudalen 16) a bwriadwn gyflwyno hyn mewn pum ardal arall dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys lansiad'r cam nesaf yn 2020-2022 yn Rhymni-Bargoed yn y de a'r Rhyl yn y gogledd.

Prif ffocws i'n prosiect cymunedol yn ardal Rhondda Fach fu nodi'r cwsmeriaid hynny a allai fod yn gymwys am gymorth ariannol, a

gweithio gyda sefydliadau trydydd sector, fel Cymdeithas Tai Trivallis a Neuadd Les Pendyrus, i sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd cynifer o gwsmeriaid cymwys â phosibl, er mwyn eu hannog i wneud cais. Gwyddom fod darparu cymorth ariannol er mwyn lleihau biliau i gwsmeriaid sy'n cael trafferthion ariannol yn lleihau'r tebygolrwydd o fethu â thalu. Yn ei dro mae hyn yn gostwng lefel y taliadau drwgddyledion sy'n ein helpu i gadw biliau ar lefel y gall ein holl gwsmeriaid ymdopi â hi.

CANLYNIAD



GOFALU AM EIN HASEDAU

“BYDDWN YN BUDDSODDI MEWN CYNNAL EIN RHWYDWAITH DROS YR HIRDY MOR”

GWERTH BUDDSODDIADAU CYFALAF 2018-19

£452m

GWERTH AMCANGYFRIFEDIG ASEDAU

£23bn

BUDDSODDI MEWN GWAITH TRIN DŴR NEWYDD YM MRYN COWLYD

£31m

Mae'r rhwydwaith rydym yn ei gynnal i wasanaethu dros 3 miliwn o bobl yn eang. Gweithredwn 835 gwaith trin dŵr gwastraff, 63 gwaith trin dŵr, tua 36,000km o garthffosydd, a mwy na 27,500km o bibellau dŵr. Amcangyfrifir y byddai'n costio £23 biliwn i ddisodli'r rhwydwaith hwn, petai angen gwneud hynny nawr.

Felly, mae gennym gyfrifoldeb mawr i sicrhau bod yr asedau hyn yn para am flynyddoedd lawer, ac yn cyrraedd y safon orau bosibl. Mae ein rhaglen buddsoddi cyfalaf wedi cyrraedd ei lefelau uchaf erioed dros y flwyddyn ddiwethaf – tua £452m neu £1.2m y dydd (2017-18: £430m), sy'n adlewyrchu'r flaenoriaeth rydym yn ei rhoi i sicrhau bod rhwydwaith Dŵr Cymru mewn sefyllfa fwy cadarn mewn 30 mlynedd nag yw nawr.

DEFNYDDIOLDEB ASEDAU

Asesir yr ardal hon gan nifer o fesurau allweddol a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro'r modd rydym yn buddsoddi yn ein hasedau. Rhoddir sgôr "gwella", "sefydlog", "ymylol", neu "gwaethygu" i gwmnïau. Ar gyfer 2018-19,

cawsom sgôr "sefydlog" ar gyfer pob mesur – nid yw hyn wedi newid ers 2017-18.

GOLLYNGIADAU

Rydym yn ymrwymedig i leihau'n sylweddol faint o ddŵr a gollir o'n rhwydwaith bob blwyddyn – a gwnaethom fuddsoddi £20.5m yn 2018-19 i sicrhau bod cyn lleied o ollyngiadau â phosibl am fod hyn yn bwysig i'n cwsmeriaid. Fodd bynnag, gwnaeth y tywydd anwadal yn 2018 olygu na fu modd i ni adeiladu ar gynnydd blaenorol wrth leihau gollyngiadau o'n rhwydwaith gyda'r tywydd sych yn amharu ar hynny, a faint o ddŵr roedd angen ei ychwanegu at y rhwydwaith er mwyn cynnal cyflenwadau yn cymhlethu'r gwaith, sy'n ei gwneud yn anos nodi gollyngiadau. Diolch i waith caled timau o bob rhan o'r busnes, a'n cwsmeriaid wrth ymateb i'n ceisiadau i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon dros fisoedd yr haf, gwnaethom unwaith eto ostwng ein lefel o ollyngiadau i 169.5ML y dydd (o 172.9ML y dydd y llynedd).

Mae gollyngiadau wedi lleihau 50% ers 1994-95 pan oedd yn 413ML y dydd ar gyfartaledd.

6	GOFALU AM EIN HASEDAU	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
F1	Defnyddioldeb Asedau	Sefydlog (x4)	Sefydlog (x4)	✓
F2	Gollyngiadau (ml y dydd)	172.9	169.5	✓
F3	Cydnorthedd Asedau (Dŵr)	90.4	90.2	✗
F3	Cydnorthedd Asedau (Dŵr Gwastraff)	77.5	79	✓

CYDNERTHEDD ASEDAU (DŴR)

Mae buddsoddi yn ein hasedau dŵr yfed yn flaenoriaeth allweddol, gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn bodloni disgwyliadau uchel ein cwsmeriaid – gan fod dŵr yfed glân ymhlith y pethau pwysicaf mae ein cwsmeriaid yn eu gwerthfawrogi o blith ein holl wasanaethau. Rydym yn buddsoddi cryn dipyn yn y gwaith o sicrhau bod ein hasedau – gan gynnwys ein rhwydwaith dosbarthu pibellau dŵr helaeth a'n 63 gwaith trin dŵr – yn bodloni meini prawf llym ein rheoleiddwyr. Mae'n galonogol bod ein sgôr cydnherthedd asedau wedi parhau'n sefydlog ar y cyfan ar 90.2 allan o 100 eleni (2017-18: 90.4).

CYDNERTHEDD ASEDAU (DŴR GWASTRAFF)

Mae llawer o'n rhwydwaith o garthffosydd yn dyddio'n ôl i Oes Fictoria – gyda'r holl rhwydwaith yn 36,454km o hyd, sydd bron yn ddigon hir i deithio o amgylch y blaned. Mae'n her fawr sicrhau bod y rhwydwaith hwn yn parhau i ddiwallu anghenion y cymunedau a wasanaethwn, a'i fod yn gallu ateb heriau newid hinsawdd a ddisgwyilir dros y degawdau nesaf.

Bob blwyddyn yn ystod 2015-2020 rydym wedi buddsoddi £217m mewn cyflawni gweithgareddau fel adnewyddu pibellau carthffos a gwella gweithrediad ein gwaith trin dŵr gwastraff. Rydym yn falch o nodi i'n perfformiad wella ymhellach eleni, gan sgorio 79 allan o 100 (2017-18: 77.5 am gydnherthedd asedau) yn erbyn set o feini prawf safonol.

ASTUDIAETH ACHOS



Daeth safle newydd Bryn Cowlyd yn weithredol ddechrau 2019

BRYN COWLYD

Ein buddsoddiad mwyaf ar safle unigol yn 2015-2020 oedd y buddsoddiad cyfalaf yng Ngwaith Trin Dŵr Bryn Cowlyd yn y gogledd. Dechreuodd y gwaith ym Mryn Cowlyd yn Nolgarrog ddechrau 2016 a chafodd ei gwblhau yn 2018.

Cynlluniwyd y gwaith o uwchraddio'r gwaith trin dŵr, sy'n werth £31 miliwn, i gyrraedd safonau ansawdd dŵr fel y'u pennwyd gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, gwneud y gwaith yn fwy cydnherth yng nghyd-destun lleihau'r perygl o lifogydd o'r afon gyfagos, a gwella'r cyflenwad dŵr i hyd at 100,000 o bobl yn Llandudno, Bae Colwyn, Conwy

a'r ardaloedd cyfagos. Fel rhan o'r gwaith codwyd adeiladau prosesau glanhau dŵr, tanciau storio, gorsaf pwmpio storm, adeilad generadur ac adeilad dosio cemegau. Bydd cynllun yr adeilad newydd yn helpu i ddiogelu ansawdd uchel y cyflenwad a'r amgylchedd yn yr ardal. Daeth y gwaith newydd yn weithredol ddechrau 2019.

CANLYNIAD



DATBLYGU AC AMDDIFFYN EIN POBL

“BYDDWN YN MEITHRIN AC YN DATBLYGU EIN
GWEITHLU I FOD YN DDIOGEL, YN IACH AC YN
HAPUS – AC I FOD YN GENHADON GWYCH”

CYFLOGEION

3,630

GRADDEDIGION A
YMUNODD 2018-19

8

PRENTISIAID A YMUNODD 2018-19

28

Fel y pumed cwmni mwyaf yng Nghymru, ac â 3,630 o gydweithwyr ledled pob ardal, mae gennym gyfrifoldeb enfawr i'r bobl sy'n cynrychioli Dŵr Cymru ledled y cymunedau a wasanaethwn. Ein pobl yw ein hasedau a'n cenhadon mwyaf, ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein gweithlu yn ddiogel, yn iach ac yn hapus yn gweithio yn Dŵr Cymru.

Ein blaenoriaeth fwyaf i'n cydweithwyr yw eu llesiant a'u diogelwch yn y gwaith, ac anelwn at sicrhau bod diwylliant "diogelwch yn gyntaf" yn rhan o bopeth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi llesiant emosiynol ein cydweithwyr a sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant y tu allan i'r gwaith, yn ogystal â sicrhau eu bod bob amser yn ddiogel ar safleoedd gweithredol ac mewn swyddfeydd.

IECHYD A DDIOGELWCH

Mae ein perfformiad iechyd a diogelwch am y flwyddyn yn galonogol ac yn adlewyrchu gwaith caled y Cwmni cyfan i feithrin diwylliant adrodd rhagweithiol a ffordd o feddwl diogelwch yn gyntaf ar gyfer pob rôl yn y Cwmni. Mae nifer y digwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013) – anafiadau y mae angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) amdanynt – wedi lleihau o 14 y llynedd i 8 yn ystod y flwyddyn, sef y lefel isaf erioed, fel y dangosir yn y tabl isod. Fodd bynnag, ystyriwn fod unrhyw anaf difrifol un yn ormod - a byddwn yn parhau i ymdrechu i gyrraedd ein prif nod o sicrhau nad oes unrhyw anafiadau lle collir amser o'u herwydd. Mae ein Hadroddiad Iechyd a Diogelwch blyneddol ar gael yn: <https://www.dwrcymru.com/handsreport>

NIFER Y DIGWYDDIADAU RIDDOR

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
Cyfanswm	24	21	24	23	20	19	12	14	8

Yn ystod 2018-19, canolbwyntiwyd yn benodol ar annog ein cyflogeion a'n contractwyr i Ymyrryd yn Gadarnhaol a chymryd camau lle gwelir Gweithredoedd neu Amodau Anniogel. Nodwyd dros 55,000 o ymyriadau, sy'n gynydd o fwy nag 20% ers 2017-18. Credwn fod cymryd camau i fynd i'r afael â'r peryglon a'r ymddygiadau anniogel hyn wedi orwain at atal rhai digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd a gallent hefyd fod wedi atal damweiniau ac anafiadau.

7	DATBLYGU AC AMDDIFFYN EIN POBL	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
G1	Digwyddiadau RIDDOR	14	8	✓
G2	Cymhwysedd yn y Rôl	82%	85%	✓

CYMHWYSEDD YN Y RÔL

Er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid, rhaid i ni gefnogi a datblygu pob aelod o'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pawb yn cyrraedd eu potensial llawn. Cynhaliwn adolygiadau rheolaidd ar draws ein busnes er mwyn nodi pa sgiliau sydd gennym a ble mae angen i ni gau bylchau. Mae ein sgôr bresennol am "cymhwysedd yn y rôl" (lle caiff unigolion eu mesur yn erbyn rhestr o sgiliau/gwybodaeth ar gyfer eu rôl benodol sydd wedi'i diffinio ymlaen llaw) wedi cynyddu'n galonogol eleni i 85%, gan wella ar sgôr 2017-18 o 82%, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod newydd-ddyfodiad yn cael eu hyfforddi o'u huchwsgilio er mwyn datblygu cymhwysedd llawn.

CYNWYSOLDEB

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn Dŵr Cymru yn gallu dathlu pwy ydynt yn y gwaith a'n bod yn creu amgylchedd cynhwysol sy'n croesawu pawb. Heriwn ein hunain i adeiladu ar ein llwyddiant wrth gynyddu amrywiaeth ein gweithlu er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn well.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sefydlog wrth sicrhau bod mwy o ferched yn gweithio yn Dŵr Cymru, ac wrth ateb heriau hirsefydledig i ddenu merched i swyddi sydd wedi'u cysylltu â dynion yn draddodiadol. Mae hyn wedi arwain at weld mwy o ferched yn gwneud cais am swyddi graddedigion a phrentisiaid, yn ogystal â gweld bron traean o'n gweithlu nawr yn cynnwys

merched (cynnydd o 17% ddegawd yn ôl). Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda chwmnïau eraill ar draws y sector cyfleustodau er mwyn cynyddu amrywiaeth – a adlewyrchir yn ymrwymiad y sector cyfan i gynhwysiant a gafodd ei lansio ym mis Chwefror eleni drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ynni a Chyfleustodau. Yn draddodiadol, nid yw merched, pobl ag anableddau, y gymuned BAME (pobl Dduon, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig) na phobl ifanc o dan 24 oed wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y sector ynni a chyfleustodau, o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

Rydym am greu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu'n llawn. Gwyddom mai cwmnïau â gweithluoedd cynhwysol ac amrywiol sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau – am eu bod yn gallu manteisio ar yr holl dalent sydd ar gael yn eu cymunedau. Ein huchelgais yw sicrhau nad oes unrhyw fwch cyflog rhwng y rhywiau – her sy'n gofyn i ni drechu tueddiadau hirsefydledig lle mae rhai meysydd o'n gwaith wedi'u dominyddu gan ddynion.

Mae'n galonogol bod ein bwllch cyflog canolrif o 6.7% yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019, ac mae wedi lleihau ers 2018 (2017-18: 7.5%). Fodd bynnag, gwnaeth ein bwllch cyflog cymedr godi i 7.7% yn 2018-19 (2017-18: 5.8%), a ddeilliadd yn bennaf o newid i strwythur a chyfrifoldebau

ar lefel uwch-swyddog gweithredol. Arweiniodd y newid hwn at gael effaith untro ar y ffigurau, a gobeithiwn y bydd yn lleihau eto yn y blyneddoddi ddod. Mae gennym gynllun amlwg ar waith i annog mwy o amrywiaeth ar bob lefel o'r busnes, ond yn enwedig i sicrhau bod y merched hynny sydd eisoes wedi'u cyflogi yn y busnes yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn wahanol i egwyddor cyflog cyfartal – mae pob dyn a menyw yn Dŵr Cymru yn cael cyflog cyfartal am wneud gwaith cyfartal. Gwnaethom gyhoeddi ein ffigurau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2018 ar 1 Ebrill 2019.

[> DARLLENWCH FWY AR-LEIN YN: DWRCYMRU.COM/COMPANYLIBRARY](#)

YMGYSYLLTU Â CHYFLOGEION

Rydym yn falch o fod wedi gallu cynnal ein sgôr ymgysylltu uchaf erioed yn ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion blyneddol, sef 80% (2018: 80%), sy'n adlewyrchu ymdrechion sylweddol i sicrhau bod ein cyflogeion yn cael dweud eu dweud ar y ffordd rydym yn gweithio a'r diwylliant rydym yn ei greu gyda'n gilydd yn Dŵr Cymru. Roedd hyn ochr yn ochr â'n cyfradd ymateb uchaf erioed i'r arolwg ymgysylltu â chyflogeion blyneddol o 83.4% (fymryn yn uwch na'r ffigur ymateb o 83% y llynedd). Roedd y ffigurau yn sylweddol uwch na'r meincnod sector preifat. Ein her yw cynnal hyn ac adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf, sydd wedi gweld y sgôr honno yn cynyddu o sgôr ymgysylltu o 71% (2015-16).

ASTUDIAETH ACHOS



BUDDSODDWYR MEWN POBL AUR

Mae ennill gwobr Buddsoddwyr Mewn Pobl ym mis Awst yn adlewyrchu ein hymrwymiad i berfformiad uchel drwy ymgysylltu â'n pobl; fe'i rhoddir i gwmnïau sy'n dangos eu bod yn rhoi eu pobl yn gyntaf er mwyn gwneud y cwmni yn lle gwych i weithio i bawb. Roeddem wedi anelu at ennill gwobr Arian, ond cawsom wobwr Aur – a gyflawnwyd gan ond 7% o'r holl fusnesau BMP sydd wedi'u hachredu ledled y DU. Deilliadd y wobwr hon o ymdrech barhaus ar draws y busnes.

CANLYNIAD



BUSNES EFFEITHLON

“BYDD EIN BUSNES YN GRYF, YN
GYNALIADWY AC YN CAEL EI REDEG
ER BUDD EIN CWSMERIAID”

ELW O DDOSBARTHU GWERTH A
GYHOEDDWDYD YM MIS MEHEFIN 2018

£40m

LEFEL GERIO BRESENNOL

58%

ANFONEBAU CYFLENWYR A
DALWYD O FEWN 30 DIWRNOD

90%

Fel yr unig gwmni dŵr nid er elw yng Nghymru a Lloegr mae gennym safbwynt unigryw a ffocws hirdymor – gallwn gynllunio ein buddsoddiadau dros ddegawdau, yn hytrach na'r byrdymor. Yn unol â'n cynllun buddsoddi gwerth £1.7 biliwn y cytunwyd arno ar gyfer 2015–2020, rydym wedi buddsoddi'r symiau mwyaf erioed yn ein rhaglenni cyfalaf dros y flwyddyn ddiwethaf, gan greu cyfanswm o £452m (2017-18: £430m), wrth i ni geisio cynnal a gwella'r gwasanaethau a ddarparwn i gwsmeriaid. Gallwn wneud hyn ar y cyfraddau llog isaf erioed ar gyfer cwmni cyfleustodau yn y DU, wrth i ni fwynhau'r sgoriau credyd cryfaf yn y diwydiant, yn rhannol diolch i'n statws nid er elw. Mae'r statws hwn wedi ein galluogi i barhau â'n hymrwymiad hirdymor i ailfuddsoddi'r arian a wnawn yn ôl yn y busnes er budd cwsmeriaid – gydag ymrwymiad ym mis Mehefin 2018 i fuddsoddi £40m arall mewn gwasanaethau a chymorth ar gyfer ein cwsmeriaid mwyaf agored i niwed: arian a fyddai'n mynd i gyfranddalwyr mewn busnesau eraill. [gweler tudalen 16 am ragor o fanylion].

Rydym yn gyfrifol, nid yn unig am sicrhau ein bod yn darparu

gwasanaethau heddiw i safon uchel ac am bris fforddiadwy, ond am redeg ein busnes mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau ei fod mor gryf ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

EFFEITHLONRWYDD CYLLID (STATWS CREDYD)

Mae'r sgôr credyd sydd gan Dŵr Cymru yn hanfodol i'n dull gweithredu a arweinir gan gwsmeriaid – mae sgôr gref yn golygu y gallwn fenthycu arian i'w fuddsoddi ar gyfraddau llog isel a sicrhau'r gwerth mwyaf i'n cwsmeriaid. Mae ein lefel gerio wedi cynyddu i 58%, o lefel uchel o 93% pan wnaeth Glas Cymru gaffael Dŵr Cymru yn 2001, gan adlewyrchu ein hymdrechion wrth feithrin ein cydnorthedd ariannol er mwyn gwella hyfywedd y Cwmni yn yr hirdymor.

Mae ein sgoriau credyd gan y prif asiantaethau credyd – Moody's (A2), Standard & Poor's (A) a Fitch (A) – wedi aros yn weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall, ac, fel y gorau yn y sector, mae'n adlewyrchu hyder parhaus buddsoddwyr yn Dŵr Cymru fel buddsoddiad hirdymor. Fodd bynnag, gwnaeth

8	BUSNES EFFEITHLON	2017-18	2018-19	18-19 vs 17-18
H2	Effeithlonrwydd Cyllid (statws credyd)	A/A2/A	A/A2neg/Aneg	✗

dwu asiantaeth israddio ein rhagolwg cyffredinol o sefydlog i negyddol – gyda Moody's yn adlewyrchu'r hyn mae'n ystyried y bydd yn adolygiad prisiau heriol yn PR19 ac S&P yn cyfeirio at ein proffidioldeb isel, yn bennaf oherwydd ein penderfyniad i gadw biliau cwsmeriaid i lawr. Yn dilyn hynny, ar 5 Mehefin 2019, cadarnhaodd Fitch sgôr 'A' ond â rhagolwg negyddol

DRWGDDYLEDION

Parhawn i ganolbwyntio ar leihau drwgddyledion, sy'n gost i'n cwsmeriaid yn gyffredinol. Mae gweithdrefnau casglu gwell yn golygu y gallwn adnabod cwsmeriaid a all dalu eu biliau ond sy'n dewis peidio, a mynd ar eu holau, yn well.

Cydbwyswn hyn â gwella'r cymorth a roddir i'r rhai sydd wir yn cael trafferth i dalu eu biliau. O ganlyniad, roedd ein drwgddyledion am y flwyddyn yn £21m, i lawr o £22m yn 2017-18


ASTUDIAETH ACHOS



Mae ein record o ran talu cyflenwyr ymhell uwchlaw'r cyfartaledd

CYFARTALEDD CANRANNOL ANFONEBAU CYFLENWYR A DALWYD O FEWN 30 DIWRNOD

90% 2018: 46%



● Dŵr Cymru 2019	90%
● Cwmnïau dŵr eraill	53%
● Pob sector arall	53%

TALU CYFLENWYR YN BRYDLON

Ym mis Ionawr, cadarnhawyd bod Dŵr Cymru yn talu cyflenwyr yn gyflymach nag unrhyw gwmni dŵr orall ac yn well na'r rhan fwyaf o gwmnïau yn y DU, gyda ffigurau'n dangos mai ni oedd y cwmni dŵr gorau yng Nghymru a Lloegr am dalu cyflenwyr yn gyflym. Talwn dros 90% o anfonebau cyflenwyr o fewn 30 diwrnod i'w cael, o gymharu â 53% ar gyfartaledd ar gyfer cwmnïau dŵr eraill (sydd wedi cyhoeddi ffigurau) a 53% ar gyfer y cyfartaledd ar draws pob sector. Talwn 7% arall o anfonebau o fewn 60 diwrnod. Mae hyn yn welliant sylweddol i ni, o gyfartaledd o 46% a dalwyd o fewn 30 diwrnod y flwyddyn gynt.

Ym mis Mai 2019 gwnaethom ymrwymo i'r Cod Taliadau Prydlon.

<http://www.promptpaymentcode.org.uk/>

EIN RHEOLEIDDWYR

Mae cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr wedi'u rheoleiddio mewn tri maes allweddol, sef: ariannol ac economaidd (Ofwat), amgylcheddol (CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd), ac ansawdd dŵr (yr Arolygiaeth Dŵr Yfed). Mae'r rheoleiddwyr hyn yn ceisio diogelu defnyddwyr a'r amgylchedd ac yn monitro'r perfformiad yn ofalus.

Rydym yn ceisio datblygu, cynnal a gwella ein cydberthnasau â'r cyrrff hyn er mwyn helpu i lunio rhaglenni buddsoddi cytbwys sy'n diwallu anghenion pob cwsmer a rhanddeiliad, ac sydd hefyd yn cyfrannu at ein gallu i greu gwerth.

Gellir gweld copïau o'r adroddiadau hyn a gyhoeddwyd gan y rheoleiddwyr hyn ar berfformiad Dŵr Cymru ar ein gwefan dwrcymru.com, neu ar wefan y rheoleiddwr perthnasol.

Ofwat

Ofwat
Caiff Dŵr Cymru ei reoleiddio, ar faterion economaidd, gan Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat), sy'n rheoleiddio pob darparwr dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Pennir terfynau ynghylch ein taliadau dŵr a dŵr gwastraff a godir ar gylch pum mlynedd gan Ofwat, wedi eu llywio gan y cyd-destun polisi a bennir gan Lywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill.

Ofwat.gov.uk



Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y rheoleiddiwr annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch.

Hse.gov.uk



Llywodraeth Cymru

Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer materion polisi cyhoeddus i Gymru, gan gynnwys polisi a deddfwriaeth ar faterion dŵr, carthffosiaeth a materion amgylcheddol.

Llyw.cymru



Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Yr adran sy'n gyfrifol am fewnbwn Llywodraeth y DU i'r protocol polisi dŵr a charthffosiaeth â Llywodraeth Cymru.

Defra.org.uk



Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Caiff ansawdd dŵr yfed ei reoleiddio a'i fonitro gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

Dwi.gov.uk



Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Corff annibynnol a sefydlwyd i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid o ran pris, gwasanaeth a gwerth am arian. Mae hefyd yn ymchwilio i gwynion cwsmeriaid ynglŷn ag ansawdd dŵr.

Cewater.org.uk



Y Cynllun Unioni Dŵr (WATRS)

Y dyfarnwr annibynnol ar gyfer anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth Cymru a Lloegr.

Watrs.org



Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Caiff ein perfformiad amgylcheddol, yn enwedig y ffordd rydym yn tynnu dŵr o afonydd a chronfeydd dŵr ac yna'n gollwng dŵr gwastraff ar ôl iddo gael ei lanhau, ei reoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Maent yn goruchwyllo'r ffordd rydym yn rheoli safleoedd dynodedig mewn perthynas â chadwraeth natur a sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol.

naturalresources.wales

gov.uk/government/organisations/environment-agency



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg


Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth i swyddfa'r Comisiynydd gan nodi sut rydym wedi cydymffurfio â darpariaethau ein Cynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi sut rydyn yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid.

comisiynyddygyymraeg.cymru



EIN DULL O REOLI RISG

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys pob rhan o'r busnes er mwyn nodi risgiau, gan gynnwys meysydd o bryder newydd ac sy'n dod i'r amlwg, ystyried yr effaith bosibl a'r tebygolrwydd o'r risg yn datblygu, a rheoli rheolaethau lliniaru'n briodol. Mae ein fframwaith rheoli risg yn cefnogi ein hymrwymiad i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid gwyb ar y gost gynaliadwy isaf.



Mae llwyddiant hirdymor y Grŵp yn dibynnu ar nodi, asesu a rheoli risgiau yn effeithiol ac mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan yn y gwaith o reoli risg. Mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan mewn gwaith rheoli risg. Mae ein systemau rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sy'n effeithio ar y busnes. Byddwn yn defnyddio model y "Tair Llinell Amddiffyn" a phrosesau lliniaru risg priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'n prosesau a'n polisiau.

- Mae'r llinell amddiffyn gyntaf yn cymryd perchenogaeth o risg ac yn rheoli risg. Cyflawnir hyn gan dimau gweithredol a rheolwyr. Mae ystod eang o ddigwyddiadau posibl yn cynnwys cyfreithiol, rheoleiddiol, gweithrediadau craidd, gwasanaeth cwsmeriaid a pheryglon yn cael eu hadolygu.
- Yr ail linell amddiffyn yw rheoli risg. Cyflawnir hyn gan ein tîm Cydymffurfiaeth a phwyllgorau mewnol.
- Y drydedd linell amddiffyn yw prosesau adolygu a goruchwyllo annibynnol. Cyflawnir hyn gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol, gan gynnwys ein cyngorydd technegol ar faterion adrodd rheoleiddiol (Jacobs Engineering Group).

Mae Ofwat hefyd yn rheoli risg yn Fframwaith Monitro'r Cwmni. Eleni mae Ofwat wedi rhoi'r sgôr uchaf "hunan sicrwydd" i ni am waith monitro'r cwmni a oedd yn cynnwys adolygiad o'n Datganiad Risg a Chydymffurfiaeth a Datganiad Hyfywedd Hirdymor.

LLINELL AMDDIFFYN GYNTAF

- Mae timau unigol o fewn y busnes yn cymryd cyfrifoldeb am reoli risgiau o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb.
- Mae pob uned fusnes yn bwydo i mewn i system rheoli risg 'o'r bôn i'r brig' drwy gadw cofrestr risg. Mae'n ofynnol i bob tîm gofnodi risgiau a diweddaru ei gofrestr risg leol yn rheolaidd.
- Caiff risgiau eu hadolygu a'u sgorio am debygolrwydd a difrifoldeb effaith bosibl mewn cyfarfodydd tîm, a dylai unrhyw ddigwyddiad gael ei uwchgyfeirio drwy reolwyr tîm fel sy'n briodol. Uwchgyfeirir digwyddiadau drwy'r strwythur rheoli llinell a phwyllgorau cysylltiedig yn bennaf. Ategir hyn gan ffocws ar draws y busnes ar risgiau allweddol (e.e. Diogelwch Gwybodaeth, lechyd a Diogelwch) mewn pwyllgorau dynodedig o fewn yr ail linell.

AIL LINELL

- Trafodir risgiau yn ystod trafodaeth "o'r brig i'r bôn" o risg bob mis mewn cyfarfod o'r tîm Gweithredol (drwy'r broses dangosfwrdd ac adroddiadau'r Bwrdd) a chyfarfod tîm y Rheolwr Gyfarwyddwr. Mae'r tîm Gweithredol yn adlewyrchu newidiadau allweddol mewn risgiau mewn cofrestr risg strategol ac yn sicrhau bod gan bob risg berchennog.
- Mae aelodau o'r tîm Gweithredol yn gyfrifol am gadarnhau eu bod wedi trafod, adolygu ac uwchgyfeirio risg yn briodol (lle bo angen) fel rhan o'u diweddariad chwarterol ar y cynllun busnes yng nghyfarfodydd y tîm Gweithredol.

- Caiff risgiau eu hystyried, lle bo'n briodol, o fewn cylch gorchwyl gwahanol grwpiau gweithredu a phwyllgorau, er enghraifft y Grŵp Llywio lechyd a Diogelwch, y Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth, ac o fewn y Fframwaith Cynghair Cyfalaf. Cefnogir hyn gan y gwahanol dimau sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth yn y busnes, gan gynnwys y tîm Ansawdd Dŵr sy'n ateb yn uniongyrchol i Reolwr Gyfarwyddwr y busnes gweithredol, a tîm ardystio Systemau Rheoli Gwybodaeth.
- Bydd y tîm Cydymffurfio yn monitro p'un a gaiff pob cofrestr risg ei diweddaru'n chwarterol, a bydd yn adrodd ar hyn i Uwch-reolwr lle nad yw hyn yn digwydd.

TRYDEDD LLINELL

- Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli risg ac mae'n atebol i'r Bwrdd.
- Mae'r Archwilywyr Allanol hefyd yn adolygu ein gwybodaeth adrodd reoleiddiol i Ofwat

yn yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad.

- Mae ein swyddogaeth Sicrwydd Busnes yn cynnal archwiliadau o systemau rheolaeth fewnol llinell gyntaf ac ail linell, sy'n ystyried digonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau rheoli risg, cydymffurfio a rheolaeth.
- Mae ein Harchwilywyr Allanol a'n Cofnodwr yn adolygu ein dull o ymdrin â risg ac yn gofyn am dystiolaeth o adolygu risgiau yn y busnes.
- Caiff trosolwg y tîm Gweithredol o risgiau strategol sy'n effeithio ar y busnes ei adolygu ym mhob un o Gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad manwl o'r risgiau strategol ac asesiad o'r Awydd Presennol a Tharged am Risg ddwywaith y flwyddyn.
- Mae'r dull hwn o reoli risg o'r bôn i'r brig ac o'r brig i lawr yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol gan y busnes, ac yn nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymryd camau lliniaru pellach.



RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP

Mae’r dadansoddiad isod yn canolbwyntio ar y risgiau hynny a fyddai’n peryglu perfformiad, solfedd neu hylifedd y cwmni yn y dyfodol. Nid yw’r risgiau wedi eu gosod yn nhrefn pwysigrwydd na difrifoldeb.

Risg allweddol a’i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd sy’n berthynol i’r llynedd
Digwyddiad lechyd a Diogelwch mawr	Mae iechyd a diogelwch ein cyflogeion a’r cyhoedd wrth ddarparu ein gwasanaethau ac ar ein safleoedd yn flaenoriaeth yn bwysig iawn ni. Mae risgiau yn cynnwys y posibilrwydd o ddomwain i aelod o’r cyhoedd neu farwolaeth, ar un o’n safleoedd neu o ganlyniad i’n gweithredoedd, neu i gyflogai wrth gyflawni ei ddyletswyddau.	Polisiâu iechyd a diogelwch a llinell cyfrifoldeb glir, a adolygir yn rheolaidd, â’r Rheolwr Gyfarwyddwr fel y Cyfarwyddwr Bwrdd cyfrifol. Defnyddir canllawiau "Leading H&S" HSE / Sefydliad y Cyfarwyddwyr fel y fframwaith "arweiniol". Mae’r fîm Gweithredol yn darparu ffocws arwain amlwg drwy "Ddiwrnodau Diogelwch" a hyrwyddo "sgysgiau diogelwch" ar bob lefel o’r busnes. Rydym yn dilyn arfer gorau’r diwydiant ac yn adolygu ein hamserlenni hyfforddi yn rheolaidd. Mae Bwrdd Glas yn darparu trosolwg gan adrodd ar faterion iechyd a diogelwch i bob cyfarfod Bwrdd ac adolygiadau manwl o brif ddangosyddion yng nghyfarfodydd Pwyllgor yr Amgylchedd ac Ansawdd. Mae’r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch yn cynnwys cyswllt ag Undebau Llafur ac mae’n llunio cynllun iechyd a diogelwch blyneddol – sy’n cynnwys adolygiad o’r deg prif risg a nodwyd i’w lliniaru ymhellach. Trafodir materion iechyd a diogelwch yn rheolaidd ar draws y busnes – er enghraifft ym mhob cyfarfod fîm, mewn Sioeau Teithiol cyflogeion ac yn y gynhadledd iechyd a diogelwch flynyddol.	Er y bu lleihad yn nifer y digwyddiadau RIDDOR eleni bu hefyd gynnydd yn nifer yr achosion "y bu bron iddynt ddigwydd" yn ein rhaglen gyfalaf ac rydym yn mynd i’r afael â’r materion hyn drwy ein rhaglen newid ymddygiad STEP ("Safety Takes Every Person") gyda’n prif gontractwyr. Ein nod yw cymryd pob cam rhesymol i leihau’r risg o farwolaeth neu onaf difrifol drwy bolisiâu effeithiol a gweithdrefnau gwaith.	
Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd	Byddai problem fynych gydag ansawdd dŵr yfed yn gofyn am hysbysiad 'berwi dŵr' dros ardal eang a gallai arwain at effaith sylweddol ar ymddiriedaeth cwsmeriaid a chamau rheoleiddiol. Gallai hyn gael ei achosi gan fethiant ased, risg mewn dalgylch nas rhagwelwyd, neu ddifrod bwriadol.	Dilynw’n agos y camau a amlinellir yn ein Cynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed er mwyn sicrhau lefelau da o gydymffurfiaeth â rheoliadau dŵr yfed allweddol. Mae gennym weithdrefnau gweithredu ISO-achrededig a phrosesau archwilio cysylltiedig sy’n canolbwyntio ar y mater hwn. Rydym yn gwella pob gwaith trin dŵr drwy gwblhau cyfleusterau "ffo i wastraff" mewn gwaith trin allweddol yn 2018-19 a’n rhaglen prif bibellau dŵr "Astudiaethau Parthol" er mwyn mynd i’r afael â phroblemau â’r rhwydwaith. Drwy’r Bartneriaeth Iechyd Dŵr, gweithiwn yn agos gydag Awdurdodau Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn nodi arfer gorau a rheoli problemau presennol.	Rydym wedi adolygu ein hasesiad o’r risg hon yn sgil problemau penodol o ran ansawdd dŵr a ddaeth i’r amlwg yn ystod y cyfnod o sychder. Cafodd y rhain eu rheoli’n ofalus er i ni brofi problem blas ac arogl ym Mhontardawe yn ystod y sychder, yn dilyn ymarfer ailbarthu.	

Risg allweddol: Risg uwch Risg lai Dim newid

Risg allweddol a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd sy'n berthynol i'r llynedd
Methiant i gyflawni lefelau perfformiad gofynnol ac arbedion effeithlonrwydd yn ystod y cyfnod 2015–2020	Gallai dirywiad parhaus mewn perfformiad arwain at golli hyder cwsmeriaid, amharu ar enw da ymhlith rhanddeiliaid a chamau rheoleiddio (gan gynnwys cosbau perfformiad cymhellion cyflawni canlyniadau (ODI)).	Dilynw'n strategaethau gweithredol a chynlluniau gwella sydd wedi'u dogfennu'n dda mewn meysydd allweddol. Mae ein rhaglen buddsoddi cyfalaf helaeth yn mynd i'r afael â materion perfformiad allweddol fel rhaglenni gwella'r rhwydwaith dŵr ac iddynt ffocws er mwyn lleihau achosion o amharu arno a chynyddu derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid mewn ardaloedd penodol sy'n cael problemau o ran ansawdd dŵr (sef Astudiaethau Parthol). Rydym hefyd yn buddsoddi mewn technoleg Ddeallus ac yn cymhwyso Gwyddor Data at gynyddu gwaith monitro a rhagweld methiannau cyn iddynt ddigwydd. Rydym yn gwella'r broses o hyfforddi a datblygu cydweithwyr gweithredol er mwyn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau o ran perfformiad. Rydym yn annog y gwaith o nodi a gweithredu gweithgareddau "orloesi" allweddol, drwy dechnoleg newydd, dulliau gweithio neu well ymateb gweithredol.	Rydym yn perfformio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd ac yn cyflawni ein targedau Penderfyniad Terfynol ar gyfer AMP6. Fodd bynnag, mae ein perfformiad o ran derbynioldeb y rhwydwaith (h.y. lliw, blas ac arogl dŵr o'r rhwydwaith) yn heriol mewn rhai ardaloedd oherwydd faint o brif bibellau haearn hen, sydd heb eu leinio, sydd yn ein rhwydweithiau a lefelau'r manganis sy'n digwydd yn naturiol yn ein ffynonellau dŵr crai.	
Methiant mawr o ran y cyflenwad	Methiant argae, gwaith trin neu lifogydd rhwydwaith strategol gyda pherygl i fywyd. Achos llai difrifol (ond arwyddocaol o hyd) a phosibl o waith yn methu gyda'r posibilrwydd y byddai miloedd o gwsmeriaid yn colli cyflenwad. Mae effaith y newid yn yr hinsawdd a'r pwysau cynyddol ar ein hasedau yn cynyddu'r her a'r costau yn y maes hwn. Mae ein profiadau gydag amodau tywydd nas gwelwyd o'r blaen dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos yr effaith bosibl ar ein gwasanaethau.	Gweithiwn i strategaethau gweithredol sydd wedi'u dogfennu'n dda yn y busnesau dŵr glân a dŵr gwastraff, gan gynnwys rhaglen lliniaru risgiau seibr Technoleg Weithredol. Mae ein Rhaglen Diogelwch Argaeau yn cynnwys arolygiadau statudol rheolaidd ac arolygiadau ychwanegol gan beirianwyr arbenigol, Adroddiad Cydymffurfiaeth Flynyddol ar gyfer y Bwrdd a strategaethau ategol allweddol fel yr "Asesiad Risg Portffolio" o argaeau sy'n cefnogi ein rhaglen buddsoddi cyfalaf Pibellau mewn Argaeau. Rydym wedi targedu ein buddsoddiad cyfalaf AMP6 er mwyn gwella cydnherthedd osedau allweddol (er enghraifft, gwaith trin dŵr Bryn Cowlyd). Mae gennym raglenni sydd wedi'u datblygu'n dda i sicrhau cydymffurfiaeth Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI) a Chyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD). Cynhaliwn raglen flynyddol o brofion ar gyfer ein Gweithdrefnau Cynllunio mewn Argyfwng.	Rydym wedi adolygu'r risg hon yn sgil achosion o lygredd yn Felindre a Phum Rhyd yn ystod haf 2018 a phrif bibellau cyflenwi yn byrstio yng Nghwmtyleri a phrif garthffos arfordirol y de-ddwyrain ddechrau 2019, ond rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r asesiad risg cyffredinol wedi newid.	

RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP

PARHAD

Risg allweddol a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd sy'n berthynol i'r llynedd
Colli talent, gallu a chymhwysedd allweddol	Mae prinder sgiliau mewn rhai meysydd a mwy o fuddsoddiad mewn diwydiannau lle rydym yn cystadlu am lafur yn cynnig risg newydd i'n gallu i ddenu a chadw cyflogaion sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen arnom. Rydym hefyd yn wynebu'r risg y gallai unigolion allweddol gael eu targedu gan gystadleuwyr o ran swyddi.	Rydym wedi ail-lansio ein rhaglenni i raddedigion a phrentisiaid a chafwyd ein nifer fwyaf erioed o gysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i'r sylw diweddar a roddwyd i'n rhaglen gwneud cais am brentisiaethau. Mae ein prentisioid bellach yn mynychu cyrsiau dydd sydd wedi'u teilwra'n benodol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, ac mae gennym bartneriaeth waith agos ag ef. Rydym yn gweithio i ddiffinio llwybrau gyrfa cliriach drwy'r busnes i gydweithwyr yn ein canolfan gyswllt ac rydym yn canolbwyntio ar gefnogi pob unigolyn yn y busnes i gyflawni ei lawn botensial.	Tra bod prosiectau seilwaith allweddol (e.e. Wylfa, Morlyn Llanw Bae Abertawe a Hinckley Point) wedi codi pryderon am brinder sgiliau sy'n gwaethygu, mae rhai o'r prosiectau hyn ar stop bellach. Serch hynny, rydym am barhau i ddenu a chadw unigolion â sgiliau allweddol ar draws ein hardal gyflenwi. Mae ein gwobr Aur ddiweddar gan sefydliad Buddsoddwyr mewn Pobl yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu lle gwych i'n pobl weithio.	
Risg TGCh	Mae colli gwasanaeth TGCh ar raddfa fawr yn peryglu perfformiad busnes, tra bod sawl cynllun gwella busnes yn dibynnu ar systemau TGCh newydd.	Yn ystod 2018-19 creodd Bwrdd Glas Bwyllgor Technoleg o'r Bwrdd er mwyn goruchwyllo risgiau a chyfleoedd digidol y busnes, a chynyddu ymwybyddiaeth ar lefel y Bwrdd. Yn ddiweddar, rydym wedi gwneud gwelliannau i'n gallu SAP er mwyn gwella dibynadwyedd ac effeithiolrwydd ein systemau meddalwedd SAP allweddol. Rydym hefyd yn monitro'n agos ein contract gydag Infosys i gynnal a gwella argaeledd systemau. Er bod bygythiadau seibr-ddiogelwch allanol yn dal i fod yn rhan sylweddol o'r risg hon, rydym yn rheoli hyn, gan gynnwys cynnal achrediad Cyber Essentials Plus a gofyn am hyn gan ein cyflenwyr allweddol. Mae'r Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth, sy'n cynnwys unigolion o bob rhan o'r busnes, yn ogystal ag arbenigwyr Technoleg Gwybodaeth, Technoleg Weithredol a Diogelwch Gwybodaeth, yn parhau i fonitro datblygiadau a chodi ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn y busnes.	Tra bod y risgiau allanol wedi cynyddu fwy na thebyg (gyda mwy o ymosodiadau seibr yn gyffredinol), rydym yn rheoli'r risg ar nifer o lefelau yn y busnes. Felly, er ein bod wedi gwneud ein technoleg, pobl a phrosesau yn fwy cydn berth, mae hyn wedi bod yn unol â'r cynnydd mewn bygythiadau allanol yn hytrach na gostwng ein lefel gyffredinol o risg.	

Risg allweddol:  Risg uwch  Risg lai  Dim newid

Risg allweddol a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd sy'n berthynol i'r llynedd
Setliad rheoleiddiol anodd ar ôl 2020	Byddai Penderfyniad Terfynol PR19 gan Ofwat sy'n cyfyngu ar gyflawni canlyniadau cwsmeriaid a phroffil ariannol y Cwmni yn 2020-2025 (AMP7) yn golygu na allem, o bosibl, wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid fel y bwriadwyd, na chefnogi ein rhaglen tariff cymdeithasol a chymorth ariannol i gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol.	Rydym yn gweithio i barhau i drafod ag Ofwat cyn cyhoeddi Penderfyniadau Drafft ym mis Gorffennaf 2019. Mae ein cwsmeriaid wedi dangos cefnogaeth gref i'n cynlluniau uchelgeisio ar gyfer 2020-25, gan gydbwyso biliu is â mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau a chydnerthedd.	Mae mwy o feirniadaeth wleidyddol o'r enillion ariannol a wnaed gan y sector yn y gorffennol wedi cynyddu'r risg bosibl o orgywiro gan Ofwat ym mhroses adolygu prisiau PR19.	▲
Ansicrwydd yn dilyn Brexit	Natur anwadol y system wleidyddol a'r farchnad ariannol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE, neu broblemau posibl o ran y gadwyn gyflenwi (yn enwedig yn ymwneud â chemegau trin dŵr) os na fydd cytundeb ynghylch Brexit.	Rydym wedi gweithio gyda gweddill y sector i gyflwyno cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwadau hanfodol.	Mwy o ansicrwydd gwleidyddol.	▲
Methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid	Methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid gan arwain at fethiant i gyflawni ein hamcan corfforaethol, niwed i'n henw da, costau gwasanaeth cwsmeriaid ychwanegol, niwed i gydberthnasau â rheoleiddwyr/llywodraeth a morâl yn gostwng ymhlith cyflogeion. Mae cysylltiad annodad rhwng y risg hon a llawer o'r risgiau eraill a nodwyd.	Anelwn at wella ein gwasanaethau yn barhaus er mwyn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd, ac mae'r ffocws hwn ar wneud y peth iawn i'n cwsmeriaid yn sail i'n dull cyfan o ddarparu gwasanaethau, a phopeth a wnawn. Rydym hefyd yn mesur ymddiriedaeth cwsmeriaid yn rheolaidd – yn 2018-19 cynyddodd canran y cwsmeriaid a arolygwyd a ddywedodd eu bod yn ymddiried ynom o 84% i 85%.	Gall y feirniadaeth wleidyddol ddiweddar o'r sector cyfan, a'r ffocws ar daliadau difidendau i gyfranddalwyr, hefyd effeithio arnom ni – nid yw'n holl gwsmeriaid yn sylweddoli ein bod "nid er cyfranddalwyr". Mae mesurau boddhad cwsmeriaid newydd Ofwat, sef C-MeX, D-MeX and B-MeX, yn anhysbys, hynny yw, am y tro cyntaf, bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar bob cwsmer, nid dim ond y rhai sydd wedi rhyngweithio â ni yn ddiweddar.	▲

Nodyn ar Anghydfodau Sylweddol a allai effeithio ar y Cwmni

- Dwyn achos am dorri cyfraith Ewropeidd mewn perthynas ag Aber Afon Llŵchwr:**
Ym mis Mawrth 2014, hysbyswyd Llywodraeth y DU am achos o dorri cyfraith Ewropeidd a oedd ar fin digwydd, a oedd yn honni bod y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol wedi cael ei thorri o amgylch y DU, gan gynnwys rhannau o Aber Afon Llŵchwr a dolgylchoedd Tre-gŵyr a Llanelli. Mae rhaglen fuddsoddi yn mynd rhagddi yn yr ardal, yn enwedig o ran systemau draenio trefol cynaliadwy, a groesawyd gan y Comisiwn Ewropeidd ac a goiff ei chwblhau erbyn diwedd 2020. Er gwaethaf y buddsoddiad parhaus hwn, ym mis Mai 2017 cyhoeddodd Llys Cyfiawnder y Cymunedau Ewropeidd ei ddyfarniad yn yr achos yn erbyn y DU mewn perthynas â safleoedd lluosog gan gynnwys Llanelli a Thre-gŵyr, a ganfu fod y DU wedi methu â chydymffurfio â'r Gyfarwydddeb erbyn y dyddiad gofynnol sef mis Medi 2014. Nid yw'n glir eto a fydd y rhaglen fuddsoddi yn dderbyniol i'r Comisiwn. Yn ystod 2018-19 rydym wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn ar hynt y buddsoddi, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020 o hyd.
- Hawliadau o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2001 (EIR):**
Hysbyswyd y cwmni yn 2017 am hawliadau posibl o dan yr EIR yn ymwneud â thaliadau a godwyd o'r blaen ar gyfer chwiliadau draenio a dŵr a gynhaliwyd ers 2004, a ddylai fod wedi cael eu darparu am ddim yn ei farn ef. Rydym wedi parhau i fonitro gohebiaeth mewn perthynas â'r hawliadau hyn. Er gwaethaf gohebiaeth bellach yn ystod 2018-19, ychydig iawn o fanylion a roddwyd ac nid yw cwantwm posibl yr hawliad yn glir eto. Rydym yn bwriadu amddiffyn yr hawliadau o hyd, os cânt eu dwyn. Nid oes unrhyw beth rydym wedi'i weld gan yr hawlwr posibl hyd yma yn awgrymu y byddai cwantwm unrhyw hawliadau o'r fath yn sylweddol, yng nghyd-destun yr Adroddiad a Chyfrifon.

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR

EIN GWELEDIGAETH YW ENNYN YMDDIRIEDAETH EIN CWSMERIAID BOB DYDD

Mae angen i'n cwsmeriaid wybod y gallant ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarparwn yn yr hirdymor. Mae sicrhau cydnherthedd hirdymor ein busnes, gan gynnwys cydnherthedd ariannol, yn faes ffocws allweddol felly i ni.

Gan nad oes gennym randdeiliaid (a allai ddarparu cydraddoldeb yn achos anhawster ariannol), mae cynnal mynediad parod i ddyledion cost isel yn rhan allweddol o'n model perchenogaeth nid er cyfranddalwyr. Yna caiff buddiannau'r cyllid cost isel hwn eu trosglwyddo i gwsmeriaid ar ffurf biliau is a gwell gwasanaethau.

Pan sefydlwyd y strwythur perchenogaeth o dan Glas Cymru yn 2001, canolbwynt y strategaeth cydnherthedd ariannol hon oedd lleihau ein gerio. Mae gerio ychydig yn is na tharged y Bwrdd o 60% ar hyn o bryd ac mae'r gostyngiad hwn mewn gerio wedi creu swm cadarn o gronfeydd ariannol wrth gefn (sydd bellach yn £2.4bn).

Er nad ydym yn gwmni rhestredig, rydym yn dilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, gan gymhwyso darpariaethau cyfranddalwyr i'n Haelodau a'n buddsoddwyr bondiau. Rydym hefyd wedi dilyn canllawiau Ofwat yn IN19/07 wrth lunio'r datganiad hwn.

EIN DULL O YSTYRIED HYFYWEDD A RISG

Mae ystyriaeth y Bwrdd o hyfywedd hirdymor y Grŵp wedi'i hymgorffori yn ein proses cynllunio busnes; mae hyn yn cynnwys rheolaethau rheoli risg

cadarn, rhagamcanion ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd, yn ogystal ag adolygiadau cyllidebol rheolaidd. Mae'r broses hon wedi'i hategu gan ddiwylliant o gymorth a her sy'n llifo o'n tîm arwain i bob agwedd ar ein gweithrediadau. Eleni rydym wedi oilestyried y cyfnod priodol y dylid adrodd am hyfywedd ynddo: rydym o'r farn mai cyfnod o hyd at 11 mlynedd yw'r cyfnod mwyaf addas i'r Bwrdd asesu rhagolygon y Grŵp. Mae o fewn y cyfnod a gwmpesir gan ein proses gyfredol o gynllunio busnes ac yn cwmpasu'r ddau gyfnod nesaf o adolygiad rheoleiddio, hyd at 2030. Rydym wedi egluro ein rheolaethau cyfredol o ran prisiau rheoleiddio hyd at 2020, wedi datblygu cynlluniau manwl ar gyfer y cyfnod rheoleiddio nesaf (AMP7) hyd at 2025, ac rydym wedi datblygu cynlluniau amlinellol ar gyfer y cyfnod canlynol (AMP8) hyd at 2030 yng nghyd-destun ein dogfen cynllunio strategol "Welsh Water 2050".

Nodir y prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp (a sut rydym yn eu lliniaru) ar dudalennau 48 i 51 mewn perthynas â'n gallu i gyflawni ein hamcanion strategol. Caiff risgiau eu nodi a'u hasesu drwy gylch parhaus o adrodd ac adolygu o'r bôn i'r brig ac adborth o'r brig i lawr a sganio'r gorwel. Rydym yn derbyn bod croesawu a rheoli risg yn rhan angenrheidiol o gynnal busnes, ac mae ein proses o reoli risg yn anelu at gasglu rhychwant o risg o risg gynhenid i risg sy'n dod i'r golwg, ac ymhob maes busnes.

Mae'r Bwrdd wedi dadansoddi effeithlonrwydd a chadernid ei

fframwaith rheoli o ran rheoli achosion a goblygiadau tebygol pob risg, ac mae wedi adolygu tybiaethau a chynlluniau wrth gefn y Grŵp. Mae'r Bwrdd wedi trafod effaith ariannol bosibl y prif risgiau hyn a'r effaith o ran enw da'r cwmni yn erbyn gallu'r Grŵp i gyflawni ei gynllun busnes 2019, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a diwedd y cyfnod adolygu rheoleiddiol nesaf (AMP7) ym mis Mawrth 2025 yn bennaf, gyda rhagolygon ariannol yn ymestyn i 2035. Er i ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer AMP9 (hyd at 2035) rydym yn ystyried bod maint yr ansicrwydd gan edrych y tu hwnt i'r ddau adolygiad rheoleiddiol cronol yn gwneud cynlluniau o'r fath yn anaddas ar gyfer ein hadolygiad o hyfywedd a risg. Felly, rydym wedi defnyddio ein cynlluniau a'n rhagolygon hyd at 2030 ar gyfer yr adolygiad hwn.

Rydym wedi straen-brofi rhagolygon ein cynllun busnes hyd at 2030 yn erbyn senarios ariannol gwahanol sy'n cynnwys effaith amcangyfrifedig pob un o'r prif risgiau a'r ansicrwydd yn digwydd, yn unigol ac ar y cyd yn seiliedig ar asesiad y Bwrdd o'u tebygolrwydd a'u difrifoldeb. Rydym hefyd wedi cyfuno'r effaith a ragwelir â senarios chwyddiant uchel ac isel yn ystod y cyfnod (5% a 0% yn y drefn honno). Yn ogystal, rydym wedi defnyddio pwysau cyffredinol o ostyngiad o 10% mewn reffeniwr ar gyfer AMP7 a chyfanswm gorwariant o 7% ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r senarios hyn wedi cael eu dewis am eu bod yn darparu prawf difrifol, credadwy

a rhesymol o hyblygrwydd cyffredinol yn y cynllun ariannol, yn seiliedig ar y prif risgiau y mae'r Bwrdd wedi nodi bod y Grŵp wedi ei amlygu iddynt. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd yr holl senarios a nodwyd yn digwydd ar yr un pryd, neu hyd yn oed y byddent yn digwydd unwaith yn ystod y cyfnod, rydym wedi modelu effaith hyn er mwyn deall lefel y cydnherthedd ymhlyg yn y rhagolygon. Wrth asesu effaith ariannol pob senario, mae rheolwyr wedi ystyried eu profiadau eu hunain a data eraill sydd ar gael yn gyhoeddus.

Nid yw effaith amcangyfrifedig pob senario sy'n cael ei throsgosod ar gynllun ariannol y Grŵp yn creu unrhyw fygythiad annerbiniol i hyfywedd y Grŵp. Cafodd senarios chwyddiant uchel ac isel effaith gymharol fach hefyd ar hyfywedd y Grŵp, gan fod refereniw a chyfran sylweddol o ddyledion net yn gysylltiedig â chwyddiant. Hyd yn oed mewn "senario argyfwng", lle mae'r prif risgiau ac ansicrwydd yn digwydd mewn amgylchedd chwyddiant isel, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn disgwyl torri'r sbardun lefel gerio o 85% a gyfamodir gyda'n darparwyr dyledion. Er nad ystyrir bod hon yn senario realistig at ddiben rhagolygon, mae'n rhoi arwydd o lefel gyffredinol y cydnherthedd ariannol y tu hwnt i'r cyfnod adolygu rheoleiddiol nesaf.

Pe bai'r senarios hyn y gellir eu rhagweld yn rhesymol yn codi, byddai opsiynau amrywiol ar gael i'r Grŵp er mwyn cynnal hylifedd a pharhau i weithredu. Mae cyllid eisoes ar gael i gyflawni'r cynllun busnes hyd at fis Mawrth 2020, gan gynnwys lwfans ar gyfer hyblygrwydd i'r cyfuniad mwyaf eithafol o senarios croes yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn ystyried ffynonellau ariannu ychwanegol ar gyfer AMP7 a thu hwnt ac, o gofio llwyddiant ein dyroddiad

bondiau diwethaf (ym mis Ionawr 2018), nid ydym yn rhagweld y cawn anawsterau arwyddocaol. Mae'r Grŵp yn gweithredu mewn sector sefydlog gyda llifau arian parod rhagweladwy a rheoleiddiwr cefnogol; mae lefelau hyder buddsoddwyr wedi bod yn uchel yn hanesyddol. Er bod y rhagolwg yn negyddol ar hyn o bryd, nid yw newidiadau tebygol i'r amgylchedd rheoleiddio nac i brif risgiau'r Grŵp ei hun yn debygol o gael effaith mor fawr ar statws credyd y Cwmni yn ystod y cyfnod a adolygir i roi ein mynediad at farchnadoedd ariannol mewn perygl. Felly, mae'r Cyfarwyddwyr yn hyderus, ym mhob senario a nodwyd, y dylai'r Grŵp gynnal y mynediad i farchnadoedd perthnasol ar gyfer gofynion ailariannu.

Mae'r Bwrdd wedi asesu effeithiau posibl y risgiau hyn yng nghydestun ei awydd i fentro ac mae'n hyderus bod y rheolaethau sydd ar waith yn ddigonol i gadw perfformiad ariannol y Grŵp o fewn lefelau goddefiant priodol. Wrth wneud eu hasesiad, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried rhagolygon cadarn y Grŵp a'i gerio gwirioneddol o tua 60%, ei lefel gadarn o hylifedd a'i allu i godi cyllid. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gan Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y cwmni, ddyletswydd statudol i sicrhau y gall cwmnïau dŵr effeithlon ariannu'r gwaith priodol o gyflawni eu swyddogaethau'n gywir — er nad yw hyn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar ein gweithgareddau cynllunio busnes.

PROSIECTAU MASNACHOL

Mae gweithgareddau'r Grŵp y tu allan i'r busnes monopoli a reoleiddir wedi'u cyfyngu gan ein Cytundeb Telerau Cyffredin gyda'n darparwyr dyledion i

sector cyfleustodau'r DU gydag uchafswm buddsoddiad o £100m (prisiau 2016). Felly mae gweithgareddau o'r fath yn ymyl i'r busnes craidd ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar hyfywedd cyffredinol y Grŵp nac ar y cydnherthedd ariannol, er eu bod yn anelu at gynhyrchu arian ychwanegol y gellid ei gymhwyso er budd ein cwsmeriaid, neu i ategu'r busnes gweithredol.

PROSESAU SICRWYDD

Mae ein ffrydiau gwaith cynllunio busnes mewnol yn gwahanu'r gwaith o baratoi rhagolygon llifau arian parod gweithredol oddi wrth y gwaith modelu o ariannu costau, sy'n hwyluso croeswiriad dwyffordd cadarn o gadernid y rhagolygon cyn yr adolygiad gan y tîm gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd.

Mae'r model ariannol sy'n sail i'r rhagolygon wedi bod yn destun gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn allanol a gynlluniwyd i roi sicrwydd ynghylch ei uniondeb, heb nodi unrhyw eithriadau, ac rydym hefyd wedi cael sicrwydd allanol ynghylch y tybiaethau allweddol a'r metrigau credyd a ragwelir yn ein cynlluniau drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025. Mae'r Datganiad Hyfywedd hwn ei hun yn cynnwys rhan o'r Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon y mae ein harchwilwyr allanol yn darparu barn archwilio annibynnol arnynt.

CASGLIAD

O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2030.

DATGANIAD AM GYFEIRIAD A PHERFFORMIAD Y CWMNI

SUT RYDYM YN DARPARU EIN GWASANAETHAU I GWSMERIAID

Mae cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn. Mae’r datganiad hwn yn crynhoi’r ffordd rydym yn darparu er ein cwsmeriaid a sut rydym yn mesur ein perfformiad.

Mae’r Adroddiad Strategol hwn wedi cwrmpasu wyth “Canlyniad” sy’n seiliedig ar grwpiau cyffredinol o dargedau a bennwyd gan Ofwat yn yr adolygiad prisiau diwethaf – “Cymhellion Cyflawni Canlyniadau”. Mae’r grwpiau yn cynrychioli elfennau allweddol y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn i’n cwsmeriaid ar draws ein hardal gyflenwi.

Caiff y targedau rheoleiddiol eu hategu gan ein prosesau busnes mewnol a chynllunio ariannol. Bob blwyddyn caiff targedau eu trafod gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr, a chytunir arnynt. Caiff y tîm Gweithredol ei ddwyn i gyfrif gan ein Cyfarwyddwyr Anweithredol er mwyn sicrhau bod y targedau yn ddigon heriol a monitro perfformiad yn unol â’r targedau hynny.

Mae gweledigaeth y Cwmni i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd yn sail i’n dull o ddarparu gwasanaethau, ac mae’r Bwrdd yn ymwybodol o’r angen i bennu targedau sy’n cynnal ac yn adeiladu ar yr

ymddiriedaeth honno, er mwyn hyrwyddo llwyddiant hirdymor y cwmni yn unol ag Adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae’r Bwrdd hefyd yn achub ar y cyfle i ddeall safbwyntiau cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill drwy ymarferion ymgysylltu helaeth a gyflawnir fel rhan o sefydlu Dŵr Cymru 2050, ac yng nghyd-destun gosod cynlluniau busnes pum mlynedd y Cwmni ar gyfer 2015-20 a 2020-25.

Drwy weithio ar Strategaeth Dŵr Cymru 2050 ar gyfer y 30 mlynedd nesaf rydym wedi gallu archwilio’r rôl rydym yn ei chwarae yn y cymunedau a wasanaethwn a chael deialog ystyrlon â’n cwsmeriaid ynghylch sut y gallwn ateb yr heriau allanol dros amser.

Mae ein cynllun busnes manwl dros y pum mlynedd nesaf, 2020-25, yn ceisio cydbwysedd rhwng sicrhau fforddiadwyedd y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn a’r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynnal seilwaith cydnherth.

I’n cwsmeriaid yr aiff ein holl enillion yn y diwedd, fel bod buddiannau’r Cwmni a chwsmeriaid yn gyson â’i gilydd, ac mae cyfeiriad strategol y Cwmni yn ystyried hyn.

Yn ogystal â darparu gwasanaeth gwyb i gwsmeriaid, mae angen i ni reoli costau’n ofalus er mwyn sicrhau bod biliau mor fforddiadwy â phosibl. Y Bwrdd


sy’n gosod polisi Cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol sy’n cynnwys elfen sylweddol o gyflog amrywiol, yn dibynnu ar y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn perfformio mewn ffordd gref a chyson sy’n cynnig gwell gwasanaethau i gwsmeriaid. Ategir hyn gan ffocws ar dryloywder a gonestrwydd wrth gyfathrebu ag Aelodau, cwsmeriaid a rheoleiddwyr, gan gydnabod y meysydd hynny lle gallwn wneud yn well o hyd, ac adeiladu ar ein cynnydd i ddarparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid.

Mae’r Adroddiad Strategol ar dudalennau 9 i 54 wedi’u cymeradwyo ar ran y Cyfarwyddwyr. Wrth lunio’r Adroddiad Strategol hwn, mae’r Cyfarwyddwyr wedi cydymffurfio ag Adran 414C o Ddeddf Cwmnïau 2006.



Chris Jones
Prif Weithredwr

6 Mehefin 2019





Dŵr Cymru
Welsh Water



ADRODDIAD LLYWODRAETHU

MAE'R ADRODDIAD LLYWODRAETHU
HWN YN RHOI GWYBODAETH AM FWRDD
A PHWYLLGORAU GLAS CYMRU, SUT
RYDYM YN BODLONI GOFYNION COD
LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y
DU, MANYLION EIN HAELODAU A'N DULL
GWEITHREDU O RAN CYDNABYDDIAETH

CYFLWYNIAD CADEIRYDD Y BWRDD	58
EIN STRWYTHUR CORFFORAETHOL	59
BWRDD Y CYFARWYDDWYR	60
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU	62
EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU	64
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBU	70
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO	74
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD AC AMGYLCHEDD	76
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID	78
ADRODDIAD Y PWYLLGOR TECHNOLEG	79
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH	80
ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR	104
DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR	118
ARCHWILWYR	119

CYFLWYNIAD CADEIRYDD Y BWRDD



Ar ran y Bwrdd, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol Grŵp Glas Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

Ar adeg pan fo cryn graffu ar drefniadau llywodraethu o gwneud penderfyniadau da gan fyrddau cwmnïau, erys gweledigaeth Dŵr Cymru, sef Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd, wrth wraidd gweithgareddau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar sicrhau trefniadau llywodraethu da ac yn dilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac Egwyddorion Arweinyddiaeth a Llywodraethu ein rheoleiddiwr, Ofwat. Yn 2018-19 bu'r Cwmni yn ddarostyngedig i God 2016 (y "Cod") ac rwy'n falch o nodi bod Glas Cymru wedi cydymffurfio

â'r Cod ym mhob ffordd, gan gymhwyso'r darpariaethau ynghylch cyfranddalwyr at Aelodau Glas a'n buddsoddwyr sy'n ddeiliaid bondiau, fel y bo'n briodol. Nodir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn ymdrin â llywodraethu a chydymffurfio â'r Cod yn nhudalennau'r Adroddiad Llywodraethu hwn. Eleni, rydym hefyd wedi adolygu ein prosesau yn erbyn canllawiau diwygiedig Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu i fyrddau cyfarwyddwyr cwmnïau dŵr.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau amrywiaeth o ran cefndir, sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd. Mae 30% o aelodau ein Bwrdd yn fenywod ac mae'r aelodau unigol o'r Bwrdd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli cefndiroedd o sgiliau

gwahanol iawn. Mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio olyniaeth a datblygu sgiliau unigol o fewn y busnes yn rheolaidd gan y Tîm Gweithredol.


Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r fframwaith sydd ar waith gennym i fodloni gofynion llywodraethu ac yn rhoi gwybodaeth am ein Bwrdd a'n Pwyllgorau ac Aelodau Glas.

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

6 Mehefin 2019

EIN STRWYTHUR CORFFORAETHOL

Mae ein Datganiadau Ariannol (o dudalen 122) yn rhoi manylion am y cwmnïau canlynol sy'n rhan o strwythur ein Grŵp:



Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Glas Cymru)

sef cwmni cyfyngedig drwy warant a sefydlwyd ar 15 Rhagfyr 2015. Crëwyd y cwmni hwn fel rhan o ymarfer ailstrwythuro corfforaethol, a ddigwyddodd ar 1 Mawrth 2016, fel cwmni daliannol newydd y Grŵp. Drwy greu'r cwmni daliannol terfynol newydd hwn bu modd creu is-gwmnïau newydd a allai wneud buddsoddiadau masnachol y tu hwnt i'r Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n llywodraethu'r broses o waraneiddio busnes cyfan dros y busnes rheoleiddiedig o dan Glas Cymru Anghyfyngedig.

Dŵr Cymru Cyfyngedig (y cyfeirir ato fel Dŵr Cymru yn yr adroddiad hwn) sef is-gwmni y mae Glas Cymru yn berchen arno'n llawn a phrif gwmni masnachu'r Grŵp. Ei brif weithgaredd yw cyflenwi dŵr a thrin a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi (Trwydded) a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989.

Glas Cymru Anghyfyngedig sef cyn-Riant-gwmni Grŵp Glas Cymru.

Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig yw cwmni daliannol Dŵr Cymru (Holdings) Limited a'i is-gwmnïau.

Dŵr Cymru (Holdings) Limited yw cwmni daliannol canolradd Dŵr Cymru Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Financing) Limited.

Dŵr Cymru (Financing) Limited sef cwmni "dyroddi" bondiau'r Grŵp, a restrir ar Bourse Lwcsembwrg. Sefydlwyd Dŵr Cymru (Financing) Limited cyn i Glas Cymru gaffael Dŵr Cymru yn 2001, ac mae wedi'i gofrestru'n ddeuol yn yr Ynysoedd Cayman ac yng Nghymru a Lloegr. Ers 2001 mae wedi cael ei reoli ac mae'n breswyl yn y DU at ddibenion treth. Mae'r cwmni yn benthycu enillion unrhyw ddwyroddiadau bond i Dŵr Cymru Cyfyngedig. Yn ystod haf 2019, rydym yn disgwyl i'r ddyled a ddelir yn y cwmni hwn gael ei throsglwyddo gennym i Dŵr Cymru (Financing) UK Plc, sef cwmni newydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Yna rydym yn

disgwyl i Dŵr Cymru (Financing) Limited gael ei ddiddymu yn ystod 2020.

Welsh Water Holdings Limited yw un o is-gwmnïau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ac mae'n gwmni daliannol canolradd i'r cwmnïau nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb Telerau Cyffredin:

- **Cambrian Utilities Limited** – cwmni a gafodd ei greu i gynnig gwasanaethau manwerthu cystadleuol i gwsmeriaid busnes; mae'n segur ar hyn o bryd wrth i ni aros i weld sut mae'r farchnad gystadleuol ar gyfer gwasanaethau busnes manwerthu yn datblygu yng Nghymru a Lloegr.
- **Welsh Water Infrastructure Limited** – mae'n mynd ar drywydd prosiectau masnachol.
- **Welsh Water Organic Energy Limited a Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited** – cyn-gwmnïau Grŵp Kelda. Prynwyd yr is-gwmnïau hyn ym mis Rhagfyr 2017 ac maent yn darparu gwasanaethau treulio bwyd anerogig a chompostio o dan contract i Awdurdodau Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, gan gyflenwi trydan o'r broses dreulio ar gyfer ein gwaith trin dŵr gwastraff yng Nghaerdydd.
- **Welsh Water Organic Waste Limited** – cafodd ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2018 i ddarparu gwasanaethau gwaredu gwastraff i gwsmeriaid elifion masnach.
- **Dŵr Cymru (Financing) UK Plc** – cafodd ei gorffori ym mis Ebrill 2019 er mwyn dod yn gwmni "dyroddi" newydd y Grŵp a daw yn gyfrifol am yr holl offerynnau dyled presennol yn lle Dŵr Cymru (Financing) Limited. Yn ystod 2019 daw yn un o is-gwmnïau Dŵr Cymru (Holdings) Limited.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR



CADEIRYDD Y BWRDD
ALASTAIR LYONS CBE

PENODWYD YN GyFARWYDDWR
ANWEITHREDOL: MAI 2016
YN Y SWYDD ERS: MAI 2016
AELODAETH O BWYLLGORAU:

C Cy AA E CAD T

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 62.

Penodwyd Alastair Lyons yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mai 2016 a barnwyd ei fod yn annibynnol ar odeg ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2016. Mae hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Enwebu.

Sgiliau a Phrofiad

Mae gan Alastair, a hyfforddodd fel cyfrifydd siartredig, 19 mlynedd o brofiad fel cadeirydd anweithredol cwmnïau rhestredig a phreifat. Yn ystod gyrfya weithredol helaeth ym maes gwasanaethau ariannol, ef oedd Prif Swyddog Gweithredol y National Provident Institution a Chymdeithas Adeiladu'r National and Provincial, Rheolwr Gyfarwyddwr Is-adran Yswiriant Abbey National plc a Chyfarwyddwr Prosiectau Corfforaethol ym Manc y National Westminster plc.

Swyddi Anweithredol eraill

a ddelir ar hyn o bryd

Alastair yw Cadeirydd Harworth Group plc, Vitality Health Ltd, ac AECS, sef cwmni daliannol Ewropeaidd Grŵp Admiral.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Bu Alastair yn Gadeirydd Grŵp Admiral, y cwmni yswirio moduron uniongyrchol, rhwng 2000 a 2017, yn Gadeirydd Towergate Insurance, Cadeirydd Serco, sef y grŵp gwasanaethau rhyngwladol, Dirprwy Gadeirydd Bovis Homes, ac yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yng nghwmni Phoenix, sef y cyfunwr yswiriant bywyd. Bu hefyd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Adran Drafnidiaeth a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cafodd ei urddo'n CBE yn 2001 am ei wasanaethau i nawdd cymdeithasol.



PRIF WEITHREDWR
CHRIS JONES

YN Y SWYDD ERS: 2013

AELODAETH O BWYLLGORAU:

C AA

Cyfrifoldebau

Rheoli busnes y Grŵp yn effeithiol o fewn y strategaethau a bennwyd gan y Bwrdd. Daeth Chris yn Brif Weithredwr ym mis Medi 2013.

Sgiliau a Phrofiad

Cyn mis Medi 2013, bu Chris yn Gyfarwyddwr Cyllid Dŵr Cymru o fis Mai 2001. Roedd yn un o ddau Gyfarwyddwr Sylfaenu Glas Cymru yn 2000. Mae hefyd wedi gwasanaethu'n flaenorol fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio Dŵr Cymru a South Wales Electricity plc. Cyn ymuno â Dŵr Cymru yn 1995, bu'n un o Gyfarwyddwyr National Economic Research Associates a, chyn hynny, bu'n gweithio i Drysorlys EM.

Swyddi Anweithredol eraill

a ddelir ar hyn o bryd

Is-Gadeirydd Cyngor Cyngori the Prince's Trust Cymru ers 2009.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality. Un o ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig.



CYFARWYDDWR CYLLID
A MASNACHOL
PETER BRIDGEWATER

YN Y SWYDD ERS: MEDI 2014

AELODAETH O BWYLLGORAU:

C T

Cyfrifoldebau

Mae'n gyfrifol am les ariannol y Grŵp, busnes Corfforaethol, technoleg gwybodaeth, ac am gyfronnu at strategaeth ac arweinyddiaeth y busnes.

Sgiliau a Phrofiad

Ymunodd Peter â Dŵr Cymru ym mis Medi 2014 gyda 15 mlynedd o brofiad yn gweithio mewn swyddi Cyllid a swyddi Rheolwr Gyfarwyddwr ym mhob rhan o'r sector ynni a'r sector dŵr, yn y DU a thramor. Bu Peter yn Gyfarwyddwr Gweithredol gydag E.ON a Sembcorp Industries mewn cyfleustodau a reoleiddir a diwydiannau cystadleuol, yn ogystal ag ymddiriedolwr cronfa bensiwn.

Cyn ymuno â'r diwydiant ynni yn 1994 roedd Peter yn gyfrifydd siartredig ac yn ymgynghorydd rheoli gyda PwC.

Swyddi Anweithredol

a ddelir ar hyn o bryd

Cyfarwyddwr Ymddiriedolwyr Tylorstown Welfare Hall Limited ers mis Mehefin 2018.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyfarwyddwr Anweithredol Ebico Limited, sef darparwr nwy a thrydan nid er elw, tan fis Ebrill 2019.



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL
YR ATHRO TOM CRICK MBE

YN Y SWYDD ERS: HYDREF 2017

AELODAETH O BWYLLGORAU:

AA T CAD

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 63.

Mae Tom hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Technoleg.

Sgiliau a Phrofiad

Tom yw'r Athro Addysg a Pholisi Digidol ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ei ddiddordebau academaidd yn canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng ymchwil a pholisi – o wyddor data i wasanaethau cyhoeddus. Mae wedi rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar nifer o feysydd polisi, ac mae un o Gomisiynwyr Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Cafodd Tom ei urddo'n MBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2017 am ei wasanaethau i gyfrifiadureg a hyrwyddo addysg gyfrifiadureg.

Swyddi Anweithredol eraill

a ddelir ar hyn o bryd

Un o Gomisiynwyr Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Is-Lwydd BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG.



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL
GRAHAM EDWARDS

YN Y SWYDD ERS: HYDREF 2013

AELODAETH O BWYLLGORAU:

A AA CAD

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 63.

Mae Graham hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd.

Sgiliau a Phrofiad

Graham yw Prif Swyddog Gweithredol Wales & West Utilities. Mae ganddo brofiad sylweddol fel uwch-reolwr yn y sector cyfleustodau, yn rhedeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Cyn gweithio yn y sector cyfleustodau, bu'n dal uwch swyddi mewn nifer o swyddogaethau ar draws amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu gan gynnwys Peiranneg, Cynhyrchu ac Adnoddau Dynol. Mae gan Graham MBA o Ysgol Fusnes Coerdydd ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Swyddi Anweithredol eraill

a ddelir ar hyn o bryd

Aelod o Fwrdd Prifysgol De Cymru.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyn-Gadeirydd CBI Cymru a Busnes yn y Gymuned Cymru ac un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Allwedd y Pwyllgorau

A Archwilio

C Cyllid

E Enwebu

Cy Cydnabyddiaeth

AA Ansawdd ac Amgylchedd

T Technoleg



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL
JOANNE KENRICK

YN Y SWYDD ERS: 2015

AELODAETH O BWYLLGORAU:

A AA T

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 63.

Sgiliau a Phrofiad

Joanne oedd Cyfarwyddwr Marchnata Homebase tan ddiwedd 2015. Cyn hynny, Joanne oedd Prif Swyddog Gweithredol Start, gan sefydlu a rhedeg menter gyhoeddus Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Cyfarwyddwr Marchnata ac Arlwy Cwsmeriaid B&Q, Cyfarwyddwr Marchnata'r Lateri Genedlaethol, a Chyfarwyddwr Gwerthiannau Grŵp a Marchnata Wilson Connolly. Bu'n gweithio hefyd i Woolworths, Asda, PepsiCo a Masterfoods. Mae gan Joanne radd yn y Gyfraith o Brifysgol Nottingham a thra roedd yn y coleg hi oedd un o'r merched cyntaf erioed i gael ei hyfforddi i hedfan gan y RAF.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Hefyd, hi yw Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cadeirydd Annibynnol Gwasanaeth Newid Cyfrif Cyfredol Pay.UK a Chadeirydd ymddiriedolwyr yr elusen plant Make Some Noise ac mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Safestore, sef busnes hunanstorio mwyaf y DU.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Bu Joanne yn Gyfarwyddwr Anweithredol yng Nghymdeithas Adeiladu'r Principality am saith mlynedd ac yn fwy diweddar yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol BACS Payment Services Limited.



RHEOLWR GYFARWYDDWR
PETER PERRY

YN Y SWYDD ERS: HYDREF 2017

AELODAETH O BWYLLGORAU:

AA T

Cyfrifoldebau

Mae'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth weithredol ac am arwain y busnes rheoleiddiedig, sydd wedi'i rannu'n dair is-adran – Dŵr, Gwastraff Dŵr a Masnach.

Sgiliau a Phrofiad

Penodwyd Peter yn Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru ym mis Hydref 2017 ar ôl pedair blynedd fel Prif Swyddog Gweithredu.

Penodwyd Peter yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dŵr Cymru ym mis Gorffennaf 2006 gyda chefnid ym maes peirianeg sifil. Bu'n Brif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau i UUOS lle y bu'n gyfrifol am y contract gweithredol â Dŵr Cymru a buddionnau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn ymuno ag UUOS gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Roedd yn un o Gyfarwyddwyr (yn cynrychioli Cymru) y Cynllun Cyngori Rheoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n nodi safonau ar gyfer deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir ym maes cyflenwi dŵr yfed.



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL
MENNA RICHARDS OBE

PENODWYD YN GYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL: TACHWEDD 2010
YN Y SWYDD ERS: GORFF. 2014
AELODAETH O BWYLLGORAU:

E Cy

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 63.

Mae Menna hefyd yn Aelod o'r Panel Dethol Aelodau, yn cynrychioli Bwrdd y Cyfarwyddwr. Mae'r Panel yn argymhell Aelodau i'w penodi i'r Bwrdd.

Sgiliau a Phrofiad

Treuliodd Menna ei gyfira weithredol ym maes darlledu fel Cyfarwyddwr BBC Cymru (2000–2011) a chyn hynny roedd yn Rheolwr Gyfarwyddwr, HTV Wales.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Cadeirydd elusen ALOUD. Is-Lywydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Swyddi Anweithredol blaenorol
Cyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality ac Opera Cenedlaethol Cymru. Cadeirydd Llywodraethwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Aelod o fwrdd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL
ANNA WALKER CB

YN Y SWYDD ERS: MAWRTH 2011

AELODAETH O BWYLLGORAU:

A Cy CAD

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 63.

Mae Anna hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, sef rôl y mae wedi ymgymryd â hi ers dros 12 mis.

Sgiliau a Phrofiad

Mae gan Anna doreth o brofiad ym maes rheoleiddio, gwasanaethau cwsmeriaid, llunio polisiâu a gweithio gyda llywodraethau. Cynhaliodd Anna adolygiad annibynnol ar gyfer y llywodraeth yn 2008 ar godi tâl am ddŵr mewn cartrefi. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd (2004–2009), Cyfarwyddwr Cyffredinol, Defnydd Tir a Materion Gwledig yn DEFRA, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Ynni DTI, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Ofel, rheoleiddwr y sector telathrebu.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Anna, a gafodd ei hwrddo'n CB yn 2003 am ei gwasanaeth cyhoeddus, yw Dirprwy Gadeirydd Cyngor Which?, ac mae'n aelod o'r Tribwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG De Llundain a Maudsley a Chadeirydd Elusen Ysbyty San Siôr.

Swyddi Anweithredol blaenorol
Anna oedd Cadeirydd y Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd rhwng 2009 a 2015 ac mae wedi gwasanaethu fel Is-Gadeirydd Consumer Focus, sef y corff hyrwyddo defnyddwyr statudol.



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL
JOHN WARREN

YN Y SWYDD ERS: MAI 2012

AELODAETH O BWYLLGORAU:

A CAD C CAD

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 63.

Mae John hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio.

Sgiliau a Phrofiad

Mae John yn gyfrifydd cymwysedig gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn uwch rolau ariannol ac mae ganddo brofiad helaeth o gadeirio Pwyllgorau Archwilio cwmnïau a restrir yn y DU. Nes iddo ymddol yn 2005, ef oedd Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp WH Smith PLC a, chyn hynny, United Biscuits (Holdings) Plc.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Greencore Group plc, 4imprint Group plc a Bloomsbury Publishing Plc ac mae'n cadeirio Pwyllgorau Archwilio'r cwmnïau hynny.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Bu John yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac yn Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r cwmnïau canlynol: Spectris plc, Rexam Plc, Bovis Homes Group PLC, Rank Group Plc, Uniq Plc, Arla Foods UK plc, BPP Holdings plc.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

SUT RYDYM YN CYFLAWNI DARPARIAETHAU COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU¹

Cod Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU (y “Cod”) yw’r safon a ddefnyddiwyd gennym i fesur ein harferion llywodraethu yn Glas Cymru yn 2018. Mae’r Cod ar gael i’w lawrlwytho yn www.frc.org.uk.

Drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, cydymffurfiodd Glas Cymru â’r Cod yn llawn.

Mae’r adrannau canlynol yn nodi sut rydym yn cydymffurfio â darpariaethau’r Cod, y mae ei brif egwyddorion yn cwmparu’r meysydd canlynol:

- **ARWEINYDDIAETH**
- **EFFEITHIOLRWYDD**
- **ATEBOLRWYDD**
- **CYDNABYDDIAETH**
- **CYSYLLTIADAU Â CHYFRANDDALWYR²**

1. Cafodd y Cod ei ddiweddarau a’i ailgyhoeddi, ynghyd â’r Canllaw ategol ar Effeithiolrwydd Bwrdd, gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Gorffennaf 2018, ac mae’n gymwys i gwmnïau sy’n cyflwyno adroddiadau ar gyfer y cyfnodau yn dechrau ar ôl 1 Ionawr 2019 (y “Cod Diwygiedig”). Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad llawn yn unol â’r Cod Diwygiedig yn ein Hadroddiad Blyneddol ar gyfer 2020. Yn y cyfamser, rydym wedi dechrau cymryd y camau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn barod i gydymffurfio â’r Cod Diwygiedig, gan gynnwys ffyrdd y gall y Bwrdd ymgysylltu ymhellach â chyflogeion a chyfranddalwyr.
2. Nid oes gennym gyfranddalwyr ond rydym yn cymhwyso darpariaethau’r Cod at ein Haelodau a’n Buddsoddwyr.

AELODAU’R BWRDD

Mae pob un o aelodau’r Bwrdd yn gyfarwyddwyr y cwmni daliannol, Glas Cymru a’r cwmni gweithredol rheoleiddedig, Dŵr Cymru Cyfyngedig. Mae’r un Bwrdd yn sicrhau dull gweithredu unedig lle y caiff buddiannau’r cwmni gweithredol eu hyrwyddo fel petai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gwmni rhestredig cyhoeddus ar wahân, yn unol â chanllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth Bwrdd, Tryloywder a Llywodraethu.

Mae’r Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am y canlynol:

- pennu strategaeth y Grŵp, gan sicrhau llwyddiant y Grŵp yn yr hirdymor er budd ei gwsmeriaid;
- monitro perfformiad y Tîm Gweithredol yn erbyn yr amcanion strategol;
- sicrhau adnoddau ariannol a dynol digonol i gyflawni amcanion y Grŵp;
- goruchwyllo prosiectau buddsoddiad cyfalaf mawr;
- pennu’r awydd i fentro ar gyfer y busnes a sicrhau digonolrwydd ac effeithlonrwydd systemau rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp.

Nodir y **Materion a Gedwir** yn ôl i’r Bwrdd benderfynu arnynt a Chylch Gorchwyl pob un o Bwyllgorau’r Bwrdd ar ein gwefan yn www.dwrcymru.com/cy/Library.aspx. Yn ogystal â phrif gyfarfodydd y Bwrdd, mae’r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Enwebu, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a’r Pwyllgor Technoleg yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae’r Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod neu’n cynnal ei fusnes drwy gyfathrebu dros e-bost neu dros y ffôn ar sail ad hoc. Yn ystod y flwyddyn 2018-19, sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Technoleg newydd

er mwyn goruchwyllo darpariaeth gwybodaeth a chyfathrebu a thechnoleg weithredol y Grŵp i gefnogi’r gwaith o gyflawni amcanion busnes tymor canolig y Grŵp yn y ffordd fwyaf effeithlon ac yn unol â’r awydd i fentro a nodwyd ar gyfer y Grŵp.

Ceir disgrifiad o waith y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Enwebu, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd, y Pwyllgor Technoleg a’r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalennau 70 i 103.

Mae’r Bwrdd wedi dirprwyo’r ystyriaeth fanwl o gyfrifoldebau penodol i Bwyllgorau’r Bwrdd, ond wedi cadw’r cyfrifoldeb cyffredinol am wneud penderfyniadau yn y meysydd hyn.

Cadeirydd y Bwrdd Mae Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd, pennu agenda cyfarfodydd y Bwrdd a sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd a’i Bwyllgorau a threfniadau llywodraethu da.

Prif Weithredwr Y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i’r Bwrdd, y Prif Weithredwr sy’n bennaf cyfrifol am reoli materion y Cwmni o ddydd i ddydd. Caiff ei gefnogi gan y Tîm Gweithredol.

Y Tîm Gweithredol – mae’n cynnwys y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch-reolwyr sy’n uniongyrchol atebol i’r Prif Weithredwr neu’r Rheolwr Gyfarwyddwr, ac mae’n gyfrifol am weithredu’r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd ac am reoli y Busnes o ddydd i ddydd.

Ysgrifennydd y Cwmni – mae’n cynorthwyo Cadeirydd y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y Grŵp yn dangos trefniadau llywodraethu da. Cytunir ar agendâu Cyfarfodydd y Bwrdd drwy ymgynghori â Chadeirydd y Bwrdd a’r Prif Weithredwr, er y gall

unrhyw aelod o'r Bwrdd ofyn am i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda. Mae tîm Ysgrifenyddol y Cwmni ar gael i gynorthwyo'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol a'r Tîm Gweithredol ac mae'n gweithio i sicrhau bod llifau gwybodaeth da rhwng y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a phwyllgorau a thimau rheoli mewnol y Grŵp.

Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol
Mae'n cyfarfod â'r Gyfarwyddwyr Anweithredol eraill a'r Gyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol er mwyn adolygu perfformiad y Cadeirydd. Mae hefyd ar gael i unrhyw aelod o Glas sydd am godi unrhyw faterion ag ef.

Cyfarwyddwyr Anweithredol
Maent yn meddu ar amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad y maent yn eu defnyddio er budd y busnes. Maent yn herio'r Gyfarwyddwyr Gweithredol mewn ffordd adeiladol ac yn monitro'r ffordd y mae'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd yn cael ei gweithredu o fewn y fframwaith risg a rheoli a bennwyd gan y Bwrdd. Yn ogystal â chadeirio neu fynychu pwyllgorau'r Bwrdd, maent yn mentora ac yn cefnogi aelodau o'r Tîm Gweithredol ac uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r busnes, ac yn ymddiddori mewn materion gweithredol sy'n effeithio ar y busnes (gweler tudalen 66 am fanylion ymweliadau safle gan Gyfarwyddwyr Anweithredol yn ystod 2018-19).

> DARLLENWCH FWY AM FANYLION BYWGRAFFYDDOL Y CYFARWYDDWYR A'R SGILIAU PENODOL A RESTRI'R AR GYFER POB CYFARWYDDWR AR DUDALEN 60

PENODIADAU ALLANOL CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

Chris Jones yw Dirprwy Gadeirydd Cyngor Cyngori the Prince's Trust Cymru. Yn ystod y flwyddyn, bu Peter Bridgewater yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ebico Limited ac Ebico Trading Limited, o chafodd ei dalu £20,000 ar wahân am hynny yn 2018-19¹. Hefyd, daeth yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolwr Tylorstown Welfare Hall yn weithredol o 18 Mehefin 2018.

CYFARFODYDD Y BWRDD A PHRESENOLDEB

Cyfarwyddwr	Bwrdd	PAA	Archwilio	Cydnabyddiaeth	Enwebu	Cyllid	Technoleg***
Chris Jones	11/11	6/6	5/5	-	1/1	1/1	2/2
Peter Perry	11/11	6/6	-	-	-	-	2/2
Peter Bridgewater	11/11	-	5/5	-	-	1/1	2/2
Alastair Lyons	11/11	6/6	-	8/8	1/1	1/1	2/2
Menna Richards	9/11	-	-	7/8	1/1	-	-
Tom Crick	10/11*	6/6**	-	-	-	-	2/2
Graham Edwards	11/11	6/6	5/5	-	1/1	-	-
Joanne Kenrick	11/11	6/6	5/5	-	-	-	2/2
Anna Walker	11/11	-	4/5	8/8	-	-	-
John Warren	11/11	-	5/5	7/8	-	1/1	2/2

* Cyfranogodd Tom Crick am ran o gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr dros y ffôn oherwydd salwch ac nid oedd yn gallu ymuno â chyfarfod y Bwrdd dros y ffôn ar 28 Mawrth 2019.
** Cyfranogodd Tom Crick am ran yn unig o gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd ym mis Ionawr oherwydd salwch.
*** Sefydlwyd y Pwyllgor Technoleg ym mis Rhagfyr 2018.
1. Ymddiswyddodd Peter Bridgewater o'r rôl allanol hon yn weithredol o 15 Ebrill 2019.

EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

EGWYDDOR COD LLYWODRAETHU CORFFFORAETHOL Y DU – ARWEINYDDIAETH

- Gan ein bod yn darparu gwasonaeth cyhoeddus hanfodol, rydym yn deall bod y ffordd y cawn ein llywodraethu yn hollbwysig wrth ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Ein gweledigaeth yw Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd;
- Cawn ein harwain gan Fwrdd effeithiol sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am lwyddiant y Cwmni yn yr hirdymor;
- Rhennir cyfrifoldebau'n glir rhwng rhedeg y Bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am redeg busnes y Cwmni. Nid oes gan un unigolyn bwerau gwneud penderfyniadau dilyffethair;
- Mae ein Cadeirydd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd ac am sicrhau ei fod yn effeithiol;
- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn herio mewn ffordd odeiladol ac yn helpu i ddatblygu cynigion ym maes strategaeth.



- Cadeirydd y Grŵp Herio ar ran Cwsmeriaid yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd, er mwyn trafod cyfraniad cwsmeriaid i'r broses o ddatblygu cynlluniau PR19;
- deall yr opsiynau cyflawni allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu cynllun busnes PR19 a chymeradwyo'r cynllun a'i gyflwyno;
- adolygu perfformiad yn erbyn y DPAau;
- goruchwyllo perfformiad gweithredol, gan gynnwys ystyried y gwersi a ddysgwyd o ddau achos sylweddol o lygredd (Felindre a Five Fords) ac o heriau gweithredol Storm Emma, y cyfnod estynedig o dywydd sych yn yr haf, a stormydd yr hydref;
- adolygu prosesau rheoli risg a rhoi gwybod am risg ym mhob rhan o'r busnes;
- adolygu camau i ymgorffori diwylliant Dŵr Cymru yn y busnes gwastraff bwyd newydd ei gaffael;
- adolygu olyniaeth ar gyfer rolau uwch-reolwyr ac ystyried

rhaglenni datblygu pobl a rheoli talent ym mhob rhan o'r busnes;

- adolygu hynt datblygiadau arloesol ym mhob agwedd ar y busnes;
- ystyried Strategaeth Canolfannau Ymwelwyr y Cwmni a'r gwariant cyfalaf arfaethedig ar brosiectau yn Llys y Frân (Sir Benfro) a Llanisien/Llys-faen (Caerdydd);
- adolygu yn ystod "Diwrnod Strategaeth" a gynhelir yn benodol i edrych ar y busnes o softbwynt tymor hwy, Datganiad o Ddiben y Cwmni, ynghyd â'r heriau allweddol y mae'n eu hwynebu wrth gymryd camau tuag at weithredu Dŵr Cymru 2050. Roedd y materion a ystyriwyd yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd, gosod pibellau cyflenwi dŵr newydd yn lle pibellau plwm, rheoli gollyngiadau, cyflenwadau preifat a rennir, microblastigion mewn dŵr a dŵr gwastraff, a rheoleiddio amgylcheddol ychwanegol.

CRYNODEB O FEYSYDD FFOCWS Y BWRDD YN 2018-19

Yn ystod 2018-19 mae'r Bwrdd wedi ymdrin â'r busnes canlynol yng nghyfarfodydd y Bwrdd:

- cwblhau Dŵr Cymru 2050 yn derfynol a'i lansio;
- Sesiwn strategaeth adolygiad PR19 Ofwat o brisiau i Aelodau'r Bwrdd a pharatoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun busnes, gan gynnwys adolygiadau o effeithlonrwydd a chostau a'r graddau y mae pob elfen o'r cynllun yn gyson â nodau strategol Dŵr Cymru 2050;

EFFEITHIOLRWYDD AC ANNIBYNIAETH

Adolygwyd cyfansoddiad y Bwrdd gan y Pwyllgor Enwebu yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2018, er mwyn cadarnhau amrywiaeth briodol o gefndir, arbenigedd sgiliau a phrofiad, a chynllunio ar gyfer olyniaeth Cyfarwyddwyr. Adolygwyd cyfansoddiad Pwyllgorau'r Bwrdd hefyd a chafodd newidiadau i'r Aelodaeth bresennol eu cynnig a'u cymeradwyo. Caiff y Flaenamserlen ar gyfer agendâu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn sicrhau bod pob un o aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i awgrymu eitemau i'w cynnwys.

SEFYDLU

Rydym yn dilyn gweithdrefn drwyadl a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd. Mae'r broses sefydlu yn cynnwys cyfle i weld papurau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau fel y bo'n briodol, ymweliadau safle a chyfarfodydd un i un ag aelodau o'r Tim Gweithredol ac uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r busnes. Lle y bo'n briodol, mae Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd hefyd yn mynychu cwrs Sefydliad y Cyfarwyddwyr i gyfarwyddwyr newydd. Caiff Cyfarwyddwyr raglen sefydlu wedi'i theilwra wrth ymuno a rhaglenni addysgol a gwybodaeth parhaus ar bynciau sy'n berthnasol i weithredu a llywodraethu'r busnes.

CYFNOD MEWN SWYDD AC AILETHOL

Penodir Cyfarwyddwyr Anweithredol am gyfnod o dair blynedd y gellir ei adnewyddu am hyd at ddau gyfnod arall o dair blynedd. Sut bynnag, ni chaniateir i unrhyw Gyfarwyddwr Anweithredol wasanaethu am fwy na 10 mlynedd o dan delerau ein Herthyglau. Hefyd, mae pob Cyfarwyddwr yn ceisio cael ei

ailethol yn ffurfiol bob blwyddyn gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a bydd unrhyw Gyfarwyddwr a benodir yn ystod y flwyddyn yn ceisio cael ei (h)ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf yn dilyn ei benodiad/phenodiad.

ANNIBYNIAETH

Rydym yn ystyried annibyniaeth ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn barhaus ac yn ffurfiol bob blwyddyn. Mae ein Herthyglau yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Cyfarwyddwyr nad ydynt yn rhan o unrhyw wrthdaro i awdurdodi sefyllfaoedd lle ceir gwrthdaro. Mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr hysbysu Ysgrifenyddiaeth y Cwmni o unrhyw achosion posibl o wrthdaro a all godi. Ystyrir bod pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gydb berthynas a allai ddylanwadu ar eu barn annibynnol.

Nid yw ein dogfennau cyfansoddiadol yn nodi dyraniad amser penodol y mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Anweithredol ei gyflawni er mwyn bod yn effeithiol yn eu rolau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Enwebu yn adolygu i ba raddau y mae gan Gyfarwyddwyr Anweithredol amser priodol i gyflawni eu rôl yn effeithiol, ac yn ystyried unrhyw ymrwymadau newydd arfaethedig y mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn bwriadu eu cyflawni, ochr yn ochr â'u rolau presennol. Fel arfer, mae papurau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gael i'w hadolygu wythnos ymlaen llaw cyn y cyfarfodydd perthnasol a gall pob Cyfarwyddwr Anweithredol weld papurau pob Pwyllgor fel arfer, hyd yn oed os nad yw'n aelod o'r Pwyllgor perthnasol. Mae pob Cyfarwyddwr yn gallu cysylltu ag Ysgrifennydd y Cwmni bob amser ac â chynghorwyr allanol os gofynnir am hynny.

EGWYDDOR COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – EFFEITHIOLRWYDD

- Mae gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y Cwmni i'w galluogi i gyflawni eu priod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn adolygu hyn yn rheolaidd mewn trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cwmni, y Pwyllgor Enwebu ac fel rhan o'n hadolygiad blyneddol o effeithiolrwydd.
- Mae gan Glas Cymru weithdrefn dryloyw, drwyadl a ffurfiol ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd.
- Caiff Cyfarwyddwyr raglen sefydlu wedi'i theilwra wrth ymuno a rhaglenni addysgol, llawn gwybodaeth parhaus ar bynciau sy'n berthnasol i weithredu a llywodraethu'r busnes.
- Mae pob Cyfarwyddwr yn rhoi digon o'i amser i'r Cwmni i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol.
- Darperir holl ddeunyddiau cyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgorau 5 diwrnod busnes ymlaen llaw.
- Gall ein Cyfarwyddwyr Anweithredol gysylltu ag Ysgrifennydd y Cwmni a chynghorwyr allanol er mwyn rhoi safbwynt allanol i'r Bwrdd.
- Mae pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol gan yr Aelodau ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.
- Mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn cyflawni ei rôl am gyfnod o dair blynedd a all gael ei ymestyn hyd ddiwedd naw mlynedd o'i benodi.

EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU PARHAD

DEALL Y BUSNES GWEITHREDOL

Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein Cyfarwyddwyr yn barhaus – mae Ysgrifenyddiaeth y Cwmni yn sicrhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybod am ddatblygiadau mewn deddfwriaeth a threfniadau llywodraethu corfforaethol ac adrodd fel y bo'n briodol. Mae ein Harchwilyr, KPMG, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd sy'n golygu bod y Cyfarwyddwyr yn cael y diweddaraaf ar ddatblygiadau cyfredol, gan gynnwys y newidiadau i God Llywodraethu Corfforaethol y DU a nodwyd yn y Cod Diwygiedig. Eleni, parhawyd i ganolbwyntio ar broses adolygu prisiau PR19, a mynychwyd cyfarfodydd y Bwrdd gan ymgynghorwyr allanol a chan Peter Davies CBE, Cadeirydd ein Grŵp Herio ar ran Cwsmeriaid.

Cynhaliwyd ymweliadau safle gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Dyddiad	Lleoliad	Yn bresennol
Mehefin 2018	Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Llyn Celyn a Phorthmadog	Alastair Lyons Joanne Kenrick
	Cronfa ddŵr Tal-y-bont ar Wysg	Menna Richards
Awst 2018	Canolfan alwadau gyswllt, Linea Gweithfeydd Trin Dŵr Felindre Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd Labordai Glaslyn	Tom Crick
	Ymweliad Safle'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd – Glynredynog a Phorth, Rhondda Fach	Alastair Lyons Tom Crick Graham Edwards Joanne Kenrick Menna Richards Anna Walker John Warren
Medi 2018	Cronfa ddŵr Tal-y-bont ar Wysg a chronfa ddŵr Wysg	Alastair Lyons Tom Crick
	Gwaith Trin Dŵr Nantgaredig a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Parc y Splott	Menna Richards (yng nghwmni aelodau newydd Glas fel rhan o'u cyfarfod sefydlu)
Rhagfyr 2018	Gorsaf Bwmpio Prioress Mill a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst	Alastair Lyons
Ionawr 2019	Canolfan alwadau gyswllt, Linea	Alastair Lyons
Chwefror 2019	Gorsaf Bwmpio Prioress Mill	Anna Walker John Warren
Mawrth 2019	Cronfa Ddŵr Castell Nos Cynghrair y Rhwydwaith	Alastair Lyons

Mae ein prosesau llywodraethu yn seiliedig ar dryloywder a thegwch, sy'n ategu gwerthoedd y Grŵp a diben y Cwmni.

Rydym yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU fel sy'n ofynnol o dan ein Trwydded gan Ofwat. Mae Ofwat hefyd wedi cyhoeddi ei ofynion o ran Arweinyddiaeth,

Tryloywder a Llywodraethu rydym yn anelu at gydymffurfio â hwy. Mae ein datganiad sy'n amlinellu sut rydym yn cyflawni'r amcanion hyn ar gael ar ein gwefan

> [DARLLENWCH FWY AR-LEIN YN: DWR CYMRU.COM/BUDDSODDWYR](#)

EIN GWELEDIGAETH A’N DIWYLLIANT

Ein gweledigaeth yw Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd, a diben Dŵr Cymru yw darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel sy'n rhoi gwell gwerth am arian, a thrwy hynny wella lles

ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae ein diwylliant yn canolbwyntio ar gyflawni'r ddau nod hyn ac mae hyn yn sail i bob penderfyniad a wneir gan y Bwrdd ac mae'n seiliedig ar werthoedd ein Cwmni, sef gonestrwydd, tryloywder a rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn.

Fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, mae llywodraethu da yn hollbwysig i Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid. Mae effeithiolrwydd y Bwrdd yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y busnes yn yr hirdymor a chaiff cyfrifoldeb ei rannu'n glir rhwng ffocws strategol y Bwrdd a'r cyfrifoldeb Gweithredol am roi'r strategaeth ar waith wrth redeg y busnes o ddydd i ddydd. Er mai'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am arwain y busnes, Cadeirydd y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am arwain y Bwrdd a sicrhau ei effeithiolrwydd cyffredinol, ac mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn herio'r Tîm Gweithredol mewn ffordd adeiladol.

Mae Cyfarwyddwyr unigol yn hyrwyddo llwyddiant y Cwmni er budd pob rhanddeiliad, a hynny'n gyson ag adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Rôl y Bwrdd yw pennu strategaeth y Grŵp yn seiliedig ar gynigion a luniwyd gan y Tîm Gweithredol ac adolygu'r cynnydd a wnaed gan reolwyr y busnes o ran cyflawni'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Nodir manylion y strategaeth yn Adroddiad Strategol yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon hyn (gweler tudalen 9). Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'i rôl fel gwarcheidwaid busnes hirdymor, gyda rhwymedigaeth fel gwarcheidwaid i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn cael yr asedau sydd eu hangen arni i gyflawni diben y Cwmni.

ATEBOLRWYDD

Mae Bwrdd cyfun Glas Cymru a Dŵr Cymru yn sicrhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yn cyflwyno asesiad teg, cytbwys a dealladwy o sefyllfa a rhagolygon y Cwmni.

Mae'r Bwrdd yn atebol i amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys Aelodau Glas, ein buddsoddwyr, cwsmeriaid, cydweithwyr, cyflenwyr, partneriaid, a rheoleiddwyr ac mae ei ddyfarniadau a'i brosesau yn cael eu hadolygu gan ei Archwilwyr, KPMG a Chofnodwr y Cwmni, Jacobs.

YMGYSYLLTU Â'R GWEITHLU

Caiff ein diwylliant ei atgyfnerthu gan ymgysylltu uniongyrchol y Tîm Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd â chydweithwyr ym mhob rhan o'r busnes:

- mae Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cynnal ymweliadau safle gweithredol yn rheolaidd ac yn cyfarfod â thimau o bob rhan o'r busnes ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol a chinio/cinio gyda'r nos;
- mae'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol yn cynnal cynadleddau misol dros y ffôn y gall pob cydweithiwr ymuno â hwy er mwyn clywed y diweddaraf ar berfformiad y busnes a datblygiadau allweddol a gofyn cwestiynau;
- cynhaliwyd y Gynhadledd ar Arweinyddiaeth Weithredol ym mis Medi a bu'n gyfle i uwch-reolwyr ystyried goblygiadau cynllun busnes PR19 arfaethedig Dŵr Cymru yn fanwl, a rhoi adborth arno;
- "sioeau teithiol" rheolaidd i gyflogaion – 23 mewn 12 o leoliadau gwahanol, y daeth

EGWYDDOR COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – ATEBOLRWYDD

Mae Bwrdd cyfunol Glas Cymru a Dŵr Cymru:

- yn sicrhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yn cyflwyno asesiad teg, cytbwys a dealladwy o sefyllfa a rhagolygon y Cwmni.
- yn pennu'r lefel briodol o risg wrth gyflawni ein hamcanion strategol, tra'n sicrhau bod systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg cadarn ar waith.
- wedi rhoi trefniadau ffurfiol a thryloyw ar waith i ystyried sut y dylai gymhwyso egwyddorion cyflwyno adroddiadau corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a chynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr y Cwmni.

tua 2,000 o gydweithwyr iddynt yn 2018.

- cynhelir ymweliadau safle gan aelodau o'r Tîm Gweithredol, gyda ffocws penodol ar faterion iechyd a diogelwch, ym mhob rhan o'r busnes;
- Mae "Hyrwyddwyr Ymgysylltu â Chyflogaion" yn gweithio gyda'r busnes i ymateb i adborth lleol a roddir yn yr Arolwg Ymgysylltu â Chyflogaion blynnyddol. Yn 2019-20 bwriedir gwneud y cyfarfodydd hyn yn rhai ffurfiol er mwyn rhoi cyfle i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gyfarfod â chynrychiolwyr cyflogaion (gweler tudalen 72 – adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd);
- Mae ein Cod Ymddygiad yn nodi ein ffocws ar "wneud y peth iawn" er mwyn Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid ac mae'n cyfeirio at ein Polisi Chwythu Chwiban, y rhoddir cyhoeddusrwydd yn eang

EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU PARHAD

EGWYDDOR COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – CYDNABYDDIAETH

- Mae gennym Bwyllgor Cydnabyddiaeth a chyflwynir ei adroddiad ar dudalennau 82-103.
- Mae cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi'i chynllunio i hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni.
- Mae elfennau sy'n ymwneud â pherfformiad yn dryloyw, yn ymestynnal ac wedi'u cymhwyso'n drwyodl.
- Ceir gweithdrefn ffurfiol a thryloyw ar gyfer datblygu polisi ar gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol a phennu pecynnau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol.
- Nid oes unrhyw Gyfarwyddwr ynghlwm wrth y broses o bennu ei gydnabyddiaeth neu ei chydabyddiaeth ei hun.
- Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor gan ymgynghorwyr allanol yn ôl y gofyn

iddo ymhlith ein cydweithwyr a chontractwyr allweddol ac sy'n rhoi cyfle i gydweithwyr "leisio barn" ar unrhyw fater sy'n achos pryder. Mae pob cydweithiwr yn cael copi o'r Cod Ymddygiad wrth ymuno â'r Cwmni ac mae ein Rheolwr Cydymffurfio yn rhoi cyflwyniad ar agweddau allweddol ar gydymffurfiaeth, lleisio barn a gwneud y peth iawn mewn sesiynau hyfforddiant sefydlu rheolaidd.

Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r fframwaith rheolaeth fewnol a rheoli risg, gan sicrhau bod gan y Cwmni yr adnoddau ariannol a'r adnoddau dynol angenrheidiol i weithredu'n effeithiol, ac yn goruchwyllo'r rhaglen o brosiectau cyfalaf.

CYDNABYDDIAETH

Mae cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi'i chynllunio i hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni. Mae'r elfennau o'u cyflog sy'n ymwneud â pherfformiad yn dryloyw, yn ymestynnal ac yn cael eu cymhwyso'n drwyodl, ac mae gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ddisgresiwn i atal elfennau o gydnabyddiaeth os nad yw perfformiad cyffredinol y Grŵp yn cyfiawnhau eu talu.

Ceir proses ffurfiol a thryloyw o ddatblygu polisi ar gydnabyddiaeth i Gyfarwyddwyr Gweithredol a gyflwynir i Aelodau Glas bob tair blynedd i'w ystyried a'i gymeradwyo, a phennu cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol a Chadeirydd y Bwrdd. Nid oes unrhyw Gyfarwyddwr ynghlwm wrth y broses o bennu ei gydnabyddiaeth neu ei chydabyddiaeth ei hun. Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Anweithredol (heblaw Cadeirydd y Bwrdd) yn fater i Gadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

AELODAU

Fel Grŵp o dan berchenogaeth cwmni cyfyngedig drwy warant, nid oes gennym gyfranddalwyr, ond mae ein Haelodaeth yn cynnwys unigolion sy'n dod o bob rhan o'n hardal gyflenwi (neu sydd â chysylltiad cryf) sy'n ymgymryd â rôl llywodraethu hollbwysig. Mae Aelodaeth yn bersonol ac yn ddi-dâl ac nid oes gan Aelodau unrhyw fudd ariannol yn y busnes. Mae'r fath annibyniaeth yn galluogi Aelodau i sicrhau bod y Bwrdd yn atebol am warchod ein hasedau a darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd a fydd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae 70 o Aelodau Glas¹ a chânt eu penodi gan y Bwrdd ond eu dewis gan Banel Dethol Aelodau annibynnol, sy'n anelu at sicrhau

EGWYDDOR COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – CYSYLLTIADAU Â CHYFRANDDALWYR

- Caiff egwyddorion cyfranddalwyr ar lywodraethu eu cymhwyso gennym at ein Haelodau a'n Buddsoddwyr (Bondiau).
- Cynhaliwn drafodaeth reolaidd ag Aelodau a Buddsoddwyr.
- Mae ein Bwrdd yn defnyddio cyfarfodydd cyffredinol rheolaidd i gyfathrebu ag Aelodau.
- Mae tîm Trysorlys y Cwmni yn parhau i sicrhau bod ein Buddsoddwyr yn cael gwybodaeth dda, drwy adroddiadau chwarterol a chyfarfod blynyddol o Fuddsoddwyr yn Llundain, yn ogystal â chyfarfodydd anffurfiol rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd gyda Buddsoddwyr a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan Fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y Cwmni.
- Mae Trysorydd ein Grŵp bob amser yn barod i drefnu cyfarfod â buddsoddwyr os gofynnir am hynny. Eleni, sicrhawyd bod y cyfarfod canlynol ar gael i bob Buddsoddwr a darpar Fuddsodwr:
- Diweddariad blynyddol i Fuddsoddwyr (Llundain) – 11 Gorffennaf 2018

bod yr Aelodau yn grŵp cytbwys ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'n fras amrywiaeth buddiannau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid eraill. Syr Paul Silk yw Cadeirydd annibynnol y Panel Dethol Aelodau a chafodd ei benodi i'r rôl ar 6 Gorffennaf 2018, ar ôl i'r Cadeirydd annibynnol blaenorol, Glyn Mathias, ymddeol. Yr aelodau eraill o'r Panel yw Menna Richards (Cyfarwyddwr Anweithredol sydd â chyfrifoldeb penodol dros Aelodau) ac Arthur Walford (cyn Ysgrifennydd Cwmni Bupa Plc).

Gwahoddir Aelodau i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ail gyfarfod i'r Aelodau bob blwyddyn pan fydd y Tîm Gweithredol yn rhoi diweddariad ar berfformiad a strategaeth y Grŵp. Hefyd, cynhaliwn ddau gyfarfod rhanbarthol chwarterol i'r Aelodau bob blwyddyn mewn gwahanol leoliadau yn ein hardal gyflenwi er mwyn rhoi cyfle mwy anffurfiol i feithrin dealltwriaeth o'n safleoedd gweithredol a chyfarfod â thimau lleol. Caiff Aelodau eu gwahodd hefyd i gyfarfodydd a gweithdai eraill ar sail ad hoc drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2018-19, gwahoddwyd yr Aelodau i weithdy i lansio ein strategaeth i gefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed ac i ymweliad safle yn ein canolfan addysg yng Nghilfynydd, Rhondda.

Yn ystod 2018-19, ymddeolodd dau Aelod, ymddiswyddodd

pedwar Aelod a phenodwyd 11 o Aelodau Glas newydd yn dilyn proses recriwtio agored wedi'i hysbysebu a chyfweliadau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin. Cynhaliwyd diwrnod sefydlu yn y gorllewin a oedd yn cynnwys Gwaith Trin Dŵr Nantgaredig a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Parc y Splott.

CYSYLLTIADAU AG AELODAU GLAS A BUDDSODDWYR

Mae Ysgrifenyddiaeth y Cwmni mewn deialog rheolaidd ag Aelodau Glas, yn ychwanegol at y cyfarfodydd rheolaidd a'r digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod.

Mae'r tîm Trysorlys yn sicrhau bod ein buddsoddwyr dyled yn cael gwybodaeth dda, drwy

adroddiadau chwarterol a chyfarfod blynyddol i Fuddsoddwyr yn Llundain, yn ogystal â chyfarfodydd anffurfiol rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd â buddsoddwyr dyled a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt ar faterion sy'n effeithio ar y Cwmni.

Eleni, caiff y Cyfarfod i Fuddsoddwyr ei gynnal ddydd Mercher 10 Gorffennaf yng Ngwesty'r Apex, Llundain o 08:30-11.00.

CCB 2019

Caiff Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ei gynnal ddydd Gwener 5 Gorffennaf yng Ngwesty Crowne Plaza, Caer o 09:30-13:00.

SUT RYDYM YN CYFLAWNI DARPARIAETHAU CANLLAWIAU OFWAT AR ARWEINYDDIAETH BWRDD, TRYLOYWDER A LLYWODRAETHU

Cyhoeddodd Ofwat ei Ganllawiau diwygiedig ar Arweinyddiaeth Bwrdd, Tryloywder a Llywodraethu ym mis Ebrill 2019. Mae'r rhain yn adeiladu ar Ganllawiau 2014 ac rydym o'r farn ein bod yn cyflawni pob un o'r pedwar Amcan fel a ganlyn:

1. Diben, Gwerthoedd a Diwylliant – "Mae bwrdd y cwmni rheoleiddiedig yn pennu diben, strategaeth a gwerthoedd y cwmni, ac mae'n fodlon bod ei ddiwylliant yn adlewyrchu anghenion y rhai a wasanaethir ganddo". – Gweler tudalen 9 (Neges y Prif Weithredwr) am fanylion Diben ein Cwmni a thudalen 66 o'r Adroddiad Llywodraethu hwn am fanylion y Weledigaeth o'r Diwylliant sy'n sail i'n proses gwneud penderfyniadau ac sy'n cael eu monitro gan y Bwrdd. Mae Datganiad Cyfeiriad a Pherfformiad y Cwmni yn nodi sut mae'r Cwmni wedi pennu ei ddyheadau ac wedi perfformio i'r rhai a wasanaethir ganddo (tudalen 56).

2. Cwmni Rheoleiddiedig Ar Wahân – "Mae gan y cwmni rheoleiddiedig fwrdd effeithiol sydd â chyfrifoldeb llawn am bob agwedd ar fusnes y cwmni rheoleiddiedig yn yr hirdymor". – Yr un yw Bwrdd Cyfarwyddwyr ein cwmni daliannol, Glas Cymru Holdings Cyf., a Bwrdd ein Cwmni rheoleiddiedig, Dŵr Cymru Cyf. Mae diddordebau tebyg rhwng y ddau gwmni gan mai darparu gwasanaethau hanfodol i'n cwsmeriaid am y gost isaf bosibl yw ein hunig ffocws. Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn nodi'n fanwl rôl y Bwrdd a'r materion hynny sydd wedi'u dirprwyo i Bwyllgorau, y mae pob un ohonynt yn atebol i Fwrdd y Cwmni rheoleiddiedig.

3. Arweinyddiaeth Bwrdd a Thyloywder – "Mae arweinyddiaeth y bwrdd a'r ffordd y mae'n ymdrin â thyloywder a llywodraethu yn ennyn ymddiriedaeth yn y cwmni rheoleiddiedig ac yn sicrhau atebolrwydd am ei weithredoedd." Rydym yn cyhoeddi'r

wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad hwn: – esboniad o strwythur y grŵp (tudalen 59); – esboniad o'r polisi ar ddifidendau (tudalen 107); esboniad o'r prif risgiau (tudalen 48); manylion am Aelodaeth, cyfarfodydd, presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (tudalen 63); esboniad o'r polisi ar gyflog cyfarwyddwyr gweithredol (tudalen 84).

4. Strwythur ac Effeithiolrwydd y Bwrdd – "Mae byrddau a'u pwyllgorau yn gymwys, yn cael eu rhedeg yn dda, ac yn cynnwys digon o aelodau annibynnol, gan sicrhau y gallant wneud penderfyniadau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion amrywiol cwsmeriaid a rhanddeiliaid." Gweler tudalen 71 am ein dadansoddiad o'r cydbwysedd o sgiliau, annibyniaeth a gwybodaeth am y cwmni ar ein Bwrdd, lle mae mwyafrif o Gyfarwyddwyr Anweithredol. Ceir gwybodaeth am annibyniaeth a gwrthrychedd ein Cyfarwyddwyr ar dudalen 65

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBU

AELODAETH A PHRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD:

Alastair Lyons (Cadeirydd), Graham Edwards, Menna Richards, Chris Jones.

> [DARLLENWCH FWY AM BRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD AR DUDALEN 63](#)

Fel arfer, mae Ysgrifennydd y Cwmni yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Drwy wahoddiad Cadeirydd y Pwyllgor, caiff unigolion eraill megis y Pennaeth Adnoddau Dynol, uwch-reolwyr eraill neu gynghorwyr allanol eu gwahodd i fod yn bresennol am gyfarfod cyfan neu ran ohono, fel y bo'n briodol.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Mae'r Pwyllgor yn bodloni'r gofyniad yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol bod yn rhaid i fwyafrif o aelodau'r Pwyllgor fod yn Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol. Rôl y Pwyllgor yw adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd a, lle y bo'n briodol, argymhell newidiadau; nodi ymgeiswyr i lenwi swyddi gwag ar y Bwrdd a'u henwebu i'w cymeradwyo gan y Bwrdd; gwerthuso'r cydbwysedd o sgiliau, profiad, gwybodaeth, annibyniaeth ac amrywiaeth aelodau o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau; ac adolygu priodoldeb penodiadau ychwanegol gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, gan roi sylw penodol i'w heffaith ar yr amser sydd ar gael i fusnes y Cwmni.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Nododd Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau 2018 fod datblygu gwaith cynllunio olyniaeth i'r Bwrdd a'r Tim Gweithredol yn faes yr oedd angen rhoi ffocws estynedig iddo. Ar ôl cael yr adborth hwn, cyfarfu'r Pwyllgor Enwebu ym mis Tachwedd 2018. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod hwn yn cynnwys:

- gwaith cynllunio olyniaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol ac ystyried trefn penodi ac ymddeol Aelodau'r Bwrdd;
- penodi cwmni o ymgynghorwyr recriwtio i orwain y broses o chwilio am unigolyn yn lle Menna Richards, a fydd yn ymddeol fel Cyfarwyddwr yn y CCB yn 2020;
- aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd;
- adolygiad o Gyfarwyddwyr presennol pob un o gwmnïau'r Grŵp.

Trafododd y Pwyllgor y broses o benodi Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn ei gyfarfod ym mis Mai 2019.

Mae materion eraill sy'n berthnasol i agenda'r Pwyllgor sydd wedi cael eu trafod â'r Cadeirydd ac yng Nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- annibyniaeth barhaus Cyfarwyddwyr Anweithredol;
- cofnod presenoldeb Cyfarwyddwyr unigol a ph'un a oes unrhyw broblemau o ran gallu o ystyried ymrwymadau eraill sydd ganddynt ar hyn o bryd;
- amrywiaeth o ran recriwtio a chadw Aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Glas, y Tim Gweithredol ac uwch-reolwyr;
- adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn erbyn eu cylch gorchwyl a chanlyniadau'r Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn 2019.

Gan edrych ymlaen, bydd cyfarfodydd y Pwyllgor am weddiill y flwyddyn galendr yn canolbwyntio ar y broses o recriwtio olynnydd Menna Richards.



Ym marn y Pwyllgor Enwebu, mae'r Bwrdd yn coel budd o'r omrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad ein Cyfarwyddwyr Anweithredol ar hyn o bryd. Yn ogystal â chadeirio neu fod yn aelod o un o Bwyllgorau'r Bwrdd, mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn neilltuo amser ychwanegol i'r Cwnni mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

Alastair Lyons

Cymorth manwl i Gyfarwyddwyr Gweithredol, gan ddefnyddio ei brofiad masnachol helaeth mewn busnesau mawr, cymhleth eu gweithrediad sy'n ymwneud â chwsmeriaid.

Menna Richards

Cyfathrebu, amrywiaeth a chysylltiadau â'r Aelodau.

Tom Crick

Gwyddor data a chymorth i brosiectau technoleg, addysg a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Graham Edwards

Materion gweithredol, rheoleiddio ac adnoddau dynol.

Joanne Kenrick

Marchnata, masnachol a gwasanaeth cwsmeriaid.

Anna Walker

Gwasanaeth cwsmeriaid, rheoleiddio a pholisïau cydnabyddiaeth.

John Warren

Cyllid, llywodraethu ac archwilio.

HYD GWASANAETH


Alastair Lyons (Cadeirydd y Bwrdd): Mai 2016



Menna Richards (Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol): Tachwedd 2010




Tom Crick: Hydref 2017



Graham Edwards: Hydref 2013



Joanne Kenrick: Tachwedd 2015



Anna Walker: Mawrth 2011



John Warren: Mai 2012



NIFER O FLYNYDDOEDD TAN 31 MAWRTH 2019

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBU PARHAD

ADOLYGIADAU O EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD

Yn unol â gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, rydym yn cynnal Adolygiad blynyddol o Effeithiolrwydd y Bwrdd a’i Bwyllgorau. Bob tair blynedd, cynhelir yr adolygiad hwn ar ffurf adolygiad allanol annibynnol, a chaiff ein hadolygiad nesaf o’r fath ei gynnal y flwyddyn nesaf. Eleni, cynhaliwyd yr adolygiad ar ffurf Arolwg o Effeithiolrwydd ar-lein a gwblhawyd gan Aelodau’r Bwrdd a hefyd gan y rhai a fu’n bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’i Bwyllgorau. Yna, adolygwyd canlyniadau’r arolwg mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Gadeirydd y Bwrdd â phob Cyfarwyddwr. Cafodd y canlyniadau eu coladu a chafodd cynigion i fynd i’r afael â meysydd i’w gwella o bosibl eu hadolygu gan y Bwrdd yn ei Gyfarfod ym mis Mai 2019. Gwnaeth yr Uwch-

gyfarwyddwr Annibynnol gyfarfod â’r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill a’r Cyfarwyddwyr Gweithredol i adolygu perfformiad Cadeirydd y Bwrdd.

Eleni, roedd adborth aelodau’r Bwrdd a’i Bwyllgorau yn gadarnhaol iawn, ond gwnaed rhai awgrymiadau ar gyfer gwelliant pellach. Prif gasgliadau ein hadolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd oedd:

FFOCWS CYFARFODYDD Y BWRDD:

- byddai Ysgrifennydd y Cwmni yn ceisio cydlynw rhagor o gyfleoedd i siaradwyr allanol arwain trafodaethau yng Nghyfarfodydd y Bwrdd;
- caiff agendâu Cyfarfodydd y Bwrdd eu hadolygu er mwyn ystyried p’un a oes meysydd i’w gwella;
- caiff adroddiadau’r sector eu dosbarthu i’r Bwrdd yn fwy rheolaidd.



FFORMAT CYFARFODYDD Y BWRDD:

- rhoi rhagor o ganllawiau i uwch-reolwyr sy’n rhoi cyflwyniadau i’r Bwrdd;
- Bydd Ysgrifennydd y Cwmni yn adolygu amserlenni cyfarfodydd y Bwrdd a’i Bwyllgorau er mwyn ystyried y posibilrwydd o aildrefnu amseriadau cyfarfodydd y Bwrdd a’i Bwyllgorau.

YMGYSYLLTU Â’R GWEITHLU:

- ychwanegu rhagor o gyfleoedd i’r amserlen o ymweliadau safle i Gyfarwyddwyr Anweithredol fel y gallant fod yn bresennol mewn cyfarfodydd â hyrwyddwyr Ymgysylltu â Chyflogeion ar wahanol safleoedd yn yr ardal gyflenwi. Bydd trafodaethau yn y cyfarfodydd hyn yn cynnwys materion strategol sydd ar agenda bresennol y Bwrdd.





AMRYWIAETH

Mae 30% o'n Bwrdd a 27% o'n Tîm Gweithredol yn fenywod, ond yn y gweithlu ehangach, mae 42.5% o'r uwch-reolwyr hynny sy'n uniongyrchol atebol i aelod o'r Tîm Gweithredol yn fenywod.

Nodwn hefyd y cyfeiriad cyffredinol yn sgil yr argymhellion a wnaed gan Adolygiad Hampton Alexander sy'n annog cwmnïau i gynyddu canran y menywod sy'n aelodau o fyrdau i 33% erbyn 2020 ac Adolygiad Parker sy'n canolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth ethnig byrddau erbyn

2024. Er ein bod yn cefnogi gwaith Adolygiad Hampton Alexander ac Adolygiad Parker yn llwyr ni chredwn ei bod yn briodol ymrwymo i bennu unrhyw dargedau penodol ar hyn o bryd.

Nid yw hynny yn golygu ein bod yn hunanfodlon yn y meysydd hyn lle y gwyddom ein bod yn gallu gwella ein hamrywiaeth a'n cynhwysiant. Cyhoeddir datganiad Amrywiaeth ein Bwrdd ar ein gwefan www.dwrcymru.com/cy/Company-Statements.aspx ac mae ein hadran ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol

Corfforaethol (tudalen 108) yn nodi'n fanwl ein cynllun i barhau i wella amrywiaeth ein Bwrdd a'n gweithlu er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio i ni yn wirioneddol gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethwn.

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebu
6 Mehefin 2019

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

AELODAETH A PHRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD:

John Warren (Cadeirydd), Graham Edwards, Joanne Kenrick, Anna Walker

> DARLLENWCH FWY AM BRESNOLDEB MEWN CYFARFODYDD AR DUDALEN ..

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadeirio gan John Warren, cyn-Gyfarwyddwr Cyllid WHSmith ac mae hefyd yn cadeirio Pwyllgor Archwilio Greencore Group plc, 4imprint Group plc a Bloomsbury Publishing Plc. Mae'r Bwrdd o'r farn bod ganddo brofiad ariannol diweddar a pherthnasol.

Mae pob Aelod o'r Pwyllgor yn Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol ac mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan y Pwyllgor yn ei gyfarwydd ddigon o brofiad o'r sector a phrofiad o faterion ariannol.

Ymhlith yr unigolion eraill sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Sicrwydd Busnes (Archwilio Mewnol), Ysgrifennydd y Cwmni ac Archwilwyr Allanol y Grŵp.

Cefnogir y Pwyllgor gan yr Archwilwyr Allanol, KPMG LLP, a benodwyd ym mis Medi 2015 am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Pwyllgor fonitro:

- cywirdeb datganiadau ariannol y Grŵp;
- effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol;
- effeithiolrwydd, perfformiad, gwrthrychedd ac annibyniaeth yr Archwilwyr mewnol ac allanol.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2018-19, ac ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben 31 Mawrth 2019, cyfarfu'r Pwyllgor ar ddau achlysur arall, fel mewn blynyddoedd blaenorol.

TEG, CYTBWYS, DEALLADWY

Aeth y Pwyllgor ati hefyd i gynnal adolygiad beirniadol o fersiwn ddrafft o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 er mwyn sicrhau ei fod yn cyflwyno asesiad "teg, cytbwys a dealladwy" o statws ariannol y Cwmni, yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

GWASANAETHAU A FFOEDD NAD YDYNT AR GYFER GWAITH ARCHWILIO

Mae'n bolisi gennym i beidio â defnyddio'r Archwilwyr Allanol ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â gwaith archwilio yn gyffredinol, a bod unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn ddarostyngedig i Bolisi Caffael y Grŵp. Rhaid i unrhyw ffoedd nad ydynt ar gyfer gwaith archwilio a delir i Archwilwyr Allanol naill ai gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ymlaen llaw neu, os nad oes modd gwneud hynny, gan Gadeirydd y Pwyllgor ac yna eu hadrodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Yn ystod y cyfnod 2018-19 roedd ffoedd archwilio datganiadau ariannol y Grŵp yn £170,000 (2018: £159,000), ac roedd ffoedd ar gyfer gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio yn £128,000 (2018: £149,000) ac roedd ffoedd ar gyfer gwasanaethau eraill nad oeddent yn gysylltiedig ag archwilio yn £150,000 (2018: £203,000). Am ragor o fanylion, gweler nodyn 3 i'r Datganiadau Ariannol, tudalen 143.

DATGANIAD HYFYWEDD

Nodir Datganiad Hyfywedd Hirdymor 2019 y Grŵp ar dudalen 52. Ar ôl ystyried y mater, tybiwyd bod 11 mlynedd yn gyfnod priodol ar gyfer asesu hyfywedd y busnes.

ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynodd KPMG ei gynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ac mae wedi rhoi gwybod am y cynnydd yn ei erbyn yng nghyfarfodydd diweddarach y Pwyllgor. Mae'n tynnu sylw at newidiadau mewn rheoliadau llywodraethu a chyfrifyddu a threth a fydd yn effeithio ar adroddiadau ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn asesu effeithiolrwydd y broses archwilio allanol, cwmipas yr archwiliad o'r Grŵp ac ansawdd gwaith archwilio drwy gydol y flwyddyn.

ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Pennaeth Sicrwydd Busnes ei gynllun archwilio mewmol orfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror ac mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd yn erbyn y cynllun ac, yn fanwl, ar unrhyw adroddiadau archwilio sydd â chanlyniad llai na "Boddhaol". Trafodir ymatebion rheolwyr i archwiliadau anfoddhaol gan y Pwyllgor a'u hadolygu wedyn er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i unioni'r gwendidau rheoli. Os bydd canlyniadau archwilio anfoddhaol caiff y maes busnes ei adolygu eto gan Sicrwydd Busnes unwaith bod y camau unioni wedi'u cymryd.

Caiff effeithiolrwydd gwaith y swyddogaeth archwilio mewmol ei fonitro'n barhaus drwy ddefnyddio amrywiaeth o fewnbynnau, gan gynnwys yr adroddiadau archwilio parhaus sy'n dod i law, rhyngweithio'r Pwyllgor â'r Pennaeth Sicrwydd Busnes, diweddariadau ym mhob cyfarfod ar gynydd yn erbyn y cynllun archwilio mewmol yn ogystal ag unrhyw adroddiadau ansawdd eraill y gofynnir amdanynt o bryd i'w gilydd.

CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae'r Pennaeth Sicrwydd Busnes hefyd yn cyflwyno Adroddiad Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd i'r Pwyllgor mewn sesiwn gudd, a oedd yn cynnwys manylion unrhyw ddatganiadau newydd er budd y cyhoedd a oedd wedi cael eu gwneud neu eu cyfeirio at y swyddogaeth Archwilio Mewnol, a'r canlyniadau ac, yn fwy cyffredinol, y "gwersi a ddysgwyd" drwy ymchwilio i honiadau o'r fath.

RHEOLAETHAU MEWNOL A RHEOLI RISG

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd ar systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg, yn enwedig o ran diogelu data, adfer ar ôl argyfwng a seiberddiogelwch, ac ar hynt rhaglenni i wella cydymffurfiaeth a rheolaethau mewmol ym mhob rhan o'r busnes.

DYFARNIADAU ALLWEDDOL

Yn ystod 2018-19 ystyriodd y Pwyllgor y materion penodol canlynol mewn perthynas ag adroddiadau ariannol:

- Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy – adolygwyd y ffordd yr ymdrinwyd â thaliadau drwgddyledion yn fanwl, a daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod lleihau taliadau drwgddyledion a darpariaeth drwgddyledion yn briodol.
- Cywirdeb y tybiaethau ynglŷn ag asedau a rhwymedigaethau pensynau buddiannau diffiniedig – fel mewn blynyddoedd blaenorol, adolygodd y Pwyllgor y tybiaethau mewn perthynas â'r cyfraddau disgownt a chwyddiant, gan ddod i'r casgliad eu bod o fewn tybiaethau derbyniol ar y cyfan.
- Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf – adolygwyd

hyn yn fanwl ac ystyriwyd ei fod yn briodol.


- Croniad incwm a fesurwyd – ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd yn y cronriad, gan nodi ei fod o ganlyniad i gwsmeriaid newydd sy'n defnyddio mesurydd yn bennaf.

Trafodir y materion hyn yn fanylach yn adroddiad yr archwilwyr ar dudalen 122.

MATERION ERAILL

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor bolisiau a gweithdrefnau penodol ac roeddent yn fodlon bod y rhain yn briodol, gan gymeradwyo newidiadau, yn ôl yr angen. Roedd y rhain yn cynnwys y Cod Ymddygiad, polisi Chwythu'r Chwiban, polisiau Trysorlys a Threthiant, Telerau Talu Cyflenwyr a'r Siarter Archwilio Mewnol.

Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiadau o dan God Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018, gan adolygu ei gylch gorchwyl a'i effeithiolrwydd. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad bod y Pwyllgor yn gweithio'n dda ac wedi perfformio'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn.



John Warren
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

6 Mehefin 2019

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD AC AMGYLCHEDD

AELODAETH A PHRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD:

Graham Edwards (Cadeirydd), Tom Crick, Chris Jones, Joanne Kenrick, Alastair Lyons, Peter Perry

> DARLLENWCH FWY AM BRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD AR DUDALEN 63

CYNGHORWYR GWYDDONOL ANNIBYNNOL:

Steve Brown (Amgylchedd), Julian Dennis (Dŵr)

Mae Ysgrifennydd y Cwmni yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Drwy wahoddiad Cadeirydd y Pwyllgor, caiff unigolion eraill megis y Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol, Rheolwyr Gyfarwyddwyr Dŵr a Dŵr Gwastraff, Pennaeth Ansawdd Dŵr Yfed a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd eu gwahodd i fod yn bresennol am gyfarfod cyfan neu ran ohono, fel y bo’n briodol.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Mae’r Bwrdd wedi dirprwyo’r cyfrifoldeb i’r Pwyllgor am adolygu a monitro’r meysydd risg strategol canlynol:

- iechyd a diogelwch cydweithwyr, contractwyr a’r cyhoedd;
- digwyddiadau mawr;
- cydymffurfiaeth â rheoliadau amgylcheddol;
- methiant i gyflawni targedau perfformiad gweithredol;
- dirywiad asedau strategol;
- cyfrifoldebau iechyd y cyhoedd.

Mae’r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu ar berfformiad gweithredol ac asesu priodoldeb strategaethau gwella ar gyfer gweithgareddau dŵr a dŵr gwastraff Dŵr Cymru.

Mae’r Pwyllgor hefyd:

- yn adolygu, yn monitro ac yn dylanwadu ar y cynllun rheoli iechyd a diogelwch a’r ffordd y caiff ei gyflawni.
- yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol megis Prif Arolygydd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a chyfarwyddwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.
- yn sicrhau bod Dŵr Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau

am iechyd y cyhoedd ac am ddarparu dŵr yfed glân a diogel a glanweithdra dŵr gwastraff yn unol â’r holl safonau perthnasol.

- yn sicrhau bod gan y Cwmni drefniadau brys a diogelwch digonol yn unol â chanllawiau statudol perthnasol megis gofynion y Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI) a Chyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD).
- yn adolygu ac yn dylanwadu ar raglen archwilio anariannol y Cwmni ac yn cael canfyddiadau adroddiadau archwilio yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.
- yn herio’r Tîm Gweithredol mewn ffordd adeiladol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y perfformiad gweithredol a datblygu rhaglenni i ddefnyddio data “yn ddeallus” a mabwysiadu technegau arloesol priodol a thechnoleg newydd i wella safonau perfformiad dŵr a gwastraff dŵr a lleihau costau. Mae’r tîm Gwyddor Data wedi gweithio’n agos dros y flwyddyn ddiwethaf i greu modelau rhagfynegol o fethiant posibl asedau.

- yn adolygu canfyddiadau ymchwiliadau i unrhyw fethiant o ran ansawdd dŵr, yr amgylchedd, diogelwch, neu wasanaeth cwsmeriaid. Caiff Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol eu harwain gan y Prif Weithredwr a Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru, sy’n cyfarfod â Rheolwr Gyfarwyddwr perthnasol Dŵr/Dŵr Gwastraff neu’r Cyfarwyddwr Cyflawni Cyfalaf, fel y bo’n briodol, er mwyn cynnal yr adolygiad ac yna baratoi adroddiadau manwl ar yr achos(ion) sylfaenol a nodwyd, goblygiadau ehangach unrhyw ddigwyddiad a’r cynlluniau gweithredu i fynd i’r afael ag unrhyw broblemau parhaus. Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol mewn perthynas ag achos o beidio â chydymffurfio yng Ngwaith Trin Dŵr Eign, achosion o lygredd yng Ngwaith Trin Dŵr Felindre a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pum Rhyd. Hefyd, mae’r Arolygiaeth Dŵr Yfed wrthi’n ymchwilio i ddigwyddiad yn ymwneud â blas ac arogl yn ystod ymarfer ailbarthu ym Mhontardawe yn ystod yr haf. Mae’r Cwmni yn cydweithredu’n llawn ag ymchwiliad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Yn ystod 2018-19 mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Adroddiadau chwarterol a blynyddol ar lechyd a Diogelwch;
- Canlyniadau archwiliad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yng Ngwaith Trin Dŵr Bolton Hill a chynllun gweithredu i'w wella;
- Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau;
- Adroddiad i Ofwat ar yr ymateb i Storm Emma a rhoi'r cynllun gweithredu ar waith mewn ymateb;
- Effeithiau gweithredol a chost y cyfnod estynedig o lawiad isel;
- Diweddariadau ar "Astudiaethau Parthol" mewn perthynas â'r rhaglen

adsefydlu'r prif gyflenwad a monitro perfformiad mewn perthynas â derbynioddeb i gwsmeriaid mewn ardaloedd lle mae gwaith o'r fath eisoes wedi'i wneud;

- Diweddariad ar y strategaeth ynghylch llaid a thystysgrifau Sicrwydd Biosoletau;
- Diweddariad ar reoli'r risg o gryptosporidiwm;
- Adolygiadau o Ddigiwyddiadau Difrifol mewn perthynas ag achosion o lygredd yng Ngwaith Trin Dŵr Felindre a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pum Rhyd.
- Ystyried effaith yr ymarfer ailbarthu ym Mhontardawe ar gwsmeriaid;
- Casgliadau archwiliad y Gyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng;
- Diweddariad ar y Strategaeth Llifogydd;
- Effeithiolrwydd a chylch gorchwyl.



Graham Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd
6 Mehefin 2019



ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID

AELODAETH A PHRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD:

John Warren (Cadeirydd), Peter Bridgewater, Chris Jones, Alastair Lyons

[> DARLLENWCH FWY AM BRESNOLDEB MEWN CYFARFODYDD AR DUDALEN 63](#)

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Sefydlwyd y Pwyllgor Cyllid gyda'r awdurdod i gyfarfod ar sail ad hoc i gymeradwyo penderfyniadau ariannol yn ôl y gofyn rhwng cyfarfodydd y Bwrdd. Felly yn ôl ei natur, y bwriad yw mai anaml y bydd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod gan fod eitemau wedi'u cynllunio'n ddigonol ymlaen llaw fel arfer fel y gellir ymdrin â hwy yng nghyfarfodydd arferol y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid unwaith yn 2018-19 (Tachwedd 2018), er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynnig y Ddogfen ar Gytundeb rhwng Credydwyd gan yr Ymddiriedolwr Sicrwydd i'w gwneud yn bosibl i ddyled a ddeler yn Dŵr Cymru (Financing) Limited ar hyn o bryd, sef cwmni sydd wedi'i gofrestru yn yr Ynysoedd Cayman, gael ei throsglwyddo i gwmni newydd yn y Grŵp wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Ers hynny, mae Aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd wedi adolygu ac wedi cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor.



John Warren
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
6 Mehefin 2019



ADRODDIAD Y PWYLLGOR TECHNOLEG

AELODAETH A PHRESENOLDEB:

Tom Crick (**Cadeirydd**), Peter Bridgewater, Joanne Kenrick, Alastair Lyons, Peter Perry, John Warren

> [DARLLENWCH FWY AM BRESNOLDEB MEWN CYFARFODYDD AR DUDALEN 63](#)

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Sefydlwyd y Pwyllgor Technoleg gan y Bwrdd yn hydref 2018 er mwyn ystyried yn fanwl y broses o ddatblygu Strategaeth Ddigidol y Grŵp i gefnogi ei uchelgais i ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid am gost is ac yna'i rhoi ar waith. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN


Roedd yr agendâu ar gyfer y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn 2018-19 yn cynnwys:

- Cyflwyniadau ar amrywiol agweddau ar ddarpariaeth Technoleg Gwybodaeth a Thechnoleg Weithredol y Grŵp;

- Datblygu Strategaeth Ddigidol y Grŵp;
- Strategaeth Data'r Grŵp, gan gynnwys rôl y tîm Gwyddor Data i greu atebion arloesol ac ymarferol i faterion sy'n codi yn y busnes;
- Effeithiolrwydd a chylch gorchwyl.

Yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio ar ddiffinio elfennau cyfansoddol y Strategaeth Ddigidol fel y gellir eu cyflwyno i Fwrdd Glas i'w cymeradwyo.

Yn mis Mawrth 2019, gwahoddwyd dau siaradwr allanol o gefndiroedd TG gwahanol i annerch y Bwrdd yn ystod cinio gyda'r nos ar weithredu Strategaeth Ddigidol mewn busnesau amrywiol roeddent wedi gweithio gyda hwy. Yn sgil hyn bwriadwn ochub ar gyfleoedd i glywed gan arbenigwyr pwnc perthnasol eraill mewn lleoliad onffurfiol, y bydd y Bwrdd cyfan yn cael gwahoddiad iddo.



Yr Athro Tom Crick MBE
Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg

6 Mehefin 2019



ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 1: LLYTHYR CADEIRYDD Y PWYLLGOR

AELODAETH A PHRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD:

Anna Walker (Cadeirydd), Alastair Lyons, Menna Richards, John Warren

[> DARLLENWCH FWY AM BRESNOLDEB MEWN CYFARFODYDD AR DUDALEN 63](#)

Annwyl Aelodau Glas:

Ar ran y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2018-19.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Rôl y Pwyllgor yw argymhell y Polisi Cydnabyddiaeth i'r Bwrdd ac Aelodau Glas er mwyn iddynt ei gymeradwyo, a'i adolygu'n gyson fel mae'n gymwys i'r busnes cyfan. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth hefyd yn penderfynu ar Bolisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac yn pennu cydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Gweithredol. Wrth arfer y cyfrifoldeb hwn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo Polisi Cydnabyddiaeth y gweithlu a pholisiau cysylltiedig, a chysoni cymhellion a dyfardaliadau â diwylliant a diben y Cwmni, gan ystyried y pwyntiau hyn wrth bennu'r Polisi.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Eleni, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi cyfarfod yn amlach nag arfer, wyth gwaith i gyd, ac mae hefyd wedi mynd i ddau weithdy a gynhaliwyd gan ein cynghorwyr ar gydnabyddiaeth, Mercer. Yn ogystal â chynnal busnes

arferol y Pwyllgor fel y nodir isod, rydym wedi dechrau gweithio ar adolygu Polisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer AMP7, ac ystyried sut y caiff egwyddorion y polisi hwn eu cymhwyso yn y busnes ehangach.

Am y tro cyntaf rydym wedi cynnal sesiwn breifat â Chyfarwyddwyr Anweithredol ac Aelodau Glas yng nghyfarfod yr Aelodau ym mis Rhagfyr, er mwyn adolygu egwyddorion cydnabyddiaeth, allbynnau ein hymarfer meincnodi ar gyfer cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol ac ystyried y prif egwyddorion a fydd yn sail i Bolisi Cydnabyddiaeth AMP7.

AGENDA'R PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH YN 2018-19

Yn ystod y flwyddyn, mae gweithgareddau'r Pwyllgor wedi cynnwys:

- Ystyried tueddiadau cydnabyddiaeth ac arfer gorau yn fwy cyffredinol;
- Pennu targedau perfformiad "ymestynnol" ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol a monitro cynnydd yn eu herbyn;
- Adolygu'r gydnabyddiaeth darged ar gyfer aelodau'r tîm Gweithredol ehangach a meincnodi cydnabyddiaeth;
- Adolygu cyflogau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a ffi Cadeirydd y Bwrdd, ac

ystyried argymhellion ar gyfer yr adolygiad blynyddol;

- Asesu perfformiad yn erbyn y mesurau sydd ynghlwm wrth y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynyddol (AVPS) a'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor (LTVPS) a chytuno ar ddyfardaliadau i'w gwneud i gyfranogwyr;
- Adolygu effeithiolrwydd a chylch gorchwyl y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal adolygiad manwl o faterion cydnabyddiaeth er mwyn sicrhau bod ein Polisi Cydnabyddiaeth yn addas at y diben yn AMP7. Wrth ystyried arfer gorau, rydym wedi ystyried y canllawiau diwygiedig gan Ofwat¹, a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 ar ei ffurf ddiwygiedig (y "Cod Diwygiedig") a fydd yn gymwys yn ffurfiol i'n hadroddiadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 ymlaen.

Rydym o'r farn bod gennym bolisi cydnabyddiaeth tryloyw a theg eisoes, gyda phwyslois ar wobrwyo cyflawni amcanion hirdymor. Ein bwriad ar gyfer AMP7 yw parhau i gynnwys elfennau sefydlog ac amrywiadwy mewn cyflogau, y bydd yr olaf yn seiliedig ar amcanion ar sail perfformiad sy'n adlewyrchu amcanion 2050 ac AMP7 Dŵr Cymru, gyda thargedau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol, ymhlith pethau eraill.

1. <https://www.ofwat.gov.uk/publication/board-leadership-transparency-and-governance-principles/>

EGWYDDORION CYDNABYDDIAETH

Yn 2015-16 cytunodd y Pwyllgor ar y prif egwyddorion y byddai'n eu cymhwyso at ei waith a drafodwyd gydag Aelodau Glas. Nodir y rhain isod, ynghyd â'r Egwyddor a ychwanegwyd gan y Pwyllgor eleni.

EGWYDDORION CYDNABYDDIAETH GRŴP GLAS

1. Dylai cydnabyddiaeth wobrwyo/cymell buddiannau hirdymor y busnes ac adlewyrchu ei ddull strategol cytûn o weithredu yn y dyfodol.
2. Dylai cydnabyddiaeth helpu i gysoni buddiannau cyfarwyddwyr a chyflugeion â chwsmeriaid y busnes.
3. Dylai cydnabyddiaeth amrywiadwy ganolbwyntio ar faterion o bwys mawr i'r busnes – ansawdd dŵr ac amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol.
4. Dylai cydnabyddiaeth adlewyrchu nod Dŵr Cymru i fod yn un o'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn y sector.
5. Dylai targedau cydnabyddiaeth fod yn ymestynnol o ran perfformiad blaenorol ac o gymharu â chwmnïau eraill yn y sector. Lle y bo'n bosibl, dylent fod yn ffigurau caled y gellir eu harchwilio. Er bod rhai yn flynyddol, dylent hefyd fod yn gyson ag amcanion strategol a rheoleiddiol y busnes.
6. Mae cydnabyddiaeth wedi'i strwythuro i gymell rheolwyr yn absenoldeb cyfranddalwyr ac opsiynau cyfranddaliadau.
7. Dylai cydnabyddiaeth hefyd fod yn deg ac yn gystadleuol o ran y sector ac yn fewnol er mwyn denu a chadw unigolion o'r radd flaenaf.
8. Dylai cyfran sylweddol o gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn amrywiadwy (rhaniad 60/40 sy'n sefydlog/ amrywiadwy yw'r nod datganedig presennol) er mwyn taro'r cydbwysedd cywir o ran perfformiad o mentro.
9. Dylai'r strwythur cydnabyddiaeth fod yn ddigon clir fel bod y sawl y mae'n effeithio arnynt yn deall beth yw ei nod.
10. Bydd cydnabyddiaeth yn dryloyw i Aelodau Glas ac yn cael ei chymeradwyo'n rheolaidd ganddynt.
11. (Yr egwyddor newydd a drafodwyd gyda'r Aelodau ym mis Rhagfyr 2018) Dylai cydnabyddiaeth ystyried strwythur corfforaethol nid er cyfranddalwyr y cwmni.

Ar y cyd â'r Aelodau rydym wedi ystyried effaith lleoliad daearyddol y Cwmni a'i gyfansoddiad nid er cyfranddalwyr ar gyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol, ac wedi dod i'r casgliad y dylem ychwanegu egwyddor newydd i adlewyrchu'r elfen nid er cyfranddalwyr sy'n rhan o'r Egwyddorion Cydnabyddiaeth (fel y nodir uchod) a ystyriwyd yn flaenorol gyda'r Aelodau.

Roedd prif elfennau'r adolygiad hwn o'n Polisi Cydnabyddiaeth fel a ganlyn:

- Adolygiad manwl o strwythur a chynnwys y Polisi Cydnabyddiaeth presennol, a'i berthnasedd ar gyfer 2020-25, gan gynnwys yn benodol yr elfennau AVPS a LTVPS o'r cynllun;
- Ystyried cymharwyr meincnodi priodol ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Gweithredol ehangach;
- Ystyried y ffordd orau o strwythuro cymhellion hirdymor er mwyn cymell Cyfarwyddwyr

Gweithredol er budd y Cwmni yn y tymor hwy;

- Cyflwyno canfyddiadau allweddol yr adolygiad ehangach hwn o gydnabyddiaeth i Aelodau Glas yng Nghyfarfod yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2018.

Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar feincnodi cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr ac yn erbyn sefydliadau nid er cyfranddalwyr eraill. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid cymhwyso disgownt o 15% yn erbyn y meincnod ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol, er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau mewn cyflog rhwng sefydliadau nid er cyfranddalwyr eraill ac endidau cymaradwy o dan berchenogaeth cyfranddalwyr. Fodd bynnag, o ran rôl y Prif Weithredwr, hyd yn oed gyda'r disgownt hwn, dangosodd yr ymarfer meincnodi fod ei gydnabyddiaeth dipyn yn is na Phrif Swyddogion Gweithredol cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth eraill.

Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ffi Cadeirydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2019 hefyd a daeth i'r casgliad y dylid cymhwyso disgownt o 15% yn erbyn y meincnod at hyn hefyd, o ystyried y casgliadau y daethpwyd iddynt mewn perthynas â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Daeth y rhai sy'n gyfrifol am y ffioedd sy'n daladwy i Gyfarwyddwyr Anweithredol, sef Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, i'r casgliad y dylid cymhwyso disgownt o 15% at y wybodaeth feincnodi hefyd a chymeradwywyd hyn gan y Bwrdd (gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ymatal rhag pleidleisio) ar 7 Mawrth 2019. Caiff y cymharwyr meincnodi priodol ar gyfer ffioedd Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eu hystyried ym mis Ebrill 2020 unwaith bod y data ar gyfer 2018-19 ar gael. Yn y cyfamser, mae ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi cael eu rhewi ar gyfer 2019-20 er mwyn ystyried y disgownt.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 1: LLYTHYR CADEIRYDD Y PWYLLGOR PARHAD

RÔL AELODAU GLAS

Mae Aelodau Glas yn cyflawni swyddogaeth llywodraethu hanfodol i'r Grŵp o ran cymeradwyo polisiau cydnabyddiaeth.

Mae'r Aelodau yn cymeradwyo Polisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd drwy bleidlais gyfrwysol, o leiaf unwaith bob tair blynedd (neu lle cynigir unrhyw newid sylweddol). Mae hyn hefyd yn unol â'r gofynion adrodd ar gydnabyddiaeth sy'n gymwys i gwmnïau

a restrir yn y DU. Gwnaeth yr Aelodau gymeradwyo'r Polisi Cydnabyddiaeth presennol yn CCB 2015 a'i ailgymeradwyo am gyfnod pellach yn CCB 2018. Mae'r Adroddiad Blyneddol ar Gydnabyddiaeth yn nodi'n fanwl sut mae'r Polisi wedi cael ei roi ar waith bob blwyddyn ac mae'n destun pleidlais gynghorol gan yr Aelodau. Yn CCB 2018, pleidleisiodd 98% o Aelodau Glas o blaid yr Adroddiad Blyneddol ar Gydnabyddiaeth..

RHOI POLISI CYDNABYDDIAETH AMP6 AR WAITH

Nodir y ffordd rydym wedi ymdrin â chydabyddiaeth yn ystod AMP6 yn y Polisi Cydnabyddiaeth a gafodd ei gymeradwyo gan Aelodau Glas yn CCB 2015, a'i ailgymeradwyo am gyfnod arall yn CCB 2018.

Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r Polisi am flwyddyn arall yn CCB 2019, fel parhad y polisi presennol, gan gynnwys diwygiad penodol i'r cyfle LTVPS.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer AMP7 i CCB 2020 i'w gymeradwyo.

Bwriedir i gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn deg ac yn gystadleuol mewn perthynas â'r sector. Mae cyflogau yn cynnwys cyflog sefydlog ac amrywiadwy er mwyn cymell staff i gyflawni amcanion byrdymor a hirdymor. Mae'n ystyried cyfansoddiad nid er cyfranddalwyr y Grŵp a'i egwyddorion sefydlu.

Caiff cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol eu hadolygu bob blwyddyn, a'u cynyddu fel arfer yn unol â gweddill y gweithlu. Caiff yr adolygiad nesaf o gyflogau ei gynnal ym mis Mawrth 2020.

Mae cyflog ar sail perfformiad byrdymor a hirdymor i Gyfarwyddwyr Gweithredol

yn canolbwyntio ar gyflawni targedau perfformiad. Telir elfen ar sail perfformiad o gyflogau blyneddol i bob cydweithiwr nad yw'n mynd drwy gyfnod prawf ym mhob rhan o'r busnes ac mae'n seiliedig i raddau gwahanol ar yr un cerdyn sgorio perfformiad â cherdyn sgorio'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Bwriad y Pwyllgor yw y dylai cyfraniadau pensiwn fel canran o gyflog fod yn gyson yn fras drwy'r gweithlu cyfan. Mae cyn-aelodau'r cynllun pensiynau Buddiannau Diffiniedig (a gaeodd i groniad yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2017) yn cael cyfraniadau ychwanegol at y cynllun Cyfraniadau Diffiniedig hyd at 31 Mawrth 2020. Mae nifer fach o aelodau'r adran ESPS yn parhau yn y cynllun Buddiannau Diffiniedig (gweler y datgeliad ar dudalen 138 o'r Datganiadau Ariannol).

NEWIDIADAU I GYDNABYDDIAETH CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL YN 2019-20

Ar ôl dod i'r casgliad bod cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr dipyn yn is na'r lefel gyffredin ar ôl caniatáu ar gyfer disgownt o 15% i adlewyrchu strwythur corfforaethol nid er cyfranddalwyr y Grŵp, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu rhoi codiad cyflog 2% yn uwch na chwyddiant i'r Prif Weithredwr eleni.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylid cau'r blwch drwy gynyddu'r cyfle ar sail perfformiad hirdymor. Felly, bwriedir cynnig i'r Aelodau yn CCB 2019 y dylai'r cyfle LTVPS mwyaf posibl i'r Prif Weithredwr gynyddu i 100% o'r cyflog sylfaenol, yn weithredol o 1 Ebrill 2019. Fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr presennol, Chris Jones, wedi gwrthod derbyn unrhyw LTVPS a roddir dros 60% o'r cyflog sylfaenol.

Yn olaf, o ystyried bod Ofwat wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Mekanwaith Cymell Gwasanaeth (SIM) i fesur gwasanaeth cwsmeriaid, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu defnyddio mesur SIM dirprwyol Ofwat ar gyfer 2019-20 yn lle SIM fel y targed boddhad gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer 2019-20, gan fod hwn yn debygol o roi'r gymhariaeth orau dros gyfnod tair blynedd presennol y cynllun LTVPS (gweler y nodyn ar dudalen 100).

1. <https://www.dwcymru.com/cy/Company-Information/Business-Planning/Welsh-Water-2050.aspx>



CYNNWYS ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y CYFARWYDDWYR

Mae Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr yn cynnwys:

- Adroddiad ar Bolisi Cydnabyddiaeth (tudalennau 84-87). Gofynnir i'r Aelodau ailgymeradwyo'r Polisi yn CCB 2019 am flwyddyn arall, gan gynnwys y cynnydd yn y cyfle LTVPS ar gyfer rôl y Prif Weithredwr (gweler y nodyn ar dudalen 82). Caiff polisi newydd ei gynnig yn CCB 2020, yn weithredol o Ebrill 2020, sef dechrau'r cyfnod rheoli prisiau nesaf.
- Adroddiad Blynnyddol ar Gydnabyddiaeth (tudalennau 89 i 100) sy'n disgrifio sut y cafodd y Polisi Cydnabyddiaeth ei roi ar waith ar gyfer 2018-19 a sut rydym yn bwriadu ei gymhwyso ar gyfer 2019-20. Bydd yr adroddiad hwn yn destun pleidlais gynghorol gan yr Aelodau yn CCB 2019.

Wrth baratoi'r Adroddiad Blynnyddol ar Gydnabyddiaeth, mae'r Pwyllgor wedi ystyried canllawiau Ofwat ar dryloywder yn ei Ganllawiau Rheoleiddio a Chyfrifyddu 3.09, gan gynnwys y gofyniad i gynnwys nodyn sy'n disgrifio'r cysylltiad rhwng cyflog Cyfarwyddwyr a safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan adran 35A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 50 o Ddeddf Dŵr 2003) – (gweler tudalennau 89 i 93). Mae hefyd wedi ystyried yr Amcanion a nodir yng Nghanllawiau Ofwat ar Dryloywder, Arweinyddiaeth a Llywodraethu, a'r Cod Diwygiedig.

Anna Walker

Anna Walker CB
Cadeirydd y Pwyllgor
Cydnabyddiaeth
6 Mehefin 2019

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 2: ADRODDIAD POLISI

Mae'r adran hon yn nodi manylion y Polisi Cydnabyddiaeth a gafodd ei gymeradwyo gan yr Aelodau yn 2015 a'i ailgymeradwyo yn 2018. Rydym yn cynnig y dylid parhau â'r polisi hwn am flwyddyn arall, yn amodol ar y newidiadau penodol a amlinellwyd yn Rhan 4. Nod Polisi Cydnabyddiaeth Dŵr Cymru yw hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni a chadw y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'u cymell i gyflawni perfformiad cryf a chynaliadwy sy'n gyson ag amcanion hirdymor y Cwmni.

Mae'r Polisi yn cysoni cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r broses o roi strategaeth Dŵr Cymru ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. O dan y Polisi, mae cydnabyddiaeth yn gysylltiedig â pherfformiad blynyddol a thros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015.

POLISI CYDNABYDDIAETH

Cafodd egwyddorion a fframwaith y Polisi Cydnabyddiaeth presennol eu cymeradwyo gan Aelodau Glas yn y CCB ar 3 Gorffennaf 2015 a daethant i rym o'r dyddiad hwnnw (a'u hailgymeradwyo am flwyddyn arall yn 2018).

Ceir yr Adroddiad Polisi gwreiddiol ar dudalennau 76 i 78 yn Adroddiad Blynyddol a chyfrifon 2015 ar wefan y Cwmni: dwrcymru.com/reports

Gweithredir y Polisi er mwyn sicrhau'r canlynol:

- yr ystyrir bod lefelau cyflog sylfaenol a chyfanswm cydnabyddiaeth (o'u hasesu yn erbyn y farchnad o bryd i'w gilydd) yn deg ac yn gystadleuol gan ystyried profiad a chyfrifoldeb unigolyn, er mwyn denu a chadw'r sgiliau a'r dalent angenrheidiol;
- y caiff gwelliant mewn perfformiad ei annog drwy sicrhau bod cyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth y gellir ei thalu yn gysylltiedig â pherfformiad, tra'n cydbwysu hyn â chyflog sylfaenol er mwyn sicrhau nad oes cymhelliant i gymryd gormod o risg;
- bod cymhellion yn canolbwyntio ar y canlyniadau a ystyrir yn bwysig i gwsmeriaid a'u calibradu yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol ac yn erbyn perfformiad cwmnïau dŵr eraill a asesir gan Ofwat a rheoleiddwyr eraill, er mwyn cymell perfformiad sy'n arwain y sector mewn ffordd dryloyw ac atebol;

- bod yr LTVPS yn canolbwyntio ar berfformiad strategol, gwerth cwsmeriaid ac ariannol hirdymor Dŵr Cymru.


Mae'r Grŵp yn negodi cyflogau ar gyfer y gweithlu ehangach gyda'r tri undeb llafur cydnabyddedig drwy ddull gweithredu un bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r broses a'r cynnydd y cytunwyd arno ar gyfer y sylfaen cyflogaion ehangach ac mae hefyd yn adolygu arferion ac amodau'r farchnad.

Mae'r Mesurau Llwyddiant a'r elfennau cost sydd wrth wraidd AVPS Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r tîm Gweithredol ehangach hefyd yn sail i drefniadau cyflog amrywiadwy y sefydliad cyfan. Nid yw'r Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol â chyflogaion ar gyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol ar hyn o bryd, ond mae'n ceisio barn cydweithwyr yn rheolaidd drwy ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflogaion, a thrwy gynnwys y Cyfarwyddwr Pobl a Newid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd mewn deialog ag Aelodau Glas yn ogystal â gwybodaeth ehangach, meincnodi ac arfer gorau.

Mae'r tabl (ar y dudalen ganlynol) yn crynhoi'r elfennau sy'n rhan o gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â'r Polisi Cydnabyddiaeth.

MAE'R GRAFFIAU ISOD YN DANGOS AR GYFER POB CYFARWYDDWR GWEITHREDOL AR GYFER 2018-19:

- y lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth sy'n daladwy. Nid oedd hyn yn dibynnu ar berfformiad ac roedd yn cynnwys cyflog sylfaenol, buddiannau mewn da a phensiwn;
- y lefel ddisgwyliedig o gydnabyddiaeth, sy'n adlewyrchu lefel nodweddiadol perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer yr AVP a'r LTVPS;
- uchafswm y gydnabyddiaeth, pe bai pob un o dargedau perfformiad AVPS ac LTVPS yn cael eu cyflawni'n llawn.



YR ELFENNAU SY’N RHAN O GYDNABYDDIAETH Y CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	Er mwyn helpu i recriwtio, cadw a chymell cyflogeion o safon.	Caiff ei adolygu bob blwyddyn fel arfer a chaiff unrhyw godiadau eu cymhwyso o 1 Ebrill. Mae'r adolygiad yn adlewyrchu: - rôl, profiad a pherfformiad; - amodau economaidd ehangach; - y codiadau a ddyfernir i'r gweithlu ehangach; - meincnodi yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill yng Nghymru a Lloegr.	Codiadau blyneddol fel arfer yn gysylltiedig â rhai'r gweithlu ehangach, er bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cadw disgrisiwn i roi dyfarniadau gwahanol i unigolion lle y bo'n briodol. Datgelir cyflogau cyfredol yn Rhan 4.	Dim
Buddiannau	Er mwyn cynnig pecyn o fuddiannau sy'n gystadleuol yn y farchnad er mwyn helpu i recriwtio a chadw Cyfarwyddwyr Gweithredol.	Mae gan y Cyfarwyddwyr yr hawl i yswiriant iechyd preifat ac yswiriant bywyd. Mae gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr hawl hanesyddol i yswiriant iechyd parhaol. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael lwfans car o £5,000 y flwyddyn, yn seiliedig ar angen busnes. Gall buddiannau eraill fel treuliau adleoli neu lwfansau teithio/llety gael eu cynnig fel y bo'n briodol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cael lwfans teithio o £12,000 y flwyddyn.	Mae gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Grŵp ac ni chaiff ei bennu ymlaen llaw.	Dim
Pensiwn	Er mwyn helpu i recriwtio a chadw cyflogeion o safon.	O 1 Ebrill 2017, mae aelodau gweithredol blaenorol o Gynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Dŵr Cymru sy'n trosglwyddo i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru yn cael cyfraniad cyflogwr o hyd at 24% o gyflog (yn unol â chyflogeion eraill) hyd at 31 Mawrth 2020 gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod amgen sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogwr. (gweler tudalen 93 am ragor o fanylion) Ar gyfer aelodau gweithredol eraill o Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru, y cyfraniad mwyaf y gall y cyflogwr ei wneud i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru yw 11% ar yr amod bod y cyflogai yn cyfrannu 6% neu fwy. Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd eu cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i gyfraniad cyffredinol y Cyflogwr, wedi'i addasu ar gyfer cyfraniadau YG.	O 1 Ebrill 2017, mae'r Prif Weithredwr yn cael lwfans arian parod amgen o 21.1% o gyflog ac mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael lwfans arian parod amgen o 15.8%. Mae'r gwerth yn gymesur â thaliadau blaenorol ond yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng arall. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cael lwfans arian parod amgen o 11%.	Dim

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 2: ADRODDIAD POLISI PARHAD

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
AVPS	Er mwyn cymell unigolion i gyflawni targedau ymestynol ac amcanion personol bob blwyddyn.	Caiff targedau AVPS eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor. Pennir yr alldro gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau ac: - fe'i delir fel arian parod; - nid yw'n bensiynadwy. Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: - ailldatgan cyfrifon; - camliwio sylweddol; - camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da'r Cwmni neu gwmni'r Grŵp. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r hawl i wrthod rhoi dyfardaliadau os bydd materion o bwys yn effeithio ar ddiogelwch neu enw da'r Cwmni. Gall dyfardaliadau AVPS gael eu tynnu'n ôl rhwng dyfarnu a breinio neu eu hadfachu am gyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	Hyd at 100% o gyflog	Caiff mesurau eu cysoni â themâu'r Cynllun Busnes sef Cwsmer, Cydymffurfiaeth a Chost, gyda thargedau ffocws a phersonol blynyddol ychwanegol (gweler tudalen 92).
LTVPS	Er mwyn cysoni buddiannau hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â buddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru. Er mwyn cymell unigolion i greu gwerth yn yr hirdymor.	Dyfardaliadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad ymestynol sy'n ymwneud â'r canlynol: - perfformiad SIM cymharol am gyfnod treigl o dair blynedd; - mesur cyfunol o'r twf mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn. Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: - ailldatgan cyfrifon; - camliwio sylweddol; - camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da'r Cwmni neu gwmni'r Grŵp. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r disgresiwn i wrthod rhoi dyfardaliadau os bydd materion o bwys yn effeithio ar ddiogelwch, neu enw da'r Cwmni, neu lle mae unrhyw amgylchiadau eraill yn achosi i'r Pwyllgor benderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn, y byddai'n briodol lleihau'r Swm a Freiniwyd. Gall dyfardaliadau LTVPS gael eu tynnu'n ôl cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn ariannol benodol neu eu hadfachu am gyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	300% o gyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020 (uchafswm dyfardaliad posibl o 60% y flwyddyn). Ar gyfer y flwyddyn berfformiad 2019-20 cynigir y dylai'r uchafswm cyfle i rôl y Prif Weithredwr gynyddu o 60% o'r cyflog sylfaenol i 100% o'r cyflog sylfaenol, ond mae'r Prif Weithredwr presennol wedi gwrthod derbyn unrhyw ddyfarniad dros 60% o'r cyflog sylfaenol.	50% yn seiliedig ar berfformiad SIM cymharol. 50% yn seiliedig ar werth cwsmeriaid a gynhyrchir (gweler tudalen 93).

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol	Mae'n rhoi lefel briodol o ffi sefydlog i recriwtio a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu ar y ffi sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân i hynny, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd yn penderfynu ar lefel y ffi sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Gall pob Cyfarwyddwr gael ei dalu am dreuliau yr eir iddynt mewn perthynas â'i rôl ar y Bwrdd ac unrhyw oblygiadau o ran buddiannau trethadwy sy'n deillio o hynny. Penderfynodd y Pwyllgor ym mis Mawrth 2019 y bydd ymarfer meincnodi yn y dyfodol yn cynnwys disgownt o 15% am fod yn gwmni heb gyfranddalwyr.	Ni thelir unrhyw ffioedd i Gyfarwyddwyr Anweithredol am gadeirio Pwyllgorau. Telir mwy i'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol er mwyn adlewyrchu ehangder ei (d) dyletswyddau.	Dim
Penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd	Caiff lefelau cyflog sylfaenol eu pennu i adlewyrchu profiad yr unigolyn, data priodol ar y farchnad a gwybodaeth gymharol fewnol. Mae ymarfer meincnodi diweddar yn dangos bod rôl y Prif Weithredwr yn is na'r meincnod canolrifol hyd yn oed ar ôl cymhwyso disgownt o 15% ar gyfer ein strwythur heb gyfranddalwyr, ac mae'r Pwyllgor yn cynnig y dylid symud tuag at y canolrif wedi'i ddisgowntio dros amser. Mae'r polisi yn darparu bod y Cyfarwyddwr Gweithredol newydd yn gallu cymryd rhan yn y strwythur cydnabyddiaeth a nodir uchod. Gallai'r eithriadau i hyn gynnwys pennu mesurau gwahanol neu roi trefniadau trosiannol ar waith pe bai Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymuno hanner ffordd drwy'r cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd. Ar gyfer y sawl a gaiff eu dyrchafu'n Gyfarwyddwyr Gweithredol yn fewnol, nid effeithir ar yr hawl i AVPS na LTVPS a gronnydd yn flaenorol, hyd at y dyddiad penodi. Pe bai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth o'r farn bod angen prynu cyfran o dâl cymhelliant, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, y byddai unigolyn yn ei fforffedu ar adeg gadael ei gyflogwr presennol, caiff iawndal o'r fath, lle y bo'n bosibl, ei strwythuro er mwyn sicrhau bod y telerau prynu cyfran yn adlewyrchu ffurf a strwythur y gydnabyddiaeth a gaiff ei disodli.			
Polisi ar gyfer taliadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n ymadael	Mae cyfnod rhybudd o 12 mis ynghlwm wrth gontractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer talu iawndal os bydd y Grŵp yn terfynu contract yn gynnar. Yn ôl disgrisiwn y Grŵp, gellir talu cyflog i Gyfarwyddwr Gweithredol yn lle rhybudd. Mae dyletswydd lliniaru o bwys yn rhan o'r contract mewn amgylchiadau o'r fath. Pan fydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael oherwydd diswyddiadau ac nad yw'n ofynnol iddo weithio ei gyfnod rhybudd, bydd ganddo'r hawl i Dâl Diswyddo Statudol ynghyd â chyflog 12 mis yn lle rhybudd ynghyd â thâl yn lle gwyliau sydd wedi cronni ond nas cymerwyd. Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymddiswyddo, disgwylir iddo weithio cyfnod rhybudd oni chytunir ar drefniant amgen megis absenoldeb garddio neu gyfnod rhybudd llai. Os bydd y Grŵp yn terfynu cyflogaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol, bydd y Grŵp yn gofyn am gyngor cyfreithiol a dim ond y swm y bydd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol hawl gyfreithiol i'w gael a delir iddo. Os daw cyflogaeth i ben, caiff dyfardaliadau AVPS ac LTVPS eu trin yn unol â rheolau'r cynllun perthnasol sy'n disgrifio'r modd yr ymdrinnir ag unrhyw daliad drwy gyfeirio at dermau gadael 'da' neu 'wael'. Caiff y Cyfarwyddwr Gweithredol gadw unrhyw swm wedi'i freinio a dalwyd iddo eisoes yn llawn cyn y dyddiad y daeth ei gyflogaeth i ben.			



ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 3: AR WAITH YN 2018-2019

Mae'r adran hon yn nodi manylion cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer 2018-19. Mae'n esbonio sut mae'r Polisi Cydnabyddiaeth wedi cael ei roi ar waith yn 2018-19. Yn ogystal â datgelu ffigurau cydnabyddiaeth ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol, mae hefyd yn cynnwys manylion am berfformiad o'r lefelau canlyniadol o daliadau AVPS a breindaliadau LTVPS. Mae rhai datgeliadau o'r wybodaeth fanwl am gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol isod wedi cael eu harchwilio gan Archwilwyr annibynnol y Grŵp, sef KPMG LLP (fel y nodir yn y tablau perthnasol).

SYMIAU A DALWYD YN 2018-19



Roedd y gydnabyddiaeth a oedd yn daladwy i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 fel a ganlyn:

- Cyflog sylfaenol (a gododd 3% ym mis Ebrill 2018) ynghyd â phensiwn (neu daliadau cyfatebol) a buddiannau iechyd preifat ac iechyd parhaol;
- O dan yr AVPS, mae dyfarniadau 2018-19 yn cynnwys:
 - 23% o gyflog sylfaenol ar gyfer perfformiad yn erbyn elfennau'r cynllun sy'n ymwneud â'r Cwsmer (9.4%) a Chydymffurfiaeth (13.6%),
 - 16.6% o gyflog sylfaenol ar gyfer perfformiad yn erbyn yr elfen sy'n ymwneud â Chyfanswm Gwariant (Totex) Costau a Drwgddyledion,
 - 7.7% ar gyfer perfformiad yn erbyn Strategol (Ffocws Blynnyddol),
 - rhwng 15% ac 20% ar gyfer perfformiad yn erbyn Amcanion Personol,gan wneud cyfanswm dyfarniad o rhwng 62.3% a 67.3% o gyflog sylfaenol ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol.
- O dan LTVPS, gwnaed taliad o 15% am berfformiad yn ymwneud ag elfen Gwerth Cwsmeriaid y cynllun; mae 0% (dim) yn daladwy mewn perthynas ag elfen Gwasanaeth Cwsmeriaid y cynllun, ond ni fydd canlyniad mesur perfformiad SIM Ofwat ar gyfer 2018-19 yn hysbys tan yn ddiweddarach yn ystod yr haf.

Roedd cyfanswm y cyflog amrywiadwy a ddyfarnwyd ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer 2018-19 rhwng 77.3% ac 82.3% o gyflog sylfaenol.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 3: AR WAITH YN 2018-2019 PARHAD



BETH A DALWYD YN 2018-19 A'R CYSWLLT RHWNG CYFLOG A PHERFFORMIAD TALIADAU A WNAED I GYFARWYDDWYR YN 2018-19

Mae Ffigur 1 yn nodi enillion Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

FFIGUR 1: TALIADAU A BUDDIANNAU A ENILLWYD GAN GYFARWYDDWYR YN 2018-19 (ARCHWILIEDIG)

	Cyflog/Ffioedd		Buddiannau ¹		Arall		AVPS ²		LTVPS ³		Arian Parod yn lle Pensiwn		Croniadau Pensiwn ⁴		Cyfanswm	
	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Chris Jones	297,267	306,186	1,250	1,250	-	-	192,034	206,063	47,563	45,928	62,723	64,605	77,685	(16,574)	678,522	607,458
Peter Perry ⁵	260,110	288,400	1,250	1,250	2,500 ⁶	5,000	168,031	194,093	41,618	43,260	41,097	45,567	221,710*	243,927	736,316	821,497
Peter																
Bridgewater	240,220	247,427	1,250	1,250	12,000	12,000 ⁷	150,378	154,147	38,435	37,114	26,424	27,217	-	-	468,707	479,155
Alastair																
Lyons	215,392	221,900	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	215,392	221,900
Menna																
Richards	70,816	72,950	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	70,816	72,950
Tom Crick	29,925	61,650	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	29,925	61,650
Graham																
Edwards	59,850	61,650	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	59,850	61,650
Joanne																
Kenrick	59,850	61,650	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	59,850	61,650
Anna Walker	59,850	61,650	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	59,850	61,650
John Warren	59,850	61,650	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	59,850	61,650
Cyfanswm	1,398,012	1,445,113	3,750	3,750	14,500	17,000	510,443	554,303	127,616	126,302	130,244	137,389	299,395	227,353	2,483,961	2,511,211

Nodiadau i'r tabl

Newidiadau o ran Cyfarwyddwyr: Penodwyd Tom Crick i'r Bwrdd ar 1 Hydref 2017. Y ffigurau uchod yw'r symiau a dalwyd ar gyfer ei gyfnod mewn swydd.

Y Cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn 2018-19 oedd Peter Perry a gafodd £821,497 (£736,316 yn 2017-18). Os na chaiff newidiadau mewn cronïadau pensiwn eu cynnwys yn y cyfrifiad hwn, y Cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf fyddai Chris Jones a gafodd £624,032 (£600,837 yn 2017-18)

- * Mae'r ffigurau yn wahanol i'r rhai yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018 am eu bod yn cynnwys amrywiadau yng ngwerth trosglwyddo cyfalaf buddiannau ymddeol.

 - Buddiannau trethadwy sy'n ymwneud ag yswiriant iechyd preifat.
 - Gweler pennu canlyniad AVPS ar dudalen 92. Arweiniodd perfformiad yn erbyn targedau AVPS yn 2018-19 at daliad uwch nag yn 2017-18.
 - Gweler pennu canlyniad LTVPS ar dudalen 93.
 - Caiff buddiannau pensiwn cronedig ar gyfer 2018-19 mewn perthynas â'r cynllun pensiwn Buddiannau Diffiniedig (sydd wedi cau) ar gyfer Chris Jones a Peter Perry eu datgelu ar wahân hefyd yn Ffigur 3.
 - Penodwyd Peter Perry yn Rheolwr Gyfarwyddwr o 1 Hydref 2017 gyda chodiad cyflog i £280,000 o £240,220 wedi'i gynyddu eto i £288,400 o 1 Ebrill 2018.
 - Mae hyn yn cynrychioli lwfans car o £5,000 y flwyddyn fel y'i cytunwyd fel rhan o'r pecyn cydnabyddiaeth a roddwyd ar waith ym mis Hydref 2017.
 - Yn cynrychioli lwfans teithio o £12,000.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 3: AR WAITH YN 2018-2019 PARHAD

PENNU CANLYNIAD AVPS 2018-19

Ar gyfer 2018-19, mesurodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad yn erbyn pob targed fel y nodir yn y tabl isod. Arweiniodd perfformiad yn 2018-19 at ddyfardal AVPS o rhwng 62.3% a 67.3% o gymharu â dyfardal o rhwng 62.6% a 64.6% ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn 2017-18.

FFIGUR 2: CANLYNIAD AVPS 2018-19 (ARCHWILIEDIG)

Mesur	Pwysoliad	Crynodeb o'r targedau (% cyflog)	Canlyniad	% o'r uchafswm
Cwsmer	20%	Trothwy 5%	9.4%	47%
- Boddhad Cwsmeriaid Busnes - Derbynioldeb i Gwsmeriaid - Dibynadwyedd y Cyflenwad - Eiddo lle bu Llifogydd yn ystod y Flwyddyn - Sgôr Hyrwyddo Net - Cwynion		Targed 12.5% Ymestyn 20%		
Cydymffurfiaeth	20%	Trothwy 4%	13.6%	68%
- Diogelwch Dŵr Yfed - Trin Dŵr sydd wedi cael ei Ddefnyddio - Atal Llygredd - Gollyngiadau Dŵr - Defnyddioldeb Asedau - Gwydnwch Asedau		Targed 12.5% Ymestyn 20%		
Cost	20%	Trothwy 4.8%	16.6%	83%
- Cyfanswm Totex y Cwmni - Drwgddyledion		Targed 14.4% Ymestyn 20%		
Ffocws blynyddol	20%	Trothwy 4%	7.7%	38.5%
- Dibynadwyedd y Cyflenwad - Derbynioldeb i Gwsmeriaid - Trin Dŵr sydd wedi cael ei Ddefnyddio		Targed 12% Ymestyn 20%		
Personol	20%		15-20%	75-100%
Cyfanswm	100%		62.3-67.3%	

Nodiadau i'r tabl: Amcanion Personol: Roedd amcanion personol (gwerth hyd at 20% o'r cyflog sylfaenol) y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyson â chyflawni amcanion strategol allweddol Dŵr Cymru a chyflawni cynllun busnes 2018-19

- Prif amcan personol Chris Jones oedd cyflwyno cynllun PR19 uchelgeisiol i Ofwat; gan gydbwyso ansawdd gwasanaeth, biliau cwsmeriaid, y gallu i gyllido a buddsoddi tuag at amcanion WW2050. Ym marn y Pwyllgor roedd perfformiad Chris Jones yn erbyn ei amcanion personol yn rhagorol a dyfarnwyd 20% o'i gyflog iddo.
- Prif amcan personol Peter Bridgewater oedd goruchwyllo'r broses o lunio cynllun lleihau costau manwl ar gyfer 2025. Ym marn y Pwyllgor roedd Peter wedi rhagori ar y disgwyliadau o ran ei brif amcan personol a dyfarnwyd 15% o'i gyflog iddo.
- Prif amcanion personol Peter Perry oedd sicrhau bod cynllun lleihau costau manwl ar gyfer 2025 yn cael ei gyflwyno a goruchwyllo'r broses o integreiddio'r gweithrediad Manwerthu yn y busnes. Ym marn y Pwyllgor roedd perfformiad Peter yn erbyn ei brif amcanion personol yn rhagorol a dyfarnwyd 20% o'i gyflog iddo.

PENNU CANLYNIAD LTVPS 2018-19

Ni fydd gradd SIM Dŵr Cymru o'i chymharu â graddau SIM cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill dros y cyfnod perfformiad o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019 yn hysbys tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae 25% o'r elfen hon yn daladwy am gyrraedd y 4ydd safle, gyda chodiadau cynyddrannol o 25% am gyrraedd y 3ydd safle ac uwch. Ar yr adeg hon, amcangyfrifir ei fod wedi cyrraedd y pumed safle, ac os felly ni fyddai unrhyw ddyfarnaliad yn daladwy. Pennir y dyfarnaliad gwirioneddol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn pan gyhoeddir gwybodaeth gymharu lawn gan Ofwat. Dylid nodi bod gwahaniaethau cymharol fach mewn canlyniadau SIM wedi arwain at newidiadau perthnasol yn y safle cymharol ac, felly, amrywiadau sylweddol mewn dyfarnaliadau yn ddiweddar¹.

Ar gyfer yr elfen Gwerth Cwsmeriaid o'r cynllun a fesurwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, dyfarnwyd 15% o gyflog (50% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon). Seiliwyd hyn ar benderfyniad y Pwyllgor mai'r cyfanswm gwerth a gynhyrchwyd at ddibenion LTVPS yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 oedd £107 miliwn yn erbyn trothwy o £89m, sef targed o £109m² (ac ymestyniad o £119 miliwn).

BUDDIANNAU PENSIWN

Ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017, roedd Chris Jones a Peter Perry yn aelodau gweithredol o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru (y "cynllun"), sy'n drefniant pensiwn buddiannau diffiniedig.

Rhoddwyd y gorau i gronni Gwasanaeth Pensiynadwy o 31

Mawrth 2017. Fodd bynnag, caiff unrhyw gynnydd mewn Enillion Pensiynadwy yn y dyfodol ei ystyried wrth gyfrifo buddiannau. Hefyd, darperir yswiriant bywyd ar gyfradd pedair gwaith Cyflog Pensiynadwy am farwolaeth mewn swydd, pensiwn taladwy os bydd ymddeoliad oherwydd salwch a phensiwn i briod sy'n daladwy os bydd aelod yn marw.

Mae Chris Jones a Peter Perry yn Aelodau Lwfans Oes a/neu Lwfans Blynnyddol wedi'u Capio o'r Cynllun a, lle mae eu buddiannau yn rhagori ar derfynau CThEM, darperir buddiannau ychwanegol drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS). Ni chaiff goblygiadau'r Cwmni o dan y cynllun EFRBS eu hariannu. Fodd bynnag, mae'r cyfryw oblygiadau yn gyfwerth â rhwymedigaethau'r Cwmni, sy'n daladwy pan fyddant yn ddyledus.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn 2014-15, penderfynwyd: dileu'r hawl i bensiwn heb ei leihau mewn achos o ddileu swydd neu ddiswyddo gwirfoddol dewisol yn weithredol o 1 Ebrill 2015; dileu'r hawl i bensiwn Dŵr Cymru tra'n parhau mewn cyflogaeth; a chau'r Cynllun i gronni Gwasanaeth Pensiynadwy o 31 Mawrth 2017.

Yn iawn am hyn, cytunwyd gwneud cyfraniadau cyflogwr uwch i Gynllun Pensiwn Personol y Grŵp yn achos y rhai yr effeithiwyd arnynt yn sgil cau'r cynllun i gronni gwasanaeth yn y dyfodol tan 31 Mawrth 2020.

Ym mis Ebrill 2016 cyflwynwyd cynllun arian parod amgen i uwch reolwyr.

Dewisodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr lwfans arian parod amgen a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2017. Roedd y Prif Weithredwr mewn categori buddiannau aelod arbennig o'r EFRBS (gan gronni pensiwn ar gyfradd o un rhan o 45 o gyflog pensiynadwy y flwyddyn o gymharu ag un rhan o 60 o gyflog pensiynadwy a gronnwyd gan aelodaeth ehangach y Cynllun).

Felly, cytunodd y Pwyllgor y câi'r priod daliadau uwch cymesur eu rhoi i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr tan 31 Mawrth 2020.

Yn weithredol o 1 Ebrill 2017, mae'r Prif Weithredwr yn cael lwfans arian parod amgen o 21.1% o gyflog ac mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael lwfans arian parod amgen o 15.8% o gyflog. Dim ond tan 31 Mawrth 2020 y telir y taliadau uwch. Yn weithredol o 1 Ebrill 2020, bydd y Prif Weithredwr yn cael lwfans arian parod amgen o 12.9% o gyflog a bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael lwfans arian parod amgen o 9.7% o gyflog.

Dangosir y newidiadau yng ngwerth y buddiannau pensiwn a gronnwyd gan y Cyfarwyddwr sy'n rhan o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Ffigur 3, sydd wedi'i archwilio.

Ers iddo gael ei gyflogi ar 1 Medi 2014, mae Peter Bridgewater wedi dewis derbyn lwfans arian parod amgen o 11% o'i gyflog yn lle hynny

BUDDIANNAU ERAILL

Caiff y Cyfarwyddwyr Gweithredol fudd o yswiriant iechyd preifat. Mae gan Chris Jones a Peter Perry yswiriant iechyd parhaol hefyd.

1. Mae'r perfformiad cymharol waeth yn 2016-17 wedi cael effaith andwyol ar ganlyniad 2017-18 a chanlyniad 2018-19. Ers hynny mae perfformiad SIM wedi gwella'n sylweddol. Pe bai'r mesur wedi'i seilio ar berfformiad 2018-19 yn unig, byddai dyfarniad o 15% wedi cael ei roi.
2. Noder i'r targed gael ei gam-ddatgan fel £173m yn Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2017-18 a 2016-17. Pennwyd y ffigur o £173m yn wreiddiol gan y Pwyllgor fel y targed ond fe'i diwygiwyd i £109m ym mis Tachwedd 2016..

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 3: AR WAITH YN 2018-2019 PARHAD

FFIGUR 3: BUDDIANNAU PENSIWN

Dangosir newidiadau mewn buddiannau pensiwn cronedig ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn isod (archwiliedig).

Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 (ailldatganwyd)

Oedran Ymddeol Arferol	Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 £	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 £	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 ¹ £	Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2018 £	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2018 £	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2018 £	Swm Mewnbwn Pensiwn (yn glir o gyfraniadau'r aelod yn ystod 2018 ² £	
Chris Jones	60	143,505	2,870,094	2,898,795	148,824	2,976,480	-	77,685
Peter Perry	60	142,346	2,846,920	2,875,390	154,855	3,097,100	-	221,710

Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Oedran Ymdddol Arferol	Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2018 £	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2018 £	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2018 ¹ £	Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 £	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 £	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2019 £	Swm Mewnbwn Pensiwn (yn glir o gyfraniadau'r aelod yn ystod 2019 ² £
Chris Jones	60	148,824	2,976,480	3,065,774	152,460	3,049,200	- (16,574)
Peter Perry	60	154,855	3,097,100	3,190,013	171,697	3,433,940	- 243,927

Yn unol â'r dull a gymhwyswyd ar gyfer cyflogaeion eraill ar ôl cau'r cynllun pensiwn Buddiannau Diffiniedig i groniadau gwasanaeth pensiynadwy yn y dyfodol, mae buddiannau pensiwn Chris Jones a Peter Perry yn parhau i gynyddu yn unol â'r cynnydd yn eu cyflog sylfaenol, a darperir ar gyfer y cynnydd hwn yn y Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS). Mae gwerth cyfalafedig yr hawliad cronedig yn cynrychioli gwerth yr asedau y byddai'r cynllun pensiwn yn eu trosglwyddo i ddarparwr pensiwn arall wrth drosglwyddo rhwymedigaeth y cynllun mewn perthynas â buddiannau pensiwn Cyfarwyddwr.


Nodiadau ar fuddiannau:

- Cynyddwyd yn unol â'r ffigur twf CPI gwirioneddol ar gyfer y mis Medi blaenorol – 1% ar gyfer cyfnod datgelu 2018 ac 3% ar gyfer 2019
- Yn seiliedig ar werth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar ddiwedd y flwyddyn, llai gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio'r pensiwn cronedig ar ddechrau'r flwyddyn.
 - Mae pensiynau cronedig yn cynnwys gwasanaeth pensiynadwy blaenorol a gwblhawyd o dan Gynlluniau Pensiwn Hyder Water ac United Utilities.
 - Mae'r ffigurau pensiwn cronedig yn cynnwys yr hawliadau safonol o fewn y Cynllun (sy'n gyfyngedig yn unol â therfynau CThEM) a'r buddiannau ychwanegol sy'n daladwy o dan y Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS).

CYMHARU CYFLOGAU A PHERFFORMIAD CYFFREDINOL

Mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos sut mae ein dyfardaliadau cyflog wedi cymharu â pherfformiad a thrwy gymharu cyfanswm cyflog ein Prif Weithredwr â thwf blyneddol mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (h.y. gyda'r cronfeydd ariannol wrth gefn yn cynrychioli'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol llai dyled net) dros yr wyth mlynedd flaenorol.

FFIGUR 4: CRONFEYDD CWSMERIAID WRTH GEFN DROS GYFNOD O NAW MLYNEDD HYD AT 31 MAWRTH 2019



FFIGUR 5: CYFLOGAU A PHERFFORMIAD CYFFREDINOL

	2012 £	2013 £	2014 £	2015 £	2016 £	2017 £	2018 £	2019 £
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr (Chris Jones)	-	-	741,569	973,688	746,430	629,102	678,522 ¹	607,458 ²
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr (Nigel Annett)	677,770	590,210	709,890	-	-	-	-	-
Dyfarndal AVPS (Chris Jones)	-	-	51.1%	79.4%	70.3%	75.4%	64.6%	67.3%
Dyfarndal AVPS (Nigel Annett)	77.6%	60.6%	49.9%	-	-	-	-	-
LTVPS ar gyfer AMP6 ³	-	-	-	-	65%	65.4%	26.7%	25%
LTVPS ar gyfer AMP5	40.0%	50.0%	78.6%	90.6%	-	-	-	-

1. Yn cynnwys gwerth croniadau pensiwn (noder i'r ffigur hwn gael ei ddangos yn glir o groniadau pensiwn yn Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon 2017-18).

2. Yn cynnwys gwerth croniadau pensiwn (negyddol) (cyfanswm cydnabyddiaeth heb gynnwys gwerth croniadau pensiwn (negyddol) = £624,032)

3. Dangosir ffigurau LTVPS fel canran o'r uchafswm cyfle

Ar gyfer 2014, mae ffigurau ariannol llawn wedi'u darparu ar gyfer Chris Jones a Nigel Annett ac nid ydynt yn ymwneud â'r cyfnod fel Prif Weithredwr/Rheolwr Gyfarwyddwr yn unig. Dangosir LTVPS ar gyfer AMP5 fel canran o'r uchafswm yn hytrach na chanran o'r cyflog a ddyfarnwyd.

RHAN 3: AR WAITH YN 2018-2019 PARHAD

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried cost cydnabyddiaeth mewn perthynas â ffactorau eraill megis perfformiad y Cwmni. Mae Ffigur 6 yn nodi'r newid yng nghyfanswm y gwariant, cyfanswm costau cydnabyddiaeth cyflogaion a Chronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yn 2019 o gymharu â 2018.

	2018	2019	Newid	
	£m	£m	£m	%
Cyfanswm y gwariant ¹	980.7	1,009.2	28.5	2.9%
Costau cydnabyddiaeth cyflogaion	150.4	159.6	9.2	6.1%
Dididend Cwsmeriaid	34	40	6	17.6%
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol	1.88	1.91	0.24	1.3%

1. Gwariant gweithredol, gwariant cyfalaf a chostau cyllido.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dylai cyflog fod yn deg ym mhob rhan o'r Grŵp. Felly, wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â strwythur cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried y strwythurau cyflog ym mhob rhan o'r busnes, gan nodi'n arbennig bod y cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol a Dyfarndaliadau i Gydweithwyr ar gyfer cyflogaion yn defnyddio'r un mesurau â chynllun tâl amrywiadwy blynnyddol y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Dengys Ffigur 7 y symudiad mewn cydnabyddiaeth, ar gyfer Chris Jones fel y Prif Weithredwr, rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol flaenorol o gymharu â'r symudiad yng nghyflog cyflogai cyffredin. Nod y Pwyllgor yw sicrhau bod y dull o sicrhau cyflog teg yn cael ei weithredu'n ymarferol ym mhob rhan o'r Grŵp.

	Prif Weithredwr newid % o 2017-18 i 2018-19	Cyflogeion newid % o 2017-18 i 2018-19
Cyflog	3%	3%
Buddiannau	0%	0%
Tâl Amrywiadwy	7.3%	(1.5%)

Mae'r gymhareb hon yn defnyddio'r ffigur ar gyfer cyfanswm cyflog y Prif Weithredwr a nodir yn Ffigur 1. Mae cyflog cyfartalog cyflogeion wedi cael ei gyfrifo'n hanesyddol drwy ddefnyddio gwybodaeth yn y cyfrifon ariannol: costau staff ar gyfer y flwyddyn (gon gynnwys costau pensiwn) wedi'u rhannu â'r nifer fisol gyfartalog o bobl a gyflogir. Pe bai cronïadau pensiwn wedi'u cynnwys byddai'r ffigur ar gyfer 2018-19 wedi bod yn gymhareb o 13:1 (2017-18: 15:1). Ar gyfer adroddiadau o 2020 ymlaen, mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig yn darparu methodoleg newydd i gyfrifo'r gymhareb cyflog rhwng y Prif Weithredwr a chyflog cyfartalog cyflogeion ar sail wahanol (25ain, 50fed a 75ain contradd). Bydd ein hadroddiadau yn defnyddio'r fethodoleg a ffeirir gan y llywodraeth (Dull A) o 2020 ymlaen.

Cydnabyddioeth y Prif Weithredwr: Cydnabyddioeth Gyfartalog Cyflogeion (heb gynnwys croniadau pensiwn)

2018-19: 13.5:1 2017-18: 13.5:1

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 4: AR WAITH YN 2019-20

Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl sut mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn bwriadu cymhwyso'r Polisi Cydnabyddiaeth yn 2019-20. Mae'r Egwyddorion Cydnabyddiaeth (gweler tudalen 81) yn pwysleisio y dylai strwythur cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Tîm Gweithredol ehangach fod yn gyson â buddiannau'r Grŵp, ac yn benodol fuddiannau cwsmeriaid, yn ogystal â bod yn gyson â'n gwerthoedd a'n polisiâu. Bydd hyn yn parhau i lywodraethu'r ffordd rydym yn gweithredu yn 2019-20. Y pwyntiau allweddol o ran gweithredu'r Polisi yn 2019-20 yw:


- Adolygiad o gyflogau (gweler tudalen 98);
- o dan yr AVPS, mae'r uchafswm y gellir ei ennill yn 2019-20 yn parhau ar lefel o 100% o'r cyflog. Bydd y Cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar gwsmeriaid, cydymffurfiaeth, cost ac amcanion personol, yn ogystal â nifer o fesurau hollbwysig eraill o ran llwyddiant byrdymor a thymor canolog;
- Mae'r LTVPS yn darparu ar hyn o bryd mai'r uchafswm cyffredinol y gellir ei ennill y flwyddyn yng nghyfnod rheoleiddio pum mlynedd AMP6 yw 60% o'r cyflog sylfaenol, yn seiliedig ar

dargedau perfformiad tymor hwy ymestynnol. Mae hanner yr LTVPS yn destun mesurau Gwasanaeth Cwsmeriaid ac mae hanner yn destun mesurau Gwerth Cwsmeriaid. Yn CCB 2019 gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo cynnydd yn yr uchafswm cyfle sydd ar gael i rôl y Prif Weithredwr o dan yr LTVPS o 60% i 100% o'r cyflog sylfaenol, yn weithredol o 1 Ebrill 2019 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Fel y nodir uchod (tudalen 82), mae'r Prif Weithredwr presennol wedi gwrthod derbyn unrhyw LTVPS a ddyfernir dros 60% o'r cyflog sylfaenol.


Mae'r graffiau isod yn dangos ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol:

- y lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth sy'n daladwy. Nid yw hyn yn dibynnu ar berfformiad ac mae'n cynnwys cyflog sylfaenol, buddiannau mewn da a phensiwn;
- y lefel ddisgwyliedig o gydnabyddiaeth, sy'n adlewyrchu lefel nodweddiadol perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer yr AVP a'r LTVP;
- uchafswm y gydnabyddiaeth, pe bai pob un o dargedau perfformiad AVP ac LTVP yn cael eu cyflawni'n llawn


Prif Weithredwr



Rheolwr Gyfarwyddwr



Cyfarwyddwr Cyllid



Cyflog sylfaenol, pensiwn a buddiannau AVP LTVP

NODER: Yr uchafswm dyfarniad sy'n daladwy i'r Prif Weithredwr o dan y cynllun LTVP yw 100% o'r cyflog sylfaenol. Mae'r Prif Weithredwr wedi gwrthod derbyn unrhyw ddyfarniad dros 60% o'r cyflog sylfaenol. Mae'r enghraifft yn adlewyrchu'r penderfyniad hwn.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 4: AR WAITH YN 2019-20 PARHAD

ADOLYGIAD O GYFLOGAU

Yn dilyn adolygiad ym mis Mawrth 2019, pennodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth y cyflogau sylfaenol ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2019-20 (yn weithredol o 1 Ebrill 2019) fel y nodir yn Ffigur 9. Ar gyfer y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd o 2.1% a ddyfarnwyd i gyflogeion ar 1 Ebrill 2019 yn unol â'r cytundeb cyflog pum mlynedd â thri undeb llafur cydnabyddedig y Grŵp (GMB, Unsain ac Unite) yn 2015 a'r cyflogeion hynny nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb Gweithio gyda'n Gilydd. Yn dilyn adolygiad meincnodi o gyfanswm cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol, penderfynwyd bod cyflog sylfaenol a chyfanswm dyfarniad y Prif Weithredwr dipyn yn is na'r cymharwyr yn y farchnad a feincnodwyd. O ganlyniad, cymeradwywyd cynnydd ychwanegol o 2% i wrthbwyso rhan o'r diffyg hwn ar gyfer y Prif Weithredwr yn weithredol o 1 Ebrill 2019.

FFIGUR 9: CYFLOG SYLFAENOL CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

	Yn weithredol 1 Ebrill 2018	Yn weithredol 1 Ebrill 2019	% Newid
Chris Jones	£306,186	£318,740	+4.1%
Peter Perry	£288,400	£294,457	+2.1%
Peter Bridgewater	£247,427	£252,623	+2.1%

FFIOEDD SY'N DALADWY I GADEIRYDD Y BWRDD

Adolygwyd y ffioedd sy'n dalodwy i Gadeirydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2019 a phenderfynodd y Pwyllgor y dylai ffi Cadeirydd y Bwrdd aros yn ddigyfnwidd, sef £221,900 ar gyfer 2019-20 yn unol â'r penderfyniad a wnaed ym mis Mawrth 2019 i ddisgowntio ffi Cadeirydd y Bwrdd 15% o'r meincnod er mwyn cydnabod y ffaith nad oedd strwythur y Grŵp yn cynnwys cyfranddalwyr. Caiff ffioedd a chymharwyr meincnodi eu hadolygu eto gan y Pwyllgor yn 2019-20 pan fydd y data meincnodi ar gyfer 2018-19 ar gael.


FFIOEDD SY'N DALADWY I GYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL

Ym mis Mawrth 2019 penderfynodd Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol y dylai ffioedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol aros yn ddigyfnwidd, sef £61,650 am flwyddyn arall yn unol â'r penderfyniad a wnaed ym mis Mawrth 2019 i ddisgowntio ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol 15% o'r meincnod er mwyn cydnabod y ffaith nad oedd strwythur y Grŵp yn cynnwys cyfranddalwyr. Bydd ffi'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, sef £72,950, hefyd yn aros yn ddigyfnwidd am flwyddyn arall. Caiff ffioedd a chymharwyr meincnodi eu hadolygu gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn 2019-20 pan fydd y data meincnodi ar gyfer 2018-19 ar gael.

CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY BLYNYDDOL (AVPS)

Mae'r uchafswm tâl amrywiadwy y gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ei ennill o dan yr AVPS yn 2019-20 yn ddigyfnwidd ac yn cyfateb i 100% o'r cyflog sylfaenol. Asesir cyflawniad tâl amrywiadwy ar sail pum elfen, sy'n gyson â'r ffordd y gweithredwyd yr AVPS yn 2018-19, fel y nodir yn Ffigur 10.

FFIGUR 10A: STRWYTHUR CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY BLYNYDDOL 2019-20



FFIGUR 10B: MESURAU PERFFORMIAD AVPS

	Cwsmer	Cydymffurfiaeth	Cost	Ffocws Blynyddol	Personol
Mesurau perfformiad	Mesurau llwyddiant allweddol o Gynllun Busnes 2019-20: boddhad cwsmeriaid busnes, derbynioldeb i gwsmeriaid, dibynadwyedd y cyflenwad, eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn, sgôr hyrwyddwr net, cwynion	Mesurau llwyddiant allweddol o Gynllun Busnes 2019-20: diogelwch dŵr yfed, trin dŵr sydd wedi cael ei ddefnyddio, atal llygredd, gollyngiadau dŵr, defnyddioldeb asedau	Mesurau llwyddiant allweddol o Gynllun Busnes 2019-20: totex, ddrwgdyledion	Mesurau llwyddiant o Gynllun Busnes 2019-20: dibynadwyedd y cyflenwad, derbynioldeb i gwsmeriaid, trin dŵr sydd wedi cael ei ddefnyddio	Amcanion unigol sy'n gysylltiedig â phob rôl
Rhesymeg dros y mesurau a gafodd eu dethol	Wedi'u cysylltu â Chynllun Busnes 2019-20	Wedi'u cysylltu â Chynllun Busnes 2019-20	Wedi'u cysylltu â Chynllun Busnes 2019-20	Wedi'u cysylltu â Chynllun Busnes 2019-20	Wedi'u cysylltu â Chynllun Busnes 2019-20
Cyfnod y Perfformiad	Blwyddyn	Blwyddyn	Blwyddyn	Blwyddyn	Blwyddyn
Targed o ran perfformiad	6 mesur gydag uchafswm dyfarndal o 20%: – 25% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 62.5% ¹ o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynnol	5 mesur gydag uchafswm dyfarndal o 20%: – 20% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 62.5% ¹ o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynnol	2 fesur gydag uchafswm dyfarndal o 20%: – 24% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 72% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynnol	3 mesur gydag uchafswm dyfarndal o 20%: – 20% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 60% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarndal yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynnol	Nifer amrywiadwy o fesurau gydag uchafswm dyfarndal o 20%

1. Mae'r canllawiau newydd gan ISS i gwmnïau a restrir yn cyfyngu bonws targed i ddim mwy na 50% o'r uchafswm; er bod y targedau uchod yn uwch na hyn, mae cyflogau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn is na'r canolrif ac mae'r Pwyllgor yn ymrwymedig i dargedau ymestynnol ac osgoi canlyniadau eithafol neu anwadal cymhellion. Mae'r AVPS wedi'i ddylunio i gynnwys 16 o fesurau annibynnol sy'n gwneud canlyniad eithafol yn llai tebygol.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 4: AR WAITH 2019-20 PARHAD

CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY HIRDYMOR (LTVPS)

Yr uchafswm cyflog amrywiadwy y gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ei ennill o dan yr LTVPS yw 100% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer rôl y Prif Weithredwr a 60% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid¹.

Amcan yr LTVPS yw cysoni'r agweddau tymor hwy ar gyfanswm y gydnabyddiaeth â pherfformiad y Cwmni dros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd a ddaw i ben 31 Mawrth 2020. Mae'r dyfardaliadau yn cynnwys taliad arian parod. O dan yr LTVPS, gellir gwneud dyfardaliadau ar sail perfformiad yn erbyn y ddau fesur arwahanol canlynol:

- Dyfarndal Gwerth Cwsmeriaid**, sy'n cyfuno dau fesur ariannol o'r cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn (gwerth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net) a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (sy'n cynrychioli symiau sydd ar gael i'w Dyrannu i Gwsmeriaid) yn ystod y cyfnod rheoleiddio. Mae'r cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn (fel mesur o sefyllfa ariannol) a'r Trosglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (fel mesur o lifau ariannol), a gaiff eu cyfrifo ar wahân ond eu hadio at ei gilydd, yn nodi cyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid (a ddychwelwyd ac a gadwyd) gan y Grŵp;
- Dyfarndal Gwasanaeth Cwsmeriaid**, a fesurir yn ôl safle cyfartalog Dŵr Cymru yn nhabl cyngrhair Ofwat ar gyfer SIM dros gyfnod treigl o dair blynedd. Caiff y Dyfarndal Gwasanaeth Cwsmeriaid yn flaenorol ei lywio gan berfformiad Dŵr Cymru o'i gymharu â chwmnïau tebyg yn y sector ac mae'n gwobrwyo'r perfformiad hwnnw hefyd. Defnyddiwyd SIM ar gyfer y Dyfarndal Gwasanaeth Cwsmeriaid yn flaenorol ac mae'n cynnwys dau fesur o wasanaeth cwsmeriaid: mesur ansoddol sy'n adlewyrchu canlyniadau gwaith ymchwil annibynnol a wnaed ar ran Ofwat i nodi boddhad cwsmeriaid â'r gwasanaeth a gawsant; a mesur meintiol sy'n cwmpasu data a gofnodwyd gan y cwmni ar gwynion ysgrifenedig gan gwsmeriaid a galwadau diangen. Mae Ofwat wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio mesur SIM o wasanaeth cwsmeriaid o fis Ebrill 2019 ac yn lle hynny bydd yn defnyddio mesur arall o wasanaeth cwsmeriaid i gwsmeriaid preswyl, C-MeX (neu Fesur o Brofiad Cwsmeriaid). Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn olaf hon o AMP6, caiff "SIM diprwyol" ei gyfrifo gan Ofwat ar gyfer y cyfnod 2019-20, a disgwylir iddo gynnig y gymhariaeth orau â blynyddoedd blaenorol. Felly, ym mis Mawrth 2019 penderfynodd y Pwyllgor gymhwyso'r gwerth SIM dirprwyol o dan yr LTVPS ar gyfer blwyddyn olaf y cynllun.

Mae targedau perfformiad LTVPS yn adlewyrchu uchelgais y Bwrdd y dylai Dŵr Cymru gyrraedd safonau cwmnïau blaenllaw yn y diwydiant o ran mesurau allweddol o wasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd ariannol hirdymor er budd cwsmeriaid.

1. Cynigir y dylai'r uchafswm cyfle i rôl y Prif Weithredwr gynyddu o 60% i 100% o'r cyflog sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr presennol wedi gwrthod derbyn unrhyw ddyfardal dros 60% o'r cyflog sylfaenol.

Disgrifir y targedau perfformiad o dan bob un o'r dyfardaliadau LTVPS yn fanylach yn Ffigur 11.

FFIGUR 11: MESURAU PERFFORMIAD LTVPS

	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Gwerth Cwsmeriaid ¹
Mesurau perfformiad	Wedi'i fesur drwy gyfeirio at fesur SIM Ofwat yn flaenorol. Ar gyfer 2019-20 penderfynodd y Pwyllgor gymhwyso mesur SIM dirprwyol Ofwat.	Gwerth cwsmer gwirioneddol (cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn a throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid wrth Gefn) a grëwyd ar 31 Mawrth 2020 (diwedd cyfnod AMP6) o gymharu â'r targedau.
Rhesymeg dros y mesurau a gafodd eu dethol	Mesur SIM Ofwat o brofiad pwysig y cwsmer sy'n annibynnol, yn wrthrychol ac yn fesuradwy, ac sy'n ei gwneud yn bosibl i berfformiad gael ei gymharu â chwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.	Dyma'r mesur ariannol mwyaf cadarn o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid gan y Cwmni.
Cyfnod y Perfformiad	Tair blwyddyn ariannol a ddaw i ben gyda'r flwyddyn ariannol y gwneir dyfardal ynddi.	1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2020 – fel y dangosir yn Ffigur 5 isod.
Targed perfformiad²	50% o gyfanswm uchafswm cyfle LTVPS O blith 11 o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth y DU: – 100% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y safle cyntaf – 75% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd yr ail safle – 50% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y trydydd safle – 25% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y pedwerydd safle – 0% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y pumed safle neu is.	50% o gyfanswm uchafswm cyfle LTVPS os yw'r gwerth a grëir yn unol â'r targedau a bennir bob blwyddyn ond a bennir dair blynedd ymlaen llaw: – 100% o'r dyfardal yn daladwy am gyflawni targed ymestynnol – 66% o'r dyfardal yn daladwy am gyflawni'r targed – 0% am berfformiad sy'n cyrraedd y trothwy neu sy'n is na'r trothwy – Dyfarniad pro rata yn daladwy am berfformiad rhwng y terfynau hyn.


- Gellir diwygio'r targedau gwerth cwsmeriaid mewn rhai amgylchiadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys: (i) lle mae gwahaniaethau rhwng y chwyddiant gwirioneddol o'r tybiaethau a wnaed yn wreiddiol; (ii) lle mae unrhyw ffactorau allanol sylweddol eraill y mae'r Pwyllgor yn penderfynu eu bod y tu hwnt i ddylanwad y Cyfarwyddwyr Gweithredol.
- Wrth benderfynu ar lefel unrhyw ddyfardal, bydd y Pwyllgor yn ystyried statws bondiau'r Grŵp a gall ohirio'r dyfardal cyfan neu ran ohono yn ôl ei ddisgrisiwn os yw asiantaethau credyd yn gwylio statws bondiau'r Grŵp neu wedi eu hisraddio

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

RHAN 4: AR WAITH 2019-20 PARHAD

Dangosir y cyfnod y penderfynir ar berfformiad a’r dyddiadau talu posibl yn ystod y cyfnod rheoliadol yn y diagram yn Ffigur 12. Nodir manylion y taliadau a wnaed o dan yr LTVPS ar gyfer 2018-19 ar dudalen 90.

FFIGUR 12: CYFNOD PERFFORMIAD LTVPS



DISGRESIWN Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu'r AVPS a'r LTVPS yn unol â'u priod bolisiau cynllun ac yn unol â'r Rheolau Rhestru, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a Chanllawiau IA/ISS lle y bo'n briodol.

Mae'r Pwyllgor yn cadw ei ddisgresiwn, yn gyson ag arfer y farchnad, o ran gweithredu a gweinyddu'r cynlluniau hyn.

Mae rheolau'r cynllun yn caniatáu adfachu tâl amrywiadwy oddi wrth Gyfarwyddwyr, naill ai tynnu dyfardal yn ôl ar ôl iddo gael ei freinio, neu ei adfachu ar ôl i ddyfardaliadau gael eu breinio (gweler rhagor o fanylion ar dudalen 86).

GORUCHWYLIO POLISIÂU CYDNABYDDIAETH AR GYFER Y GWEITHLU EHANGACH

Fel rhan o'i adolygiad parhaus o bolisiau, mae'r Pwyllgor yn ystyried cydnabyddiaeth y gweithlu ehangach yn ei gyfarwydd, a phriodoldeb targedau, tra'n cydnabod mai mater i'r Tîm Gweithredol yw penderfynu ar bolisiau cyflog ar gyfer y gweithlu ehangach a'u rhoi ar waith.

1. Hyd at 100% o'r cyflog sy'n dalodwy i'r Prif Weithredwr o 2019-20 ymlaen. Noder bod y Prif Weithredwr presennol wedi gwrthod derbyn unrhyw daliad sy'n fwy na 60% o'r cyflog sylfaenol.

MANYLION CONTRACTAU GWASANAETH A LLYTHYRAU PENODI CYFARWYDDWYR

Mae dyddiadau contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2019 fel a ganlyn:

Chris Jones	4 Gorffennaf 2013
Peter Perry	17 Medi 2013
Peter Bridgewater	1 Medi 2014
Alastair Lyons	1 Mai 2016
Menna Richards	22 Tachwedd 2010
Tom Crick	1 Hydref 2017
Graham Edwards	1 Hydref 2013
Joanne Kenrick	1 Tachwedd 2015
Anna Walker	3 Mawrth 2011
John Warren	3 Mai 2012

Mae copïau o'r contractau gwasanaeth ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni.

Am ragor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, gweler tudalen 62.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod holl aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn annibynnol ac, yn achos Alastair Lyons, ystyriwyd ei fod yn annibynnol pan gafodd ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd y Cwmni.

Mae'r Prif Weithredwr o'r Cyfarwyddwr Pobl a Newid yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth drwy wahoddiad (ac eithrio lle y trafodir eu cydnabyddiaeth eu hunain). Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wyth gwaith yn ystod 2018-19.

Yn ystod 2018-19, cafodd y Pwyllgor gyngor annibynnol gan Mercer. Mae Mercer wedi ymrwmo i God Ymddygiad Grŵp yr Ymgynghorwyr Cydnabyddiaeth a chaiff unrhyw gyngor a roddir ei lywodraethu gan y Cod. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cyngor a roddwyd yn annibynnol ac yn wrthrychol. Talwyd cyfanswm o £93,000 mewn ffioedd i Mercer ar gyfer y cyfnod 2018-19.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwr yn cyflwyno eu hadroddiad ynghyd â Datganiadau Ariannol archwiledig y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae'r adolygiad o berfformiad y Cwmni yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 9 i 54. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth, gweithrediadau ei fusnesau, datblygiadau yn y dyfodol a'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a amlinellir ar dudalennau 58 i 103 wedi'i ymgorffori drwy gyfeirio at yr adroddiad hwn ac yn unol â hynny, dylai gael ei ddarllen fel rhan o'r adroddiad hwn.

Nodir manylion polisi'r Grŵp am fynd i'r afael â'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebwr gan y Grŵp yn yr adran ar Reoli Risg o dudalen 46 i 51.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r Grŵp mewn sefyllfa ariannol gadarn ar 31 Mawrth 2019; mae gerio yn parhau i fod yn isel, sef 58% (2017-18: 57%) ac rydym wedi cynnal ein statws credyd sy'n arwain y sector.

REFENIW

Cynyddodd trosiant Glas Cymru ychydig yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 i £782 miliwn (2018: £757m). Mae cynnydd o 2.0% mewn prisiau yn unol â Phenderfyniad Terfynol PR14 Ofwat a defnydd cynyddol yn ystod haf sych, poeth yn 2018 wedi cael eu gwrthbwysu'n rhannol gan refferiwr is am fod mwy o gwsmeriaid yn talu tariffau cymorthdaledig.

EITEMAU GWEITHREDOL

Cyfanswm costau gweithredol Glas Cymru (heb gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith mewn perthynas â chynnal a chadw ein rhwydwaith o bibellau tanddoearol a dibrisiant) oedd £336 miliwn (2018: £319m). Mae'r cynnydd mewn nifer o gostau penodol (costau sy'n ymwneud â thywydd haf anoddweddiadol: cyflogaeth, pŵer a gollyngiadau'r rhwydwaith) wedi cael ei wrthbwysu'n rhannol gan gost is contractau TG wedi'u hailnegodi, ardrethi busnes is a lleihad yng nghost drwgddyledion.

Mae pob cwmni dŵr a charthffosiaeth yn defnyddio llawer o bŵer ar gyfer prosesau trin a phwmpio dŵr. Mae tirwedd fryniog Cymru yn golygu bod hyn yn her benodol i ni. Costau pŵer yn ystod 2018-19 oedd £46m (2018: £43m).

Erys cryn ansicrwydd ynglŷn â chostau ynni yn y dyfodol, ac rydym wedi blaenbrynu cyfran o ofynion pŵer amcangyfrifedig y busnes ar gyfer yr AMP nesaf hyd at 2025.

Ni chaniateir i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ddatgysylltu cyflenwadau i gwsmeriaid domestig nad ydynt yn talu ac, er gwaethaf ffocws ar ffyrdd eraill o adennill dyledion, mae casglu arian parod wedi parhau i fod yn her. Mae'r flaenoriaeth uchel a'r ffocws cynyddol ar adennill dyledion yn y busnes Manwerthu wedi arwain at welliannau pellach i gasglu dyledion yn ystod y flwyddyn, ac o ganlyniad mae'r ffigur drwgddyledion am y flwyddyn wedi gostwng, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, i £21 miliwn (2018: £22m). Rydym yn targedu cwsmeriaid na wnânt dalu eu biliau, yn hytrach na'r rhai na allant dalu, ac mae'r gostyngiad yn deillio'n bennaf o sicrhau gorchmynion arwystlo dros eiddo sy'n berchen i gwsmeriaid, gan sicrhau tua 6,000 o orchmynion dros bron £11 miliwn o ddyledion ein cwsmeriaid ar 31 Mawrth 2019.

COSTAU CYLLIDO

Roedd y llog net taladwy, sef £164 miliwn (heb gynnwys enillion neu golledion cyfrifyddu ar ddeilliadau a nodir isod) £8 miliwn yn is na'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf o ganlyniad i chwyddiant is y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Mae gan Glas Cymru nifer o gontractau cyfnewidiadau deilliannol sy'n cadw neu'n cysylltu cost dyledion â chwyddiant, yr aed iddynt pan oedd gan y cwmni lefel gerio uchel. Er bod y rhain yn enghreifftiau effeithiol o ragfantoli masnachol, nid ydynt yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IFRS9. Gall newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad greu anwadalarwydd yn y datganiad



incwm a'r colledion gwerth teg yn 2018-19 oedd £29 miliwn (2018: enillion o £80m). Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith ar lifau arian parod: mae'r Grŵp yn bwriadu dal y cyfnewidiadau sy'n weddill nes bod y ddyled sylfaenol yn aeddfedu a, thros oes y cyfnewidiadau, bydd enillion a cholledion o'r fath yn mynd yn ddim.

TRETHIANT

Mae'r Grŵp yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwariant cyfalaf er budd ein cwsmeriaid. Mae rhyddhad treth y gwariant cyfalaf hwn a'r llog a dalwn i'w ariannu yn arwain at oedi o ran taliadau treth gorfforaeth mewn cyfnodau i ddod. Cynhyrchwyd credyd treth o £0.3m yn sgil ildio colledion treth yn ymwneud â'n buddsoddiad mewn gwariant cyfalaf ynni-ffeithlon o dan gynllun a gymeradwywyd gan y Llywodraeth. Mae'r Cwmni hefyd wedi hawlio credyd treth o £0.5m o dan fenter Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu (RDEC) y Llywodraeth, sydd wedi'i gynnwys yn y gwariant gweithredu yn Nodyn 3.

Roedd cyfanswm y credyd treth yn y datganiad incwm yn £20.8m (2018: credyd o £2.6m). Cafwyd credyd treth bach o £0.1m yn ymwneud â chyfnodau blaenorol. Os na chaiff y credyd hwn ei gynnwys fel rhan o gyfanswm y credyd treth o £20.8m, y gyfradd wirioneddol ar gyfer y cyfnod fyddai 16.7% (2018: 16.9%). Ceir cysoni yn Nodyn 5.

COLLED CYN TRETH

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn nodi colled cyn trethiant o £124m (2018: colled o £15m) sy'n ystyried yr amrywiannau a drafodir uchod, gan gynnwys chwyddiant a'r symudiadau gwerth teg. Mae elw gweithredu wedi gostwng o £75m y llynedd i £69m; ond mae gwariant ar adnewyddu seilwaith wedi aros yn gyson, yn unol â'r lefelau uchel o fuddsoddiad



cyfalaf sy'n parhau. Mae dibrisiant £17m yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd ailbrisio asedau sefydlog.

STRATEGAETH TRETH Y GRŴP

EIN DULL O REOLI RISG A THREFNIADAU LLYWODRAETHU

Ein Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol sy'n bennaf cyfrifol am ein strategaeth llywodraethu treth, gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwyllo hynny.

Ategir ein strategaeth treth gan Bolisi Treth y Grŵp mewnol manwl, ynghyd â fframwaith o systemau a rheolaethau mewnol sy'n llywodraethu gweithrediadau masnachol Glas Cymru Holdings a'i is-gwmnïau (y Grŵp). Ein Pennoeth Treth sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth treth yn feunyddiol ac am reoli materion treth y Grŵp. Mae ein Pennaeth Treth yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol. Caiff materion, risgiau a datblygiadau treth perthnasol eu rhannu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Archwilio.

Mae ein tîm Treth yn cynnwys grŵp bach o weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad helaeth o dreth yn y sector dŵr. Ategir yr arbenigedd

hwn gan y defnydd o gynghorwyr allanol dibynadwy lle bo angen.

EIN DULL O GYNLLUNIO TRETH AC YMDRIN Â RISGIAU TRETH

Mae holl gwmnïau'r Grŵp yn drethdalwyr y DU ac yn talu treth gorfforaeth y DU ar eu helw.

Canolbwyntiwn ar gydymffurfiaeth; sicrhau bod ein holl drethi yn cael eu cyfrifo a'u hadrodd yn gywir, ac yn cael eu talu erbyn y dyddiad y maent yn ddyledus.

Nid ydym yn ymwneud â threfniadau artiffisial heb unrhyw ddiben masnachol, na thrafodion sy'n anelu at gam-fanteisio ar ddeddfwriaeth trethi er mwyn talu llai o dreth. Cydymffurfiwn â'r gyfraith, mewn gair ac ysbryd.

Nodir risgiau treth ar gofrestr risg y Grŵp a ddiweddarir yn rheolaidd.

Mae ein prif risgiau treth yn deillio'n bennaf o ddatblygiadau busnes a newidiadau i ddeddfwriaeth treth a all arwain at oblygiadau treth nas rhagwelwyd. Lle bo modd ceisiwn liniaru risgiau treth fel bod y risg sy'n weddill mor fach â phosibl.

Mae ein tîm Treth ynghlwm wrth bob datblygiad busnes o bwys gan olygu y gellir cynnal asesiad llawn o'r goblygiadau treth. Ceisiwn adborth gan gynghorwyr allanol

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR



dibynadwy lle mae'r goblygiadau treth yn dal i fod yn aneglur. Mewn achosion lle erys peth ansicrwydd cydweithiwn â CThEM i gael eglurder.

Mae ein tîm Treth yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau treth o fewn y diwydiant dŵr. Coiff y tîm y wybodaeth ddiweddaraf am faterion technegol yn rheolaidd gan ein cynghorwyr proffesiynol ac o'n cyfarfodydd cyfnodol â CThEM. Mae hyn yn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r holl ddatblygiadau perthnasol ym maes cyfraith trethi, gan ei alluogi i ddatblygu systemau a rheolaethau priodol i fynd i'r afael â newidiadau mewn deddfwriaeth.

Cyfrannwn at broses llunio polisiau treth y DU drwy ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth.

EIN CYDBERTHYNAS Â CTHEM

Rydym yn ymrwymedig i gydberthynas agored a thryloyw â CThEM. Ein polisi yw datgelu'n llawn unrhyw faterion neu wallau wrth iddynt godi, a cheisio eu datrys cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Rydym yn cyfarfod â CThEM ddwywaith y flwyddyn am drafodaeth ffurfiol am ein

cynlluniau busnes a datblygiadau, ynghyd â newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth treth.

Mae'r Grŵp wedi cael ei ddosbarthu'n risg isel gan CThEM bob blwyddyn ers sefydlu'r broses Adolygu Risgiau Busnes yn 2009. Coiff hyn ei adolygu yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2020, a disgwyliwn gadw'r dosbarthiad presennol.

RHYDDHAD TRETH A CHYMHELLION

Nid oes gan ein Grŵp unrhyw gyfranddalwyr a chaiff ei redeg er budd ein cwsmeriaid yn unig. Felly, ceisiwn ddefnyddio'r rhyddhad treth a chymhellion sydd ar gael gan y Llywodraeth i sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael er budd ein cwsmeriaid.

Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn gwariant cyfalaf, er enghraifft gweithfeydd trin dŵr a'n rhwydwaith o bibellau a gorsafoedd pwmpio, er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'n cwsmeriaid yn barhaus. Felly, gallwn fanteisio ar ryddhad treth sy'n anelu at ysgogi'r math hwn o fuddsoddiad. Gall cyfran sylweddol o'r gwariant cyfalaf hwn gael ei didynnu wrth gyfrifo elw trethadwy'r Grŵp. Gallwn hefyd

ddidynnu costau llog yr eir iddynt er mwyn ariannu'r buddsoddiad cyfalaf hwn. I bob diben, mae hyn yn golygu nad oes angen gwneud taliadau treth gorfforaeth tan yn ddiweddarach. Mae ein cwsmeriaid hefyd felly'n cael budd o filiau rhatach.

Mae cyfundrefn Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu'r Llywodraeth yn cymell cwmnïau i fuddsoddi mwy mewn ymchwil a datblygu. Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn ymchwil a datblygu ac yn hawlio credydau treth o dan y gyfundrefn hon.

TRYLOYWDER

Deallwn werth cyflwyno adroddiadau ariannol llawn gwybodaeth i'n cwsmeriaid, buddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae trethiant yn faes a all fod yn anodd ei ddeall. Felly ceisiwn roi datgeliadau manylach er mwyn rhoi darlun clir a chytbwys o'n materion treth.

CYFRANIAD

Mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i amrywiaeth o drethi a thollau, gan gynnwys treth gorfforaeth, ardrethi busnes, trethi amgylcheddol, trethi cyflogaeth, Yswiriant Gwladol, TAW, toll ar danwydd a thrwyddedau. Felly mae'r Grŵp yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyllid cyhoeddus, yn ogystal â chyflogi dros 3,500 o bobl a chwarae rôl bwysig yn yr economi ranbarthol.

ARIAN PENSIWN

Mae'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn nodi colled actiwaraiddd cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig o £20m (2018: ennill o £12m) a rhwymedigaeth y fantalen ar 31 Mawrth 2019 oedd £96m (2018: £80m). Mae'r prisiad hwn ar sail IAS 19 at ddibenion cyfrifyddu ac nid yw'n gyson â phrasiad actiwaraiddd y cynllun at ddibenion ariannu. Coiff y prisiad diweddaraf o'r fath o'r cynllun ei gwblhau yn

ddiweddorach yn ystod y flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2016, roedd y prisiad actiwaraid yn rhagamcanu diffyg y gellir ei adennill drwy daliadau o £7m y flwyddyn hyd at 2019 ac yna £3m y flwyddyn hyd at 2030. Lliniarwyd amlygiad i unrhyw rywmedigaethau ychwanegol sylweddol yn y dyfodol drwy gau'r rhan fwyaf o'r rhannau o'r cynllun o 1 Ebrill 2017.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r fantolen gyfunol yn dangos asedau net o £1,234m ar 31 Mawrth 2019 (2018: £1,244m). Heb gynnwys addasiadau gwerth teg anariannol ar gyfer offerynnau ariannol deilliadol, y cyfeirir atynt uchod, mae gan y Grŵp asedau net o £1,660m (2018: asedau o £1,641m).

BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y busnes ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Yn unol â hynny, paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar sail busnes gweithredol.

POLISI DIFIDEND – BUSNES PENODEDIG (DŴR CYMRU CYFYNGEDIG)

Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd Bwrdd Glas Bolisi Difidend i alluogi hyd at £100m i gael ei dalu rhwng y Grŵp, y tu allan i'r hyn a neilltuir at ddibenion rheoleiddio, er mwyn ariannu prosiectau masnachol. Ni chafodd unrhyw ddiffidendau eu datgan na'u talu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 (2018: dim).

"DIFIDEND" DYCHWELYD GWERTH I GWSMERIAID

Mae ein strwythur corfforaethol yn golygu y caiff pob gwarged ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid. Ers 2001, mae Glas Cymru wedi defnyddio cyfanswm o £400m er budd cwsmeriaid. Mae'r

dosbarthiadau hyn yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau a fyddai'n gymwys i dalu difidendau mewn strwythur cwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr. Yn unol â hynny, pennwyd cyfanswm gwerth a ddychwelwyd o £40m yn 2018-19. Sicrhodd hyn y gallai'r targed gerio gael ei gynnal, ar ychydig o dan 60% yn 2020, er mwyn cynnal statws credyd cryf a chydnerthedd ariannol er budd cwsmeriaid yn y tymor hwy. Mae'n ystyried costau hysbys a disgwylidig a hefyd sefyllfa'r Grŵp o ran ariannu pensiynau (gan gynnwys ymrwymadau i gyfrannu at ddiffyg daliadau). Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalen 16.

BUDDSODDIAD CYFALAF

Crëwyd sefyllfa ariannol gadarn Glas Cymru dros yr 18 mlynedd ddiwethaf, ac mae'n cynnig sail sefydlog dros ymateb yn gadarnhaol i heriau'n ymwneud ag ansicrwydd economaidd a pharhau â'i raglen gyfalaf fawr. Mae Glas Cymru yn gweithio gyda chynghrair o bartneriaid contractio i gyflawni'r rhaglen buddsoddi cyfalaf am y gwerth gorau am arian i'w gwsmeriaid. Cyfanswm y gwariant cyfalaf net yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith) oedd £452m (2018: £415m).

STATWS CREDYD A RHEOLI CYFRADDAU LLOG

Glas Cymru sydd â'r statws credyd gorau yn sector dŵr y DU, sy'n adlewyrchu teilyngdd credyd da iawn y Grŵp. Statws dyledion Dosbarth A a B y Grŵp ar 31 Mawrth 2019 oedd A/A2/A yn ôl statws Standard & Poor's (S&P), Moody's a Fitch yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r statws yn ôl S&P a Moody's yn negyddol ar hyn o bryd (gweler tudalen 42).

Ar 31 Mawrth 2019, roedd tua 60% o ddyled gros yn fynegrifol drwy fondiau a deilliannau (2018: 65%), gyda'r gweddill ar gyfraddau llog sefydlog. Mae

oeddfedrwydd disgwylidig y bondiau cyfradd sefydlog a'r bondiau mynegrifol sy'n ddyledus yn amrywio o 2021 i 2057, ac nid oes mwy nag 20% yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd, yn unol â'n polisi ailariannu.

POLISI GERIO

Polisi gerio i GCRh Glas Cymru yw targedu gerio ar 60% neu oddeutu'r ganran honno, a sicrhau bod llog yn cwmpasu cymarebau sy'n gymesur â chynnal ein statws credyd gradd "A" sy'n arwain y sector. Dylai hyn ein helpu i gadw proffil risg isel, gan sicrhau y gall y Grŵp gael gafael ar gyllid cost isel drwy gydol AMP7 a thu hwnt.

HYLIFEDD A CHRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Nod Glas Cymru yw cynnig buddsoddiad diogel, risg isel i fuddsoddwyr dyled. Drwy adeiladu a chynnal sefyllfa ariannol gadarn, rydym yn bwriadu cadw ein costau benthyca yn isel, a fydd yn ein galluogi i ariannu buddsoddiad yn y dyfodol yn effeithlon. Pan gafodd Dŵr Cymru ei gaffael gan Glas Cymru ym mis Mai 2001, roedd gerio (dyled net/Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol (GCRh)) yn 93%. Ers hynny, mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella'n gyson. Roedd gerio i GCRh wedi gostwng i 58% erbyn 31 Mawrth 2019 (2018: 57%), ac roedd "cronfeydd cwsmeriaid wrth gefn" (GCRh llai dyled net) o £2.4 biliwn (2018: £2.4 biliwn). Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Grŵp gyfanswm hylifedd o £532m, gan gynnwys balansau arian parod o £362m.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL

EIN HEFFAITH EHANGACH

Fel un o gyflogwyr mwyaf Cymru sy'n gwasanaethu 3.1m o bobl yn ein hardal gyflenwi yng Nghymru a Lloegr, rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i'n cyflogeion ac i'r gymuned ehangach. Nodwn ar dudalen 24 fanylion am rywfaint o'r gwaith ychwanegol a wnawn yn y cymunedau lle rydym yn gweithio.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Grŵp 3,630 o gyflogeion (2018: 3,435). Yn ei hanfod, mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ein pobl ymroddedig, llawn cymhelliant ac rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl er mwyn ateb heriau gweithredu ein busnes yn y dyfodol ac i annog gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yn llawn.

GWELLA AMRYWIAETH EIN GWEITHLU

Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr na chyflogeion ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartner sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol ("nodweddion gwarchodedig" yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) nac unrhyw nodwedd personol arall. Os oes cyflogai yn anabl neu os oes cyflogai yn mynd yn anabl, rhown ystyriaeth i unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ei helpu i oresgyn neu leihau effaith yr anabledd yn y gweithle. Mae'n bolisi gan y Grŵp y dylai hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person anabl, cyn belled â phosibl, fod yn union debyg i hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person nad oes ganddo anabledd.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYHNHWYSIANT

Drwy ymgysylltu â thalent amrywiol, gall Dŵr Cymru wella mynediad at sgiliau sy'n brin, gan greu cronfa dalent fwy o faint a hefyd wella'r brand Cyflogwr o Ddewis. Drwy fynd ati i ddatblygu gweithlu sy'n gynrychioliadol o'r cwsmeriaid a wasanaethwn, bydd Dŵr Cymru yn ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid, a fydd yn fuddiol nid yn unig o ran recriwtio, ond hefyd nodau ehangach y busnes.

Drwy weithio gydag elusennau a sefydliadau megis **WISE** a **Stonewall**, gall Dŵr Cymru ddenu unigolion a all fel arall deimlo bod rhwystrau sylweddol i gyflogaeth.

Mae ymrwymiad Dŵr Cymru i weithlu amrywiol o ran rhywedd wedi'i ategu gan ein gwaith gyda WISE, sef ymgyrch i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiâu ym maes gwyddoniaeth, technoleg a pheirianteg. Mae dilyn ei fodel deg cam yn golygu gwneud y newidiadau diwylliannol priodol a all, yn eu tro, gael effaith sylweddol ar ddenu, recriwtio a chadw staff.

Mae ein gwaith gydag EU Skills ar y Fforwm Rhwydwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant yn golygu y gallwn weithio gyda chwmnïau eraill i sicrhau gweithlu mwy amrywiol ac, fel sector, ein bod yn deg ac yn gyfartal, a hefyd gadw'r dalent hon er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy a chydnerth ar gyfer y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan y sector. Hefyd, fel rhan o'n haelodaeth o'r Talent Source Network, mae Dŵr Cymru yn cymryd rhan mewn nifer o fyrdau swyddi amrywiol gan gynnwys DESIblitz (cylchgrawn gwe i bobl Asiaidd Brydeinig).



Rydym hefyd wedi ymrwymo i **Disability Confident** a'r Fforwm Anabledd Busnes i hyrwyddo Dŵr Cymru fel cyflogwyr i unigolion ag anableddau. Mae hyn hefyd yn atgyfnerthu'r ffaith ein bod ni, fel cyflogwr, yn ymrwymedig i gyflogi pobl sy'n meddu ar y sgiliau a'r rhinweddau priodol, ni waeth beth yw eu heriau unigol. Er mwyn datblygu ein hymrwymiad ymhellach rydym wedi dod yn Gyflogwr Cydnabyddedig Amddiffyn, sy'n dileu'r rhwystau i gyflogaeth ymhlith cyn-filwyr a milwyr wrth gefn sy'n gweithio yn Dŵr Cymru drwy lofnodi **Cyfamod y Lluedd Arfog**.

Er mwyn gwella ein gallu i ddenu cyflogeion amrywiol bwriadwn:

- ymgysylltu â sefydliadau sy'n gysylltiedig â chronfeydd talent perthnasol.
- ceisio gwybodaeth ychwanegol gan ein gweithlu presennol fel y gallwn olrhain gwelliannau yn y dyfodol.
- newid y ffordd rydym yn recriwtio er mwyn cyrraedd arweinwyr cymunedol gwahanol ac ennyn eu cefnogaeth. Meithrin cydberthnasau â sefydliadau trydydd parti allweddol a all ein helpu i ddangos ein bod yn gyflogwr sy'n ymrwymedig i wella amrywiaeth.

Roedd ein digwyddiad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yn 2019 yn cynnwys Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg, yr elusen cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, a roddodd gyflwyniad ar yr heriau y mae wedi'u hwynebu yn ei gyrfa. Bwriedir cynnal digwyddiad tebyg yn gysylltiedig â STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) hefyd yn Llandudno ym mis Mehefin 2019.



Cynadledwyr a chyflögeion ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

CEFNOGI EIN CYDWEITHWYR A'R GADWYN GYFLENWI

Yn ystod 2018-19 rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar faterion lles ymhlith ein cydweithwyr, ac arweiniodd y tîm Diogelwch a Lles ymgyrch ar faterion iechyd meddwl. Cymerodd cydweithwyr ran mewn nifer o weithgareddau, gan ddechrau sgysiau cynhyrchiol yn sgil ein cyfranogiad yn y Diwrnod Amser i Siarad a'r gobaith yw y bydd y rhain yn parhau drwy gydol y flwyddyn. Rhannodd y tîm adnoddau a gwybodaeth â'r rhai yr oedd angen help arnynt, neu a oedd am gael gwybod mwy am gyflyrau iechyd meddwl penodol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r elusen iechyd meddwl Mind Cymru i'n helpu i barhau i ganolbwyntio ar leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl yn yr hirdymor, ac i sicrhau y gwnawn bopeth o fewn ein gallu i helpu cydweithwyr sydd angen cymorth.

HAWLIAU DYNOL

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol mewn perthynas â chydweithwyr, a'n cadwyn gyflenwi. Ail-lansiwyd ein Cod Ymddygiad ym mis Mawrth 2018. Mae'r Cod hwn yn annog cydweithwyr i "siarad i fyny" os na fydd rhywbeth yn ymddangos yn iawn er mwyn atgyfnerthu ein diwylliant o "wneud y peth iawn" ac atebolrwydd unigol.

Caiff y Cod ei ategu gan nifer o bolisiau'r Grŵp, yn ogystal â gweithdrefnau a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys:

GWRTHFWLIO AC AFLONYDDU

Rydym yn parchu urddas pobl a hawliau unigolion. Mae polisi'r Grŵp yn nodi sut y dylai cydweithwyr ymddwyn tuag at ei gilydd. Yn ystod 2018, ymgymerodd y Tîm Gweithredol a rhai uwch reolwyr â hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol er mwyn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiwylliant o gynwysoldeb a pharch.

DIOGELU

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael yr hyfforddiant cywir ac, eleni, rydym wedi datblygu ein polisi yn y maes hwn i gefnogi hyn.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

CHWYTHU’R CHWIBAN

Mae diwylliant iach lle mae unigolion yn teimlo y gallant siarad am unrhyw beth sy’n peri pryder iddynt yn rhan bwysig o “drydedd linell amddiffyn” ein model cydymffurfiaeth. Eleni, rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i’n llinell gymorth allanol sy’n cynnig ffordd gyfrinachol a diogel ychwanegol i’n cyflogeion, cyflenwyr, partneriaid busnes a rhanddeiliaid eraill godi pryderon ynghylch ymddygiad sy’n mynd yn groes i’n gwerthoedd. Rydym yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu unrhyw gyflogai sy’n sôn am unrhyw achos neu achos a amheuir o fynd yn groes i’r Cod Ymddygiad neu sy’n datgelu unrhyw beth arall er budd i’r cyhoedd.

DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Gwrthwynebwn yn gryf unrhyw fath o arfer cyflogaeth annheg, gan gynnwys masnachu pobl a llafur caethwasiaeth, ac rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ym mhob rhan o’r busnes ac yn ein cadwyni cyflenwi. Mae ymddiried ynom i wneud y peth iawn yn un o’n gwerthoedd craidd. Ni fyddem byth yn ymwneud â chyflenwyr na chontractwyr sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth neu fasnachu pobl neu arferion cyflogaeth annheg, gan wybod hynny. Mae ein Polisi Gwrthgaethwasiaeth yn amlinellu ymrwymiad y Grŵp i ymddwyn yn foesebol ac yn onest o ran trefniadau ein cadwyni cyflenwi. Fel rhan o’n proses gaffael, bydd yn ofynnol i unrhyw ddarpar gontractwr neu gyflenwr gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â’r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ac, os cânt eu penodi, mae’n ofynnol iddynt rannu’r gofynion a osodwn arnynt ag unrhyw isgontractwyr a

ddefnyddir ganddynt i ddarparu eu gwasanaethau i ni. Bydd ein telerau ac amodau safonol yn cynnwys darpariaethau cytundebol sy’n ymwneud â chydymffurfio â’r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Rydym yn gweithredu’r darpariaethau newydd hyn fel rhan o bob cytundeb newydd, wrth adnewyddu cytundebau allweddol ac wrth gyflwyno archebion prynu. Rydym wedi ysgrifennu at ein cyflenwyr presennol i’w hatgoffa o ofynion y Ddeddf a’n polisi yn y maes hwn. Mae gan ein tîm Adnoddau Dynol bolisiau recriwtio i ddiogelu unigolion rhag caethwasiaeth a masnachu pobl yn ein gweithrediadau ein hunain ac rydym yn gweithio tuag at gyflawni’r 12 ymrwymiad yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn cadwyni cyflenwi. Ceir rhagor o fanylion a’n datganiad ar wrthgaethwasiaeth yn y ddolen isod: dwrcymru.com/Company-Statements.

Hefyd, yn ystod 2018-19, gwnaethom drefnu i’r elusen Unseen roi hyfforddiant i’n rheolwyr contractau, y tîm caffael a rhai o’n contractwyr trydydd parti. Roedd y senarios a drafodwyd yn ystod y sesiwn yn amlygu’r ffaith bod arferion cyflogaeth annheg o ryw fath neu’i gilydd yn gymharol gyffredin gan ei gwneud yn bwysig bod unigolion yn effro i unrhyw arwydd o gam-drin neu ymddygiad camdriniol o bosibl.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu fframwaith Rheoli Contractau a Rheoli Cyflenwyr lle y caiff contractau a chyflenwyr eu hasesu o ran risg a’u dyrannu’n un o dri chategori sy’n pennu cwmpas, lefel a dyfnder yr oruchwyliaeth sydd ei hangen gan reolwyr. Mae’r osesiad risg yn ystyried ffactorau megis iechyd a diogelwch, arferion cyflogaeth, diogelu data, seiberddiogelwch, dibyniaeth ar gyflenwyr a gwariant.

Bydd Cynlluniau Rheoli ar gyfer Contractau a Chyflenwyr penodol wedi cael eu rhoi ar waith a’u monitro ar yr adegau gofynnol. Mae cynlluniau rheoli contract yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cael y nwyddau neu’r gwasanaethau penodol ar yr amser cywir, am y gost gywir ac o’r ansawdd cywir, a bod iechyd a diogelwch, risg a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae cynlluniau rheoli cyflenwyr yn canolbwyntio ar reoli a mesur perfformiad cyflenwyr ar lefel cwmni, gan ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau ar gyflenwyr gael eu gwneud ar sail strategol i’r busnes cyfan.

Rydym wedi cael gwybod am un achos o arferion cyflogaeth annheg o bosibl a gododd mewn cysylltiad â defnydd anawdurdodedig o is-gontractwr yn ein cadwyn gyflenwi. Unwaith ein bod yn ymwybodol o’r mater hwn cymerwyd camau ar unwaith i reoleiddio’r sefyllfa gyda’n prif gontractwr. Bydd y fframwaith rheoli cyflenwyr y cyfeirir ato uchod yn ein helpu i fynd i’r afael ag unrhyw broblemau tebyg sy’n codi yn y dyfodol.

GWRTH-LWGRWOBRWYAETH, LLYGREDD A GWRTH-DWYLL

Mae polisi’r Grŵp yn nodi’n glir na fyddwn yn goddef unrhyw achosion o dwyll, anonestrwydd, llwgrwobrwyath, llygredd, dwyn na datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol. Mae’r Grŵp yn trin y materion hyn yn ddifrifol iawn ac mae’n disgwyl i bob achos gael ei adrodd ar unwaith. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan ein polisi llym ar letygarwch a rhoddion gan gyflenwyr a gaiff ei fonitro a’i orfodi’n rheolaidd. Mae’r Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiad blynyddol o’n systemau rheolaeth fewnol fel rhan o’n hymdrechion parhaus i atal llwgrwobrwyath a llygredd yn ein busnes a’n cadwyn gyflenwi.

CRONFA GYMUNEDOL DŴR CYMRU

Yn ystod 2018-19, rydym wedi parhau i roi grantiau o Gronfa Gymunedol Dŵr Cymru, sy'n rhoi cyfle i ni roi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau lle rydym yn gwneud buddsoddiad. Mae'r Gronfa Gymunedol yn gyfle i gymunedau roi hwb i'w hymdrechion i godi arian at achosion da yn eu hardal. Wrth wneud rhoddion o'r gronfa

hon, mae pwyllgor y Gronfa Gymunedol yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle mae Dŵr Cymru wedi bod yn gwneud gwaith a all fod wedi effeithio ar y gymuned leol. Am enghreifftiau o grantiau a roddwyd eleni, gweler tudalen 24. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

GWIRTHDARO BUDDIANNAU

Rydym yn disgwyl i’n cyflogeion gyflawni eu dyletswyddau yn onest ac osgoi gwrthdaro rhwng unrhyw fuddiannau personol, ariannol neu fasnachol a’u cyfrifoldebau i Dŵr Cymru.

CYDYMFFURFIO Â CHYFRAITH GYSTADLEUAETH

Mae Dŵr Cymru yn gwbl gefnogol i gystadleuaeth agored a theg ac yn ymrwymedig i llynu’n gaeth wrth yr holl gyfreithiau cystadleuaeth. Mae ein Cod Cydymffurfio â Chyfraith Gystadleuaeth wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan

> [DARLLENWCH FWY AR-LEIN YN: DWRCYMRU.COM/COMPANYSTATEMENTS](#)

POLISI TALU CYFLENWYR

Mae ein hadolygiad o’n perfformiad o ran talu credydwy yn cadarnhau bod Dŵr Cymru ymhlith y cwmnïau gorau i dalu ei gyflenwyr yn brydlon – gyda 90% o gyflenwyr yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb. Ym mis Mai 2019 gwnaethom ymrwymo i God Talu’n Brydlon Llywodraeth y DU ac rydym wedi rhagori ar ei ofyniad i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 60 diwrnod.

CEFNOGI EIN CWSMERIAID A’N CYMUNEDAU

Gweler tudalen 24 o’r Adroddiad Strategol (“Sut Rydym yn Gweithio Gyda Chi”) sy’n rhoi manylion am y cymorth ehangach a roddwn i gymunedau yn ein hardal gyflenwi.

MYNEDIAD A HAMDDEN

Ni yw gwarcheidwad tua 40,000 hectar (99,000 erw) o dir sy’n gyfoethog o ran golygfeydd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig cyfleoedd hamdden ardderchog i’r cyhoedd ac mae mwy na 500,000 o bobl bob blwyddyn yn ymweld

og un o’n 17 o brif gronfeydd dŵr lle y darparwn amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon a hamdden. Rydym hefyd wedi sefydlu Canolfannau Ymwelwyr a Gweithgareddau yn ein safleoedd yn Llandegfedd (Gwent), Brenig (Sir Ddinbych), Llys y Frân (Sir Benfro) a Chwm Elan (Powys). Rydym wrthi’n ailddatblygu’r safle yn Llys y Frân gyda chymorth Croeso Cymru ac arian Ewropeaidd.

Gwnaethom hefyd brynu cronfeydd dŵr yn Llys-faen a Llanisien ar ddiwedd 2016 ac rydym wrthi’n datblygu Canolfan Ymwelwyr ar y safle hwn yng ngogledd Caerdydd a fydd yn rhan o “goridor gwyrdd” drwy’r ddinas ac a fydd hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau hamdden.

Rydym yn cynnig targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer yr ymwelwyr i tua 830,000 i’n holl ganolfannau hamdden erbyn 2025.

BIOAMRYWIAETH

O fis Rhagfyr 2019, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, byddwn yn cyflwyno adroddiadau bob dair blynedd ar gydymffurfiaeth â’n dyletswydd i atgyfnerthu bioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein hardal gyflenwi. Dŵr Cymru oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi adroddiad ar Fioamrywiaeth ym mis Rhagfyr 2018.

LLWYBRAU GYRFA

Fel cam dilynol o’n ffocws ar wella amrywiaeth ein gweithlu ac ennyn diddordeb plant mewn dŵr a phwysigrwydd y gwasanaeth o ddarparu, rydym yn cynnig amrywiaeth o lwybrau datblygu gwahanol i’r rhai sy’n dewis ymuno â’n busnes. Mae’r rhestr isod yn nodi rhai o’r llwybrau datblygu gwahanol a gynigiwn:

GRADDEDIGION

- Datblygu Arweinyddiaeth
- Awtomeiddio, Telemetreg a Pheirianeg Reoli

PRENTISIAETHAU UCHEL

- Rhaglennu Cyfrifiadurol
- Seiberddiogelwch
- Dadansoddeg Data

PRENTISIAETHAU

- Arolygydd Dosbarthu dan Brentisiaeth
- Gosodwr Mecanyddol dan Brentisiaeth
- Trydanwr dan Brentisiaeth
- Technegydd Offeryniaeth, Rheoli Prosesau ac Awtomeiddio dan Brentisiaeth Uwch
- Gweithredwr Carthffosiaeth dan Hyfforddiant
- Technegydd Cynhyrchu dan Hyfforddiant
- Cynghorydd Gwasanaeth Cwsmeriaid dan Brentisiaeth
- Gweinyddwr dan Brentisiaeth

INTERNIAETHAU

Lleoliadau i israddedigion yw ein hinterniaethau, sy’n cynnig profiad gwaith wedi’i fonitro’n ofalus:

- Rhaglen Interniaethau’r Haf:** sef lleoliadau 12 wythnos
- Interniaethau 12 mis:** Mae’r rhain fel arfer yn dechrau ym mis Medi ac yn gorffen ym mis Awst y flwyddyn ganlynol

RHWYDWAITH 75

Rhaglen sy’n cynnwys cyfnod astudio i israddedigion a dysgu yn y gwaith yw Rhwydwaith 75. Mae’r rhaglen yn uno â hyd cyfnod astudio rhan amser ar gyfer gradd benodol.

ADDYSG

Yn 2018-19, rydym yn dathlu carreg filltir fawr o ran ein gwasanaeth addysg yn ein pedair Canolfan Ddarganfod yng Nghwm Elan ger Rhaeadr Gwy, Cilfynydd ger Pontypridd, Rhostir Cog ger Dinas Powys a Brenig ym Mynydd Hiraethog. Ers 2001, pan gafodd Dŵr Cymru ei gaffael gan Glas Cymru, rydym wedi ymgysylltu â 500,000 o fyfyrwyr sydd wedi cael sesiwn addysgol. Mae'r sesiynau hyn wedi cael eu cyflwyno yn un o'n Canolfannau Darganfod neu drwy ein rhaglen allgymorth o sesiynau addysgol mewn ysgolion, a arweinir gan ein tim o athrawon sy'n cael eu secondio am gyfnodau o 12 mis. Rydym yn bwriadu nodi'r garreg filltir hon mewn derbyniad arbennig yn adeilad y Senedd, Bae Caerdydd ym mis Gorffennaf 2019.

Mae ein darpariaeth addysg ysgolion uwchradd yn cynnwys

cefnogi Cynllun Addysg Beiranneg Cymru (EESW) a STEM Cymru, a threfnu mentoriaid i fyfyrwyr Blwyddyn 8 mewn ysgolion ger ein safleoedd. Rydym hefyd yn darparu adnoddau addysg ar-lein dwyieithog cynhwysfawr i gefnogi athrawon.

Un o nodau allweddol ein gwasanaeth addysg yw sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn deall y rhan y maent yn ei chwarae i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth. Mae ein sesiynau yn cynnig pob math o hwyl, gweithgareddau ymarferol a rhaglenni i blant a theuluoedd. Mae ein hathrawon yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion cynradd ac uwchradd i gyflwyno gweithdai ar effeithlonrwydd dŵr (Love Dŵr) a llygredd (Stop Cyn Creu Bloc). Eleni, mae mwy na 68,000 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn ein rhaglen addysg.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

ARLOESEDD

Mae ein portffolio arloesi yn parhau i dyfu gyda 467 o syniadau a chynigion bellach wedi’u hasesu drwy ein proses iLab ers pan ddechreuwyd y broses ym mis Ebrill 2015. Rydym wedi cwblhau tua 92 o brosiectau, a enillodd wyth gwobr am arloesedd, ac wedi gweithio gyda 123 o sefydliadau partner gan fuddsoddi tua £4.6m yn y prosiectau hyn yn 2018/19. Mae’r gwaith hwn yn parhau i hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd, lleihau ein hól troed amgylcheddol, a gwella ein prosesau iechyd a diogelwch. Yn ogystal â buddsoddi mewn hyrwyddo newid arloesol,

parhawn i weithio’n agos gyda’n Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol (sy’n cynnwys rheoleiddwyr, academyddion a rhanddeiliaid amgylcheddol) sy’n rhoi cyngor i’r busnes ar yr holl waith gwyddoniaeth ac ymchwil a wneir gennym. Mae’r Panel yn parhau i’n helpu i fanteisio ar yr arbenigedd a’r adnoddau sydd ar gael mewn cyrff o’r fath a meithrin ein cydberthnasau â hwy, er mwyn denu cyllid ac arbenigedd i’w defnyddio yn ein gwaith gwyddoniaeth ac ymchwil yn enwedig.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i lywio elfennau o’r agenda ymchwil

genedlaethol drwy ein cydberthynas strategol â’r Cyngor Ymchwil Amgylcheddol Naturiol (NERC) ac UKRI yn fwy cyffredinol, a thrwy gymryd rhan mewn mentrau ymchwil o fewn y diwydiant dŵr, yn benodol drwy fod yn aelod o bartneriaeth Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU (UKWIR) sy’n rheoli ac yn cydgyssylltu buddiannau ymchwil cyffredin cwmnïau dŵr yn y DU.

Rydym yn annog llif o atebion arloesol drwy gydol y flwyddyn, ac yn dangos enghreifftiau o arloesi yn ein Cynhadledd Arloesedd flynyddol (gweler tudalen 13) lle y lansiwyd ein Strategaeth Arloesedd ar gyfer AMP7.

DEFNYDD O YNNI AC ALLYRIADAU NWY Tŷ GWYDR

ALLYRIADAU CARBON NET 2018/19 59,845	WEDI’U CYNHYRCHU O YNNI ADNEWYDDADWY 85 GWh
CYFATEB I DUNELLI O CO₂ (tCO₂e) 79% O gymharu â llinell sylfaen 2010/11	ROEDD YNNI ADNEWYDDADWY YN CYFRIF AM 17% o’r trydan a’r nwy a ddefnyddiwyd gennym yn 2018-19

METHODOLEG – SUT RYDYM YN MESUR EIN HÔL TROED CARBON

Ers 2010 rydym wedi lleihau ein hallyriadau carbon 79%. Rydym yn monitro ac yn mesur ein hól troed carbon drwy ddefnyddio adnodd cyfrifyddu carbon diwydiant dŵr y DU, sy’n dilyn Canllawiau Adrodd Amgylcheddol 2013 Llywodraeth y DU a Safon Cyfrifyddu ac Adrodd Corfforaethol y Protocol ar Nwyon Tŷ Gwydr (2015). Mae’r ôl troed carbon cofnodedig yn cynnwys gostyngiadau uniongyrchol, anuniongyrchol a net (a elwir hefyd yn allyriadau cwmipas 1, 2 a 3). Drwy gyfansymio’r tri cwmipas ceir yr allyriadau carbon gweithredol

net (cyfanswm yn seiliedig ar y farchnad). Er mwyn rhoi gwybodaeth gyflawn rhoddor y duedd o ran allyriadau carbon gweithredol gros (cyfanswm sy’n seiliedig ar leoliad) hefyd.

Caiff y cymarebau dwysedd a gyflwynir ar gyfer ein Gwasanaethau Dŵr eu cyfrifo drwy ddefnyddio ansawdd y dŵr sydd wedi cael ei roi yn y cyflenwad (mewnbyn dosbarthu) fel yr enwadur. Caiff y cymarebau dwysedd a gyflwynir ar gyfer ein Gwasanaethau Dŵr Gwastraff eu cyfrifo drwy ddefnyddio maint y garthffosiaeth (llif hyd at driniaeth lawn) fel yr enwadur. Yn y naill achos a’r llall, yr uned a ddefnyddir ar gyfer

yr enwadur yw MegaLitr (ML).

Nodir defnydd ynni Dŵr Cymru bob blwyddyn fel rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Ofwat a chaiff y defnydd o ynni ei gyfrifo yn unol â Chanllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol Ofwat. Mae’r defnydd o ynni a nodwyd yn defnyddio ffigurau sy’n cynnwys yr holl drydan, nwy a thanwyddau eraill a ddefnyddir gan Dŵr Cymru, gan gynnwys tanwyddau trafnidiaeth. Nid yw milltiroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi’u cynnwys yn y ffigurau, gan y tybir eu bod yn rhai de minimis.

Mae ffigurau 2018/19 yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Y NEWID YN YR HINSAWDD – PA GAMAU A GYMERWN

Er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mae Dŵr Cymru yn buddsoddi mewn technolegau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy (gwres a phŵer cyfunol sy'n rhedeg ar fiofethan sy'n dod o laid carthion, chwistrellu biofethan i mewn i'r grid nwy, tyrbinau ynni dŵr, tyrbinau gwynt ar y tir a systemau solar ffotofoltâig) i gyflenwi, erbyn 2020, 25% o'r ynni sydd ei angen arnom i ddarparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Daw'r ~75% sy'n weddill o'n cyflenwr trydan, Ørsted, sy'n darparu ynni 100% adnewyddadwy, wedi'i gefnogi gan REGO (Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy) i Dŵr Cymru. Mae'r REGO yn galluogi cwmni i ddangos ffynonellau a enwyd ar gyfer ei holl drydan a datgan bod y cyflenwadau hyn yn ddi-garbon (h.y. dim effaith net ar allyriadau carbon net y cyflenwadau hyn), yn unol â'r Protocol ar Nwyon Tŷ Gwydr.

Yn ystod AMP6 (y cyfnod 2015 – 2020) mae Dŵr Cymru yn bwriadu buddsoddi £16.3m i leihau'r defnydd o ynni a £28.8m i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir (ynni dŵr, ynni'r haul ac ynni'r gwynt), sef cyfanswm o £45.1m o fuddsoddiad i gyd. Y mesurau pwysicaf o ran lleihau'r defnydd o ynni yw: gosod goleuadau ynni

effeithlon, pympiâu a chwythwyr ynni effeithlon a gweithredu rheolaethau proses awtomataidd. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19, buddsoddodd Dŵr Cymru gyfanswm o ~£1.9m mewn effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy gan leihau mewnforion o'r grid ~3.3 GWh y flwyddyn (3,345 MWh). Gwariwyd tua 50% o'r buddsoddiad ar brosesau ynni'r haul ac ynni dŵr newydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018-19, roedd buddsoddiad o £33.4m wedi cael ei wneud ac roedd 49.2 GWh y flwyddyn wedi cael ei arbed. Rydym wrthi'n buddsoddi £9.7m arall ar hyn o bryd, a fydd yn arbed 14.4 GWh arall y flwyddyn.

TARGEDAU A THUEDIADAU

Hyd at 2017-18 roedd ein hallyriadau carbon gweithredol yn deillio'n bennaf o'n defnydd o ynni o'r grid cenedlaethol. Yn 2017/18 gostyngodd ein hallyriadau carbon gweithredol net yn sylweddol (gostyngiad o 70% i 62.5 ktCO₂) o ganlyniad i newid yn ein contract cyflenwi trydan. Newidiodd hwn ar 1 Ebrill 2017 i Ørsted ac mae'n cynnwys cyflenwad o drydan "wedi'i gefnogi gan REGO".

Yn 2018/19 parhaodd yr ôl troed carbon i ostwng i 60ktCO₂e, a hynny'n bennaf o ganlyniad i ostwng

yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â cholledion trawsyrru a dosbarthu. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i ostyngiad cyffredinol yn ffactor allyriadau grid y DU.

Mae Mesur Gwasanaeth AMP6 Ofwat ar gyfer allyriadau carbon yn mesur "ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd" a gostyngodd hyn i 85 GWh o 98 GWh yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y gostyngiad o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod llai o ynni dŵr wedi cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r cyfnod sych yn ystod yr haf. Caiff y mesur hwn ei ddisodli yn AMP7 gan "ganran hunangynhaliath", sy'n cydnabod yr angen i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir, yn ogystal â lleihau'r defnydd gros o ynni.


Mae defnydd ynni gros Dŵr Cymru yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'r camau trin ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn bodloni meini prawf cydymffurfio cynyddol dynn a newidiadau mewn trwyddedau tynnu dŵr, sy'n cynyddu'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â phwmpio. Ar ben hynny, mae'r digwyddiadau tywydd eithafol diweddar (er enghraifft: y cyfnod sych yn ystod yr haf a storm Callum) hefyd wedi cynyddu faint o ynni a ddefnyddiwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r holl bwysau hyn sydd wedi cynyddu'r defnydd o ynni yn cael eu gwrthbwysu'n llwyr gan y gwelliannau a wnaed o ran defnydd o ynni drwy osod cyfarpar ynni effeithlon (motorau, pympiâu, goleuadau, ac ati).

Er mwyn gwrthdroi'r duedd hon, y prif ffocws dros y pum mlynedd nesaf fydd lleihau faint o ynni a ddefnyddir. Mae rhaglen buddsoddi effeithlonrwydd ynni wedi cael ei datblygu ar gyfer AMP7, a gaiff ei chefnogi gan raglen effeithlonrwydd ymddygiadol sydd â'r nod o leihau'r defnydd gros o drydan 3% erbyn diwedd AMP7 (2025).



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

EIN HÔL TROED CARBON ERS 2010-11



DEFNYDD O YNNI AC ALLYRIADAU NWY Tŷ GWYDR O FLWYDDYN I FLWYDDYN

Uned		2016/17	2017/18	2018/19
Gwasanaethau Dŵr				
Dwysedd Ynni	kWh/ML	780	794	823
Dwysedd Carbon	kgCO ₂ e/ML	263	7	13
Gwasanaethau Dŵr Gwastraff				
Dwysedd Ynni	kWh/ML	577	551	587
Dwysedd Carbon	kgCO ₂ e/ML	242	89	83
Cyfanswm Dŵr Cymru				
Defnydd o ynni	MWh y flwyddyn	524,511	543,901	566,064
Ôl Troed Carbon	tCO ₂ e	212,374	62,544	59,845

DIOGELU DATA A GWYBODAETH

Rydym wedi cyfuno ein rhaglen cydymffurfiaeth ac ymwybyddiaeth i'r Grŵp cyfan yn ystod y flwyddyn yn sgil Deddf Diogelu Data 2018 (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Mae'r Swyddog Diogelu Data a'i chyfreithiwr cynorthwyl yn parhau i godi ymwybyddiaeth ym mhob rhan o'r Grŵp o'r ffaith bod y data personol a ddelir gennym yn eiddo i gwsmeriaid neu gydweithwyr unigol, gan

dynnu sylw at bwysigrwydd diogelu preifatrwydd yr unigolyn mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddelir gennym. Rydym wedi sefydlu prif egwyddorion sy'n llywodraethu'r broses o gasglu, defnyddio a thrafod gwybodaeth bersonol ac sy'n rhoi hawliau pwysig i unigolion. Mae ein Datganiad Preifatrwydd ar gael ar ein gwefan: dwrcymru.com/companystatements

Mae ein polisïau hefyd yn atgyfnerthu rôl unigolion o ran cadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn gywir. Mae'r Pwyllgor Archwilio

yn adolygu'r ffordd rydym yn ymdrin â risgiau seiberddiogelwch yn rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gadw ein hardystiad Cyber-Essentials Plus ac rydym yn gweithio tuag at sicrhau achrediad IS270001 ar gyfer ein rheolaethau diogelu gwybodaeth.

CYNLLUN IAITH
GYMRAEG

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn croesawu ymdrin â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Gymraeg neu yn Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth o safon effeithiol yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn annog y defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein cydweithwyr ac yn cynnal gwersi Cymraeg i gefnogi'r rhai sydd am ddysgu neu ddatblygu eu rhuglder yn yr iaith.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gynllun a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i baratoi ar gyfer rhoi darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg.

RHODDION
GWLEIDYDDOL

Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i wariant gwleidyddol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd taliad i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (£45,000) i ariannu cynghorydd dyledion i roi cyngor i'n cwsmeriaid yn Rhondda Cynon Taf, a thaliad i Step Change (£18,270) i gefnogi'r gwaith y mae'r elusen yn ei wneud yn rhoi cyngor ar ddyledion i'n cwsmeriaid. Rydym yn datgelu'r taliadau hyn gan fod y ddau sefydliad hefyd yn ymgychu dros newidiadau i bolisiau'r llywodraeth, gan gynnwys materion yn ymwneud â dyledion. Fodd bynnag, ni fyddai'r arian a ddarparwyd wedi cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i

gefnogi gwaith ymgychu. Heblaw am hyn, ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau y mae'n ofynnol eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

WATERAID A'R PRINCE'S
TRUST

Fel sy'n briodol i gwmni sydd â strwythur corfforaethol fel ein strwythur ni, nid ydym yn rhoi nawdd corfforaethol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gefnogi WaterAid a'r Prince's Trust.

UNIGOLION Â
RHEOLAETH
SYLWEDDOL

Cadwn Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Sylweddol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Deddf 2015). Mae'r cwmni wedi nodi endidau cyfreithiol perthnasol y gellir eu cofrestru o fewn strwythur y Grŵp.

DATGANIAD Y
CYFARWYDDWYR

Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon, datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru, yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu perfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon, cafodd y Bwrdd ei gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:

- drafftiiwyd yr Adroddiad Blynnyddol gan uwch-reolwyr a goruchwyliwyd y broses gydgysylltu gyffredinol gan y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni er mwyn sicrhau cysondeb;

- cynhaliwyd adolygiadau o fersiynau drafft gan aelodau o'r Tîm Gweithredol a chynhaliwyd proses wirio a oedd yn cynnwys Archwilwyr y Grŵp;
- adolygwyd y fersiwn ddrafft derfynol gan y Pwyllgor Archwilio cyn iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd, a'i chyflwyno i'r Aelodau.

Mae'r Bwrdd wedi paratoi Adroddiad Strategol sy'n rhoi crynodeb o ddatblygiad a pherfformiad busnes y Grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac sy'n cwmpasu'r datblygiadau sy'n debygol yn y dyfodol. Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Rhif cwmni 09917809) yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gorfforedig yng Nghymru a Lloegr. Mae ein swyddfa gofrestredig yn Heol Pentwyn, Nelson, CF46 6LY.

Mae'r ddogfen Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon hon yn cydgrynhoi gweithgarwch a chanlyniadau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("Glas Cymru") a'i is-gwmnïau.

Nicola Williams

Nicola Williams
Cwnsler Cyffredinol ac
Ysgrifennydd y Cwmni

6 Mehefin 2019

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

O RAN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynnyddol a datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ('IFRS') fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE a chyfraith gymwys.

O dan gyfraith cwmnïau, ni chaniateir i'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni ac o'u helw neu eu colled ar gyfer y flwyddyn honno. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol ac yn ddibynadwy;
- datgan p'un a baratowyd y datganiadau ariannol yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;

- asesu gallu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol;
- defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Grŵp a'r Rhiant-gwmni ac i ddatgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y fath rheolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu osedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi Datganiad Llywodraethu

Corfforaethol fel pe bai angen i'r Cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestro a Chanllawiau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny.

O dan gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith honno a'r rheoliadau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y Cwmni ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Rydym o'r farn bod yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon, yn eu cyfarwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu sefyllfa a pherfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Drwy orchymyn y Bwrdd

Nicola Williams

Nicola Williams
Cwnsler Cyffredinol ac
Ysgrifennydd y Cwmni
6 Mehefin 2019

ARCHWILWYR

KPMG LLP yw Archwilwyr Glas Cymru ar gyfer cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Fel rhan o'r broses archwilio, rydym wedi cadarnhau, hyd y gŵyr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilwyr yn ymwybodol ohoni, a'u bod wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cael unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod Archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cadarnhawn hyd eithaf ein gwybodaeth:

- fod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu cymwys, yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad y Grŵp;
- fod yr Adroddiad Strategol yn cynnwys adolygiad teg o berfformiad y busnes, ei risgiau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol;
- fod y Cyfarwyddwyr o'r farn bod yr Adroddiad Blyneddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, mae'r tîm rheoli yn adolygu perthnasedd a'r costau a'r

buddionau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau, colled neu fethiant. Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol.

Gyda'i gilydd, mae'r prosesau hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.



DŴR CYMRU
ELW I CYMRU

FOR WALES
NOT FOR PROFIT

ADOLYGIAD ARIANNOL A CHANLYNIADAU

MAE'R ADRAN HON YN CYNNWYS
DATGANIADAU ARIANNOL
ARCHWILIEDIG Y GRŴP AM
FLWYDDYN ARIANNOL 2019

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL	122
DATGANIADAU ARIANNOL	130
NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL	135

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

AT AELODAU GLAS CYMRU HOLDINGS CYFYNGEDIG YN UNIG

1. NID YW EIN BARN WEDI NEWID

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys y datganiad incwm cyfunol, y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol, y datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti, y fantolen gyfunol, mantolen y Rhiant-gwmni, datganiad y Rhiant-gwmni o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, y datganiad llif arian parod cyfunol, datganiad llif arian parod y Rhiant-gwmni a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1

YN EIN BARN NI:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2019, ac o golled y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y grŵp wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE);
- mae datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE ac fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006;
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

SAIL Y FARN

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod.

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn cynnig sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Trosolwg

Perthnasedd:	£11.0m (2018: £11.0m)
datganiadau ariannol cyfan y grŵp	0.16% (2018: 0.18%) o Gyfanswm yr Asedau
Cwmpas	100% (2018: 100%) o golled y grŵp (2018: colled) cyn treth
Risgiau o gamddatganiad perthnasol o gymharu â 2018	
Risgiau mynych	Rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp ac asedau nas rhestrir a ddelir gan y cynllun pensiwn
	Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy
	Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf
Risgiau'r Rhiant-gwmni	Buddsoddiad y Rhiant-gwmni

2. MATERION ARCHWILIO ALLWEDDOL: EIN HASESIAD O RISGIAU O GAMDDATGANIAD PERTHNASOL

Materion archwilio allweddol yw'r materion hynny a oedd bwysicaf, yn ein barn broffesiynol ni, wrth archwilio'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys y risgiau o gamddatganiad perthnasol yr aseswyd eu bod bwysicaf (boed o ganlyniad i dwyll ai peidio) a nodwyd gennym, gan gynnwys y rheini a gafodd yr effaith fwyaf ar y canlynol: y strategaeth archwilio gyffredinol; y broses o ddyrannu adnoddau yn ystod yr archwiliad; a chyfeirio ymdrechion y tîm ymgysylltu. Ymdriniwyd â'r materion hyn yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol cyfan, ac wrth lunio ein barn archwilio uchod, roedd y materion archwilio allweddol, wedi'u rhestru yn ôl pwysigrwydd mewn perthynas â'r archwiliad gyda'r pwysicaf gyntaf, fel a ganlyn:

	Y risg	Ein hymateb
Rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp ac asedau nas rhestrir a ddelir gan y cynllun pensiwn <i>Gwerth presennol y rhwymedigaeth (£488.4m; 2018: £474.1m) ac Asedau Nas Rhestrir (£149.0m; 2018 £145.0m):</i> <i>Cyfeiriwch at dudalen 74 (Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio), tudalen 135 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 135 (datgeliadau ariannol).</i>	Amcangyfrif goddrychol Byddai newidiadau bach yn y tybiaethau o'r amcangyfrifon a ddefnyddir i brisio rhwymedigaeth pensiwn y grŵp fel cyfraddau disgowntio, pris chwyddiant, cyfraddau marwoldeb yn cael effaith sylweddol ar ddiffyg pensiwn net y grŵp. Mae asedau anodd eu prisio gwerth uchel ar farchnadoedd nas rhestrir, sy'n creu cymhlethdod wrth asesu'r prisiadau hyn. Effaith y materion hyn yw ein bod wedi penderfynu, fel rhan o'n hasesiad risg, fod cryn ansicrwydd amcangyfrif o ran gwerth rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp ac asedau nas rhestrir a ddelir gan y cynllun pensiwn, gydag ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae'r datganiadau ariannol (nodyn 1) yn datgelu'r sensitifrwydd o amcangyfrifwyd gan y Grŵp.	Roedd ein gweithdrefnau ynghylch y rhwymedigaeth yn cynnwys: Tybiaethau meincnodi: gyda chymorth ein harbenigwyr actiwaraidd ein hunain, gwnaethom herio'r tybiaethau allweddol a gymhwyswyd, sef y gyfradd ddisgowntio, pris chwyddiant a chyfraddau marwoldeb yn erbyn data allanol; Asesu tryloywder: rydym hefyd wedi ystyried digonolrwydd datgeliadau'r grŵp mewn perthynas â sensitifrwydd y diffyg i newidiadau mewn tybiaethau allweddol. Ein gweithdrefnau ynghylch asedau nas rhestrir: Profion manylion: cawsom gadarnhad gan y rheolwyr cronfa arbenigol trydydd parti a chytunwyd ar swm cario'r asedau a ddelir gan y cynllun; Profion manylion: gwnaethom gytuno ar ddatganiadau ariannol cronfa archwiliedig i ariannu adroddiadau prisio ar ddiwedd y flwyddyn ariannu i werthuso cywirdeb hanesyddol prisiadau'r gronfa; Asesu cymwysterau'r prisiwr: gwnaethom asesu cymhwysedd a gwrthrychedd yr arbenigwyr hynny.
Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy <i>Symiau masnach derbyniadwy: (£550.3m; 2018: £556.m)</i> <i>Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy: (£78.7m; 2018: £83.8m)</i> <i>Cyfeiriwch at dudalen 74 (Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio), tudalen 135 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 135 (datgeliadau ariannol).</i>	Amcangyfrif goddrychol Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn faes risg sylweddol o ganlyniad i gymhlethdod y cyfrifiad, ei natur oddrychol, ac oherwydd ei maint a'r ffaith y byddai unrhyw newid yn y ddarpariaeth o ran y fantolen yn effeithio'n uniongyrchol ar elw. Seilir y fethodoleg darpariaeth ar gyfraddau casglu arian parod hanesyddol i lunio model colled ddisgwyliedig. Yn ogystal â hyn, mae rheolwyr yn addasu ar gyfer eitemau sy'n effeithio ar gasgliadau arian parod yn y dyfodol er mwyn amcangyfrif amlygiad i ddrwg-ddyledion yn briodol. Effaith y materion hyn yw ein bod wedi penderfynu, fel rhan o'n hasesiad risg, fod cryn ansicrwydd amcangyfrif o ran adennill symiau masnach derbyniadwy, gydag ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae'r datganiadau ariannol (nodyn 1) yn datgelu'r sensitifrwydd o amcangyfrifwyd gan y Grŵp.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Gweithredu'r fethodoleg: aseswyd a oedd y cyfrifiad yn ymgorffori'r wybodaeth, y risgiau a'r data priodol gan gynnwys casgliadau arian parod hanesyddol ac achosion o ddileu dyled, er mwyn amcangyfrif lefel y ddyled na ellir ei hadennill, yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y grŵp a'r diwydiant; Ein profiad o'r sector: heriwyd tybiaethau'r cyfarwyddwyr ynghylch proffiliau casglu arian parod yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y farchnad, tueddiadau hanesyddol, perfformiad gweithredol, achosion hanesyddol o ddileu dyledion, tueddiadau economaidd a lefelau prisio; Dadansoddi sensitifrwydd: cyflawnwyd dadansoddiad o sensitifrwydd ar y tybiaethau a wnaed, yn enwedig cyfraddau casglu arian parod yn y dyfodol, a chymharwyd yr effaith ar lefel y ddarpariaeth; Asesu tryloywder: aseswyd digonolrwydd datgeliadau'r grŵp ynghylch graddau'r ansicrwydd ynghylch amcangyfrif sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r ddarpariaeth.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

AT AELODAU GLAS CYMRU HOLDINGS CYFYNGEDIG YN UNIG PARHAD

Y risg		Ein hymateb
Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf	Y broses gyfrifyddu Mae'r grŵp yn mynd i lefel uchel o wariant ar PPE ("eiddo, offer a chyfarpar"), gan gynnwys trwsio a chynnal a chadw, a chostau gwellu. Mae angen gallu da i wneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewnol arall, ar seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu, ac y cânt eu cynnwys felly yn y gwerth cario ar gyfer PPE, neu fel arall a ddylid mynd iddynt ar unwaith. Penodir arbenigwyr trydydd parti i helpu'r cyfarwyddwyr i asesu'r gwariant i'w gyfalafu ar asedau seilwaith sy'n fwy dyfarnol eu natur. Mae risg y gellid cyfalafu costau'n amhriodol, yn seiliedig ar y dyfarniadau a wneir gan gyfarwyddiadau mewn perthynas â gwariant seilwaith a gwariant nad yw'n ymwneud â seilwaith.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Dadansoddi'r broses gyfrifyddu: gwnaethom asesu polisi cyfalafu'r Grŵp yn erbyn gofynion y safonau cyfrifyddu; Dylunio rheolaethau: gwnaethom brofi rheolaethau mewn perthynas â sampl o brosiectau cyfalaf os oedd y dosbarthiad o wariant fel cyfalaf yn unol â pholisi ac yn ddarostyngedig i adolygiad ac awdurdodiad gan y lefel briodol o fewn hierarchaeth y busnes; Profiad y sector: ar sail sampl, gwnaethom herio'r penderfyniadau a wnaed gan y grŵp (gwariant ar bethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith) a'r trydydd parti annibynnol a benodwyd gan y grŵp (gwariant ar seilwaith) mewn perthynas â lefel y cyfalafu yn seiliedig ar bolisiau cyfrifyddu'r cwmni, gwybodaeth am y sector a natur sylfaenol y prosiectau; Asesu gallu arbenigol: gwnaethom asesu cymhwysedd arbenigwyr y trydydd parti i ymgymryd â'r rôl hon o asesu gwariant cyfalaf drwy ystyried eu profiad yn y sector gan gyfeirio at brosiectau blaenorol mewn perthynas â'r diwydiant a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd ganddynt.
Prisiad o fuddsoddiad y rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau	Prisiad yn seiliedig ar ragolygon Datgenir y prisiad o fuddsoddiadau'r rhiant-gwmni yn ôl gwerth teg. Cyfrifir y gwerth teg gan ddefnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Roedd y dyfarniadau'n gysylltiedig â'r rhagolygon llif arian parod ar gyfer y dyfodol a defnydd y cwmni o Werth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) gan fod ei werth terfynol yn oddrychol oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â rhagweld a disgowntio llifau arian parod yn y dyfodol. Effaith y materion hyn yw ein bod wedi penderfynu, fel rhan o'n hasesiad risg, fod cryn ansicrwydd amcangyfrif o ran gwerth buddsoddiadau'r rhiant-gwmni, gydag ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, ac o bosibl sawl gwaith y swm hwnnw. Mae'r datganiadau ariannol (nodyn 1) yn datgelu'r sensitifrwydd a amcangyfrifwyd gan y Cwmni.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Gweithredu'r fethdoleg: aseswyd p'un a oedd y cyfrifiad yn cynnwys y mewnbynnau priodol, gan gynnwys rhagolygon rhesymol a thybiaethau am lwyddiant yr is-gwmnïau yn y dyfodol; Cymariaethau hanesyddol: gwnaethom werthuso gallu'r cyfarwyddwyr i lunio rhagolygon drwy gymharu rhagolygon blaenorol â chanlyniadau gwirioneddol; Tybiaethau meincnodi: gwnaethom asesu'r dull prisio yn seiliedig ar brisiou diweddar a dalwyd am gwmnïau tebyg yn y diwydiant, gan ganolbwyntio ar luosrif y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio a gofnodwyd gan OFWAT a ddefnyddiwyd; Ein profiad o'r sector: rydym yn asesu'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn y llif arian parod wedi'i ddisgowntio gan gyfeirio at y WACC a ddefnyddir ar gyfer cwmnïau tebyg.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau yn hytrach na'r croniad incwm a fesurwyd. Fodd bynnag, yn dilyn nifer o flynyddoedd heb i unrhyw broblemau goel eu nodi, nid ydym wedi asesu hyn fel un o'r risgiau pwysicaf o ran ein harchwiliad o'r flwyddyn gyfredol ac, felly, ni chaiff ei nodi ar wahân yn ein hadroddiad eleni.

3. EIN CYMHWYSIAD O BERTHASEDD A THROSOLWNG O GWMPAS EIN HARCHWILIAD

Y perthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y grŵp oedd £11 miliwn, a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm asedau'r grŵp, y mae'n cynrychioli 0.16% ohonynt (2018: 0.18%).

Y perthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y rhiant-gwmni oedd £5.9m (2018: £5.9m) a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm asedau'r rhiant-gwmni, y mae'n cynrychioli 0.15% ohonynt (2018: 0.18%).


Gwnaethom gytuno i roi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd neu nas cywirwyd a nodwyd sy'n fwy na £0.5m, yn ogystal ag unrhyw gamddatganiadau eraill a nodwyd y gellid cyfiawnhau rhoi gwybod amdanynt ar sail ansoddol.

O blith 12 elfen y grŵp (2018: 11), gwnaethom gynnal archwiliadau cwmplas llawn ar gyfer 3 ohonynt (2018: 3) at ddibenion y grŵp. Yr elfennau a oedd o fewn cwmplas ein gwaith a luniodd y canrannau a nodir gyferbyn.

Cymeradwyodd tîm y Grŵp lefelau perthnasedd yr elfennau, a oedd yn amrywio o £5.9m i £10m, gan ystyried cymysgedd maint a phroffil risg y Grŵp ar draws yr elfennau. Gwnaed y gwaith ar yr holl elfennau gan dîm y Grŵp, gan gynnwys archwilio'r rhiant-gwmni.

Cyfanswm yr asedau
£6,799m (2018: £6,281m)


Perthnasedd y Grŵp
£11m (2018: £11m)




Refeniw'r Grŵp



Colled cyn treth y Grŵp



Cyfanswm asedau'r Grŵp



■ Cwmplas llawn at ddibenion archwilio'r grŵp 2018
■ Cwmplas llawn at ddibenion archwilio'r grŵp 2019

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

AT AELODAU GLAS CYMRU HOLDINGS CYFYNGEDIG YN UNIG PARHAD

4. NID OES GENNYM DDIM I'W NODI MEWN PERTHYNAS Â BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad oes bwriad ganddynt i ddiddymu'r Cwmni na'r Grŵp na rhoi'r gorau i'w gweithredu, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Cwmni a'r Grŵp yn golygu bod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol dros ei allu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y busnes gweithredol").

Ein cyfrifoldeb yw dod i gasgliad ar briodoldeb casgliadau'r Cyfarwyddwyr a, phe bai ansicrwydd perthnasol wedi bodoli sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol, cyfeirio at hynny yn yr adroddiad archwilio hwn. Fodd bynnag, gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y'u gwnoethpwyd, nid yw absenoldeb cyfeirio at ansicrwydd perthnasol yn yr adroddiad hwn gan archwilydd yn gwarantu y bydd y Grŵp a'r Cwmni yn parhau i weithredu.

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r Cyfarwyddwyr, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp a'r Cwmni a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni neu eu gallu i barhau i weithredu yn ystod cyfnod y busnes gweithredol. Yn ein barn ni, y risgiau a oedd fwyaf tebygol o effeithio'n andwyol ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni a oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn oedd:

- Gallu'r Grŵp i wneud ad-daliadau ar ei lefelau uchel o ddyledion ac ailariannu os oes angen.

Gan y gallai'r risgiau hyn o bosibl fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Grŵp a'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol, gwnaethom ystyried y sensitifrwydd ynghylch lefel yr adnoddau ariannol a oedd ar gael a awgrymwyd gan ragolygon ariannol y Grŵp gan ystyried yr effeithiau andwyol rhesymol bosibl (ond nid afrealistig) a allai ddeillio o'r risgiau hyn yn unigol ac ar y cyd a gwerthuso i ba raddau y gellid cyflawni'r camau gweithredu y credai'r Cyfarwyddwyr y byddent yn eu cymryd i wella'r sefyllfa pe bai'r risgiau yn codi. Gwnaethom hefyd ystyried effeithiau ail drefn llai rhagweladwy ond realistig, megis effaith Brexit ar y gadwyn gyflenwi gemegol.

Yn seiliedig ar y gwaith hwn, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os oes gennym unrhyw beth perthnasol i'w ychwanegu neu i dynnu eich sylw ato mewn perthynas â datganiad y cyfarwyddwyr yn Nodyn 1 i'r datganiadau ariannol ar y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol heb unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros ddefnydd y Grŵp a'r Cwmni o'r sail honno am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth, ac nid oedd busnes gweithredol yn fater archwilio ariannol yn ein barn ni.

5. NID OES GENNYM DDIM I'W NODI MEWN PERTHYNAS Â'R WYBODAETH ARALL YN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynnyddol yn ogystal â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth a gynhwysir wedi'i chamddatgan neu'n anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall.

ADRODDIAD STRATEGOL AC ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Yn seiliedig ar ein gwaith ar y wybodaeth arall yn unig:

- nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- yn ein barn ni, mae'r adroddiadau hynny wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH Y CYFARWYDDWYR

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ein penodi i archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a ddisgrifir fel un a gafodd ei archwilio, y mae'r Cyfarwyddwyr wedi penderfynu ei baratoi fel pe bai'n ofynnol i'r cwmni gydymffurfio â gofynion Atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (OS 2008 Rhif 410) a wnaed o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Yn ein barn ni, paratowyd y rhan o Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr i'w harchwilio yn briodol yn unol â Ddeddf Cwmnïau 2006, fel petai'r gofynion hynny yn gymwys i'r cwmni.

DATGELIADAU O'R PRIF RISGIAU A HYFYWEDD TYMOR HWY

Yn seiliedig ar y wybodaeth a gawsom yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, nid oes dim perthnasol gennym i'w ychwanegu nac i dynnu sylw ato mewn perthynas â'r canlynol:

- cadarnhad y cyfarwyddwyr yn y datganiad ar hyfywedd hirdymor (tudalen 52) eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, gan gynnwys y rheini a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei solfedd a'i hylifedd;
- y datgeliadau o'r Prif Risgiau yn disgrifio'r risgiau hyn ac yn egluro sut y cânt eu rheoli a'u lliniaru;
- esboniad y cyfarwyddwyr yn y datganiad ar hyfywedd hirdymor o sut y maent wedi asesu rhagolygon y Grŵp, dros ba gyfnod y maent wedi gwneud hynny a pham yr ystyriwyd bod y cyfnod hwnnw yn briodol, a'u datganiad o ran p'un a oes ganddynt ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau fel y byddant yn dod yn ddyledus dros gyfnod eu hasesiad, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau cysylltiedig yn tynnu sylw at unrhyw amodau neu dybiaethau angenrheidiol.

Mae ein gwaith yn gyfyngedig i asesu'r materion hyn yng nghyd-destun y wybodaeth a gaffaelwyd yn unig yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y'u gwnoethpwyd, nid yw absenoldeb adrodd ar y datganiadau hyn yn gwarantu hyfywedd tymor hwy'r Grŵp na'r Cwmni.

DATGELIADAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydym wedi nodi anghysondebau perthnasol rhwng y wybodaeth a gaffaelwyd gennym yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol a datganiad y cyfarwyddwyr, lle maent o'r farn bod yr adroddiad blynyddol o'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn rhoi'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i randdeiliaid asesu safle a pherfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp; neu
- os nad yw'r adran o'r adroddiad blynyddol sy'n disgrifio gwaith y Pwyllgor Archwilio yn mynd i'r afael yn briodol â materion y mae'r Pwyllgor Archwilio wedi rhoi gwybod i ni amdanynt.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr wedi ein penodi i adolygu eu Datganiad Llywodraethu Corfforaethol fel pe bai angen i'r cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestru a Chanllawiau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny. Yn unol â thelerau ein penodiad, mae'n ofynnol i ni adolygu'r rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cwmni â'r 11 darpariaeth yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a nodwyd ar gyfer ein hadolygiad.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

6. NID OES GENNYM DDIM I'W NODI MEWN PERTHYNAS Â'R MATERION ERAILL Y MAE'N OFYNNOL I NI ROI GWYBOD AMDANYNT DRWY EITHRIAD

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y Rhiant-gwmni, neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr a nodir gan y gyfraith; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

AT AELODAU GLAS CYMRU HOLDINGS CYFYNGEDIG YN UNIG PARHAD

7. PRIOD GYFRIFOLDEBAU

CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Fel yr eglurir yn fanylach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 118, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, gan gynnwys bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

CYFRIFOLDEBAU'R ARCHWILWYR

Rydym yn anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, o chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

8. DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO A PHWY RYDYM YN ATEBOL IDDYNT

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006, a thelerau ein penodiad gan y cwmni.

Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r Cwmni o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn adroddiad yr archwilydd, a'r materion pellach y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn unol â'r targedau y cytunwyd arnynt â'r cwmni ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau a luniwyd gennym.

James Ledward

Uwch Archwilydd Statudol dros
ac ar ran KPMG LLP

Cyfrifwyr Siartredig

3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia,
Caerdydd CF10 4AX

6 Mehefin 2019



DATGANIAD INCWM CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

Gweithgoreddau parhaus	Nodyn	2019 £m	2018 £m
Refeniw		781.6	756.7
Costau gweithredu:			
Gwariant gweithredol	3	(336.0)	(319.0)
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	3	(83.9)	(86.0)
Dibrisio ac amorteiddio	3	(293.0)	(276.3)
	3	(712.9)	(681.3)
Elw gweithredu	3	68.7	75.4
Elw ar waredu asedau sefydlog		0.2	1.8
Elw cyn llog		68.9	77.2
Treuliau ariannol:			
Incwm ariannol	4a	5.0	3.9
Treuliau ariannol	4a	(168.6)	(175.9)
Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	4b	(29.2)	80.0
		(192.8)	(92.0)
Colled cyn trethiant		(123.9)	(14.8)
Trethiant	5	20.8	2.6
Colled am y flwyddyn		(103.1)	(12.2)

Mae'r cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm y Rhiant-gwmni. Elw'r Rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 oedd £1.1m (2018: £0.3m).

DATGANIAD CYFUNOL O INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

	Nodyn	2019 £m	2018 £m
Colled am y flwyddyn		(103.1)	(12.2)
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled			
(Colled)/ennill actiwaraid a gydnabwyd yn y cynllun pensiwn	21	(19.9)	12.2
Treth ohriedig gysylltiedig	6	2.6	(2.8)
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	7	132.2	158.1
Treth ohriedig gysylltiedig	6	(22.5)	(26.9)
Cyfanswm yr eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled		92.4	140.6
Cyfanswm y (golled)/incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		(10.7)	128.4

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2019

	Nodyn	2019 £m	2018 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	5,536.7	5,312.1
Asedau anniriaethol	9	175.1	146.3
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	0.9	0.9
Asedau ariannol eraill:			
offerynnau ariannol deilliadol	15	3.8	1.9
		5,716.5	5,461.2
Asedau cyfredol			
Stocrestrau		4.0	3.2
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	573.5	577.7
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	501.1	288.5
Asedau ariannol eraill:			
offerynnau ariannol deilliadol	15	4.6	6.4
		1,083.2	875.8
Cyfanswm yr asedau		6,799.7	6,337.0
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(558.2)	(564.1)
Darpariaethau	17	(4.0)	(2.4)
Rhwymedigaethau ariannol eraill:			
– benthyciadau	14	(195.4)	(41.5)
– offerynnau ariannol deilliadol	15	(27.7)	(29.2)
		(785.3)	(637.2)
Asedau cyfredol net		297.9	238.6
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(264.7)	(233.9)
Buddiannau cyflogeion	21	(96.2)	(80.4)
Darpariaethau	17	(2.6)	(6.5)
Rhwymedigaethau ariannol eraill:			
– benthyciadau	14	(3,570.3)	(3,317.3)
– offerynnau ariannol deilliadol	15	(406.9)	(376.2)
Treth ohiriedig - net	6	(440.1)	(441.2)
		(4,780.8)	(4,455.5)
Cyfanswm y rhwymedigaethau		(5,566.1)	(5,092.7)
Asedau net		1,233.6	1,244.3
Cronfeydd wrth gefn			
Cronfa ailbrisiso wrth gefn	7	1,189.5	1,142.8
Enillion argadwedig		44.1	101.5
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		1,233.6	1,244.3

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 130 i 165 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Mehefin 2019 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

C.A. Jones
Prif Weithredwr

P.J. Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol

DATGANIAD CYFUNOL O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER
Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

	Cronfa ailbrisio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £m
Ar 1 Ebrill 2017	1,069.1	46.8	1,115.9
Colled am y flwyddyn	–	(12.2)	(12.2)
Ennill actiwaraidd llai treth	–	9.4	9.4
Ailbrisio llai treth	131.2	–	131.2
Trosglwyddo i enillion argadwedig	(57.5)	57.5	–
Ar 31 Mawrth 2018	1,142.8	101.5	1,244.3
Colled am y flwyddyn	–	(103.1)	(103.1)
Colled actiwaraidd llai treth	–	(17.3)	(17.3)
Ailbrisio llai treth	109.7	–	109.7
Trosglwyddo i enillion argadwedig	(63.0)	63.0	–
Ar 31 Mawrth 2019	1,189.5	44.1	1,233.6

MANTOLEN Y RHIANT-GWMNI AR 31 MAWRTH 2019

	Nodyn	2019 £m	2018 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	10	3,833.5	3,398.1
Asedau ariannol eraill:			
– benthyccidau i ymgymeriadau'r grŵp		21.6	21.6
		3,855.1	3,419.7
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill		1.3	0.2
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	8.6	8.6
		9.9	8.8
Asedau net		3,865.0	3,428.5
Cronfeydd wrth gefn			
Enillion argadwedig		31.6	30.5
Cronfa ailbrisio wrth gefn		3,833.4	3,398.0
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		3,865.0	3,428.5


DATGANIAD Y RHIANT-GWMNI O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

	Cronfa ailbrisio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £m
Ar 1 Ebrill 2017	3,228.5	30.2	3,258.7
Elw am y flwyddyn	–	0.3	0.3
Ailbrisio	169.5	–	169.5
Ar 31 Mawrth 2018	3,398.0	30.5	3,428.5
Elw am y flwyddyn	–	1.1	1.1
Ailbrisio	435.4	–	435.4
Ar 31 Mawrth 2019	3,833.4	31.6	3,865.0

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 133 i 134 gon Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Mehefin 2019 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



C.A. Jones
Prif Weithredwr



P.J. Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

	Nodyn	2019 £m	2018 £m
Llif arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	18a	361.0	347.5
Llog a dalwyd	18b	(132.7)	(132.9)
Treth incwm a dderbyniwyd		0.5	0.4
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		228.8	215.0
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		4.9	3.8
Caffael is-gwmnïau		-	(0.5)
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		(354.5)	(302.6)
Asedau anniriaethol a brynwyd		(48.5)	(48.5)
Elw o werthu offer a chyfarpar		0.9	2.5
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		19.3	11.4
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(377.9)	(333.9)
Llif arian parod net cyn gweithgareddau cyllido		(149.1)	(118.9)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Ad-dalu benthyciadau		-	(18.2)
Cynnydd mewn benthyciadau		134.2	-
Dyrodidi bondiau		-	300.0
Costau dyrodidi bondiau		-	(3.5)
Benthyciadau hirdymor a dderbyniwyd		250.0	60.0
Ad-daliadau cyfnod benthyciad		(21.6)	(21.6)
Prif daliadau prydlesau cyllidol		(0.9)	(9.8)
Ad-daliadau benthyciadau eraill		-	(0.1)
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido		361.7	306.8
Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo	19b	212.6	187.9
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		288.5	100.6
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	501.1	288.5

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD Y RHIANT-GWMNI AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

	2019 £m	2018 £m
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Llog a dderbyniwyd	-	0.1
Benthyciad hirdymor i is-gwmni	-	(21.6)
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	-	(21.5)
Gostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	-	(21.5)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill	8.6	30.1
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	8.6	8.6

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU, RHEOLI RISGIAU ARIANNOL AC AMCANGYFRIFON CYFRIFYDDU

POLISIÂU CYFRIFYDDU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") yn gwmni preifat sy'n hanu o Gymru ac wedi'i gorffori a'i gofrestru yno. Y rhif cofrestredig yw 09917809 a'r cyfeiriad cofrestredig yw Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.

Nodir y prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Mae'r polisiau hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson at y ddwy flwyddyn a gyflwynwyd.

SAIL Y PARATOI

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig drwy warant a hefyd yn gweithredu fel rhiant-gwmni eithaf Grŵp Glas.

Paratowyd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd gan yr UE (IFRS Mabwysiedig). Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbriso asedau sefydlog, asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol (yn cynnwys offerynnau ariannol deilliadol) ar werth teg drwy elw neu golled.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol penodol. Mae hefyd angen i reolwyr lunio barn wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu'r Grŵp. Datgelir y meysydd sy'n gofyn am arddel mwy o ddoethineb neu sy'n gymhleth iawn, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol, ar dudalen 139.

SAIL Y CYFUNO

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Cwmni a'i is-gwmnïau. Dilëir trafodion ac elw rhwng grwpiau ar adeg cyfuno.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys canlyniadau cyfuniadu

busnes gan ddefnyddio'r dull caffael. Yn y fantolen gyfunol, caiff asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol y sawl sy'n caffael eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerthoedd teg ar y dyddiad caffael. Caiff canlyniadau gweithrediadau a gaffaelwyd eu cynnwys yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol o'r dyddiad y ceir rheolaeth drostynt. Cânt eu dadgyfuno o'r dyddiad y daw'r rheolaeth i ben.

Mae datganiadau ariannol y Cwmni yn cyflwyno gwybodaeth am y Cwmni fel endid ar wahân ac nid am ei Grŵp.

BUSNES GWEITHREDOL

Fel y disgrifir yn yr adran ar reoli risg cyllido, mae'r Grŵp yn bodloni ei ofyniad cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy ei gyfeusterau banc. Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r Grŵp, sy'n ystyried newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran perfformiad masnachau, yn dangos y dylai allu gweithredu o fewn ei gyfeusterau cyfredol. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Felly, mae'r Grŵp yn parhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol.

NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFYDDU A DATGELIADAU

Mae'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol Mabwysiedig canlynol sy'n effeithiol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018 wedi eu cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn.

– IFRS 9 Offerynnau Ariannol

Mae'r safon yn cyflwyno model diwygiedig ar gyfer dosbarthu a mesur offerynnau ariannol, dull gweithredu diwygiedig mewn perthynas â chyfrifyddu ar sail rhagfantoli a model lleihad "colled disgwyliedig". Effaith y safon yw bod angen datgeliadau ychwanegol yn y datganiadau ariannol hyn i ddangos profiad hanesyddol a maint y ffactorau sy'n edrych i'r dyfodol. Er bod model lleihad mewn gwerth "colled

ddisgwyliedig" yn unol â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn hanesyddol gan y Grŵp tuag at ddarparu yn erbyn symiau masnach derbyniadwy, dim ond ar ôl eu bilio y mae colledion mewn perthynas â'r croniad incwm a fesurwyd wedi eu cydnabod.

Mae'r Grŵp wedi defnyddio ei fethodoleg darparu bresennol ar gyfer dyledion a fesurwyd wrth benderfynu ar lefel briodol o golledion y dylid darparu yn ei herbyn yn y croniad incwm a fesurwyd. Effaith y croniad ar 31 Mawrth 2019 yw £3.8m, sef darpariaeth referniw o 5% yn erbyn balans gros o £76.9m. Caiff y ddarpariaeth ei hailasesu am ddigonolrwydd ar ddyddiad pob mantolen, ond nid yw'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld unrhyw amrywiadau perthnasol. Nid oes gofyniad i ailddatgan gwybodaeth gymharol am falansau y mae mabwysiadu IFRS 9 yn y cyfnod pontio wedi effeithio arnynt, na fyddai effaith hynny beth bynnag yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

– IFRS 15 Referniw o Contractau â Chwsmeriaid

Mae'r Safon yn ymdrin â chydabod referniw ac yn pennu egwyddorion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol am natur, swm, amseru a sicrwydd referniw a llifoedd arian parod sy'n deillio o contractau â chwsmeriaid. Caiff referniw ei gydnabod pan fydd cwsmer yn cael rheolaeth dros nwydd neu wasanaeth ac felly, gall gyfeirio'r defnydd a wneir ohono a chael budd o'r nwydd neu'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r safon yn disodli IAS 18 Referniw ac IAS 11 Contractau Adeiladu, a dehongliadau cysylltiedig.

Mae'r Grŵp wedi cynnal asesiad o effaith IFRS 15 ac yn cydnabod bod contractau â chwsmeriaid, yn y mwyafrif o achosion, wedi eu rheoli gan ofynion deddfwriaethol yn hytrach na threfniadau masnachol ar wahân. O ganlyniad, mae arddel barn yn bwysig wrth benderfynu ar

y driniaeth fwyaf priodol o rai ffrydiau incwm. Y brif ystyrieth o ran gweithgareddau'r Grŵp yw pan fydd angen gwahanu nwyddau a gwasanaethau wedi'u bwndelu, a all arwain at ohirio neu gydnabod referniw ar unwaith. Ni fu unrhyw newid yn y modd y cydnabyddwn referniw o'n gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth craidd, sy'n cyfrif am fwy na 95% o gyfanswm ein hincwm, gan fod rhwymedigaeth glir o ran perfformiad a fodlonir dros gyfnod o amser a fesurwyd; fodd bynnag, mae rhai ffrydiau incwm ymylol y mae angen eu hystyried yn fanylach. Mae gan bob cwmni dŵr ddyletswydd gyfreithiol i ganiatáu i drydydd partion nodi cysylltiad awdurdodedig â'u rhwydweithiau a gall nifer o weithgareddau fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn, gan arwain at y trafodion a'r triniaethau cyfrifyddu canlynol o dan IFRS 15:

- *Taliadau cysylltu:* symiau yw'r rhain a dderbynnir gan ddatblygwyr am gysylltu â'r rhwydwaith a gydnabyddwn fel incwm wrth gyflawni'r rhwymedigaeth honno o ran perfformiad.
- *Taliadau ac archebion seilwaith:* cyfraniadau trydydd parti tuag at rwymedigaeth y Grŵp i sicrhau darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol â'r cysylltiad neu'r prif bibellau yn ystod ei oes; rydym yn amcangyfrif bod cysylltiad yn para 80 mlynedd ar gyfartaledd ac yn gohirio rhyddhau taliadau dros y cyfnod hwnnw.
- *Mabwysiadu asedau:* fel arfer caiff carthffosydd eu mabwysiadu heb gost, ond mae derbyn yr ased y tu hwnt i gwmpas IFRS 15 ac felly dylid ei gydnabod ar werth teg (gan ohirio incwm anariannol cysylltiedig).
- *Gwyrriadau:* taliad yn gyfnewid am symud pibell ddŵr neu garthffos i ymdopi â newididau eraill i'r seilwaith. Y rhwymedigaeth o ran perfformiad yw symud y brif bibell, heb greu ased ychwanegol, felly cydnabyddir referniw ar unwaith.

Ni fu unrhyw newid perthnasol i'n triniaeth gyfrifyddu ar gyfer unrhyw un o'r ffrydiau incwm hyn yn dilyn mabwysiadu IFRS 15.

Bydd IFRS 16 Prydlesau, sy'n effeithiol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019, yn diwygio'r driniaeth ar gyfer prydlesau mewn datganiadau ariannol ac yn dileu'r gwahaniaeth cyfrifyddu rhwng prydlesau gweithredu a phrydlesau cyllid i raddau helaeth. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi asesu effaith mabwysiadu IFRS 16 ac yn disgwyl i hynny arwain at gydnabod asedau sefydlog diriaethol ychwanegol gwerth tua £1m, a fydd yn denu tâl dibrisiant yn hytrach na'r driniaeth gyfredol o daliadau prydles fel cost gweithredu.

Ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, roedd y Safonau, y Dehongliadau a'r Diwygiadau canlynol, nas cymhwyswyd yn y datganiadau ariannol hyn, wedi'u cyhoeddi ond nid oeddent eto yn weithredol:

Safonau

- IFRS 17 – Contractau Yswiriant

Dehongliadau

- IFRIC 23 – Ansicrwydd ynghylch Triniaethau Treth Incwm

Diwygiadau

- IAS 1 - Cyflwyno Datganiadau Ariannol
- IAS 8 – Polisiâu Cyfrifyddu, Newidiadau mewn Amcangyfrifon a Gwallau Cyfrifyddu
- IAS 12 – Trethi Incwm
- IAS 19 - Buddiannau i Gyflogaion
- IAS 23 - Costau Benthycu
- IAS 28 - Buddsoddiadau mewn Cwmnïau Cyswllt â Chyd-fentrau
- IFRS 3 - Cyfuniadau Busnes
- IFRS 9 - Offerynnau Ariannol
- IFRS 11 – Trefniadau ar y Cyd

Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld ar hyn o bryd na

fydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Cwmni.

CYDNABOD REFERNIW

Referniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, heb gynnwys treth ar werth. Lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn, cynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn referniw (ceir rhagor o fanylion yn yr adran 'Amcangyfrifon Cyfrifyddu Critigol'). Mae'r referniw a gydnabuwyd yn adlewyrchu gwerth gwasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Lle mae cwsmeriaid wedi gwneud taliadau ymlaen llaw fel ar ddiwedd y flwyddyn, caiff hyn ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

ADRODD SEGMENT

Caiff segmentau gweithredu eu hadrodd mewn modd sy'n gyson â'r adroddiad mewnol a roddir i'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol. Nodwyd mai'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segment gweithredu, yw'r Bwrdd.

BUDDSODDIADAU

Mae buddsoddiadau'r Cwmni yn cynnwys daliadau ecwiti mewn is-gwmnïau a berchnogir yn llawn, fel y nodir yn nodyn 10. Datgenir y rhain ar werth teg, gydag unrhyw ennill neu golled ganlyniadol yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, yn y gronfa ailbrisio wrth gefn.

Mae'r gwerth teg wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio techneg llif arian parod gostyngol, ynghyd ag ystyried trafodion marchnad arsylwadwy, gan gyfeirio at gost gyfartalog cyfalaf y Grŵp wedi ei phwysoli.

EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Grŵp yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o brisiau. Mae'r Grŵp o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu'n well werth sylfaenol yr asedau na

dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tannoddatgan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2019, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i'r 'GCRh cysgodol', (Gwerth Cyfalaf/Ased Rheoleiddio) Dŵr Cymru Cyfyngedig, sef GCRh 31 Mawrth 2019 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR14 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant a gwobrau/cosbau Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl; adolygir oes asedau a gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- a) Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd cronni dŵr a chronfeydd storio dŵr croi wedi ei bwmpio, argaeau, pibellau llaid a gollyngfeydd i'r môr).
- b) Asedau eraill (gan gynnwys eiddo, strwythurau a chyfarpar gweithredol uwchben y dddear, a gosodiadau a ffitiadau).

ASEDAU SEILWAITH

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd dŵr storio a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf.

At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau gyda nodweddion ac oes ased debyg. Mae'r system dŵr gwastraff wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu doearyddol, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Ymdrinnir â gwariant ar asedau seilwaith sy'n ymwneud â chynnydd mewn gallu, gwelliannau neu achosion perthnasol o adnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, a gynhwysir ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu

seilwaith', yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant ar gyfer asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, gwerth gweddilliol amcangyfrifedig o'r oes ddefnyddiol ddisgwyliedig gyfartalog sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 60 i 150 mlynedd.

ASEDAU ERAILL

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 mlynedd
Strwythurau gweithredol	5 – 80 mlynedd
Offer, cyfarpar o chaledwedd gyfrifiadurol	3 – 40 mlynedd

Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu nes eu bod wedi'u comisiynu. Ni ddibrisir tir.

COSTAU BENTHYCA

Costau benthyca cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau cymhwysio yw costau benthyca. Asedau cymhwysio yw asedau sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i baratoi ar gyfer eu defnydd neu werthiant bwriadedig.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Cynhwysir asedau anniriaethol, sy'n cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol, datblygiadau system ac ymchwil a datblygu yn bennaf, ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Cydnabyddir gwariant ar ymchwil fel gwariant yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol (yn unol ag IAS 38).

Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth

cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd rhwng 3 ac 20 mlynedd. Adolygir oes yr asedau hyn yn flynyddol.

ASEDAU AR BRYDLES

Cyllidir rhai asedau gan drefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo, i raddau helaeth, holl risgiau a gwobrau perchenogaeth ased i'r lesddeiliad (prydlesau cyllid). Caiff yr asedau hyn eu cyfalafu a'u cynnwys mewn 'eiddo, offer a chyfarpar' gyda'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r lesydd yn cael ei chynnwys o fewn 'rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau'. Mae taliadau prydlesu yn cynnwys elfen gyfalaf a thâl cyllid; mae'r elfen o gyfalaf yn lleihau'r rhwymedigaeth i'r lesydd a choaiff y tâl cyllido ei gydnabod dros gyfnod y brydles yn seiliedig ar ei gyfradd ymhlwg er mwyn rhoi cyfradd llog gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Ystyrir pob prydles arall yn brydles weithredu. Codir costau rhentu o dan brydlesau gweithredu i'r datganiad incwm ar sail linol dros gyfnod y brydles.

GRANTIAU A CHYFRANIADAU CWSMERIAID

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi'u gwrthbwyso yn erbyn yr asedau hyn.

Caiff grantiau mewn perthynas â gwariant refferni eu credydu i'r datganiad incwm dros yr un cyfnod â'r gwariant cysylltiedig.

CYMELLDALIADAU RHAGLENNI GWARIANT CYFALAF

Mae cytundebau'r Grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys croniad ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y câi cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau

y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar y dechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Yn gyntaf, cânt eu hasesu'n unigol o ran lleihad mewn gwerth, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer lleihad mewn gwerth yn seiliedig ar y golled credyd ddisgwyliedig. Cofnodir symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB IDDO

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Y math yma o fuddsoddiadau, fel arfer, yw'r rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad caffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

COSTAU PENSIWN

1) CYNLLUN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru, a gaeodd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017 ar gyfer pob aelod heblaw am aelodau adran 18 ESPS. Ariennir y cynllun gan gyfraniadau cyflogwyr yn ogystal â chyfraniadau cyflogeion o'r aelodau gweithredol sy'n weddill. Seilir cyfraddau cyfraniadau ar gyngor actiwari sy'n gymwys yn broffesiynol a chynhelir prisiadau actiwaraid o'r cynllun o leiaf bob tair blynedd. Y rhwymedigaeth a gydnabuwyd yn y fantolen mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth presennol

y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn flynyddol gan actiwari annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o safon a gaiff eu mynegi yn yr arian cyfred y caiff y buddiannau eu talu ynddo, ac a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn cysylltiedig yn codi. Mewn gwledydd lle nad oes unrhyw farchnad ddofn yn y cyfryw fondiau, defnyddir cyfraddau'r farchnad ar fondiau'r llywodraeth.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu newid neu eu credydu i ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

Cydnabyddir costau ôl-wasanaeth ar unwaith yn y datganiad incwm.

2) CYNLLUN CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru, y mae pob cyflogai yn gymwys i ymuno ag ef. Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr elw net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwyliedig offerynnau o'r fath ar gyfradd sefydlog ar y swm cario. Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau/gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau masnach taladwy. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o

fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes.

Offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yw cyfradd llog, cyfnewidiadau chwyddiant a rhagfantolion pŵer. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddiben rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y Grŵp. Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, nid oedd yr un o ddeilliadau'r Grŵp yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli (2018: dim). Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

TRETH OHIRIEDIG

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio o sylfaen treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'n deillio o gydnabod ased neu rwymedigaeth i ddechrau mewn trafodyn yn hytrach nag o gyfuno busnes nad oedd, ar adeg y trafodyn, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled drethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau (a chyfreithiau) treth a gyhoeddwyd neu a gyhoeddwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwyilir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei gwredu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Mae treth incwm ohiriedig wedi'i chydnabod mewn perthynas ag enillion a ailfuddsoddwyd ac eithrio lle yr ailfuddsoddwyd mewn rhai asedau gweithredol y mae'r Grŵp yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r grŵp yn rhagweld y caiff yr asedau hyn eu gwaredu maes o law am elw bach, neu elw sy'n llai na'u sylfaen treth, ac felly ni ddisgwyilir i unrhyw enillion taladwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro ar ei gyfer.

DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau ar gyfer costau ailstrwythuro, colledion nas yswirwyd ac anghydfodau bilio eu cydnabod pan fydd gan y Grŵp rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, ac mae'r swm wedi cael ei amcangyfrif yn rhesymol. Mae darpariaethau ailstrwythuro yn cynnwys diswyddo cyflogaion a chostau i ychwanegu at gronfeydd pensiwn. Lle mae'r Grŵp yn derbyn hawliadau nad yw wedi'i yswirio rhagddynt neu lle mae elfen o'r hawliad nad yw yswiriant ar gael ar ei chyfer, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gaiff ei gynnwys yn yr un dosbarth o rwymedigaethau yn fach.

TRETHIANT

Treth gorfforaeth yw'r trethiant presennol yn y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar yr elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn ac fe'i darperir yn ôl symiau y disgwylir iddynt gael eu talu neu eu hadennill gan ddefnyddio cyfraddau a chyfreithiau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd i raddau helaeth ar ddyddiad y fantolen.

AMCANION A PHOLISIÂU RHEOLI RISG CYLLIDO

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisiau ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r polisiau yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth. Caiff polisiau manwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred a risg chwyddiant a risg rheoli hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd o dim ond gyda chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru

Cyfyngedig y gellir eu newid. Caiff y risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol.

Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau cyllidol, cyfleusterau benthyciadau banc a deilliannau.

Y RISG O RAN CREDYD

Mae gan y Grŵp bolisi doeth ar gyfer buddsoddi arian parod ac adneuron banc byrdymor, a nodwyd gan y ddogfennaeth bondiau yn y Cytundeb Telerau Cyffredin. Gellir gosod adneuron gyda'n Banc Cyfrifon am risg dros nos yn unig neu am hyd at flwyddyn gyda gwrthbartion sydd â gradd fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf gan Standard & Poor's, Moody's a Fitch Ratings yn y drefn honno. Dylid gosod adneuron am dros flwyddyn gyda gwrthbartion â sgôr hirdymor o AA-/Aa3/AA- o leiaf.

Yn ymarferol, mae'r Grŵp wedi mabwysiadu dull mwy darbodus o reoli arian parod a gosodir adneuron wedi'u hamseru am uchafswm o 35 diwrnod gyda banciau yn amodol ar feini prawf o sgôr hirdymor o A-/A3/A- o leiaf. Gall bondiau gael eu prynu oddi wrth rai gwrthbartion â sgôr AA gyda dyddiadau aeddfedu o hyd at flwyddyn a dim ond gydag uwchfanciau cenedlaethol sgôr AAA penodol y gellir gosod pryniannau papur masnachol o hyd at flwyddyn. Yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £75m (2018: £73m).

Y RISG O RAN CYFRADDAU LLOG

Mae'r Grŵp yn rhagfantoli o leiaf 85% o'i holl rwymedigaethau ariannol sydd heb eu bodloni, gan gynnwys prydlesau cyllidol, naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae referniw a gwerth asedau rheoliadol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r Grŵp i risg o chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a

chymeradwyaeth y Bwrdd, gallai'r Grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu drwy lunio trafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r Grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ail-gyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthyciadau o £3,715m ar 31 Mawrth 2019 (2018: £3,309m), nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2018: dim). Felly, mae'r Grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd 100% (2018: 100%) o ddyled gros y Grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol ('RPI') ar ôl ystyried cyfnewidiadau mewn cyfraddau llog ac RPI. Mae'r rhagfantolion a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn economaidd o ran natur, ond nid ydynt yn bodloni gofynion er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £426m ar y fantolen ar 31 Mawrth 2019 (2018: £397m) ond, gan dybio bod y cyfnewidiadau wedi eu dal nes eu bod yn aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i ddim yn y pen drawl.

RHAGFANTOLION PRIS PŴER

Mae'r Grŵp yn llunio contractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Mae'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol ac fe'u cynhwysir yn y datganiadau ariannol.

AILGYLLIDO RISG

Caiff y broses o ail-gyllido risg ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthyciadau ar draws amrywiaeth o offerynnau, math a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r Grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfedrwydd yn gosod straen gormodol ar ei allu i ad-dalu benthyciadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm

benthyciadau'r Grŵp o £3,715m (2018: £3,309m) fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

Y RISG O RAN HYLIFEDD

Mae'r Grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio penodol er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliaid bond a chredydwy'r ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r Grŵp sicrhau bod arian parod ar gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis. Ar 31 Mawrth 2019, roedd y Grŵp wedi ymrwymo cyfleusterau benthyca nas hawliwyd o £170m (2018: £420m) ac arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo (ac eithrio cyfrif taliadau gwasanaeth dyledion) o £348m (2018: £282m).

Mae'r cyfleusterau nas hawliwyd o £170m o gyfleusterau credyd cylchdro ar gael tan fis Tachwedd 2020. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10m hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m hefyd (2018: £135m); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfamedau cyllido dyled. Hyd at 2 Ebrill 2019, darparwyd y cyfleuster gan bedwar banc ac roedd yn adnewyddadwy bob blwyddyn. O 3 Ebrill 2019, mae'r cyfleuster wedi ei ddarparu gan ddarparwr yswiriant ac mae'n adnewyddadwy ar sail cyfnod treigl bytholwyrdd o bum mlynedd.

RISG CYFALAF

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol. O ystyried yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r Grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Cyfrifir hon fel dyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfamedau benthyca'r Grŵp) fel cyfran o'i Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a'i chysylltu â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu fel y'i pennwyd gan Ofwat. Ar 31 Mawrth 2019, roedd y gerio rheoleiddiol hwn yn 58% (2018: 57%).

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 16.

AMCANGYFRIFON A DYFARNIADAU CYFRIFYDDU HANFODOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen y defnydd o amcangyfrifon a thybjaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o refeniw a threuliau a nodir yn ystad y cyfnod adrodd. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiadau neu gamau gweithredu hyd y gellir, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

DARPARIAETH AR GYFER LLEIHAD YNG NGWERTH SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Cyfrifir colledion unigol oherwydd lleihad mewn gwerth ar ddyledion cwsmeriaid ar sail asediad unigol o'r llifau arian parod a ddisgwyllir. Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd lleihad mewn gwerth ar symiau derbyniadwy gyda risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Seilir y tebygolrwydd o fethu ag adennill dyled ar golled credyd ddisgwylliedig, a bennir gan brofiad yn y gorffennol a symudiadau disgwylliedig mewn cyfraddau casglu yn y dyfodol, wedi'i addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol. Felly byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau o leihad mewn gwerth. I'r graddau y mae methu ag adennill ôl-ddyledion yn newid 5%, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn cynyddu neu'n gostwng £3.5m (2018: £4.5m).

BUDDIANNAU PENSIWN

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiwaraid, sy'n cynnwys nifer o dybiaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio, chwyddiant prisiau a chyfraddau marwoldeb, a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu

hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn. Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r Grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon, wedi'u mynegi mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Pe bai'r gyfradd ddisgowntio hon yn gostwng neu'n cynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Mawrth 2019 yn cynyddu neu'n lleihau £9.0m (2018: £8.9m).

Os yw asedau'r cynllun yn tangyflawni'n gymharol â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau, bydd hyn yn cynyddu gwerth y diffyg rhagamcanol. Ac eithrio arian parod, mae asedau'n cynnwys cronfeydd buddsoddi cyfun, cronfeydd strategaeth amgen a chronfeydd eiddo nas dyfynnir ar farchnad weithredol. O gyfanswm asedau o £397m (2018: £398m), mae asedau â gwerth teg o £149m (2018: £145m) yn asedau ariannol Lefel 3; ystyrir mai'r rhain yw'r rhai lleiaf hylifol a'r rhai anoddaf i'w prisiau, ac felly cânt eu hamcangyfrif i raddau helaeth. Byddai symudiad o 5% yng ngwerth teg yr asedau ariannol Lefel 3 hyn yn cynyddu neu'n lleihau gwerth cario cyffredinol y rhwymedigaeth pensiwn £7.3m (2018: £7.3m). (Gweler hefyd nodyn 21)

BUDDSODDIAD Y RHIAENT-GWMNI MEWN IS-GWMNIAU

Cofnodir buddsoddiad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn ei is-gwmnïau ar werth teg, gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi ei ddisgowntio gan gyfeirio at refeniw a gwariant rhagamcanol, cost gyfartalog cyfalaf wedi ei phwysoli a gwerth cyfalaf rheoleiddio'r cwmni, y maent i gyd yn oddrychol oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â rhagweld a disgowntio llifau arian parod yn y dyfodol. Byddai newid yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir o 0.1% yn cynyddu neu'n lleihau'r prisiad £118m (2018: £112m) (gweler hefyd nodyn 10).

AMCANGYFRIF GWERTH TEG

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg, caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categoreiddio'n lefelau gwahanol:

Lefel 1: prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union debyg.

Lefel 2: mewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd a gaiff eu cynnwys yn Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (prisiau) neu'n anuniongyrchol (yn deillio o brisiau).

Lefel 3: mewnbynnau ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata canfyddadwy o'r farchnad.

Caiff holl ddeilliadau trysorlys y Grŵp eu categoreiddio fel Lefel 2. Caiff deilliadau masnachu, sy'n ymwneud â rhagfantolion pris pŵer eu categoreiddio fel Lefel 2 lle y derbynnir dull o brisio yn unol â'r farchnad ar gyfer y masnachau hyn. Lle na dderbynnir dull o brisio yn unol â'r farchnad mae'r gwerthoedd teg yn rhai amcangyfrifedig yn hytrach na chanfyddadwy, ac felly cânt eu categoreiddio fel rhai Lefel 3. Ar 31 Mawrth 2019 roedd gwerthoedd teg deilliadau fel a ganlyn:

Lefel 2:
Asedau: deilliadau masnachu £2.5m, deilliadau trysorlys £3.5m (2018: deilliadau masnachu £4.8m, deilliadau trysorlys £3.5m)

Rhwymedigaethau: deilliadau masnachu £0.2 miliwn, deilliadau trysorlys £433.8m (2018: deilliadau masnachu £0.3m, deilliadau trysorlys £405.1m).

Lefel 3:
Asedau: deilliadau masnachu £2.4 miliwn, deilliadau trysorlys £dim (2018: deilliadau masnachu £dim, deilliadau trysorlys £dim).

Rhwymedigaethau: deilliadau masnachu £0.6m, deilliadau trysorlys £dim (2018: deilliadau masnachu £dim, deilliadau trysorlys £dim).

Deilliadau masnachu sy'n ymwneud â rhanfantolion pris pŵer. Mae deilliadau trysorlys yn ymwneud â chontractau cyfnewidiadau cyfradd llog. Cofnodir yr holl ddeilliadau ar y fantolen ar werth teg.

Caiff buddsoddiadau dyled Lefel 2 eu prisio gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau

dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir.

Caiff offerynnau dyled Lefel 3 eu prisio gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir. Caiff offerynnau dyled Lefel 3 eu prisio drwy gymharu prisiau o fasnachau Lefel 3 ar gyfer yr un cyfnodau, gyda'r phrisiadau o fasnachau canfyddadwy yn cael eu chwyddo neu eu dadchwyddo er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw amrywiadau mewn prisiau sefydlog.

CYFALAFU

Mae angen gallu da i wneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewnl arall, ar seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu (y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased, gan ddarparu budd economaidd tebygol ac y gellir eu mesur yn ddibynadwy) ac a gânt eu cynnwys felly wrth brisio eiddo, offer a chyfarpar, neu fel arall a ddylent gael eu gwario ar unwaith.

2. GWYBODAETH SEGMENTOL

Ym marn y Cyfarwyddwyr dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu busnes dŵr a charthffosiaeth (a gweithgareddau masnachol ymylol) yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y Grŵp, dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn.

Er bod y Grŵp yn gweithredu mewn un segment, gellir dadgrynhoi ei weithgareddau i'r prif ffrydiau incwm canlynol:

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Refeniw wedi ei reoleiddio		
Dŵr	320.9	304.8
Carthffosiaeth	399.9	389.4
Manwerthu	52.7	53.1
Cyfanswm y refeniw wedi ei reoleiddio	773.5	747.3
Arall (heb ei reoleiddio)	8.1	9.4
Cyfanswm y refeniw	781.6	756.7

Mae refeniw wedi ei reoleiddio yn ymwneud â darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth a manwerthu cysylltiedig sy'n gweithredu o dan drwydded Dŵr Cymru Cyfyngedig fel rhan o'r Diwydiant Dŵr yng Nghymru a Lloegr, wedi ei reoleiddio gan y Swyddfa Masnachu Dŵr (Ofwat).

Mae refeniw arall (heb ei reoleiddio) yn ymwneud â ffrydiau incwm nad ydynt yn destun proses rheoli prisiau Ofwat; mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu ynni organig yn bennaf a rhai gweithgareddau eraill sy'n ymylol a/neu'n ategol i fusnes dŵr a charthffosiaeth craidd y Grŵp.

3. ELW GWEITHREDU

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r elw gweithredu:

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Gwariant gweithredu		
Pŵer	46.3	42.7
Cemegion	11.2	9.6
Deunyddiau a chyfarpar	6.0	5.5
Cerbydau ac offer	8.2	8.5
Treuliau swyddfa	10.0	9.8
Costau eiddo	3.9	4.0
Yswiriant	4.1	4.1
Contractwyr dŵr a charthffosiaeth	23.8	19.8
Gwasanaethau labordai a dadansoddi	0.9	0.8
Comisiynau casglu	3.4	4.2
Contractau TG	10.0	11.1
Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	48.2	38.9
Costau cyflogeion (nodyn 20)	159.6	150.4
Costau staff wedi'u cyfalafu	(60.3)	(53.8)
Credyd ymchwil a datblygu	(0.5)	(1.4)
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy	21.0	22.1
Ardrethi	24.2	26.9
Taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd	15.4	15.3
Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr	0.6	0.5
Cyfanswm gwariant gweithredol	336.0	319.0
 Gwariant ar adnewyddu seilwaith	 83.9	 86.0
Dibrisio ac amorteiddio		
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	279.1	259.8
Rhyddhau incwm gohiriedig	(5.8)	(5.2)
Amorteiddio asedau anniriaethol	19.7	21.7
Dibrisio ac amorteiddio	293.0	276.3
Cyfanswm y costau gweithredu	712.9	681.3

GWASANAETHAU A DDARPARWYD GAN ARCHWILWYR Y GRŴP

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilwyr statudol:

Grŵp	2019 £000	2018 £000
Ffioedd archwilio		
Archwiliad o'r rhiant-gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	20	20
Archwiliad statudol o is-gwmnïau	150	139
Cyfanswm y ffioedd archwilio	170	159
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		
Adolygiad o ddatganiadau ariannol interim	25	22
Gwasanaethau archwilio rheoliadol yn unol â deddfwriaeth	51	54
Gwaith sicrwydd ar yr adolygiad rheoliadol o brisiau	41	-
Gwaith sicrwydd ar y cynllun taliadau	-	26
Adolygiadau o adroddiadau buddsoddwyr	8	6
Gwaith sicrwydd ar ardoll Asiantaeth yr Amgylchedd	3	3
Gwaith sicrwydd ar ddyroddi bondiau	-	38
Cyfanswm gwasanaethau sicrwydd archwilio a gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	298	308
Gwasanaethau eraill		
Tagio dogfennau Treth iXRBL	7	-
Cyngor ar bensiynau	71	80
Sicrwydd ar weithgareddau masnachol	-	58
Asesiad prosiect Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid	72	-
Cyngor ar wasanaethau cyfreithiol gan gynnwys gwasanaethau dadansoddi'r gyflogres, cydnabyddioeth a data mewn perthynas ag adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiaw ac archwiliad cyflogau cyfartal gwirfoddol	-	65
Cyfanswm gwasanaethau eraill	150	203
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarperir gan archwilwyr y Grŵp	448	511

Mae gwasanaethau archwilio rheoleiddio yn cynnwys gwaith archwilio mewn perthynas â gofynion rheoleiddio: yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol, tablau Asesu Costau a'r Cynllun Taliadau.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd gan archwilwyr allanol. Ni choiff yr Archwilwyr allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a bydd yr holl waith nad yw'n waith archwilio yn destun ymarfer tendro cystadleuol ymlaen llaw neu'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

4. COSTAU CYLLIDO

A) COST CYLLID CYN (COLLEDION)/ENILLION GWERTH TEG AR OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Incwm cyllid	5.0	3.9
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(94.5)	(86.7)
Mynegeoio ar fondiau mynegrifol	(39.1)	(45.7)
Mynegeoio ar fenthyciad mynegrifol	(6.5)	(9.6)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau cyllid (yn cynnwys cyfnewidiadau i RPI)	(17.6)	(20.8)
Llog benthychiadau eraill	(19.1)	(20.0)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(5.7)	(7.0)
Llog net a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(2.0)	(2.5)
Cyfalafu costau benthyca o dan IAS 23 (2019: 5.1%; 2018: 6.1%)	15.9	16.4
Treuliau ariannol	(168.6)	(175.9)
Cost cyllid net cyn addasiadau gwerth teg	(163.6)	(172.0)

B) (COLLEDION)/ENILLION GWERTH TEG AR OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfradd llog a chyfnewidiadau mynegrifol y Grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu elw net wedi eu datgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os y'u delir nes iddynt aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 15 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddelir ar y fantolen).

Grŵp	2019 £m	2018 £m
(Colledion)/enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	(1.3)	3.6
(Colledion)/enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	(27.4)	71.2
(Colledion)/enillion gwerth teg ar ddeilliadau masnachu	(0.5)	5.2
(Colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	(29.2)	80.0

Achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan amrywiadau mewn cyfraddau llog hirdymor, ac achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau mynegrifol gan amrywiadau yng ngwerth giliau mynegrifol.

5. TRETHIANT

Dadansoddiad o'r credyd yn ystod y flwyddyn

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Treth gyfredol		
Treth gyfredol ar golledion am y flwyddyn	0.3	0.4
Treth gyfredol ar gredyd ymchwil a datblygu	(0.1)	(0.3)
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	(0.4)	0.9
Cyfanswm y dreth gyfredol	(0.2)	1.0
Treth ohiriedig		
Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	20.4	2.3
Addasiad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol	0.6	(0.7)
Cyfanswm y dreth ohiriedig (nodyn 6)	21.0	1.6
Trethiant	20.8	2.6

Mae'r credyd treth cyfredol o £0.3m (2018: £0.4m) wedi codi wrth ildio colledion treth yn ymwneud â gwariant cyfalaf ynni-ffeithlon.

Mae gwariant gweithredu yn cynnwys credyd treth o £0.5m (2018: £1.4m) yn ymwneud â gwariant ymchwil a datblygu. Mae'r credyd treth yn drethadwy a nodir y tâl cyfatebol o £0.1m (2018: £0.3m) uchod.

Mae'r colledion masnachu treth a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2019 tua £dim (2018: tua £dim) o ganlyniad i beidio â hawlio lwfansau cyfalaf.

Mae addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol yn ymwneud â diwygiadau i falansau treth ohiriedig mewn perthynas â gwariant cyfalaf, ac addasiadau i gredydau treth ar gyfer gwariant cyfalaf ynni-ffeithlon a gwaith i adfer tir halogedig.

O ganlyniad, deddfwyd Deddf Cyllid 2016 ar 19 Medi 2016, a ddarparodd ar gyfer gostyngiadau ym mhreif gyfradd treth gorfforaeth y DU o 20% i 19% yn weithredol o 1 Ebrill 2017 ac i 17% yn weithredol o 1 Ebrill 2020.

Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2018: yn is) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU sef 19% (2018: 19%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Colled cyn treth	(123.9)	(14.8)
Colled cyn treth wedi'i lluosio â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 19% (2018: 19%)	23.5	2.8
Effaith:		
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.2	0.1
Gwahaniaethau parhaol eraill	(1.4)	(1.0)
Effaith taliadau pensiwn sy'n fwy na thâl gwasanaeth	0.8	0.7
Gwahaniaeth yng nghyfradd safonol treth gorfforaeth (19%) a'r gyfradd a ddefnyddir ar gyfer treth ohiriedig (17%)	(2.3)	-
Trethiant	20.8	2.6

6. TRETH OHIRIEDIG

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfradd dreth o 17% (2018: 17%).

Mae'r symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig fel y'i dangosir isod:

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Ar 1 Ebrill	441.2	413.2
Credyd i'r Datganiad Incwm	(21.0)	(1.6)
(Credyd)/tâl a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	(2.6)	2.8
Tâl a godwyd ar y gronfa ailbrisio wrth gefn	22.5	26.9
Ar 31 Mawrth	440.1	441.2

Dadansoddiad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn:

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Cynlluniau pensiwn budd-daliadau diffiniedig	(3.4)	2.1
Ailddyrannu treth o'r datganiad incwm – taliadau pensiwn sy'n fwy na'r tâl gwasanaeth	0.8	0.7
Tâl a godwyd/(a gredydwyd) ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	(2.6)	2.8
Ailbrisio asedau sefydlog	22.5	26.9
Codwyd ar y gronfa ailbrisio wrth gefn	22.5	26.9

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Effaith:		
Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	277.4	281.0
Treth ohiriedig wrth ailbrisio asedau sefydlog	243.7	234.1
Enillion cyfalaf a ailfuddsoddiwyd	2.7	2.7
Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(2.0)	(1.4)
Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(64.8)	(60.7)
Pensiynau	(15.5)	(12.9)
Gwahaniaethau treth eraill	(1.4)	(1.6)
Treth ohiriedig	440.1	441.2

Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n arwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. O dan y drefn dreth bresennol, bydd colledion treth masnachu a gariwyd ymlaen ar gael i wrthbwysu enillion masnachu mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Nid oes gan y cwmni unrhyw falans treth ohiriedig (2018: dim).

7. CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Cwmni yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o brisiau. Mae'r Cwmni o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu'n well werth sylfaenol yr asedau na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tannatgagan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2019, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' y Cwmni, sef GCRh 31 Mawrth 2019 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR14 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant a gwobrau/cosbau Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff llinellau asedau a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu bob blwyddyn.

Symudiad cronfa ailbrisio wrth gefn	2019 £m	2018 £m
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 1 Ebrill	1,142.8	1,069.1
Ailbrisio asedau i GCRh	132.2	158.1
Tâl dibrisio ar asedau a ail-brisiwyd	(75.9)	(69.3)
	56.3	88.8
Treth ohiriedig wrth ailbrisio	(22.5)	(26.9)
Treth ohiriedig ar y tâl dibrisio	12.9	11.8
	(9.6)	(15.1)
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 31 Mawrth	1,189.5	1,142.8

8. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Grŵp – 2019	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2018	41.7	2,362.3	4,105.5	263.2	6,772.7
Ailbrisio	–	4.1	–	–	4.1
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	–	124.6	238.6	9.0	372.2
Gwaredu	–	–	(3.6)	–	(3.6)
Ar 31 Mawrth 2019	41.7	2,491.0	4,340.5	272.2	7,145.4
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2018	21.3	–	1,177.7	261.6	1,460.6
Ailbrisio	–	(54.0)	(74.1)	–	(128.1)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.8	54.0	217.1	7.2	279.1
Rhyddhawyd wrth waredu	–	–	(2.9)	–	(2.9)
Ar 31 Mawrth 2019	22.1	–	1,317.8	268.8	1,608.7
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2019	19.6	2,491.0	3,022.7	3.4	5,536.7
Ar 31 Mawrth 2019 (sail cost hanesyddol)	19.6	1,815.3	2,265.2	3.4	4,103.5

8. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR PARHAD

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £285.8m mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2018: £278.5m).

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £67.4m o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2018: £55.4m) yr oedd £13.9m ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2018: £14.1m).

Grŵp — 2018	Tir ac odeiladau rhydd- ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2017	41.7	2,236.5	3,866.1	264.1	6,408.4
Ailbrisió	–	21.5	–	–	21.5
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	–	104.3	239.4	5.7	349.4
Gwaredu	–	–	–	(6.6)	(6.6)
Ar 31 Mawrth 2018	41.7	2,362.3	4,105.5	263.2	6,772.7
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2017	20.6	–	1,059.2	263.4	1,343.2
Ailbrisió	–	(48.6)	(88.0)	–	(136.6)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.7	48.6	206.5	4.1	259.9
Rhyddhawyd wrth waredu	–	–	–	(5.9)	(5.9)
Ar 31 Mawrth 2018	21.3	–	1,177.7	261.6	1,460.6
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2018	20.4	2,362.3	2,927.8	1.6	5,312.1
Ar 31 Mawrth 2018 (sail cost hanesyddol)	20.4	1,730.8	2,182.3	1.6	3,935.1

ASEDAU A DDELIR O DAN BRYDLESAU CYLLID

Mae asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel y'u dadansoddir isod:

Grŵp — 2019	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2018			
Prisiad	662.9	117.7	780.6
Dibrisiant cronedig	–	(81.7)	(81.7)
Gwerth llyfr net	662.9	36.0	698.9

Grŵp — 2018	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2018			
Prisiad	669.9	117.7	787.6
Dibrisiant cronedig	–	(77.7)	(77.7)
Gwerth llyfr net	669.9	40.0	709.9

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar.

9. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Grŵp — 2019	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2018	323.3	(177.0)	146.3
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	48.5	(19.7)	28.8
Ar 31 Mawrth 2019	371.8	(196.7)	175.1

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig yn bennaf.

Grŵp — 2018	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2017	274.8	(155.3)	119.5
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	48.5	(21.7)	26.8
Ar 31 Mawrth 2018	323.3	(177.0)	146.3

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £24.3m mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2018: £36.7m). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £7.1m o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2018: £5.6m), yr oedd £2.0m ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2018: £2.3m).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol.

10. GRŴP BUDDSODDIADAU

Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Water Research Centre (1989) plc	Ymchwil dŵr	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin "B" o £1

RHIAANT-GWMNI

Mae gan y rhiant-gwmni fuddsoddiad o £1 yn Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig (daliad 100%) a buddsoddiad o £100,000 yn Welsh Water Holdings Limited (100%). Mae ganddo hefyd fuddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol:

	Prif weithgareddau	Preswylfa dreth	Gwlad corffori	Daliad
Glas Cymru Cyfyngedig	Cwmni daliannol,	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Financing) Limited	Codi cyllid	Yn preswyllo yn y DU	Ynysoedd Cayman	100%
Dŵr Cymru (Financing) UK Plc (corfforedig 16 Ebrill 2019)	Codi cyllid	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Cambrian Utilities Limited	Gwasanaethau manwerthu yn y farchnad gystadleuol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Infrastructure Limited	Gweithgarwch busnes cystadleuol yn y sector dŵr a sectorau cysylltiedig eraill yn y DU	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Energy Limited	Prosesu, trin ac ailgylchu gwastraff bwyd	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited	Gweithredu a chynnal a chadw cyfleuster gwastraff bwyd sy'n defnyddio dulliau treulio anerobig	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Waste Limited (corfforedig 17 Gorffennaf 2018)	Dosbarthu gwastraff hylifol mewn tanceri i'w waredu	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%

10. BUDDSODDIADAU PARHAD

Swyddfa gofrestredig yr holl gwmnïau uchod yw Heol Pentwyn, Nelson, Treharris CF46 6LY.

Mae’r Cwmni wedi ailbrizio ei fuddsoddiadau yn ymgymeriadau’r is-gwmnïau i werth teg; caiff y gwerth cario ei ailbrizio bob blwyddyn ac mae’n destun adolygiad lleihad mewn gwerth.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y grŵp yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 59.

Buddsoddi mewn is-gwmnïau	2019 £m	2018 £m
Ar 1 Ebrill	3,398.1	3,228.6
Ailbrizio	435.4	169.5
Ar 31 Mawrth	3,833.5	3,398.1

Caiff buddsoddiadau’r Rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau eu cydnabod i ddechrau yn ôl cost a chânt eu hailbrizio wedi hynny yn ôl gwerth teg gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi’i ddisgowntio. Mae gwerth teg buddsoddiadau yn cynnwys gwerth teg y cwmni dŵr a charthffosiaeth wedi’i reoleiddio, Dŵr Cymru Cyfyngedig, yn bennaf. Pennwyd gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio yn seiliedig ar gost gyfartalog cyfalaf wedi ei phwysoli a ganiateir y rheoleidiwr o’r gwerth terfynol fydd y gwerth cyfalaf rheoleiddio rhagamcanol.

Rydym wedi pennu cyfradd ddisgowntio o 2.4%, sef y WACC a ddefnyddir gan Ofwat yn ei methodoleg adolygu prisiau ar gyfer y cyfnod 2020 i 2025.

Pennir y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio gan Ofwat bob pum mlynedd ac, mewn gwirionedd, mae’n brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig. Seilir y gwerth terfynol ar amcanestyniad o’r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio sy’n deillio o’r llifau arian parod yn ein rhagolwg ariannol.

Daw’r rhagolygon y mae’r llifau arian parod a’r symudiadau Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio yn seiliedig arnynt o’n Cynllun Ariannol 2019, sydd ei hun yn seiliedig ar ein cynllun busnes PR19 a gyflwynwyd i Ofwat.

Gweler hefyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol yn nodyn 1.

Cydnabyddir symiau ailbrizio o dan incwm cynhwysfawr arall.

11. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Cyfredol		
Symiau masnach derbyniadwy	560.3	556.7
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy	(78.7)	(83.8)
Symiau masnach derbyniadwy - net	481.6	472.9
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	80.6	88.1
Symiau derbyniadwy eraill	11.3	16.7
	573.5	577.7
Anghyfredol		
Symiau derbyniadwy eraill	0.9	0.9
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	574.4	578.6

Ar 31 Mawrth 2019, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod £78.7m (2018: £83.8m) o symiau masnach derbyniadwy wedi lleihau mewn gwerth ac felly darparwyd ar eu cyfer. Mae’r symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi’i fesur a heb ei fesur a gwasanaethau carthffosiaeth. Mae symiau masnach derbyniadwy sy’n fwy na mis oed yn ddyledus; mae’r golofn net yn dangos symiau y tybir nad ydynt wedi lleihau mewn gwerth. Rydym wedi pennu cyfradd ddisgowntio o 2.4%, sef y WACC a ddefnyddir gan Ofwat yn ei methodoleg adolygu prisiau ar gyfer y cyfnod 2020 i 2025. Pennir y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio gan Ofwat bob pum mlynedd ac, mewn gwirionedd, mae’n brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig. Seilir y gwerth terfynol ar amcanestyniad o’r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio sy’n deillio o’r llifau arian parod yn ein rhagolwg ariannol. Daw’r rhagolygon y mae’r llifau arian parod a’r symudiadau Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio yn seiliedig arnynt o’n Cynllun Ariannol 2019, sydd ei hun yn seiliedig ar ein cynllun busnes PR19 a gyflwynwyd i Ofwat.

11. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

Symiau masnach derbyniadwy 2019	Cyfanswm £m	Darparwyd ar gyfer £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	367.7	–	367.7
O dan fis	27.2	(2.3)	24.9
Rhwng un a chwe mis	36.8	(2.7)	34.1
Rhwng chwe mis a blwyddyn	28.8	(2.6)	26.2
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	44.0	(30.5)	13.5
Rhwng dwy a thair blynedd	32.5	(23.3)	9.2
Dros dair blynedd	23.3	(17.3)	6.0
	560.3	(78.7)	481.6

Symiau masnach derbyniadwy 2018	Cyfanswm £m	Darparwyd ar gyfer £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	369.8	–	369.8
O dan fis	25.8	(2.7)	23.1
Rhwng un a chwe mis	35.5	(3.3)	32.2
Rhwng chwe mis a blwyddyn	26.5	(3.2)	23.3
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	42.5	(30.9)	11.6
Rhwng dwy a thair blynedd	30.5	(23.1)	7.4
Dros dair blynedd	26.1	(20.6)	5.5
	556.7	(83.8)	472.9

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihau gwerth symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2019 £m	2018 £m
Ar 1 Ebrill	83.8	95.8
Tâl a godir ar y datganiad incwm	19.9	20.8
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(25.0)	(32.8)
Ar 31 Mawrth	78.7	83.8

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp wedi dileu £25.0m o ddyledion y darparwyd ar ei gyfer yn llawn (2018: £32.8m).

Mae'r cyfanswm tâl a godir ar y datganiad incwm o £21.0m (2018: £22.1m) yn cynnwys yr elfen drwgddyledion o daliadau casglu o dan drefniadau gyda thrydydd partïon sy'n casglu dyledion ar ran y Grŵp (2019: £1.1m, 2018: £1.3m, 2018).

Yr amlygiad mwyaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodwyd uchod.

Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau wedi cael eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Nid yw'r dosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys asedau y mae eu gwerth wedi lleihau. Mynegwyd pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Mae'r tablau isod yn dangos effaith cymhwyso'r model "colled ddisgwyliedig" yn unol ag IFRS 9. Seilir darparu ar gyfer dyledion ar brofiad hanesyddol fel y'i haddesir ar gyfer rhai ffactorau sy'n edrych i'r dyfodol, gan gynnwys effaith gorchmynion codi tâl sy'n gwella proses sylfaenol casglu dyledion. Mae gan y Grŵp tua 6,000 o orchmynion codi tâl fel sicrwydd cyfochrog yn erbyn £11m o ddyled (2018: 4,100 o orchmynion yn erbyn £9m o ddyled).

11. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

	Cyfraddau diffyg daliad hanesyddol %	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol %	Cyfanswm yr addasiad %	Lleihad mewn gwerth hanesyddol £m	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol £m	Cyfanswm y lleihad mewn gwerth £m
2019						
Wedi'u bilio ymlaen llaw	-	-	-	-	-	-
O dan fis	9.9%	(1.5%)	8.4%	2.7	(0.4)	2.3
Rhwng un a chwe mis	8.8%	(1.5%)	7.3%	3.2	(0.5)	2.7
Rhwng chwe mis a blwyddyn	10.9%	(1.9%)	9.0%	3.1	(0.5)	2.6
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	77.2%	(8.2%)	69.0%	34.0	(3.5)	30.5
Rhwng dwy a thair blynedd	77.8%	(6.1%)	71.7%	25.3	(2.0)	23.3
Dros dair blynedd	80.9%	(6.6%)	74.3%	18.8	(1.5)	17.3
				87.1	(8.4)	78.7

	Cyfraddau diffyg daliad hanesyddol %	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol %	Cyfanswm yr addasiad %	Lleihad mewn gwerth hanesyddol £m	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol £m	Cyfanswm y lleihad mewn gwerth £m
2018						
Wedi'u bilio ymlaen llaw	-	-	-	-	-	-
O dan fis	10.7%	(0.4%)	10.3%	2.8	(0.1)	2.7
Rhwng un a chwe mis	9.5%	(0.3%)	9.2%	3.4	(0.1)	3.3
Rhwng chwe mis a blwyddyn	11.9%	-	11.9%	3.2	-	3.2
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	73.8%	(2.1%)	71.7%	31.8	(0.9)	30.9
Rhwng dwy a thair blynedd	77.3%	(2.3%)	75.0%	23.9	(0.8)	23.1
Dros dair blynedd	81.5%	(3.1%)	78.4%	21.4	(0.8)	20.6
				86.5	(2.7)	83.8

12. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB IDDO

	Grŵp 2019 £m	Grŵp 2018 £m	Cwmni 2019 £m	Cwmni 2018 £m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	155.4	10.0	-	-
Adneuo byrdymor	345.7	278.5	8.6	8.6
	501.1	288.5	8.6	8.6

Y gyfradd llog weithredol ar adneuo byrdymor ar 31 Mawrth 2019 oedd 0.8% (2018: 0.5%) ac mae gan yr adneuo hyn gyfnod aeddfedrwydd cyfartalog o 21 diwrnod (2018: 22 diwrnod). Daliwyd yr holl arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddol mewn sterling.

13. SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL

Grŵp Cyfredol	2019 £m	2018 £m
Symiau masnach taladwy	57.3	45.7
Symiau cyfalaf taladwy	44.6	60.3
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	5.2	3.4
Croniadau ac incwm gohiriedig	451.1	454.7
	558.2	564.1
Grŵp Anghyfredol	2019 £m	2018 £m
Incwm gohiriedig	264.7	233.9

14. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL - BENTHYCIADAU

Grŵp Cyfredol	2019 £m	2018 £m
Cronfeydd a ordynnwyd	139.3	5.1
Croniadau llog	2.1	2.4
Bondiau	0.3	0.3
Benthyciadau cyfnod penodol	29.2	21.7
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	24.5	12.0
	195.4	41.5
Grŵp Anghyfredol	2019 £m	2018 £m
Croniadau llog	48.9	48.8
Bondiau	2,395.1	2,356.1
Benthyciadau cyfnod penodol	715.8	488.5
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	410.5	423.9
	3,570.3	3,317.3

Nid oes gan y Rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau.

Rhoddyd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen fondiau'r Grŵp er budd deiliaid uwch fondiau, prydleswyr cyllid ac uwch-gredydwy ariannol eraill.

Gwarantir rhwymedigaethau DCC gan y cwmni, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith berthnasol arall a'i drwydded;
- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Mae Bondiau Dosbarth A y Grŵp o £1,026m (2018: £1,008m) yn elwa ar warant gan Assured Guaranty (Europe) Ltd. Mae gan Assured Guaranty statws credyd o A2/AA gan Moody's and Standard and Poor's yn y drefn honno, ac nid yw Fitch yn rhoi statws iddo. Felly, mae statws credyd y bondiau Dosbarth A wedi dychwelyd at statws sylfaenol uwch y bondiau hyn, sef A2 Neg/A Neg/A gan Moody's, Standard and Poor's a Fitch yn y drefn honno. Mae'r statws sylfaenol yn adlewyrchu ansawdd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant gan Assured Guaranty, a'r un yw'r statws hwn â statws credyd bondiau Dosbarth B y Grŵp o £1,371m (2018: £1,350m).

15. ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL -AC OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu a chaiff symudiadau yn eu gwerth teg eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 4b).

Gwerthoedd teg Grŵp — 2019	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.5	(17.7)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	–	(9.2)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	1.1	(0.8)
	4.6	(27.7)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	–	(324.9)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	–	(82.0)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	3.8	–
	3.8	(406.9)
Cyfanswm	8.4	(434.6)

Gwerthoedd teg Grŵp — 2018	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.5	(20.2)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	–	(9.0)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	2.9	–
	6.4	(29.2)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	–	(295.0)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	–	(80.9)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	1.9	(0.3)
	1.9	(376.2)
Cyfanswm	8.3	(405.4)

Mae'r Grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodwyd yn IFRS 9; nid oes gan y Grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath. Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig.

15. OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL PARHAD

CYFNEWIDIADAU CYFRADD LLOG

Ar 31 Mawrth 2019, mae'r cyfnewidiad cyfradd llog yn pennu'r gyfradd llog ar £192m (2018: £192m) o rwymedigaethau cyfnewidiol a ddelir gan y grŵp. Dyddiad aeddfedu'r cyfnewidiad yw 31 Mawrth 2031 a'r gyfradd llog sefydlog yw 5.67% y flwyddyn, sy'n daladwy bob chwarter.

CYFNEWIDIADAU MYNEGRIFOL

CYFNEWIDIADAU PRYDLESAU CYLLID

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegri'r gyfradd llog ar £380m (2018: £381m) o rwymedigaethau prydlesau cyllid drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

Swm tybiannol y cyfnewidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau cyllid ar 31 Mawrth 2019 oedd £397m (2018: £399m), gan gynrychioli'r balans cyfartalog ar y prydlesau cyllid yn amodol ar gyfraddau llog cyfnewidiol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019. Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnewidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnewidiol cyfartalog y prydlesau.

Mae prif delerau cyfnewidiadau wedi'u mynegri fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£397m yn amorteiddio (2018: £399m yn amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad cyfartalog	17 mlynedd (2018: 18 mlynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.43% sefydlog ynghyd ag RPI (2018: 1.40% sefydlog ynghyd ag RPI)

CYFNEWIDIAD BOND

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegeo'r gyfradd llog ar £100m o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegiwyd	£144m (2018: £140m)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad	38 mlynedd (2018: 39 mlynedd)
Cyfradd llog	1.35% a fynegiwyd yn ôl RPI (2018: 1.35% a fynegiwyd yn ôl RPI)

16. ARIANNU TREFNIADAU RHEOLI RISG

Mae polisïau'r Grŵp mewn perthynas ag ariannu trefniadau rheoli risg wedi'u cynnwys yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu ar dudalen 135. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

A) Y RISG O RAN CYFRADD LLOG

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2019	2018
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	0.8%	0.5%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	4.1%	4.1%
Benthyciadau cyfnod penodol	1.1%	0.6%
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	4.3%	5.0%
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	0.7%	0.6%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnewidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 15. Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeo sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

16. ARIANNU TREFNIADAU RHEOLI RISG PARHAD

B) Y RISG O RAN HYLIFEDD

Grŵp — 2019	O fewn blwyddyn £m	1 – 2 flynedd £m	2 – 5 flynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	501.1	–	–	–	501.1
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	574.4	–	–	–	574.4
	1,075.5	–	–	–	1,075.5
Rhwymedigaethau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	139.3	–	–	–	139.3
Bondiau	0.7	325.7	2.2	2,073.7	2,402.3
Benthyciadau cyfnod penodol	29.1	48.4	161.4	505.7	744.6
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.1	0.1	0.1	0.1	0.4
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	24.5	15.1	18.6	376.8	435.0
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	558.2	5.9	17.7	241.1	822.9
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	119.9	119.8	285.2	735.1	1,260.0
	871.8	515.0	485.2	3,932.5	5,804.5

Grŵp — 2018	O fewn blwyddyn £m	1 – 2 flynedd £m	2 – 5 flynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	288.5	–	–	–	288.5
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	577.7	–	–	–	577.7
	866.2	–	–	–	866.2
Rhwymedigaethau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	5.1	–	–	–	5.1
Bondiau	0.7	0.7	327.1	2,035.4	2,363.9
Benthyciadau cyfnod penodol	21.6	29.1	155.0	304.0	509.7
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.1	0.1	0.3	–	0.5
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	12.0	13.5	32.8	377.6	435.9
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	564.1	5.2	15.6	213.1	798.0
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	121.0	124.1	368.2	1,042.4	1,655.7
	724.6	172.7	899.0	3,972.5	5,768.8

16. ARIANNU TREFNIADAU RHEOLI RISG PARHAD

Mae'r taliadau prydlesau gofynnol o dan brydlesau cyllid yn ddyledus fel a ganlyn:

	2019 £m	2018 £m
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid gros		
O fewn blwyddyn	32.8	15.9
Rhwng dwy a phum mlynedd	69.3	82.1
Ar ôl pum mlynedd	429.3	438.3
	531.4	536.3
Llog yn y dyfodol	(96.4)	(100.4)
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid net	435.0	435.9
Mae rhwymedigaethau prydlesau cyllidol net yn ad-daladwy fel a ganlyn:		
O fewn blwyddyn (nodyn 14)	24.5	12.0
Rhwng dwy a phum mlynedd	33.7	46.3
Ar ôl pum mlynedd	376.8	377.6
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 14)	410.5	423.9

C) GWERTHOEDD TEG

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y Grŵp yn nodyn 15. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r Grŵp.

	Gwerth llyfr £m	2019 Gwerth teg £m	Gwerth llyfr £m	2018 Gwerth teg £m
Bondiau	2,402.3	3,242.3	2,363.9	3,171.2

Mae gwerthoedd teg pob un o'r offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr. Yn 2018, cyhoeddodd y Grŵp feincnod – trafodyn bond Dosbarth B maint GBP. Setlwyd enillion y bond, sef £300m, ar 24 Ionawr 2018 a phennwyd dyddiad oeddfedu o 31 Mawrth 2036 a chwpon sefydlog o 2.5%.

CH) CYFLEUSTERAU BENTHYCA

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Grŵp gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd o £170m a oedd yn dod i ben fel y nodir isod, ac roedd pob amod blaenorol mewn perthynas â hwy wedi cael ei fodloni (2018: £420m).

	2019 £m	2018 £m
Yn dod i ben ymhenn llai na blwyddyn:		
– cyfleuster cyfnod benthychiad	–	250
Yn dod i ben ymhenn mwy na blwyddyn:		
– cyfleusterau credyd cylchdro	170	170
	170	420

Mae'r cyfleusterau nas hawliwyd yn cynnwys £170m o gyfleusterau credyd cylchdro sydd ar gael tan fis Tachwedd 2020. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10m hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 17 Rhagfyr 2018, cafwyd benthychiad llawn o £250m gan Fanc Buddsoddi Ewrop.

16. ARIANNU TREFNIADAU RHEOLI RISG PARHAD

Ar 31 Mawrth 2019, roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m hefyd (2018: £135m); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr ymddiriedolwr sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfamodau cyllido dyled. Byddai cyfnod atal yn codi pe bai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn methu â bodloni ei gyfamodau cyllido dyled. Hyd at 2 Ebrill 2019, roedd y cyfleuster yn gyfleuster banc 364 diwrnod o rannwyd yn gyfartal rhwng pedwar darparwr. O 3 Ebrill 2019 mae'r cyfleuster wedi'i ddisodli gan gyfleuster bytholwyrdd pum mlynedd a ddarperir gan yswiriwr.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

D) RHEOLI RISG CYFALAF

Cymarebau gerio	2019 £m	2018 £m
Cyfanswm benthyciadau	(3,766)	(3,359)
Llai: arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	501	289
Dyled net	(3,265)	(3,070)
Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh)	5,671	5,468
Cyfanswm cyfalaf	2,406	2,398
Llai: costau bondiau heb eu hamorteiddio a mynegeo cyfnewidiadau	(52)	(48)
Cyfanswm cyfalaf fesul cyfamodau bond	2,354	2,350
Cymhareb gerio	58%	57%

Fel y nodwyd ar dudalen 107, mae'r Grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio rheoliadol sy'n cymharu ei ddyled net â Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat.

Yn unol â'r Cytundeb Telerau Cyffredin, cyfrifir gerio rheoleiddio fel lefel y ddyled net yn y grŵp gwaraneiddio busnes cyfan (o dan Glas Cymru Anghyfyngedig) sy'n berthnasol i'r gwerth cyfalaf rheoleiddio.

17. DARPARIAETHAU

Grŵp — 2019	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2018	2.4	4.2	2.3	8.9
Codwyd ar y Datganiad Incwm	–	1.4	–	1.4
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	–	–	(0.8)	(0.8)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(0.8)	(2.1)	–	(2.9)
Ar 31 Mawrth 2019	1.6	3.5	1.5	6.6
Wedi'u rhannu fel a ganlyn:				
Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	1.6	1.3	1.1	4.0
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	–	2.2	0.4	2.6
Ar 31 Mawrth 2019	1.6	3.5	1.5	6.6

Grŵp — 2018	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2017	4.0	4.3	2.5	10.8
Codwyd ar y Datganiad Incwm	–	1.2	–	1.2
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	–	–	(0.1)	(0.1)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1.6)	(1.3)	(0.1)	(3.0)
Ar 31 Mawrth 2018	2.4	4.2	2.3	8.9
Wedi'u rhannu fel a ganlyn:				
Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	1.0	1.3	0.1	2.4
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	1.4	2.9	2.2	6.5
Ar 31 Mawrth 2018	2.4	4.2	2.3	8.9

Nid oedd gan y Rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2019 (2018: dim).

DARPARIAETH AILSTRWYTHURO

Mae hyn yn darparu ar gyfer y gost ailstrwythuro sy'n gysylltiedig â chwtogi nifer y staff tua 360, yn unol â'r cynllun ailstrwythuro ar gyfer y cyfnod cyfan o bum mlynedd rhwng 2015 a 2020, ac mae bellach wedi'i ddefnyddio'n sylweddol.

DARPARIAETH AR GYFER COLLED ANYSWIRIEDIG

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â cholledion anysuiriedig a lle nad yw'r yswiriant yn cwmpasu swm didynadwy. Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir mai cyfnod o bum mlynedd ydyw.

DARPARIAETHAU ERAILL

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y Grŵp.

18. MEWNLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

A) ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD O WEITHREDIADAU

Cysoni elw gweithredu i arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau:

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Elw gweithredu	68.7	75.4
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisio ac amorteiddio	293.0	276.3
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(2.7)	(14.6)
Cynnydd mewn stocrestrau	(0.8)	(0.4)
Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	11.8	17.7
Cyfraniadau pensiwn uwchben cost gwasanaeth	(6.7)	(5.0)
Gostyngiad mewn darpariaethau	(2.3)	(1.9)
	(0.7)	(4.2)
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	361.0	347.5

Mae cyfraniadau pensiwn uwchben cost gwasanaeth yn cynrychioli costau adennill diffygion Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru a chytunir ar y Cynllun Adennill rhwng y Cwmni ac ymddiriedolwyr y cynllun.

B) LLOG A DALWYD

Grŵp	2019 £m	2018 £m
Llog sy'n daladwy fesul datganiad incwm	168.6	175.9
Llai eitemau anariannol:		
Mynegeio ar fondiau mynegrifol	(39.1)	(45.7)
Mynegeio ar ddyledion mynegrifol	(6.5)	(9.6)
Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(0.5)	(0.3)
Llog a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(2.0)	(2.5)
Amorteiddio premiwm dyroddi bondiau	0.7	0.7
Effaith cyfalafu o dan IAS 23	15.9	16.4
Cynnydd mewn croniadau	(4.4)	(2.0)
	(35.9)	(43.0)
Llog a dalwyd	132.7	132.9

19. DADANSODDI A CHYSONI (DYLED)/CRONFEYDD NET

Diffinnir (dyled)/cronfeydd net fel gwerth arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo llai llog cronedig net a chyfanswm y benthyciadau.

A) GELLIR DADANSODDI (DYLED)/CRONFEYDD NET AR DDYDDIAD Y FANTOLEN FEL:

	Grŵp		Cwmni	
	2019 £m	2018 £m	2019 £m	2018 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	501.1	288.5	8.6	8.6
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(3,110.9)	(2,844.6)	–	–
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(168.8)	(27.1)	–	–
Prydlesau cyllid	(435.0)	(435.9)	–	–
Llog cronedig	(51.0)	(51.2)	1.3	0.2
	(3,765.7)	(3,358.8)	1.3	0.2
(Dyled)/cronfeydd net	(3,264.6)	(3,070.3)	9.9	8.8

B) GELLIR CRYNHOI'R SYMUDIAD MEWN (DYLED)/CRONFEYDD NET YN YSTOD Y FLWYDDYN FEL:

	Grŵp		Cwmni	
	2019 £m	2018 £m	2019 £m	2018 £m
(Dyled)/cronfeydd net ar ddechrau'r flwyddyn	(3,070.3)	(2,877.5)	8.8	30.1
Symudiad mewn arian parod net	212.6	187.9	–	(21.5)
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	(361.5)	(326.9)	–	–
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net sy'n deillio o lifau arian parod	(148.9)	(139.0)	–	(21.5)
Symudiad mewn llog cronedig	0.2	1.6	1.1	0.2
Mynegeio dyled fynegrifol	(45.6)	(55.3)	–	–
Symudiadau anariannol eraill	–	(0.1)	–	–
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net yn ystod y flwyddyn	(194.3)	(192.8)	1.1	(21.3)
(Dyled)/cronfeydd net ar ddiwedd y flwyddyn	(3,264.6)	(3,070.3)	9.9	8.8

20. CYFLOGEION A CHYFARWYDDWYR

Costau staff ar gyfer y Grŵp yn ystod y flwyddyn

	2019 £m	2018 £m
Cyflogau	133.4	124.7
Costau nawdd cymdeithasol	13.5	13.0
Costau pensiwn eraill	12.7	12.7
	159.6	150.4

O'r uchod, mae £60.3m (2018: £53.8m) wedi'i gyfalafu, sef cost buddsoddi gwaith cyflogeion ar y rhaglen gyfalaf.

	2019 Nifer	2018 Nifer
Nifer y bobl a gyflogir gan y Grŵp ar gyfartaledd (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)	3,447	3,387

Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth ar dudalen 80.

Ni tholwyd cydnabyddiaeth ac nid yw'n daladwy ychwaith gan y Rhiant-gwmni. Cyflogir y cyfarwyddwyr gan gwmnïau eraill yn y grŵp ac ystyriant fod eu dyletswyddau i'r cwmni hwn yn gysylltiedig â'u gweithgareddau eraill yn y grŵp. Nid oedd gan y Rhiant-gwmni unrhyw gyflogeion yn ystod y flwyddyn heblaw am y Cyfarwyddwyr.

21. YMRWYMIADAU PENSIWN

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005 ac fe'i caewyd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017. Cyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

CYNLLUN BUDDIANNAU YMDDEOL A ARIENNIR GAN Y CYFLOGWR (EFRBS)

Yn ystod 2011, rhoddodd y Cwmni drefniadau ar waith drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS) ar gyfer pedwar Aelod Gweithredol 'wedi'u copio' o'r cynllun. Mae cronïad buddiannau o dan y cytundeb hwn yn amodol ar barhau'n aelod o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2019, roedd tri Aelod Gweithredol â hawliadau o dan y trefniant hwn, y mae buddiannau wedi dechrau cael eu talu i un ohonynt.

CYNLLUN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2019 o'r prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwari oedd:

	2019	2018
Cyfradd ddisgowntio	2.6%	2.8%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant	3.2%	3.1%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	3.2%	3.1%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu	3.1%	3.0%
Marwoldeb ar ôl ymddeol (disgwyliad oes)		
– Pensiynwyr cyfredol 65 oed - dynion	87.1 mlynedd	87.1 mlynedd
– Pensiynwyr cyfredol 65 oed - merched	89.2 mlynedd	89.1 mlynedd
– Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) - dynion	88.5 mlynedd	88.4 mlynedd
– Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) - merched	90.7 mlynedd	90.6 mlynedd

Y tybiaethau marwoldeb yw tablau sail S2PxA gyda gwelliannau yn y dyfodol yn unol â model rhagamcanol CM1 2016 gyda chyfradd tuedd hirdymor o 1% y flwyddyn.

21. YMRWYMIADAU PENSIWN PARHAD

Mae newidiadau yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	2019 £m	2018 £m
Ar 1 Ebrill	474.1	497.3
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.4	0.3
Traul llog	13.0	13.5
Ailfesuriadau: colled/(ennill) yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	24.9	(8.7)
Buddiannau a dalwyd	(24.0)	(28.3)
Ar 31 Mawrth	488.4	474.1

Mae newidiadau yn asedau'r cynllun gwerth teg fel a ganlyn:

	2019 £m	2018 £m
Ar 1 Ebrill	398.0	404.9
Incwm llog	10.9	11.0
Enillion profiad	5.0	3.5
Cyfraniadau	7.0	6.9
Buddiannau a dalwyd	(24.0)	(28.3)
Ar 31 Mawrth	396.9	398.0

Asedau'r cynllun	2019 £m	2018 £m
Arian parod	2.6	4.4
Ecwiti	303.1	310.0
Adenillion absoliwt	20.2	20.0
Eiddo	29.1	28.6
Ecwiti Preifat	41.9	35.0
Cyfanswm yr asedau	396.9	398.0

Heblaw am arian parod, mae asedau'n cynnwys cronfeydd buddsoddi cyfunol, nas dyfynnir ar farchnad weithredol, a ddangosir fesul categori yn y tabl uchod. O'r cyfanswm, mae asedau â gwerth teg o £149m yn asedau ariannol Lefel 3 (2018: £145m); ystyrir mai'r rhain yw'r rhai lleiaf hylifol a'r rhai anoddaf i'w prisia, ac felly cânt eu hamcangyfrif i raddau helaeth. Gweler hefyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol yn nodyn 1. Gwahaniaethau rhwng y digwyddiadau gwirioneddol fel maent wedi digwydd a'r tybiaethau a wnaed ar ddyddiad y prisiad actiwaraidd cynharach a newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd yn ystod y flwyddyn yw enillion a cholledion profiad.

	2019 £m	2018 £m
Gwerth presennol rhwymedigaethau o ariennir	(488.4)	(474.1)
Gwerth teg asedau'r cynllun	396.9	398.0
	(91.5)	(76.1)
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(4.7)	(4.3)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net a gydnabuwyd ar y fantolen	(96.2)	(80.4)

Mae'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 yn cynnwys cyfraniadau arbennig o £6.7m (2018: £6.7m). Disgwylir i gyfanswm o £3.5 miliwn gael ei dalu yn unol â'r rhestr o gyfraniadau sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2020 (2018: £6.7m).

21. YMRWYMIADAU PENSIWN PARHAD

	Newid mewn tybiaeth	Symudiad mewn rhwymedigaethau
Cyfradd ddisgowntio	0.10%	9.0m
Chwyddiant mewn prisiau	0.10%	8.5m
Disgwyliad oes	1 year	13.7m

Mae'r dadansoddiad uchod o sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau unigol o ran pob tybiaeth tra bod pob tybiaeth arall yn cael ei chadw'n gyson. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyniad rhwng y symudiadau mewn gwahanol dybiaethau.

22. CYFUNIADAU BUSNES

Ar 19 Rhagfyr 2017, caffaelodd y Grŵp 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Kelda Organic Energy Limited am £150,000. Ar yr un dyddiad, caffaelodd y Grŵp hefyd 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Kelda Organic Energy (Cardiff) Limited am £350,000. Newidiwyd enwau'r cwmnïau hyn ar 8 Ionawr 2018, y naill i Welsh Water Organic Energy Limited a'r llall i Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited. Mae WWOE yn gweithredu Contract Consesiwn Partneriaeth Breifat Gyhoeddus â Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau trin ac ailgylchu gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd ac mae WWOE(C) yn gweithredu ac yn cynnal a chadw cyfleuster gwastraff bwyd sy'n defnyddio dulliau treulio anerobig a chyfleuster compostio gwastraff gwyrdd yng Nghaerdydd.

O ganlyniad i'r caffaeliadau hyn, disgwylir i'r Grŵp sicrhau cyflenwad trydan ar gyfer ei Waith Trin Dŵr Gwastraff yng Nghaerdydd, cydweithredu mwy â Chyngor Caerdydd ac ystyried dulliau cynhyrchu ynni newydd. Gellir priodoli ased anniriaethol o £316,011 yn deillio o'r caffaeliad i werth y contract gyda'r Cynghorau.

Mae canlyniadau ariannol y ddau endid a gaffaelwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol hyn. Mae'r tablau a'r naratif canlynol yn crynhoi'r ystyriaethau a dalwyd am WWOE a WWOE(C), gwerth teg yr asedau a gaffaelwyd a'r rhwymedigaethau y derbyniwyd cyfrifoldeb drostynt ar y dyddiad caffael, yn ogystal â'r elfennau o'u canlyniadau sy'n berthnasol i'r Grŵp yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018:

Ystyriaeth ar 19 Rhagfyr 2017	WWOE £000	WWOE(C) £000
Arian parod	150	350
Cyfanswm yr ystyriaeth	150	350
Gwerth teg y symiau o asedau y gellir eu nodi a gaffaelwyd a'r rhwymedigaethau y derbyniwyd cyfrifoldeb drostynt a gydnabuwyd	WWOE £000	WWOE(C) £000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	–	–
Eiddo, offer a chyfarpar	17,138	170
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	174	496
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	(544)	(109)
Benthyciad rhwng-gwmni	(17,438)	–
Asedau treth ohiriedig	122	175
Cyfanswm y (rhwymedigaethau)/asedau net y gellir eu nodi	(548)	732
Ased anniriaethol	698	(382)
Cyfanswm	150	350

WELSH WATER ORGANIC ENERGY LIMITED

Codwyd costau o £703,000 sy'n gysylltiedig â chaffael ar dreuliau gweithredu yn y datganiad incwm cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Gwerth teg y symiau masnach derbyniadwy a'r symiau derbyniadwy eraill oedd £174,000 sy'n cynnwys symiau masnach derbyniadwy â gwerth teg o £160,000. Y swm cytundebol gros ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yw £160,000, na ddisgwylir y bydd unrhyw anawsterau wrth ei gasglu.

Cynhwyswyd £360,000 o reffeni yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Rhagfyr 2017 a 31 Mawrth 2018. Cyfrannodd WWOE hefyd golled cyn treth o £67,000 yn ystod yr un cyfnod.

Pe cyfunwyd WWOE o 1 Ebrill 2017, byddai'r datganiad incwm Cyfunol yn dangos reffeni pro-fforma o £3,218,000 a cholled cyn treth o £871,000.

22. CYFUNIADAU BUSNES PARHAD

WELSH WATER ORGANIC ENERGY (CARDIFF)

Codwyd costau o £301,000 sy'n gysylltiedig â chaffael ar dreuliau gweithredu yn y datganiad incwm Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Gwerth teg y symiau masnach derbyniadwy a'r symiau derbyniadwy eraill oedd £697,953 ac mae'n cynnwys symiau masnach derbyniadwy â gwerth teg o £52,684. Y swm cytundebol gros ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yw £52,684, na ddisgwylir y bydd unrhyw anawsterau wrth ei gasglu.

Cynhwyswyd £157,823 o refeniw yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Rhagfyr 2017 a 31 Mawrth 2018. Cyfrannodd WWOE(C) hefyd golled cyn treth o £529,199 yn ystod yr un cyfnod.

Pe cyfunwyd WWOE(C) o 1 Ebrill 2017, byddai'r datganiad incwm Cyfunol yn dangos refeniw pro-fforma o £520,740 a cholled cyn treth o £1,907,817.

23. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL

Mae cynllun busnes y grŵp ar 31 Mawrth 2019 yn dangos gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £466m (2018: £478m) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf: mae £434m yn ymwneud â chynllun AMP6 ac mae £32m ar gyfer cynlluniau dechrau cynnar AMP7. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r Grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r rhan fwyaf o'r cyfanswm fel rhan o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr, Ofwat.

24. TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yn unol â'r eithriad a roddwyd o dan IAS 24 nid oes unrhyw ddatgeliad yn y datganiadau ariannol Cyfunol o drafodion ag endidau sy'n rhan o Grŵp Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

Rhoddodd y rhiant-gwmni fenthyciad rhwng-gwmni i Welsh Water Holdings Limited, is-gwmni a berchnogir yn llawn, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Ar 31 Mawrth 2019, roedd balans y benthyciad hwn yn £21,553,702 (2018: £21,553,702). Codir llog ar gyfradd sefydlog o 5% a chodwyd £1,077,685 yn ystod y flwyddyn (2018: £286,194). Ar 31 Mawrth 2019 roedd y llog derbyniadwy a gronwyd yn ymwneud â hyn yn gyfanswm o £1,363,879 (2018: £286,194).

25. STATWS Y CWMNI

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

26. CRONFA YMDDIRIEDOLAETH CWM ELAN

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7m, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, wrth cadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real ar yr un pryd. Breiniwyd budd Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2019, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £117m (2018: £115m).

Mae'r llog derbyniadwy yn cynnwys £2.6m (2018: £2.8m mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

27. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol heblaw'r rheini a gododd yn ystod busnes arferol y Grŵp ac ni ragwelir y gwneir unrhyw golledion gwirioneddol mewn perthynas â'r rhain.

28. CWMNI DALIANNOL UNIONGYRCHOL AC EITHAF A PHARTI RHEOLAETHOL

Y cwmni daliannol uniongyrchol ac eithaf a'r parti rheolaethol yw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif y cwmni 09917809, swyddfa gofrestredig Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol, CF46 6LY. Y grŵp mwyaf a lleiaf y cyfunir canlyniadau'r Cwmni ag ef ar 31 Mawrth 2016 yw'r un dan arweiniad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.



Dŵr Cymru
Welsh Water

ATODIADAU

MAE'R TUDALENNAU CANLYNOL
YN DIFFINIO'R TERMAU A
DDEFNYDDIR DRWY'R ADRODDIAD
BLYNYDDOL A CHYFRIFON GAN
EGLURO'R MESURAU LLWYDDIANT
A DDEFNYDDIWN I OLRHAIN EIN
PERFFORMIAD.

RHESTR TERMAU	168
EIN MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU	172

RHESTR TERMAU

AMP	Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu mewn cylchoedd o bum mlynedd a elwir yn 'Gynlluniau Rheoli Asedau' (AMP). Bydd AMP6 yn rhedeg rhwng 2015-2020.
Asedau	Mae hyn yn cynnwys seilwaith fel prif bibellau dŵr a charthffosydd, argaeau a chronfeydd dŵr, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a charthion, gorsafoedd pwmpio, labordai cwmnïau, depos a gweithdai.
Asiantaeth yr Amgylchedd	Un o gyrff anadrannol gweithredol y Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr - gweler tudalen 44.
Astudiaethau Parthol	Rhaglenni gwella'r rhwydwaith dŵr er mwyn lleihau achosion o amharu ar gyflenwadau a chynyddu derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid.
AVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol - elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad.
Carthffos	Pibell danddaearol sy'n cludo dŵr gwastraff a dŵr arwyneb o eiddo preswyl ac eiddo dibreswyl i'w drin a'i waredu.
Carthffos gyfun	Carthffos gyfun ar gyfer carthion a dŵr glaw ffo.
Carthffosydd yn gorlifo	Pan fo dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy gaead y twll archwilio neu ddraen, neu drwy lifo yn ôl i fyny drwy doiledau.
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol.
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, yn rhydd o unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu golled wrth waredu asedau sefydlog yn bennaf.
CPNI	Canolfan Gwarchod Seilwaith Cenedlaethol.
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artiffisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes y bydd ei angen.
Cronfa wasanaeth	Tanc sy'n cynnwys dŵr yfed a leolir fel arfer o fewn system dosbarthu dŵr neu'n agos ati.
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn	Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yw'r gwahaniaeth rhwng y Gwerth Cyfalaf Rheoleidio (GCRh) a'r ddyled net ac felly mae'n mesur y gwerth a grëir gan y busnes i gwsmeriaid. Gall rhywfaint o'r gwerth hwnnw gael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y busnes ac i ad-dalu cwsmeriaid. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cadw dyled net ar 60% o'r GCRh ac mai Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a gedwir yw'r 40% sy'n weddill.
CSO	Mae Gorlifiannau Carthffosydd Cyfun (CSO) yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin carthion yn gorlifo.
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo randdeiliaid na chyfalaf cyfranddaliadau.
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob parth ansawdd dŵr ar gyfer y 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol sy'n deillio o'r rhaglen monitro statudol o samplau a gymerir o dapiau cwsmeriaid.

Cydymffurfiaeth 'edrych i fyny'	Pan fo gwaith trin dŵr yn methu â chydymffurfio â'r paramedrau a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd am lai na 95% o'r amser.
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Aelodau Bwrdd Glas Cymru. Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am y gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd ond maent yn herio'r rheolwyr ac yn goruchwyllo'r broses o redeg y Grŵp. Gweler tudalen 63 am ragor o fanylion am eu rôl.
Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a'i ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Cyngor Defnyddwyr Dŵr - gweler tudalen 44.
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP)	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y dŵr a gyflenwir a'r galw amdano dros y 25 mlynedd nesaf.
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a lunnir gan gwmni dŵr sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr yn ystod cyfnod o sychder.
Cynlluniau Diogelu Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well.
Dalgylch	Ardal o dir lle y mae dŵr yn draenio i gorff dŵr (fel afon neu gronfa ddŵr).
Defnyddioldeb	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.
Digwyddiadau yn ymwneud â llygredd	Achosion o ryddhau'n ddamweiniol neu'n fwriadol halogyddion fel olewau, tanwyddau a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd.
Draenio dŵr wyneb	Symud dŵr glaw, eira neu iâ wedi toddi o rannau allanol eiddo (fel toeon a thramwyfeydd), yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun.
Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS)	System ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gollyngiadau draenio dŵr wyneb.
DWI	Arolygiaeth Dŵr Yfed - gweler tudalen 44.
Dŵr daear	Dŵr y gellir dod o hyd iddo yn haenen ddirlawn y pridd.
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o eiddo preswyl neu ddibreswyl a gaiff ei gludo i ffwrdd o eiddo mewn carthffosydd neu ddraeniau.
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n disgyn ar eiddo cwsmeriaid (fel toeon, llwybrau a thramwyfeydd).
Dychwelyd Gwerth	Taliadau a wnaed er budd ein cwsmeriaid o elw dosbarthadwy, y gellir fel arall eu talu i gyfranddalwyr fel dididendau mewn cwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr.
Elifiant	Dŵr sy'n llifo o waith trin carthion ar ôl iddynt goel eu trin.
Gerio	Dyled net a fynegir fel canran o werth cyfalaf rheoleiddio.

RHESTR TERMAU

PARHAD

Glas Cymru	Glas Cymru yw'r enw cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at gwmni daliannol y Grŵp. Ffurfiwyd Glas Cymru Cyfyngedig yn 2000 i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli. Yn ystod 2015-16 ailgofrestrwyd Glas Cymru Cyfyngedig fel Glas Cymru Anghyfyngedig a chrëwyd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig fel y cwmni daliannol ar gyfer Grŵp Glas Cymru.
GlawLif	Dull Glas Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy).
Gollyngiadau Dŵr	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer.
Gorsaf bwmpio	Fe'i defnyddir i bwmpio dŵr neu garthffosiaeth o un lle i'r llall.
Grŵp	Glas Cymru a'i holl is-gwmnïau.
Gwaith trin dŵr (WTW)	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed ar gyfer y cyhoedd neu ddŵr diwydiannol ar gyfer gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill.
Gwaith trin dŵr gwastraff (WWTW)	Diben gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw cael gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei ddychwelyd i ffynonellau dŵr.
Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh)	Gwerth ased Dŵr Cymru, a bennir gan Ofwat, lle y caniateir i'n hadenillion ar fuddsoddiad (neu Adenillion Rheoliadol) gael eu gwneud. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig.
LVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor. Elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad.
Mecanwaith Cymell Gwasanaeth (SIM)	Un o fesurau Ofwat a gynlluniwyd i wella lefel y gwasanaeth y mae cwmnïau dŵr yn ei darparu i gwsmeriaid.
Megalitrau (ML)	Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio maint Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr.
Methiannau bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplu a'i ddadansoddi yn erbyn amrywiaeth o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sydd uwchlaw'r terfyn a nodir yn y rheoliadau, tybir ei fod yn Fethiant Bacteriolegol.
ODI	Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau – Y system gwobrau a chosbau sy'n sail i'r mesurau perfformiad a nodwyd yn ein cynllun busnes Penderfyniad Terfynol Ofwat PR14.
Ofwat	Rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.
Prif bibell	Prif bibell y caiff dŵr ei fwydo drwyddo i mewn i system dosbarthu dŵr. Yn aml, bydd prif bibell yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa wasanaeth.
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cludo dŵr sydd wedi'i drin i gartrefi.
Prif bibell sy'n codi	Piblinell wedi'i phwmpio sy'n cludo dŵr gwastraff.

Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd	Un o Bwyllgorau Iefel Bwrdd Glas Cymru sy'n mynd i'r afael â pherfformiad a risgiau gweithredol ym mhob rhan o'r Cwmni.
Safety Takes Every Person (STEP)	Hyfforddiant diogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch.
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
Statws credyd	Mae statws credyd yn rhoi asesiad o ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca.
Stop Cyn Creu Bloc	Ymgrych newid ymddygiad Dŵr Cymru sy'n gofyn i gwsmeriaid helpu i leihau nifer y blociadau mewn carthffosydd.
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff ei storio, mewn tywydd gwlyb, nes bod y gwaith trin dŵr yn gallu ei drin.
Termau real	Y newid mewn rhif ariannol ar ôl dileu effaith chwyddiant.
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Totex	Talfyriad Ofwat ar gyfer cyfanswm y gwariant. Cyfanswm gwariant cyfalaf a gwariant gweithredol.
Treulio anerobig	Proses lle y caiff deunydd organig ei ddadelfennu gan facteria a micro-organebau eraill er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Trosglwyddo Carthffosydd Preifat	Yn 2011-12, trosglwyddodd Llywodraeth y DU berchenogaeth o'r rhan fwyaf o'r carthffosydd preifat yng Nghymru a Lloegr i'r 11 cwmni dŵr a charthffosiaeth, er mwyn ffurfio rhan o'r rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus.
Trwyddedau gollwng	Cytundebau cyfreithiol a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â swm ac ansawdd y dŵr gwastraff y gellir ei ddychwelyd i'r amgylchedd a pha mor aml y gellir gwneud hynny.
Y gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyled, ecwiti neu enillion argadwedig.
Y Gyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD)	Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a DEFRA i'r sector dŵr er mwyn cynnig arweiniad ar sut i ymateb i ddigwyddiadau mawr.

MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU

A1a	Diogelwch Dŵr Yfed (% cydymffurfiaeth)	Darparu dŵr yfed diogel sy’n bodloni safonau’r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Canran y samplau a brofir sy’n cyd-fynd â’r safonau. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal dros 250,000 o brofion ar samplau yn ein gweithfeydd trin dŵr, ein cronfeydd gwasanaeth a thapiau cwsmeriaid.
A1b	Diogelwch Dŵr Yfed (Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig)	Cyhoeddir Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig (MZC) bob blwyddyn yn adroddiad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae’r MZC yn cwmpasu 39 o wahanol baramedrau, fel Haearn, Plwm ac Alwminiwm, sy’n cael eu profi er mwyn canfod ansawdd y dŵr sy’n cyrraedd cwsmeriaid. Cyfrifir MZC fel cyfartaledd y lefelau cydymffurfio ar gyfer pob paramedr ym mhob un o’n 87 o barthau ansawdd dŵr, sy’n amrywio o ran maint o boblogaeth o 27 i bron poblogaeth o 100,000. (Y boblogaeth fwyaf a ganiateir yn unrhyw un parth ansawdd dŵr o 100,000 a ganiateir o fewn rheoliadau’r Arolygiaeth Dŵr Yfed).
A2	Derbynioldeb i gwsmeriaid	Nifer y cysylltiadau a gawn gan gwsmeriaid bob blwyddyn mewn perthynas â golwg, blas neu arogl dŵr yfed, a fynegir fel cyfradd fesul 1,000 o gwsmeriaid.
A3	Dibynadwyedd y Cyflenwad	Nifer gyfartalog y munudau y mae cwsmeriaid heb ddŵr yn ein hardal gyflenwi (yn cynnwys toriadau a gynlluniwyd o rhai nas cynlluniwyd).
B1	Tynnu dŵr i’w ddefnyddio	Canran ein cydymffurfiaeth â thrwyddedau tynnu dŵr, fel y’u cyhoeddir gan Reoleiddwyr.
B2	Trin dŵr gwastraff	Ar gyfer pob un o’n gweithfeydd trin dŵr gwastraff, ceir trwydded sy’n rheoleiddio ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i’r cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. CNC sy’n rheoleiddio hyn. Y mesur yw canran y gydymffurfiaeth â thrwyddedau rhyddhau.
B3a	Atal llygredd (cat 1, 2 a 3)	Y mesur yw nifer yr achosion o lygredd a’r targed yw lleihau nifer yr achosion o lygredd (a achosir gan flociadau neu gwympiadau mewn carthffosydd). Caiff achosion o lygredd eu categoreiddio fel achosion categori 1, 2 neu 3 o Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy’n adrodd ar y rhain. Categori 1 - y rhai mwyaf difrifol ac mae achosion y categori hwn yn cael effaith fawr neu ddifrifol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo. Categori 2 - effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo. Categori 3 - effaith fach neu isel ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo.
B3b	Atal llygredd (cat 3 yn unig)	Fel uchod, ond dim ond achosion o lygredd categori 3 (effaith fach neu isel ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo).
C1	Ymateb i newid yn yr hinsawdd	Lleihau faint o ddŵr glaw sy’n mynd i mewn i’n carthffosydd. Mae’r mesur yn seiliedig ar faint o ddŵr wyneb a dynnir o’r system, a fynegir ar ffurf nifer yr eiddo cyfatebol.
C2	Ôl troed carbon	Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a thrwy hynny wrthbwysu ein hallyriadau carbon a chost ynni a gaiff ei fewnforio (oriau GWh y flwyddyn).

D1	Dull Cymell Gwasanaeth (SIM)	Mesur a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Ofwat i fonitro ac adrodd ar wybodaeth am wasanaethau i gwsmeriaid ymhob cwmni dŵr a dŵr gwastraff fel mesur cymharol yw'r mecanwaith cymell gwasanaeth (SIM).
D2	Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd Mewn Perygl	Nifer y cwsmeriaid sydd ar ein cofrestr "mewn perygl". Ystyrir eu bod "mewn perygl" am fod eu gwasanaeth wedi bod yn ddiffygiol dro ar ôl tro yn un o'r pum maes canlynol: dŵr afliw, toriadau yn y cyflenwad, pwysedd dŵr isel, drawdod o asedau dŵr gwastraff a charthffosydd yn gorlifo.
D3	Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	Nifer yr eiddo sy'n dioddef llifogydd carthion mewnol bob blwyddyn.
D4a	Bodddhad cwsmeriaid busnes % bodlon	Bodddhad cwsmeriaid busnes sydd wedi'i fesur yn ôl sgôr o naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn yn ôl yr arolwg a gyflawnir bob chwe mis.
D4b	Bodddhad Cwsmeriaid Annomestig	Bodddhad cwsmeriaid busnes wedi'i fesur yn ôl sgôr gyfartalog cwsmeriaid allan o gyfanswm o 5 a gaiff ei throsi wedyn yn ganran.
D5	Ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid	Ymddiriedaeth cwsmeriaid fel y'i mesurir drwy arolwg blynyddol a gynhaliwn.
E1	Biliau Fforddiadwy	Bydd y cwmni'n parhau i wneud biliau'n fwy fforddiadwy drwy barhau i leihau biliau mewn termau real, gan ragori ar chwyddiant o leiaf 1% bob blwyddyn.
E2	Cymorth i Gwsmeriaid dan Anfantais	Nifer y cwsmeriaid sy'n derbyn cymorth — y targed yw helpu mwy o gwsmeriaid sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu eu biliau trwy ddarparu cymorth drwy amrywiaeth o dariffau cymdeithasol a'n Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid.
F1	Defnyddioldeb Asedau	Cynnal ein hasedau. Mae defnyddioldeb yn cynnwys cyfres o is-fesurau a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro effeithiolrwydd ein gwaith o reoli a chynnal a chadw ein hasedau.
F2	Gollyngiadau Dŵr	Lleihau lefelau ein gollyngiadau — megalitrau y dydd (MI/d).
F3	Gwydnwch Asedau	Gwella sgôr gwydnwch ein hasedau mwyaf strategol. Gwella canran yr asedau strategol sy'n wydn yn erbyn cyfres o feini prawf. Asedau strategol yw'r rheini a fyddai'n cael effaith fawr ar wasanaethau i gwsmeriaid neu'r amgylchedd pe baent yn methu.
G1	Digwyddiadau RIDDOR	Cyfanswm nifer yr anafiadau y rhoddir gwybod amdanynt bob blwyddyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Mae'n cynnwys anafiadau sy'n digwydd o fewn busnesau cyfanwerthu a manwerthu, yn ogystal â'r rheini sy'n effeithio ar ein prif gontractwyr a'n partneriaid cyfalaf.
G2	Cymhwysedd yn y Rôl	Mae gennym fframwaith "Dilyniant yn y Rôl" ac rydym wedi pennu proffiliau rôl clir sy'n diffinio'r meini prawf allweddol a ddefnyddir gennym i fesur gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd unigolion i ymgymryd â'u priod rolau. Ein hamcan, erbyn 2020 (ac yn barhaus y tu hwnt i hynny) yw y caiff 95% o'r rolau allweddol a amlinellir eu hystyried yn gymwys (gyda'r gweddill yn unigolion sydd wedi dechrau cael hyfforddiant).
H1	Ariannu Effeithlonrwydd (statws credyd)	Y statws a bennir gan y tair prif asiantaeth sy'n dyfarnu statws: S&P, Moody's a Fitch.

